Bangor University

# DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

## Allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg

Wynn, Lowri Anwen Cunnington

*Award date:*
2013

*Awarding institution:*
Prifysgol Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 16. May. 2022

MAIN THESES
2013:83

# ALLFUDIAETH POBL IFANC O'R BRÖYDD CYMRAEG

Gan

LOWRI ANWEN CUNNINGTON WYNN

I'W DDEFNYDDIO YN Y
LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE
LIBRARY ONLY

Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd PhD

Drafft Cyntaf

Awst 2012

Ail Ddrafft Awst 2013

Ysgol Gwyddorau Cymdeithas
Prifysgol Bangor

LLYFRGELL PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY LIBRARY

# Cynnwys

Crynodeb ........................................................ vi

Tablau ........................................................ vii

Ffigyrau ........................................................ xi

Cydnabyddiaeth ........................................................ xii

Datganiad ........................................................ xiii

Rhagarweiniad ........................................................ xiv

**Pennod 1- Cefndir Yr Astudiaeth**

Cyflwyniad........................................................1

Mewnfudiaeth ac Allfudiaeth o'r Bröydd Cymraeg........................................................2

Effeithiau Mudo ar Iaith ac Integreiddio........................................................19

Newid Economaidd, Mudo ac Iaith........................................................22

Cloi........................................................27

**Pennod 2- Y Cefndir Theoretaidd a Chysyniadau Allweddol**

Cyflwyniad........................................................29

Cynhyrchu ac Atgynhyrchu Grwpiau Iaith Leiafrifol....29
Cynhyrchu ac Atgynhyrchu Iaith....36
Y Gymuned a'r Bröydd Cymraeg....41
Symudoledd Daearyddol a Chymdeithasol....51
Integreiddio a Chyfalaf Cymdeithasol....60
Cloi a Damcaniaeth....63

**Pennod 3- Ardaloedd Ymchwil**

Cyflwyniad....64
Cefndir Damcaniaethol....64
Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf....69
Ardal 1, Blaenau Ffestiniog....80
    Cyflwyniad....80
    Ffeithiau Economaidd Cymdeithasol....83
    Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf....86
Ardal 2, Tregaron....88
    Cyflwyniad....88
    Ffeithiau Economaidd Cymdeithasol....91
    Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf....94
Polisïau Iaith Cyngor Sir ac Ysgolion y Ddwy Ardal....96
    Polisi Iaith Gwynedd....96
    Polisi Iaith Ceredigion....98
Cloi....100

## Pennod 4- Cefndir y Fethodoleg a Dulliau Ymchwil

Cyflwyniad....................................................102

Cefndir Damcaniaethol y Fethodoleg....................................................102

Perthnasau a Chyfalaf Cymdeithasol....................................................105

Ffactorau Economaidd....................................................107

Nod ac Amcanion yr Astudiaeth Bresennol....................................................108

Epistemoleg....................................................109

Strategaethau Ymchwil....................................................111

Y Sampl....................................................112

Cynllun Peilot....................................................114

Dulliau Meintiol 15-18....................................................115

Holiadur Meintiol 15-18....................................................115

Manteision ac Anfanteision y Dull....................................................116

Grwpiau ffocws Ansoddol 15-18....................................................117

Cyfweliadau Ansoddol 19-25....................................................119

Manteision ac Anfanteision y Dull Ansoddol....................................................120

Moeseg Ymchwil....................................................121

Rôl yr Ymchwilydd yn y Broses Ymchwil....................................................123

Pecynnau Meddalwedd Cyfrifiadurol a Dadansoddi'r Data....................................................126

Cloi....................................................126

## Pennod 5- Dadansoddiad Meintiol 15-18

Cyflwyniad....................................................128

Holiadur Grŵp Oedran 15-18....................................................129

Y Sampl....129

Iaith o fewn y System Addysg (Gweithredwr Cymdeithasoli Iaith Eilaidd)....144

Dosbarth Cymdeithasol ac Ystyriaethau Ieithyddol....154

Dyheadau a Gobeithion ar Gyfer y Dyfodol....157

Cloi....171

**Pennod 6- Dadansoddiad Ansoddol, Grwpiau Ffocws - Grŵp Sampl 15-18**

Cyflwyniad....172

Cefndir y Grwpiau Ffocws....172

Grŵp Ffocws 1 - Blaenau Ffestiniog, Grŵp 1....173

Blaenau Ffestiniog, Grŵp 2....182

Grŵp Ffocws 2 - Tregaron, Grŵp 1....188

Grŵp Ffocws - Tregaron, Grŵp 2....195

Cloi....201

**Pennod 7- Dadansoddiad Ansoddol Sampl 19-25**

Cyflwyniad....203

Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog....204

Grŵp 2, Tregaron....219

Cloi....231

**Pennod 8- Casgliadau**

Cyflwyniad....232

Prif Gasgliadau....233

Ffactorau Economaidd....234

Patrymau Integreiddio a'r Ymdeimlad o Berthyn....237
Y Teulu a'r Teulu Estynedig....239
Diwylliant a Chenedligrwydd....243
Ystyriaethau Ieithyddol....248
Rhwydweithiau Cymdeithasol....252
Argymhellion....254
Cyfyngiadau'r Ymchwil....256
Cloi....258

**Llyfryddiaeth** ....261

**Atodiadau**.... 273

E-bost Prifathrawon.... 274

Llythyr Saesneg 19-25....275

Llythyr Cymraeg 19-25....276

Holiadur Cymraeg 15-18

Holiadur Saesneg 15-18

# Crynodeb

Mae'r astudiaeth hon yn ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg o safbwynt sampl o bobl ifanc 15-18 oed a 19-25 oed sydd naill ai wedi eu geni tu allan i'r bröydd neu yn hanu o deuluoedd ymfudol.

Sylfaenwyd yr astudiaeth ar waith Hywel M Jones (2010) a'i ganfyddiad o ddadansoddi ystadegau Cyfrifiadau bod pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru oddeutu bedair gwaith yn fwy tebygol o fudo allan o Gymru nag yw pobl ifanc a anwyd yng Nghymru, er yr ymddengys eu bod yn integreiddio'n llawn i'r cymdeithasau hynny. Ystyriwyd yn ogystal gwaith Williams a Morris (2000) sydd yn trafod cynhyrchu ac atgynhyrchu grwpiau iaith leiafrifol ac effaith newidiadau economaidd ar allu'r grwpiau iaith hyn i atgynhyrchu eu hunain. Edrychir yn fanwl ar fewnfudiaeth ac allfudiaeth o'r bröydd, effeithiau mudo ar iaith ac integreiddio, newid economaidd, mudo ac iaith ac yn ogystal, ceir ystyriaeth i raddfeydd integreiddio cymdeithasol pobl ifanc.

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol mewn gwaith ymchwil gwreiddiol i astudio dyheadau a gobeithion y bobl ifanc hynny ar gyfer y dyfodol, oedd yn caniatáu archwiliad manwl o'r dewisiadau a wnaed a'r rhesymau dros y dewisiadau hynny. Wrth rannu'r sampl i ddwy haen oed, roedd modd ymchwilio i farn ac ystyriaethau'r bobl ifanc hynny oedd ar fin gwneud dewisiadau pwysig ar gyfer eu dyfodol a'r rhai oedd bellach wedi mudo o'r bröydd.

# Tablau

Tudalen


1. Canran yn symud i Loegr dros gyfnodau o 30, 20 a 10 mlynedd, yn ôl grŵp oed a rhyw: Cymru gyfan 6

2. Canran yn symud i Loegr dros gyfnodau o 30, 20 a 10 mlynedd, yn ôl siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg: Cymru gyfan 7

3. Canran yn symud i Loegr dros gyfnodau o 30, 20 a 10 mlynedd, yn ôl iaith a grŵp oed: y bröydd Cymraeg 7

4. Pob cwpl lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg 37

5. Cyfansoddiad y cartref ac iaith, 1981 a 1991: Plant o fewn eu teuluoedd 39

6. Cyfartaledd y patrymau mudo gyda Lloegr, yn ôl ardal, pob blwyddyn. Wedi eu sylfaenu ar amcangyfrifon rhwng 1999 a 2004 58

7. Dosbarthiad yr unedau gwahanol 75

8. Nifer yr ymatebwyr yn ôl ardal 129

9. Gender yr ymatebwyr yn ôl ardal 130

10. Man Geni'r Ymatebwyr yn ôl ardal 130

11. Cenedligrwydd yr ymatebwyr yn ôl ardal 131

12. Cenedligrwydd yr ymatebion yn ôl eu man geni ac ardal 132

13. Cyfansoddiad y teulu yn ôl ardal 133

14. Prif iaith y cartref yn ôl ardal 134

15. Gallu ieithyddol y tad yn y sampl 136

16. Gallu ieithyddol y fam yn y sampl 137

17. Gallu ieithyddol yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cartref (Tad) 138

18. Gallu ieithyddol yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cartref (Mam) 139

19. Nifer y tadau wedi dysgu'r iaith Gymraeg a'i ddefnydd yn y cartref 141

20. Nifer y mamau wedi dysgu'r iaith Gymraeg a'i defnydd yn y cartref 142

21. Prif iaith y cartref yn ôl iaith y dosbarth 146

22. Prif iaith y cartref yn ôl iaith a ddefnyddiwyd tu allan i'r dosbarth yn yr Ysgol 147

23. Prif iaith y cartref yn ôl iaith a ddefnyddiwyd gydag athrawon 148

24. Prif iaith y cartref yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd gyda ffrindiau tu allan i'r ysgol 149

25. Prif iaith y cartref yn ôl aelodaeth i glwb 151

26. Iaith y clwb yn ôl prif iaith y cartref (% Yn ôl Cyfanswm) 152

27. Gwaith yn ôl ardal (Tad) 155

28. Gwaith yn ôl ardal (Mam) 155

29. Dewisiadau addysg uwch yn ôl ardal a prif iaith y cartref 158

30. Dewisiadau addysg uwch yng Nghymru yn ôl ardal a prif iaith y cartref 159

31. Rhesymau sy'n dylanwadu ar fan gyfanheddu pobl ifanc y sampl (Blaenau Ffestiniog) 160

32. Rhesymau sy'n dylanwadu ar fan gyfanheddu pobl ifanc y sampl (Tregaron) 161

33. Y rheswm pwysicaf sy'n dylanwadu ar bobl ifanc yn ôl ardal 162

34. Y rheswm pwysicaf yn ôl prif iaith y cartref (Blaenau Ffestiniog) 163

35. Y rheswm pwysicaf yn ôl prif iaith y cartref (Tregaron) 164

36. Rheswm pwysicaf yn ôl man geni'r ymatebwyr (Blaenau Ffestiniog) 165

37. Rheswm pwysicaf yn ôl gallu ieithyddol yr ymatebwyr (Blaenau Ffestiniog) 167

38. Rheswm pwysicaf yn ôl gallu ieithyddol yr ymatebwyr (Tregaron) 168

39. Dyheadau'r ymatebwyr i adael Cymru yn ôl ardal 169

40. Dyheadau yn ôl man geni'r ymatebwyr ac ardal 170

41. Proffil yr ymatebwyr Grŵp Ffocws Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog 173

42. Cynnwys Grŵp Ffocws 2, Blaenau Ffestiniog 183

43. Proffil cyfranogwyr Grŵp Ffocws 1, Tregaron 188

44. Proffil cyfranogwyr Grŵp Ffocws 2, Tregaron 195

45. Ymatebwyr Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog 205

46. Ymatebwyr Grŵp 2, Tregaron 219

47. Graddedigion o 2005/06 oedd yn gweithio 6 mis ar ôl graddio, Nifer a chanran 229

**FFIGYRAU**

Tudalen


1. Graff a ddengys yr hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg 26

2. Cynrychiolaeth sgematig o atgynhyrchiad ieithyddol 32

3. Map o'r Fro Gymraeg 48

4. Siaradwyr y Gymraeg ym mhrif ardaloedd Cymru 2001 50

5. Map o'r amddifadedd yng Nghymru 72

6. Map o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, Cymru 77

7. Map o Flaenau Ffestiniog 80

8. Map o Dregaron 88

9. Darlun o'r ffactorau negyddol a phositif sydd yn rhan o Blaenau Ffestiniog, yn ôl Grŵp 1. 174

10. Darlun o'r ffactorau negyddol a phositif sydd yn rhan o Blaenau Ffestiniog, yn ôl Grŵp 2. 186

11. Darlun o'r ffactorau negyddol a phositif sydd yn rhan o Dregaron, yn ôl Grŵp 1 193

12. Darlun o'r ffactorau negyddol a phositif sydd yn rhan o Dregaron, yn ôl Grŵp 2 199

# Cydnabyddiaeth

Lle i gychwyn gyda'r holl ddiolchiadau.......

Fyddwn i byth wedi mentro ar y fath siwrne heb gefnogaeth ac anogaeth Dr Delyth Morris. Heb ei phresenoldeb selog hi ar gychwyn fy nhraethawd, byddwn i byth wedi goroesi'r misoedd cyntaf, nac ychwaith wedi cael y fath hyder i geisio amdano. Diolch o galon! Rhaid er hynny rhoi diolch enfawr i Dr Gwenda Rhian Jones, a fabwysiadodd y fi a fy nhraethawd yn ystod y darn hanfodol, a roddodd cefnogaeth a chyngor cyson i mi. Nid tasg hawdd yw ceisio arwain a chynghori myfyrwraig yng nghanol ei thraethawd, yn enwedig o dan amgylchiadau anodd, ac am hynny fyddai'n fythol diolchgar.

Diolch i'r ysgolion a'r holl gyfranogwyr am gytuno i gymryd rhan ac am wneud hynny mewn ffordd hwylus a chyfeillgar, er i mi ffonio can mil o weithiau, doeddech chi byth yn colli amynedd! Heboch chi, ni fyddai'r ymchwil hwn wedi bod yn bosib, felly diolch.

Diolch yn ogystal i Rhonwen a Maia, sydd bob amser wedi bod ar ochr arall y ffôn i wrando ar y cwynion ac i gynghori, da chi werth y byd. Rydw i hefyd yn gobeithio pob lwc yn y byd i chi gyda'ch traethodau. Diolch i'r teulu, mam, dad, Cer, Tom, Cêt a Nyfain sydd wedi rhoi gofal plant arbennig ac am ddim! Ond mae diolch penodol i mam, sydd wedi rhoi'r ysbryd gweithgar a meddwl agored i mi, ac sydd wedi dangos fod unrhyw beth yn bosib.

Yn olaf, diolch i Gwydion am yr holl, holl, holl gefnogaeth y cariad a'r gwyliau y gwnest ti aberthu, 'dwi'n gobeithio y bydd o werth o!

Mae'r traethawd yma i Gwydion ac i Caleb, am neud i fi wenu a chwerthin ac am wneud i fi sylweddoli beth sy'n bwysig. Diolch.

Awst 2012 Lowri Cunnington Wynn

# Rhagarweiniad

Ardaloedd tra gwahanol yw'r bröydd Cymraeg yng Nghymru heddiw nag a fu rhai degawdau ynghynt, yn wir, teg yw dweud fod newidiadau di alw'n ôl sydd wedi siapio dyfodol ein bröydd ar gyfer y blynyddoedd sydd i'w ddod. Mae newidiadau bydol, yn effeithio ar y cyfansoddiad a'r strwythur cenedlaethol, sydd yn ei dro yn chwarae rhan mewn siapio'r cymunedau bychain ac unigryw sydd yn rhan mor annatod o Gymru hyd heddiw. Dadleuwyd fod allfudiaeth yn rhan o'r newidiadau yma, gyda'r pwnc yn destun llosg ymysg rhai o drigolion y bröydd wrth iddynt frwydro yn erbyn y newid sydd yn bygwth 'yr hen ffordd o fyw,' honedig. Yn anochel, mae patrymau mudo yn cael effaith pell cyrhaeddo ar ein bröydd, yn enwedig wrth ystyried allfudiaeth ein poblogaeth ifanc, ddysgedig, sydd y gellir dadlau yn rhan o'r dyfodol hynny sy'n ymddangos mor newidiol o safbwynt y fro Gymraeg. Wrth gwrs, mae patrymau mudo yn gysylltiedig gydag ystyriaethau ieithyddol, economaidd a newidiadau cymdeithasol yn gyffredinol. Dadleuwyd fod y newidiadau cymdeithasol hynny'n rhan o'r newid yn strwythur y boblogaeth yn ogystal â strwythur ein cymunedau. Er nad ffenomenon newydd yw'r pwnc o allfudiaeth, teg digon yw nodi fod ei bresenoldeb yn sgil y newidiadau eraill sydd yn cymryd rhan, yn cymell rhai i alaru'r cyfnod euraidd mewn cymuned. Prif amcan y traethawd yma felly, yw canolbwyntio ar y mewnfudwyr a phlant y mewnfudwyr hynny sydd yn rhan o boblogaeth ein bröydd, drwy ddarganfod eu rhesymau a'u cymhellion dros fudo a'u dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Dadleuwyd ein bod yn colli'r boblogaeth ifanc hynny sydd yn dysgu'r iaith, yn ymddangos yn cyfanheddu ac yn integreiddio, ond yn parhau i adael y Fro ar raddfa pedair gwaith yn fwy nag eu cyfoedion sydd yn enedigol yma (Jones 2010).

Wrth wneud eu penderfyniadau ar gyfer y dyfodol, ystyrir fod nifer o ffactorau'n cyfrannu at eu dewis. Mae eu patrymau integreiddio, ystyriaethau economaidd a natur yr ardaloedd eu hunain yn debygol o effeithio ar eu penderfyniad. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio'r rhesymau uchod, drwy ystyried cefndir teuluol ac ieithyddol, eu perthnasau cymdeithasol a'u hagweddau at eu broydd ac yn hyn o beth mae'r astudiaeth yn un gymharol. O safbwynt yr ardaloedd eu hunain, penderfynwyd defnyddio enwau'r ardaloedd yn hytrach na cheisio eu cuddio. Er bod dilemma yma ynglŷn â chyfrinachedd, penderfynwyd nad oedd modd cuddio'r ardaloedd wrth ystyried eu proffil unigryw. Fe wnaed pob ymdrech i ofalu nad oes

modd adnabod yr unigolion a ymatebodd yn unol â chanllawiau proffesiynol ar foeseg ymchwil yn ymwneud â phobl ifanc.

Rhennir y traethawd i wyth pennod. Yn y bennod gyntaf, ymdriniwyd â'r llenyddiaeth gefndirol briodol er mwyn sefydlu maes yr astudiaeth. Yma gwelwyd trafodaeth ar waith Hywel M Jones (2010) sydd yn sail i'r ymchwil presennol a'i ganfyddiadau o ddadansoddiad ystadegau'r cyfrifiad. Gwelwyd yma drafodaeth ar iaith, cefndir, oed, rhyw, dosbarth ac ardal enedigol a gwelwyd yma bwyslais ar 'gyfalaf cymdeithasol,' a graddfeydd o integreiddio sydd yn eu tro yn arwain at gynaladwyedd y Fro Gymraeg a'r Gymraeg yn benodol. Yn ystod y bennod hon, ymdrinnir â mewnfudiaeth ac allfudiaeth o'r bröydd drwy ganolbwyntio ar ddarganfyddiadau Bond, Charsley a Grundy (2008) wrth iddynt ystyried yr ysgogiadau sy'n rhan o allfudiaeth graddedigion Saesneg o'r Alban a ffigyrau Drinkwater a Blackaby (2008) ar y cyfraddau a'r patrymau mudo sylfaenol yng Nghymru. Yma yn ogystal ceir drafodaeth ar effeithiau mudo a'r iaith ac integreiddio lle ystyriwyd theori cyfalaf cymdeithasol Putnam (2006) a gwaith Morris (1986) ar rwydweithiau cymdeithasol yn Ynys Môn. Yma gwelwyd tystiolaeth o rwydweithiau cymdeithasol ar wahân yn achos y Cymry Cymraeg brodorol, y mewnfudwyr di-gymraeg a'r mewnfudwyr Cymraeg. Yn olaf, trafodir newid economaidd a'i effaith ar fudo ac iaith lle gwelwyd effaith ail strwythuro economaidd ar iaith a dosbarth cymdeithasol yng Ngwynedd o waith Morris (1995). Yn ogystal mae trafodaeth yma gan Williams a Morris (2000) yn dadlau fod newidiadau economaidd yn cael effeithiau pell gyrhaeddo ar y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu'r iaith, wrth i'r teulu a'r gymuned wanio fel sefydliadau cymdeithasol Cymraeg, ac i sefydliadau newydd fel addysg a'r cyfryngau ddod yn fwy amlwg fel lleoliadau cynhyrchu'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth ddi-gymraeg. Amlygodd adolygiad o'r llenyddiaeth gyhoeddedig ac argyhoeddedig bwlch yn ein gwybodaeth ar y grŵp hynny o bobl ifanc sydd yn perthyn i deuluoedd ymfudol sydd yn dewis gadael ein bröydd, wrth ystyried eu bod yn dysgu'r iaith ond efallai yn rhwystredig yn eu patrymau integreiddio. Gwelwyd yr angen i geisio cadw'r boblogaeth hynny rhag ymfudo a bwriad yr ymchwil presennol yw cyfrannu at lenwi'r bwlch hwn.

Trafodir fframwaith y traethawd yn ystod yr ail bennod, lle amlinellwyd y cefndir damcaniaethol ynghyd â'r cysyniadau allweddol sydd yn sail i'r maes. Defnyddir persbectif Neo-Farcsaidd Williams a Morris (2000) er mwyn trafod theori cymdeithaseg ieithoedd lleiafrifol a'i gysylltiad gyda'r ymchwil hwn. Yna edrychir ar gysyniadau sy'n allweddol i'r ymchwil maes a wneir yn y traethawd, gan gynnwys y gymuned a'r bröydd Cymraeg, effeithiau newidiadau economaidd ar batrymau cynhyrchu ac atgynhyrchu iaith, a mudo ac

allfudo. Mae ymdriniaeth yn ogystal i'r Gymuned a'r fro Gymraeg gan fod y cysyniad o'r bröydd Cymraeg yn elfen ganolog yn y traethawd presennol, a chan fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn elfen ganolog bwysig yn y broses o integreiddio mewnfudwyr, mae'n briodol i edrych yn fanylach ar y cysyniad o gymuned.

Yna amlinellwyd yr ardaloedd ymchwil dan sylw yn nhrydedd bennod yr ymchwil hwn. Ceir esboniad o'r rhesymau pam y dewiswyd yr ardaloedd ymchwil dan sylw a thrafodaeth ar eu proffil mewn manylder. Mae esboniad cynhwysfawr dros y rhesymau pam y dewiswyd ardaloedd a ddosbarthwyd fel rhai Cymunedau yn Gyntaf, gan roi disgrifiad byr o'u ffeithiau economaidd cymdeithasol a chymeriadaeth yr ardal yn ogystal â pholisïau iaith y ddwy Sir. Bu ystyriaeth yma i waith ymchwil a wnaed eisoes ar yr ardaloedd dan sylw gan Emmett (1982) a Aitchison, Carter a Rogers (1989). Er bod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi bod mewn lle ers 2001, mae newidiadau diweddar wedi eu gweithredu o ganlyniad i feirniadaethau ynglŷn â gwariant y Llywodraeth. Yn ystod Ebrill 2012, mae 150 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi eu crynhoi i 50 o ardaloedd 'Clwstwr,' sydd yn benodol yn ceisio ymgodymu â thlodi yn hytrach na phecyn cyfan sydd yn canolbwyntio ar amryw o ffactorau economaidd cymdeithasol. Mae hyn wedi effeithio ar fesur yr ardaloedd hynny sydd â'r amddifadedd mwyaf ac mae i hyn oblygiadau i ganfyddiadau'r ymchwil yn ogystal.

Yn y bedwaredd bennod, amlinellwyd methodoleg ymchwil empeiraidd yr astudiaeth. Trafodwyd safbwynt athronyddol yr astudiaeth sef persbectif deongliadol Weber (1964) lle ceir cyfle i ymdreiddio'n ddwfn wrth ddehongli teimladau a chanfyddiadau unigolion y sampl. Crybwyllwyd fod cyfuniad o ymchwil ansoddol a meintiol yn cael eu defnyddio i ddibenion yr ymchwil hwn, a sut y rhannwyd y sampl i ddau grŵp oed priodol. Disgrifiwyd sut y samplwyd y grŵp targed a sut y sicrhawyd dilysrwydd a dibynadwyedd yr astudiaeth, drwy sicrhau cynnal ymchwil diduedd heb ystyried fy nghefndir, credoau, barn a gwerthoedd personol. Yn ogystal, cloriannwyd manteision ac anfanteision gweinyddu strategaeth ymchwil penodol, a thrafodwyd goblygiadau moesegol yr astudiaeth. Yn fethodolegol, penderfynwyd defnyddio'r dull meintiol o holiaduron i'r sampl iau 15-18, gan ystyried y byddai sampl meintiol yn darparu sylfaen addas ar gyfer darganfod eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Ar gyfer y grŵp sampl yma'n ogystal, defnyddiwyd grwpiau ffocws fel dull ansoddol, gan ystyried y byddai ei natur rhwydd a naturiol yn addas ar gyfer pobl ifanc, gan alluogi iddynt fynegi barn yn effeithiol. Ar gyfer y grŵp sampl hŷn 19-25 oed, oedd bellach wedi gadael eu broydd, defnyddiwyd cyfweliadau ansoddol, dwys ar gyfer darganfod y rhesymau dros eu penderfyniadau i adael a'u dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y

dyfodol. Bu'n ddull effeithiol o alluogi perthynas unigryw a naturiol rhwng yr ymatebwr a'r cyfwelydd. Cyfeiriwyd hefyd at y dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi prif themâu'r ymchwil.

Ers cwblhau'r traethawd hwn, mae'r cyfrifoldeb dros hybu, diogelu a hwyluso'r iaith Gymraeg wedi ei drosglwyddo i Gomisiynydd Y Gymraeg, yn hytrach na Bwrdd Yr Iaith Gymraeg. Daeth y Bwrdd i ddiwedd yn ystod Mawrth 2012 yn dilyn Mesur yr Iaith Gymraeg yn 2011. Golyga hyn fod gwaith y Bwrdd wedi ei drosglwyddo i'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Mae'r dyletswyddau a drosglwyddwyd i'r Comisiynydd yn cynnwys gwaith gyda chyrff gwirfoddol a chyhoeddus a chynlluniau ieithyddol, delio gyda chwynion gan aelodau o'r cyhoedd ar ran yr iaith a hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r iaith. Mae'r newidiadau i'r Bwrdd â goblygiadau i'r traethawd ymchwil hwn, gan fod y cyfrifoldeb dros gynllunio ieithyddol a chanfyddiadau'r traethawd yn disgyn ar Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r Bwrdd fel y disgwylid pan gychwynnwyd y gwaith.

Mae'r penodau sy'n dilyn yn canolbwyntio ar ddadansoddi'r gwaith maes cynradd a gynhaliwyd yn y ddwy ardal dan sylw. Penderfynwyd defnyddio dull ymchwil cyfunedig o feintiol ac ansoddol er mwyn ymchwilio i ddau grŵp sampl 15-18 oed oedd mewn addysg, ac yn ail y grŵp 19-25 oedd wedi naill ai mynd ymlaen i addysg uwch neu wedi gwneud penderfyniadau gyrfaol penodol. Gwnaed hyn i bwrpas adeiladol: sef i ddarganfod a deall dyheadau grŵp iau i'r dyfodol, ac yn ail, archwilio rhesymau dros allfudiaeth grŵp oedd wedi penderfynu'n gadael yn barod. Canolbwynt pennod pump felly yw dadansoddiad meintiol ystadegol ar ffurf tablau amlder a chroes o'r sampl 15-18 oed yn benodol, cyn mynd ymlaen i drafod dadansoddiad ansoddol manylach y grwpiau ffocws yn gymharol o'r un sampl oedran ym mhennod chwech. Yn y seithfed bennod ystyrir canfyddiadau ansoddol grŵp oedran 19-25 drwy gyfrwng cyfweliadau dwys, ac yn hyn o beth, cynigir mewnwelediad unigryw i'r ffactorau mwyaf allweddol yn eu penderfyniad. Yn olaf, rhoddir ystyriaeth feirniadol i'r prif gasgliadau'r astudiaeth ym mhennod wyth.

# Pennod 1

# Cefndir yr Astudiaeth

## Cyflwyniad

Yn y bennod hon, ystyrir y llenyddiaeth gefndirol briodol er mwyn sefydlu'r maes astudiaeth. Dechreuir trwy edrych ar waith Hywel M Jones sy'n sail i'r ymchwil presennol, a'i ganfyddiad o ddadansoddi ystadegau Cyfrifiadau bod pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru oddeutu bedair gwaith yn fwy tebygol o fudo allan o Gymru nag yw pobl ifanc a anwyd yng Nghymru. Edrychir yn fanwl ar ei ddadansoddiadau o symudiadau poblogaeth i mewn ac allan o'r Bröydd Cymraeg, a gweddill Cymru, a'i drafodaeth o ffactorau fel iaith, oed, rhyw, dosbarth cymdeithasol, ardal breswyl a gwlad enedigol ar allfudiaeth oedolion o Gymru i Loegr. Mae'n trafod 'cyfalaf cymdeithasol' mewn ardaloedd, ac yn awgrymu y gall dysgu Cymraeg i fewnfudwyr gynyddu eu cyfalaf diwylliannol unigol, gan roddi iddynt fwy o gysylltiadau rhwydweithiau cymdeithasol yn eu cymunedau eu hunain, ac felly gwell graddfa o integreiddio. Yn ei dro, gallai hynny arwain at lai o allfudiaeth o bobl ifanc o'r Bröydd Cymraeg, rhywbeth sy'n hanfodol yn nhyb Jones os am sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg.

Mae astudiaeth gan Drinkwater a Blackaby (2008) yn ystyried mudo a phatrymau marchnad lafur, a gwelir mai pobl ifanc â chymwysterau addysg uchel yw'r rhai mwyaf tebygol o allfudo. Noda Drinkwater a Blackaby hefyd bod bygythiad i economïau lleol wrth i bobl ifanc cymwys symud allan, a phobl wedi ymddeol, sy'n anweithredol economaidd, symud i mewn. Mae eu sylwadau yn hyn o beth yn rhai a nodwyd gan fudiadau pwyso fel Cymuned, ymhlith eraill, sy'n pryderu am effaith y fewnfudiaeth hon ar ddyfodol y Gymraeg yn y Bröydd Cymraeg. Mae pwyslais yn ogystal ar astudiaethau eraill o'r tu allan i Gymru, gan ganolbwyntio ar astudiaeth Bond, Charsley a Grundy (2008) ar allfudo pobl ifanc raddedig o'r Alban, cyn mynd ymlaen i ystyried gwaith pellach ar yr Alban gan Jones a Jamieson ar yr hyn sy'n gyrru pobl ifanc i allfudo.

Trafodir y cysyniad o gyfalaf cymdeithasol ac integreiddio, gan ystyried effaith mewnfudiaeth ac allfudiaeth ar wahanol gymunedau yng Nghymru. Ystyrir gwaith Morris (1989) ar fewnfudo, iaith a rhwydweithiau cymdeithasol mewn un gymuned yn Ynys Môn, lle gwelir bod dau grŵp iaith yn bodoli'n gyfochrog ond ar wahân i'w gilydd. Yn ogystal, ystyrir y rhesymau strwythurol sydd tu ôl i'r patrymau o symud poblogaeth a welwyd, gan edrych yn fyr ar y ffordd mae ailstrwythuro economaidd wedi effeithio ar batrymau mewnfudiaeth, patrymau teuluol a chymunedol, ac effaith hynny ar atgynhyrchu'r Gymraeg. Edrychir yn fwy manwl ar astudiaeth o ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn eu rhwydweithiau cymdeithasol, gan edrych ar sut mae eu defnydd o'r Gymraeg yn amrywio rhwng gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol mewn gwahanol gymunedau yng Nghymru.

**Mewnfudiaeth ac Allfudiaeth o'r Bröydd Cymraeg**

Y gwaith sy'n sail i'r ymchwil yw gwaith gan yr ystadegydd Hywel M Jones a gyhoeddwyd yn ddiweddar o dan y teitl 'Welsh Speakers: Age Profile and Out-Migration.' Mae'n nodi mai ei fwriad yw *"[to] examine out-migration and in particular the relationship between living in a traditionally Welsh-speaking area and out-migration*" (2010:119). Er bod amrywiaeth o ystadegau sy'n cofnodi ffigyrau allfudiaeth o Gymru, ychydig iawn sy'n canolbwyntio ar allfudiaeth tymor hir, sef mwy na deuddeg mis, yn ôl Jones, ac awgryma fod llai fyth yn ymchwilio'r berthynas rhwng allfudiaeth a'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae astudiaeth Jones yn defnyddio data Astudiaeth Hydredol yr ONS ac yn nodi iddo wneud hynny'n flaenorol wrth edrych ar raddfeydd cadw iaith (Jones, 2005) a oedd yn canolbwyntio ar allu unigolion i siarad Cymraeg yn 1991 a 2001. Roedd yr ymchwil hwn yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol ymchwilio ymhellach i groestoriad o bobl ifanc 15-24 oed, gan edrych ar y rhai 15-18 oedd yn parhau i fod yn yr ysgol, a rhai oedd eisoes wedi gadael addysg (Jones, 2010:119). O safbwynt yr iaith Gymraeg, gwelwyd fod y niferoedd a nodwyd oedd yn gallu siarad yr iaith yn 2001 yn is nag y byddid yn tybio ar sail Cyfrifiad 1991 o'r rhai oed 18 i 31 yn 2001. Er enghraifft, roedd y niferoedd o bobl ifanc 15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 1991 o'i gymharu â'r niferoedd 25 oed yn 2001, yn dangos dirywiad o 38 y cant,

o 8,462 i 5,262 (Jones 2005[1]). Mae Jones yn haeru os gellir dileu'r methiant i gadw gwybodaeth o'r iaith o un cyfrifiad i'r llall, bydd unrhyw ostyngiad yn y *niferoedd* sy'n siarad Cymraeg yn cael ei achosi gan allfudiaeth (heblaw am farwolaethau). Byddai lleihad mewn *canrannau* sy'n siarad Cymraeg yn awgrymu mewnfudiaeth. Nid yw'r ystadegau ynghylch allfudiaeth o Gymru i Loegr yn hawdd i'w cael. Fel y noda Jones, ychydig o'r data sydd ar gael sy'n ystyried allfudiaeth tymor hir, a llai fyth sy'n ystyried y cysylltiad hwnnw rhwng allfudiaeth a siarad Cymraeg.

Mae'n mynd ati felly i ymchwilio ymhellach i'r ffenomen hon trwy ddefnyddio data o'r Astudiaeth Hydredol ONS sy'n defnyddio data o gyfrifiadau 1971, 1981, 1991 a 2001. Mae'r Astudiaeth Hydredol yn canolbwyntio ar boblogaethau Lloegr a Chymru yn unig, ac felly nid yw'n gynrychiolaidd o'r holl gyfraddau o allfudiaeth o Gymru, mudiad i rannau eraill o'r DU, na chwaith mewnfudiaeth. O safbwynt Cymru yn unig, mae'r rhagdybiaeth a wnaed gan y Swyddfa ar gyfer Ystadegau Cenedlaethol, yn ôl eu hystadegau ar boblogaeth 2006, yn ei gwneud hi'n glir fod mewnfudiaeth i Gymru yn cyrraedd ei huchafbwynt o fewn y grŵp oedran 18-19 (2007). Er enghraifft, roedd 18,662 o fyfyrwyr isradd oedd â'u cartref yng Nghymru, wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch tu allan i'r wlad, tra'r oedd 25,177 o fyfyrwyr o ardaloedd eraill y DU wedi eu cofrestru mewn sefydliadau o fewn Gymru (HEFCW 2002). Byddai cymhariaeth o'r niferoedd a oedd yn gallu siarad Cymraeg o oed 25-34 a gofnodwyd mewn cyfrifiad hwyrach felly yn cynnwys grwpiau a oedd â nodweddion tra gwahanol i'w gilydd, sef y rhai oedd yn ddisgyblion ysgol yng Nghymru degawd ynghynt ac yn parhau i fyw yno, a'r rhai oedd yn israddedigion yn y wlad o'r tu allan, ond a oedd yn dal i fod yno (Jones, 2010:121).

Penderfynodd Jones edrych ar yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg, gan eu diffinio yn nhermau daearyddiaeth llywodraethau lleol yn 1971, sef cylch Caerfyrddin, Dinefwr, Llanelli a Cheredigion oedd yn gynt Dyfed, cylch Ynys Môn, Arfon, Dwyfor a Meirionydd yn yr hen Wynedd, gan eu creu yn un 'ardal' ar gyfer ei astudiaeth. Yna roedd yn dynodi gweddill Cymru fel ei 'ardal' arall. Mae'n haeru y gellid disgwyl bod y rhan fwyaf o bobl a oedd yn symud i Loegr o Gymru yn gwneud hynny am resymau yn ymwneud â gwaith. Dywed ymhellach mai ychydig a fyddai'n symud am resymau tai a chymudo (Jones, 2010:123).

---

[1] Dyfynnwyd gan Jones (2010:119)

Mewn gwrthgyferbyniad, dywed fod ardaloedd eraill o Gymru sydd tu allan i'r 'bröydd Cymraeg', ac eithrio Sir Benfro, yn debygol iawn o weld graddfeydd cymharol uchel o gymudo oherwydd eu hagosrwydd at ffin Lloegr. Dywed fod adroddiad o Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn 2002 wedi honni bod cyfraddau diweithdra uchel a phrisiau tai is na'r cyfartaledd yn gysylltiedig â chyfraddau uchel o allfudiaeth. Mae'r bröydd Cymraeg yng ngorllewin a gogledd orllewin Cymru yn rhai difreintiedig, gyda'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth oddeutu 75 y cant o'r cyfartaledd Ewropeaidd (Jones 2010: 123). Yn ogystal, mae prisiau tai o fewn yr ardal Gymraeg yn parhau'n isel, hyd yn oed yn 2004 o'i gymharu â gweddill y DU, er bod ychydig o amrywiaethau. Mae'n bosib felly bod a wnelo ffactorau strwythurol economaidd (Jones 2010: 123) fwy â phenderfyniad yr unigolyn i fudo allan o'i ardal, yn hytrach na ffactorau ieithyddol neu ddiwylliannol:

It needs to be borne in the mind that economic factors such as these may be even more important for individuals' decisions concerning migration than their own personal characteristics. (Jones, 2010:123)

Mae ail ran o ddadansoddiad Jones, yn canolbwyntio ar allfudiaeth oedolion yn unig, dros gyfnod o 10 mlynedd, sef o 1971-2001. Defnyddiwyd newidynnau megis dosbarth cymdeithasol, wedi ei sylfaenu ar swydd, ar amser y cyfrifiad cynharaf, a man geni (Cymru neu'r tu allan i Gymru). Er hynny, mae'r dadansoddiad yn eithrio rhai dosbarthiadau cymdeithasol ac yn benodol y rhai sy'n cynnwys unigolion lle nad oes modd disgrifio eu gyrfaoedd mewn digon o fanylder sef y rhai sydd yn y fyddin, myfyrwyr, rhai â ffynonellau ariannol annibynnol, salwch parhaol, neu wragedd tŷ. Mae hyn yn eithrio myfyrwyr a phlant, gan nad oes ganddynt ddosbarth cymdeithasol, ond fel y noda Jones, mae'r ymdriniaeth o fyfyrwyr wedi amrywio dros y cyfnod cyfan felly mae'n fwy diogel eu heithrio o'r modelu mathemategol presennol (Jones, 2010:125). Dangosodd y modelu data cychwynnol fod peth rhyngweithio rhwng y gallu i siarad Cymraeg a man byw, ac yn 1971-1981 a 1991-2001, rhwng hyfedredd iaith a man geni. At ddibenion cymhariaeth, defnyddiwyd siaradwyr Cymraeg a di-gymraeg ar wahân, er mwyn gallu dadansoddi effeithiau man geni ar y canlyniadau.

Wrth drafod ei ganlyniadau, mae gwaith blaenorol Jones (2005) yn dangos nad oedd 16 y cant o siaradwyr Cymraeg a oedd o oedran 15-24 yn 1991, yn gallu siarad yr iaith yn 2001.

Yn ogystal, roedd 4.7 y cant o'r un grŵp oedran, nad oedd yn gallu siarad yr iaith yn 1991, yn gallu gwneud hynny erbyn 2001 (2010:126). Gan ddefnyddio'r enghraifft o 8,462 o unigolion 15 oed a oedd yn gallu siarad yr iaith yn 1991, defnyddiodd Jones gyfraddau dargadwedd i gyfrifo y byddai 7,836 o'r garfan yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, sef gostyngiad o tua 7 y cant. Er hynny, dangosodd y cyfrifiad fod y ffigwr yn 5,262 yng Nghymru, sef gostyngiad o 33 y cant yn llai. Gellir ystyried yr anghysondeb yma fel amcangyfrif o'r canran o siaradwyr Cymraeg sydd yn gadael Cymru (Jones, 2010:127). Gan ddefnyddio data o AH yr ONS, mae'n nodi bod oddeutu traean o siaradwyr Cymraeg ifanc a oedd yn 15 oed yn 1991 wedi gadael Cymru am Loegr erbyn 2001 (Jones, 2010:128).

Proses arall a oedd yn digwydd yn gyfochrog â hyn oedd mewnfudiaeth i Gymru, ac mae Jones yn rhoi sylw arbennig i'r fewnfudiaeth a gafwyd i'r bröydd Cymraeg. Ym mhob blwyddyn o 1981-2001, profodd Cymru fewnfudo positif o weddill y DU (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007), a dywed Jones fod agweddau megis harddwch naturiol y cefn gwlad a'r ardaloedd glan y môr yn ffactor yn hyn. Yn ogystal â'r broses gyffredinol o symudiad poblogaeth o ardaloedd trefol i'r cefn gwlad, dywed Jones fod a wnelo lleoliad Prifysgolion Bangor, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, ac ysbytai megis Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Gwili yng Nghaerfyrddin ac Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, â'r fewnfudiaeth a welwyd. Mae'n debygol bod cyfran uchel o staff proffesiynol y sefydliadau hyn yn fewnfudwyr, meddai, ac ar yr un pryd, mae'r prinder swyddi proffesiynol yn y bröydd Cymraeg yn debygol o fod y rheswm pam fod gymaint o siaradwyr Cymraeg yn mudo allan:

It is the significance of those latter sectors and the paucity of other opportunities within the traditionally Welsh-speaking area which is likely to be the cause too of the high out-migration rates seen among the non-Welsh speakers with professional and managerial occupations. (Jones, 2010:129).

Mae tystiolaeth ychwanegol a geir o Gyfrifiad 2001 yn awgrymu bodolaeth yr hyn a elwir yn droell-ddringo i'w weld ym mhatrymau galwedigaethol y bröydd Cymraeg. Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2001, mae'n dangos bod y canrannau o siaradwyr Cymraeg sydd ymhlith y dosbarth o reolwyr ac uwch swyddogion yn y bröydd Cymraeg yn is nag y gellid disgwyl o ystyried canran y boblogaeth gyffredinol sy'n siarad Cymraeg: Ynys Môn - 44.4 y cant (61 y

cant yn siarad Cymraeg); Gwynedd - 54.4 y cant (67 y cant yn siarad Cymraeg) a Cheredigion - 43.2 y cant (52 y cant yn siarad Cymraeg) (Jones, 2010 129).

Er bod 24.7 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru 3 oed ac uwch a oedd wedi eu geni tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, roedd lefelau integreiddio ieithyddol oedolion yn llai yn ôl Jones (2010:130). Er enghraifft, dim ond 5 y cant o boblogaeth Cymru rhwng 45-64 oed a oedd wedi eu geni tu allan i Gymru a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y ffigwr yma'n amrywio yn ôl ardal, gyda 12.4 y cant yn Ynys Môn, 16.7 y cant yng Ngwynedd, 11.9 y cant yng Ngheredigion a 9.5 y cant yn Sir Gaerfyrddin (Cyfrifiad 2001, tabl T39). Dengys tablau 1, 2 a 3 isod y patrymau o allfudiaeth dros gyfnodau o 10, 20 a 30 mlynedd, gyda'r ddau dabl yn ystyried holl boblogaeth Cymru a Thabl 3 yn canolbwyntio'n benodol ar y bröydd Cymraeg.

**Tabl 1: Canran yn symud i Loegr dros gyfnodau o 30, 20 a 10 mlynedd, yn ôl grŵp oed a rhyw: Cymru gyfan**

| | **% yn Symud i Loegr** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed yng Nghyfrifiadau cynt** | **Pawb** | | | **Gwryw** | | | **Benyw** | | |
| | **1971** | **1981** | **1991** | **1971** | **1981** | **1991** | **1971** | **1981** | **1991** |
| **Oed 3-14** | 19.4 | 20.7 | 11.2 | 20.4 | 21.2 | 11.6 | 13.4 | 20.3 | 10.8 |
| **Oed 15-24** | 14.7 | 15.5 | 16.8 | 15.4 | 16.7 | 17.8 | 14.1 | 14.3 | 16.0 |
| **Oed 25-34** | 9.3 | 9.1 | 8.7 | 9.9 | 10.2 | 10.2 | 8.8 | 8.1 | 7.3 |
| **Oed 35-54** | 5.4 | 4.8 | 4.0 | 5.7 | 5.7 | 4.5 | 5.2 | 3.9 | 3.5 |
| **Oed 55+** | 8.2 | 6.3 | 4.0 | 9.0 | 5.8 | 3.9 | 7.9 | 6.5 | 4.0 |

(addaswyd o Jones, 2010:130)

Wrth edrych ar y rhai hynny oedd yn blant oed 3-14 yn 1971, mae Tabl 1 yn dangos fod 19.4 y cant ohonynt wedi symud i Loegr. Mae'r tabl 2 yn ystyried y ganran a symudodd i Loegr dros yr un cyfnodau, yn ôl y gallu i siarad Cymraeg tra bod Tabl 3 yn ystyried yr un peth yn achos poblogaeth y bröydd Cymraeg:

**Tabl 2: Canran yn symud i Loegr dros gyfnodau o 30, 20 a 10 mlynedd, yn ôl siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg: Cymru gyfan**

| Oed yng Nghyfrifiadau cynt | % yn Symud i Loegr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Siaradwyr Cymraeg | | | Siaradwyr di-gymraeg | | |
| | 1971-01 | 1981-01 | 1991-01 | 1971-01 | 198-011 | 1991-01 |
| Oed 3-14 | 16.8 | 17.7 | 12.1 | 19.9 | 21.4 | 10.9 |
| Oed 15-24 | 11.7 | 13.1 | 15.0 | 15.0 | 15.9 | 17.2 |
| Oed 25-34 | 2.9 | 6.3 | 2.8 | 10.6 | 9.6 | 9.6 |
| Oed 35-54 | 1.5 | 1.1 | 1.9 | 6.5 | 5.6 | 4.4 |
| Oed 55+ | 1.4 | 1.3 | 1.2 | 11.0 | 7.6 | 4.7 |

(addaswyd o Jones, 2010:131)

**Tabl 3: Canran yn symud i Loegr dros gyfnodau o 30, 20 a 10 mlynedd, yn ôl iaith a grŵp oed: y bröydd Cymraeg**

| Oed yng Nghyfrifiadau cynt | % yn Symud i Loegr | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pob | | | Siaradwyr Cymraeg | | | Siaradwyr di-gymraeg | | |
| | 1971 | 1981 | 1991 | 1971 | 1981 | 1991 | 1971 | 1981 | 1991 |
| Oed 3-14 | 20.3 | 22.2 | 13.1 | 15.5 | 16.2 | 12.0 | 28.9 | 33.9 | 15.8 |
| Oed 15-24 | 15.3 | 16.4 | 21.4 | 11.8 | 12.7 | 15.6 | 24.1 | 21.1 | 31.9 |
| Oed 25-34 | 9.4 | 7.5 | 10.1 | 3.0 | 4.0 | 0.8 | 21.4 | 12.4 | 21.0 |
| Oed 35-54 | 3.5 | 4.3 | 5.9 | 0.5 | 0.9 | 2.4 | 10.7 | 9.8 | 10.5 |
| Oed 55+ | 2.3 | 4.6 | 4.8 | 0.0 | 0.8 | 0.8 | 10.5 | 12.7 | 10.9 |

(addaswyd o Jones, 2010:131)

Dengys Tabl 3 yn glir bod y canrannau o'r di-gymraeg a oedd yn symud i Loegr yn gyffredinol llawer uwch na'r siaradwyr Cymraeg. Roedd canfod hyn yn anogaeth i Jones fynd ati i wneud dadansoddiad mwy manwl, gan edrych ar effeithiau iaith, oed, rhyw a man preswyl ar allfudiaeth oedolion. Yn nes ymlaen, mae hefyd yn ychwanegu gwlad enedigol at y ffactorau ychwanegol a ddefnyddir yn ei ddadansoddiad.

Mae'r ffigyrau uchod yn awgrymu yn ystod y cyfnod 1991-2001, a dros y cyfnodau 20 a 30 mlynedd bod canrannau uwch o bobl dan 25 oed wedi symud i Loegr o'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg nag o weddill Cymru. Dywed Jones ymhellach mai aelodau'r dosbarth proffesiynol a fudodd ar y raddfa fwyaf, bod canrannau uwch o'r di-gymraeg na siaradwyr Cymraeg wedi mudo allan, bod canrannau uwch o'r rhain a anwyd tu allan i Gymru wedi mudo nag o'r rhain a anwyd yng Nghymru, ac yn gyffredinol bod boblogaeth iau hefyd wedi bod yn fwy tebygol o allfudo (Jones, 2010:133). Dengys y data bod graddfa mudo'r rhain a anwyd tu allan i Gymru o leiaf dair gwaith graddfa'r rhai a anwyd yng Nghymru, p'un a ydynt yn siaradwyr Cymraeg ai peidio (Jones, 2010:133).

Noda Jones mai bod rhwng 15-24 oed oedd y ffactor mwyaf dylanwadol yn achos y tebygolrwydd y byddai'r bobl yn mudo allan o Gymru, yn fwy felly na man geni. Ar ôl oed, roedd yn amlwg mai man geni oedd yr ail ffactor o bwys, a dywed Jones yn achos yr unigolion hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg, mae cael eu geni tu allan i Gymru yn cynyddu'r tebygolrwydd o allfudo mwy na thair gwaith (365 y cant yn 1981-91). Os cymerwn fod integreiddio yn bwysig ym mhenderfyniad pobl i aros neu fudo, yna dywed Jones y gellid disgwyl i rai sy'n siarad Cymraeg fod yn fwy tebygol o aros; fodd bynnag, nid yw'r darlun mor glir â hynny, meddai, ac yr oedd y gymhareb ods i'r rheiny a anwyd tu allan i Gymru ond a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn hynod arwyddocaol a mawr - gan gynyddu'r ods y byddent yn allfudo bron saith gwaith (677 y cant) - yn fwy nag unrhyw effaith cael eu geni tu allan i Gymru i'r di-gymraeg (Jones, 2010:134).

Mae'n nodi hefyd fod byw yn y bröydd Cymraeg yn cynyddu'r ods i'r di-gymraeg allfudo o 69 y cant; i siaradwyr Cymraeg, ychydig o effaith oedd dosbarth cymdeithasol yn ei gael ar allfudo, ac eithrio aelodau'r proffesiynau; ac nid oedd rhyw yn ffactor arwyddocaol yn gyffredinol, gyda dim ond ychydig mwy o debygolrwydd y byddai dynion di-gymraeg yn allfudo na merched di-gymraeg (Jones, 2010:136).

Ar ôl gosod y sylfaen ystadegol, mae Jones yn trafod ei ganlyniadau, gan nodi bod y nifer is na'r disgwyl o siaradwyr Cymraeg ifanc yn digwydd o ganlyniad i allfudiaeth, yn hytrach nag unrhyw ddiffyg ar eu rhan o safbwynt dal eu gafael ar eu gallu o'r iaith. Yn ogystal, dywed bod materion teuluol, rhwydweithiau ffrindiau a chysylltiadau cymdeithasol i gyd yn chwarae

rhan bwysig a chynyddol mewn penderfyniadau ynglŷn â symudoledd. Dywed Jones y gellir disgwyl i'r patrymau o fewnfudiaeth gynnar arwain at gynnydd mewn allfudiaeth wrth i'r cysylltiadau cymdeithasol wanio - neu, a'i roi fel arall, wrth i'r rhesymau pan fewnfudodd pobl yn y lle cyntaf ddod yn llai pwysig i'r cenedlaethau dilynol (Jones, 2010: 137). Dywed Jones hefyd y bydd gan rwydweithiau teuluol a ffrindiau pobl a fewnfudodd lai o ffocws lleol, ac awgryma y bydd hynny'n effeithio ar y Gymraeg. Mae hon yn agwedd diddorol a phwysig sydd yn galw am ymchwil pellach yn y gwaith maes.

Ymhellach, mae Jones yn haeru mai canlyniad pwysig i batrymau mudo tymor hir yw cyfalaf cymdeithasol ardaloedd, wrth i bobl gyda gwahanol ddoniau a galluoedd symud i mewn iddynt. Gellir dadlau fod a wnelo'r ffenomen o 'droell-ddringo' yn y farchnad lafur â hyn, lle mae gweithwyr yn fwy symudol yn ddaearyddol a chymdeithasol - hynny yw, yn symud o un ardal i'r llall er mwyn llwyddo yn eu gyrfaoedd. Eisoes nodwyd y dystiolaeth o hyn a gynigir gan Jones, pan mae'n trafod canlyniadau o'r Cyfrifiad sy'n dangos bod y canrannau o siaradwyr Cymraeg sydd ymhlith y dosbarth o reolwyr ac uwch swyddogion yn y broydd Cymraeg yn is nag y gellid disgwyl o ystyried canran y boblogaeth gyffredinol sy'n siarad Cymraeg (Jones, 2010 129), ac mae hefyd yn cyflwyno tystiolaeth o ddadansoddiad atchweliad i gefnogi ei ddadl. Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, gwelwyd mai oed oedd y ffactor bwysicaf wrth drafod patrymau allfudo, ond roedd man geni tu allan i Gymru hefyd yn cael yr un effaith â'r oedran 15-24, yn enwedig o safbwynt y di-gymraeg. Er nad oedd dosbarth cymdeithasol yn effaith sylweddol yn achos siaradwyr Cymraeg, gwelwyd ei fod yn bwysig eithriadol yn achos y di-Gymraeg. Mae gwaith arall ar fudo o Gymru hefyd wedi dangos fod y tebygolrwydd o allfudo'n uwch i'r rhai â chymwysterau uchel (Drinkwater a Blackaby, 2004; Jones, 2010:142).

Dywed Jones mai un sbardun ar gyfer ei ddadansoddiad yw pwysigrwydd y broydd Cymraeg ar gyfer dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae'n dweud mai graddfa isel o integreiddio ieithyddol y boblogaeth a anwyd tu allan i Gymru oedd y prif reswm pam fod siarad Cymraeg wedi bod yn gostwng yn y broydd Cymraeg (Jones, 2010: 142). Mae gwaith ymchwil arall gan Davis, Day a Drakakis-Smith ar fewnfudwyr i ogledd orllewin Cymru yn ategu'r gosodiad hwn, gan ddangos er bod ganddynt agweddau positif at y Gymraeg at ei gilydd, eto ychydig iawn o'r mewnfudwyr a oedd wedi dysgu'r Gymraeg. Noda Jones fod 25 y cant o boblogaeth Dyfed a

33 y cant o boblogaeth Gwynedd yn 1991 wedi eu geni tu allan i Gymru, o'i gymharu â 13 y cant a 27 y cant yn eu tro 20 mlynedd ynghynt (Jones, 2010:128), felly mae hyn yn awgrymu bod y fewnfudiaeth i'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg a Chymreig yn tanseilio'r Gymraeg.

Er bod Jones wedi trafod allfudiaeth oedolion yn bennaf yn yr erthygl yma, mae'n dadlau fod canran y plant sydd yn allfudo yn uwch, ac y gellid dadlau bod hynny'n ffenomen bwysicach o safbwynt cynaladwyedd cymunedau Cymraeg a'r iaith. Mae'n cydnabod bod elfen o fod eisiau 'gadael cartref' yn rhan o dyfu i fyny, ac y bydd pobl ifanc yn anochel yn gadael eu bröydd i ddilyn addysg uwch a gyrfaoedd rywle arall. Mae'r symudiad hwn o bobl ifanc o ardaloedd cefn gwlad i ardaloedd trefol fel Caerdydd yn fater sydd wedi cael sylw gan wleidyddion Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd yn hybu mentrau fel Llwybro-Routes sydd â chenhadaeth o hyrwyddo'r syniad o aros yn y Gymru wledig neu ddychwelyd iddi (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Dadleua Jones fod mentrau o'r fath yn gwneud synnwyr er mwyn sicrhau dychweliad ar y buddsoddiad mewn cyfalaf dynol, ac yn benodol ar ddysgu Cymraeg yn y system addysg (Jones, 2010:144). Dywed Jones fod siaradwyr Cymraeg, p'un a gawsant eu geni yng Nghymru neu du allan, yn llai tebygol o fudo allan o Gymru, ac awgryma "*Teaching Welsh to in-migrants may increase their local social ties and social capital*" (Jones, 2010:145) - hynny yw, bydd yn sicrhau gwell integreiddio lleol. Mae'n gweld hynny'n bwysig oherwydd creda y bydd allfudiaeth o siaradwyr Cymraeg o Gymru yn ffactor pwysig mewn ymdrechion adfywio'r iaith (Jones, 2010:145). Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cadw siaradwyr Cymraeg ifanc er mwyn cadw'r Gymraeg yn iaith hyfyw yn y cymunedau, fel y mae Iaith Pawb, sef Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog y Cynulliad.

Mae astudiaeth gan Drinkwater a Blackaby (2004) yn trafod gwahaniaethau yn y farchnad lafur a mudo. Dywedant y gall symudiad llafur effeithio ar economïau mewn sawl ffordd. I ddechrau, gan fod symudoledd llafur yn agwedd allweddol o economi hyblyg, mae'n fecanwaith y gellir ei ddefnyddio i leihau gwahaniaethau marchnad ranbarthol a lleol. Fodd bynnag, gwelir bod y mudo lleiaf yn digwydd i ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, a bod allfudiaeth yn dangos cydberthynas negyddol gyda diweithdra a graddfeydd o salwch. Yn ail, mae nodweddion mewnfudwyr ac allfudwyr â goblygiadau i berfformiad economïau lleol a rhanbarthol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, mae Drinkwater a Blackaby

yn dangos fod y bobl sy'n allfudo o Gymru yn ieuengach a chanddynt fwy o gymwysterau addysgol na'r rheiny sy'n mewnfudo i Gymru (20045:2). Ymhellach mae Drinkwater a Blackaby yn haeru fod pobl ifanc ddysgedig Cymru yn fwy tebygol o fudo na'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o Brydain. Gwelir hefyd bod rhai ardaloedd yn gallu colli cyfran anghyfartal o'u gweithwyr dysgedig, ifanc, tra ar yr un pryd ddenu cyfran uchel o unigolion o oed ymddeol. Mae'r patrymau symudoledd yma'n debygol o effeithio ffyniant presennol ardal, yn ogystal â'r galw am ddarpariaeth gwasanaethau ac amwynderau lleol.

Mae Cymru'n astudiaeth achos diddorol, oherwydd yn hanesyddol, mae'r wlad wedi profi cryn gyfnodau o ymfudo ac allfudo (Thomas 1930; Daniel 1946). Mae'r tueddiadau yma'n cael eu hamlygu drwy'r ffigyrau sy'n dynodi fod Cymru â'r boblogaeth fwyaf amrywiol o fewn y pedair gwlad sy'n creu'r Deyrnas Unedig. Mesurir hyn drwy edrych ar y ganran o'r preswylwyr presennol a anwyd y tu allan i'r wlad. Yn ôl ffigyrau o'r Cyfrifiad yn 2001, roedd tua chwarter o'r boblogaeth yng Nghymru wedi eu geni tu allan i'r wlad, o'i gymharu ag 13 y cant o boblogaethau'r Alban a Lloegr, a 9 y cant o boblogaeth Gogledd Iwerddon. Dadleuir bod Cymru hefyd yn denu mudwyr o weddill y DU. Mae'r llif o fudwyr i Gymru wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, gan godi o tua 45,000 yn 1981 i 64,000 yn 2002. Mae dros 80 y cant o'r boblogaeth sydd wedi eu geni tu allan i Gymru yn hanu o Loegr, gyda 20 y cant o'r unigolion a anwyd yng Nghymru bellach yn byw yn Lloegr (Blackaby a Drinkwater 2004:20). Awgrymwyd yn benodol fod poblogaeth yr ardaloedd hynny yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, megis Sir Gonwy, Sir Fflint a Sir Ddinbych, sydd ar y ffin â Lloegr, yn cynnwys yr un canran o unigolion sydd wedi eu geni yno ag y sydd wedi eu geni tu allan. Wrth drafod pobl ifanc, nododd Drinkwater a Blackaby:

Younger people are more likely to migrate because they have a longer period over which they can pay back any moving costs they may incur, they are also less likely to have acquired location specific human capital and should have a lower psychological attachment with the area that they currently reside, than older individuals (Drinkwater a Blackaby 2004:20).

Mae rhai astudiaethau eraill o'r tu allan i Gymru ar allfudo a mewnfudo poblogaethau yn cynnig damcaniaethau diddorol ynghylch pam bod un grŵp, mwy na grŵp arall, yn dewis gadael eu cymuned. Dywed Belot ac Ermisch (2008) bod cysylltiadau cymdeithasol yn chwarae rhan flaenllaw mewn symudoledd daearyddol, tra bod Levy a Waldacki (1973)

mewn astudiaeth gynnar yn Venezuela wedi canfod fod y tebygolrwydd o symud o un ardal i ardal arall â chydberthynas cryf gydag economi a gwaith. Darganfu Mincer (1978) yr un math o ganlyniadau gan ddefnyddio llenyddiaeth o'r 'American Panel Study of Income Dynamics' ac mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar effeithiau rhwydweithiau, sydd yn bwnc amlwg mewn nifer o astudiaethau ar allfudiaeth. Er hynny, fel yr awgrymwyd gan Belot a Ermisch, mae'r astudiaethau yma'n canolbwyntio ar rôl cysylltiadau cymdeithasol yn y man maent yn mudo iddo, yn hytrach na'u cymunedau tarddiad (Belot & Ermish 2008:4). Dadleuir yn ogystal fod y dystiolaeth yn ymwneud â chysylltiadau cymdeithasol o fewn yr un cartref ac nad yw'r cysylltiadau rhwng cartrefi a theuluoedd wedi ei ymchwilio'n ddigonol, yn rhannol oherwydd diffyg data (Belot a Ermisch 2008:4). Gan ddyfynnu o waith Konrad *et al* (2002), mae Belot ac Ermisch wedi edrych ar rôl y strwythur teuluol ar batrymau symudoledd yn yr Almaen, gan ddamcaniaethu fod plant sydd wedi eu geni gyntaf yn gallu gorfodi'r plant sydd wedi eu geni wedyn i fyw yn nes at y rhieni er mwyn gofalu amdanynt yn y dyfodol. Mae Rainer a Siedler (2005) hefyd yn defnyddio data o'r Almaen, a chanfu'r rhain bod unig blant yn symud yn agosach at eu rhieni na phlant sydd ag un brawd neu chwaer (2005:4). Mae gwaith Spilimbergo ac Ubeda (2001) yn atgyfnerthu hyn yn eu hastudiaeth ar effaith y teulu estynedig ar symudoledd daearyddol. Bu iddynt gymharu teuluoedd gwyn a duon yn yr Unol Daleithiau, gan awgrymu fod crynodiad uchel o deulu mewn un ardal yn golygu lefelau is o symudoledd daearyddol. Roedd modd dangos o'r canlyniadau hyn fod gwahaniaeth rhwng patrymau symudoledd y ddwy hil; hynny yw, yn gyffredinol, gan fod pobl dduon â mwy o deulu yn byw yn agosach, felly roeddynt yn llai tebygol o adael na phobl wen (Belot ac Ermisch, 2008). Mae hyn yn ategu syniadau Jones (2010) ynglŷn ag effaith cyfalaf cymdeithasol cryf ar benderfyniadau pobl ifanc i symud o'r bröydd Cymraeg; hynny yw, os oes ganddynt 'gyfalaf cymdeithasol' uchel, bydd ganddynt nifer uchel o gysylltiadau rhwydwaith yn eu cymunedau ac felly'n llai tebygol o fudo allan.

Mae Bond, Charsley a Grundy (2008[2]) yn cynnig nifer o ganfyddiadau diddorol ar gyfer yr astudiaeth bresennol. Roedd yr ymchwil yn rhan o brosiect wedi ei ariannu gan yr ESRC a llywodraeth yr Alban, a oedd yn ceisio ymchwilio'r prif dueddiadau demograffig a heriau sydd yn wynebu'r Alban heddiw. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o leoedd eraill yn y DU, mae'r Alban wedi dioddef o allfudiaeth uchel ers yr 1950au, sy'n llesteirio twf economaidd y wlad,

---

yn ôl llywodraeth yr Alban (Llywodraeth yr Alban, 2007).[3] Mae allfudiaeth pobl ifanc raddedig felly o ddiddordeb arbennig iddynt oherwydd y cyfalaf dynol a gollir bob blwyddyn wrth i bobl ifanc symud i Loegr a thu draw i chwilio am waith. Roedd gwaith Bond, Charsley a Grundy yn cynnwys 6 prosiect oedd yn mynd i'r afael â materion o ffrwythlondeb, heneiddio ac allfudiaeth, ac yn enwedig allfudiaeth graddedigion. Fel awgrymwyd gan yr awduron:

A primary influence upon our decision to study graduate migration was the political aspiration in Scotland to increase migration substantially, particularly the migration of highly qualified individuals. However, also significant is the fact that, within a UK context, there was a dearth of literature and data relating both to graduates' migration and career patterns beyond the initial period following graduation, and their motivations for making migration decisions. (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 1)

Mae data or 'Higher Education Statistics Agency,' (HESA) yn nodi lleoliadau graddedigion tua 6 mis ar ôl graddio, ond nid ydynt yn canolbwyntio ar batrymau mudo tymor hir nac ychwaith eu rhesymau dros fudo. Mae gwaith Purcell *et al*, yn edrych ar garfan o 5 sefydliad addysg uwch o'r Alban, 4 mlynedd ar ôl graddio, ond yn gyffredin i astudiaethau tebyg o'r DU, (Elias a Purcell 2004; Furlong a Cartmel 2005) mae'r prif ffocws ar gyflogaeth, ac er bod ganddynt ddata defnyddiol ar batrymau allfudo, nid yw'r ysgogiadau dros y symudiadau yn amlwg. Rheswm arall dros yr astudiaeth hon oedd bod yr Alban yn denu niferoedd sylweddol o fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU a thramor. Er enghraifft yn 2004/2005, roedd 26 y cant o fyfyrwyr addysg uwch yn yr Alban yn hanu o gartrefi tu allan i'r wlad. Mae'r myfyrwyr yma'n amlwg yn fudwyr cymwysedig â chymwysterau uchel, ond maent yn cael eu disgrifio fel grŵp "*Unsettled*" (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 1).

Yn ogystal, roedd 91 y cant o fyfyrwyr oedd wedi hanu o'r Alban, oedd mewn cyflogaeth, 6 mis ar ôl graddio yn gweithio yn yr Alban, 38 y cant oedd wedi dod i astudio yn yr Alban o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a 22 y cant o wledydd yr Undeb Ewropeaidd (2008: 2). Gwelwyd felly ei bod hi'n bwysig ceisio dysgu mwy am batrymau ac ymddygiad mudo'r unigolion yma a'r ffactorau sy'n sylfaen i'r ymddygiad. Roedd hi hefyd yn amlwg i Bond,

[3] "From the 1950s to the mid1990s, Scotland's demographic trends reflected its economic performance, resulting insubstantial net out-migration. Scotland's population stands today at just over 5 millionpeople, and population growth has lagged significantly behind the UK over the last ten years", The Government Economic Strategy, Scottish Government, 2007:27

Charsley a Grundy mai'r is gategori mwyaf oedd myfyrwyr a oedd yn hanu o Loegr, oedd yn amlwg fel 76 y cant o'r holl fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU a 36 y cant o'r holl fyfyrwyr oedd heb ymgartrefu yn yr Alban. Gwelwyd felly fod angen mesur y tueddiadau tymor canolig, a cheisio darganfod pa nodweddion oedd yn gysylltiedig gyda graddedigion oedd yn fwy, neu'n llai tebygol o aros yn yr Alban, ac i ymchwilio i'r rhesymau pam fod graddedigion yn dewis gadael, aros, neu ddychwelyd i'r Alban.

Penderfynwyd canolbwyntio ar Brifysgol Caeredin ac yn benodol, bu pwyslais ar y rhai oedd wedi gorffen eu gradd gyntaf yn y flwyddyn 2000. Gwnaethpwyd y dewis yn benodol oherwydd ei hamrywiaeth o fyfyrwyr, gyda rhai o'r Alban a rhai o'r tu allan i'r Alban, gan ei bod yn denu bron i niferoedd cyfartal o du fewn a thu allan i'r wlad, ac o gefndiroedd cymdeithasol penodol. Dewiswyd y flwyddyn gan ei fod yn gadael digon o amser ers graddio, a oedd yn debygol o adlewyrchu cyflogaeth tymor hir a phatrymau ymgartrefu. Ym Mehefin 2005, cafodd holiadur ei yrru i'r carfannau pwrpasol a lle yr oedd cyfeiriadau ar gael iddynt, sef 3,134 o raddedigion neu 91 y cant. Cafodd 1,362 ohonynt eu llenwi, sef cyfradd ymateb o 43 y cant. (Bond, Charsley a Grundy, 2008:2) Dilynwyd yr holiaduron gyda chyfweliadau hanner strwythuredig, gyda'r gobaith y byddai'n datgelu mwy o wybodaeth a hynny'n fanwl, ar allfudiaeth a'r sefyllfa economaidd oedd yn effeithio arno. Cynhaliwyd cyfweliad gydag 80 o ymatebwyr, sef 20 o bob categori, cyn prifysgol (yn byw yn yr Alban neu beidio) ac ôl y brifysgol, (yn byw yn yr Alban neu beidio). Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â chyflogaeth ac astudiaethau pellach, y prif ffactorau oedd yn dylanwadu ar eu man byw a gweithio, agweddau tuag at y potensial o ddychwelyd i'r Alban, a manylion addysgol demograffig amrywiol. Bu un canlyniad pendant, sef fod cyfradd uchel o raddedigion sy'n hanu o'r Alban yn aros yno, lle nad yw cyfradd uchel o raddedigion o'r tu allan yn dewis gwneud hynny (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 2).

Wrth ganolbwyntio ar y llif o raddedigion rhwng y ddwy wlad lle'r oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn hanu - Yr Alban a Lloegr - gwelwyd bod cyfradd yr ymatebwyr a oedd wedi mudo i Loegr (24 y cant) yn fwy na chyfradd y graddedigion oedd yn hanu o Loegr oedd wedi aros neu wedi dychwelyd i'r Alban (20 y cant). Mae canlyniadau'r cyfweliadau yn awgrymu y gellir deall yr ysgogiadau ar gyfer allfudiaeth graddedigion yn nhermau 3 grŵp o ffactorau, sef (i) cyfleoedd, gyda chyflogaeth yn benodol, (ii) cysylltiadau a pherthnasau

gyda'r, teulu, partneriaid a ffrindiau, ond yn ogystal y cysylltiadau a wnaed ar y teimlad o fod yn perthyn, perthnasau a hunaniaeth (iii) eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Mae pwyslais yma ar hunaniaeth yn benodol, a gwelwyd ei fod yn canolbwyntio ar fudwyr wedi eu geni yn Lloegr. Gellir dadlau ei fod yn trafod y cysyniad o hunaniaeth genedlaethol yn agosach i adref fel petai. Mae'r graddedigion yma'n cadw eu dinasyddiaeth flaenorol, ond yn gorfod ail feddwl eu hunaniaeth a sylweddoli nad yw dinasyddiaeth ffurfiol yn arf yn erbyn gwaharddiad anffurfiol a symbolaidd (2008: 4). Eglurwyd y pwynt yma'n ehangach gan Caroline Nagel (2004). Mae gwaith Nagel, sydd yn seiliedig ar gyfweliadau gydag Americanwyr Arabaidd, yn pwysleisio fod dinasyddiaeth yn elfen bwysig, ond nid diffiniol, o hunaniaeth. Yn ogystal, Mae'n dadlau ei bod hi'n bosib hawlio hunaniaeth fel dinesydd, heb hawlio hunaniaeth y wlad honno (2008: 2). Er bod mewnfudwyr yn gallu meddu dinasyddiaeth ffurfiol, maent yn aml yn parhau i gael eu heithrio o sectorau dominyddol o'r gymdeithas (2008: 5). Pan mae'r mewnfudwyr yma'n cael y teimlad na fyddent yn cael derbyniaeth i'r gymdeithas, maent yn profi'r gwrthgyferbyniad rhwng diffiniadau cyfreithiol o ddinasyddiaeth a'r synnwyr mynegiannol megis yr ymdeimlad o berthyn. Fel awgrymwyd gan Nagel:

> The point is that many possibilities exist in terms of the ways in which immigrants identify themselves, organise themselves and participate in different political communities. These relationships must be actively investigated rather than assumed. (2008: 28)

Gwelwyd o Gyfrifiad 2001 fod 8 y cant o boblogaeth yr Alban wedi eu geni yn Lloegr, ac felly'n cael eu gweld fel grŵp mwyaf 'lleiafrifol,' yr Alban neu fel awgrymwyd gan Watson (2003) yr "Hidden Minority." Efallai nad ydynt yn wynebu'r un fath o broblemau a gwaharddiad, ond, maent yn sicr yn gorfod ail feddwl eu hunaniaeth. Gellid dadlau bod yr un peth yn wir am y bobl ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw, hynny yw nid ydynt yn teimlo fod modd iddynt integreiddio'n llwyr, gan nad ydynt bob amser y teimlo fel rhan o'r gymdeithas, ond yn hytrach yn parhau ar yr ymylon hyd yn oed ar ôl llwyddo i ddysgu iaith. Dadleuwyd yn ogystal fod ymfudwyr Saesneg yn aml yn cael eu cyflogi mewn swyddi proffesiynol a rheolaethol, sy'n golygu fod cryn ganolbwyntio wedi bod ar amgylcheddau cymdeithasol lle awgrymwyd fod 'y Saeson' â dylanwad anghyfartal o fewn yr Alban heddiw:

> Certainly, national identities still require to be negotiated, no matter how 'settled,' these migrants are, but previous research does not give much insight into the experiences of relatively recent migrants to Scotland from England, nor the degree to which identity may prove to be a significant factor in determining whether or not they choose to make a long-term commitment (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 4).

Ffactor allweddol yn y ddadl hon yw bod y mwyafrif o bobl sy'n byw yn yr Alban, yn blaenoriaethu eu hunaniaethau Albanaidd dros eu hunaniaeth Brydeinig, (Bond, Charsley a Grundy, 2008:5) ac mae lleiafrif sylweddol yn cysylltu arwyddocâd gwleidyddol a hanesyddol, negyddol i'r label 'Prydeinig.' Mae llawer o'r mudwyr Saesneg yma felly'n mabwysiadu hunaniaeth 'Saesneg,' ond nid o reidrwydd o ddewis, ond oherwydd ei fod yn cael ei briodoli gan y mwyafrif o'r boblogaeth Albanaidd. Fel awgrymwyd gan yr awduron, nid yw astudiaethau blaenorol yn trafod sut y gall hunaniaeth fod yn ffactor sylweddol ar gyfer pennu os yw mudwyr o Loegr yn penderfynu ymrwymo eu hunain i'r Alban neu beidio. Gellir dadlau y gallai'r un peth fod yn wir yn achos pobl ifanc Cymru. Mae modd felly canolbwyntio ar gymdeithasoli hwyr yn hytrach na chynnar, lle mae pobl yn mabwysiadu hunaniaeth yn wahanol i'r un y ganwyd nhw iddi. Er enghraifft yn yr achos yma, mae nifer o Saeson yn gobeithio mabwysiadu'r hunaniaeth Albanaidd ac o ganlyniad yn gweld eu hunain fel Albanwyr, ond maent yn cael eu llesteirio gyda'r rhwystredigaethau sydd o'u blaenau. Mae canlyniadau o gyfweliadau Bond, Charsley a Grundy yn dangos ystyriaethau pwysig ar gyfer yr astudiaeth bresennol. Roedd y cyfweliadau wedi eu gwneud gyda'r graddedigion hynny nad oeddynt yn hanu o'r Alban, ond a oedd wedi aros neu ddychwelyd i'r wlad i fyw, yn dangos eu bod yn teimlo'n gartrefol yn y wlad. Roedd hyn yn fwyaf amlwg gyda'r unigolion hynny oedd â chysylltiadau teuluol yn yr Alban, neu a oedd wedi byw yn y wlad ers cychwyn eu hastudiaethau. Dadleuwyd fod i'r grŵp sydd yn ddiffygiol yn yr adnoddau hynny o safbwynt man geni neu linach deuluol ddatblygu hunaniaeth drwy ffyrdd eraill. Fel awgrymodd un o'r ymatebwyr:

> "....I think part of the reason I would never really feel Scottish is because I don't really think other people would ever really see me as Scottish." (NSIS 11) 2008: 8

Er bod ymfudwyr yn gallu datblygu i fod yn "*Settlers*," heb fabwysiadu hunaniaeth genedlaethol newydd, mae hi'n anodd gwneud hyn pan mae gwreiddiau cenedlaethol yn profi gwahaniaethu ar ran y gymuned fwyafrifol. Mae profiadau o "Anti-Englishness," wedi bod yn amlwg yn rhai o ymatebion y graddedigion. Bu'r cysyniad o ddosbarth cymdeithasol

hefyd yn ffactor pwysig fel yr oedd yr holiadur meintiol yn dangos, gyda graddedigion a oedd wedi mynychu ysgolion y wladwriaeth yn hytrach na phreifat, a'r rhai oedd yn dod i'r Alban o Ogledd Lloegr, yn hytrach na'r De, yn fwy tebygol o aros, neu ddychwelyd i'r Alban. Gall bodolaeth yr anghysondeb rhwng dinasyddiaeth ffurfiol a bod yn perthyn, fod yn nodwedd sylweddol, nid yn unig i'r rhai sy'n mudo rhwng gwladwriaethau, ond hefyd i'r rhai sy'n croesi ffiniau cenedlaethol o fewn yr un wladwriaeth. Gall yr unigolion hyn brofi gwaharddiad sy'n gysylltiedig â'u gwreiddiau a hunaniaethau cenedlaethol, a gall hyn effeithio eu symudiadau ar gyfer y dyfodol. (Bond, Charsley a Grundy 2008: 10). Fel yng ngwaith Jones (2009), mae'r awduron wedi ystyried ffactorau economaidd yn ogystal, ond roeddynt hefyd yn ymwybodol o ffactorau allanol oedd yn effeithio ar y graddedigion oedd yn dewis gadael. O safbwynt yr ymchwil presennol, bydd yn bwysig ystyried y ffactorau allanol hyn ac i ba raddau y maent yn effeithio ar rwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc, a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae ymchwil gan lywodraeth yr Alban[4], yn pwysleisio nad yw'r bobl ifanc sy'n hanu o'r Alban wledig yn grŵp cymdeithasol unffurf; hynny yw, mae eu profiadau'n amrywio yn ôl eu hardal, cefndiroedd cymdeithasol, a'u gender. Er hynny, mae themâu cyffredin yn ymddangos, sef fod allfudiaeth pobl ifanc yn cael ei sbarduno gan yr angen i symud ar gyfer addysg uwch a chyfleoedd gwell ar gyfer cyflogaeth. Mae nifer o bobl ifanc wedi mynegi eu bod yn teimlo fod angen gadael ardaloedd gwledig er mwyn ceisio am gyfleoedd sy'n datblygu eu sgiliau a'u cymwysterau. Fel awgrymwyd gan Jones a Jamieson (2008:3) pan mae rhieni eu hunain yn fudwyr, mae'r plant yn teimlo pwysau i adael. Mae astudiaeth Jones a Jamieson yn awgrymu fod y bobl ifanc hynny'n rhagweld eu hymadawiad o oed ifanc, ac mae'r bobl ifanc hyn yn debygol o fod â rhieni sydd wedi cael addysg uwch eu hunain. Meddai'r adroddiad:

In giving voice to young people's attitudes to migration and staying, these studies reveal an often repeated view that leaving the area is evidence of seeking to make the most of yourself and being open to change, while staying is evidence of arrested development, lack of ambition and closed attitudes (Jones a Jamieson, 2008:3).

---

[4] Drivers of Youth Out-Migration from Rural Scotland, key issues and Annotated Bibliography (2008) http://www.scotland.gov.uk/Publications/2008/01/22131922/0 Cyrchwyd 17/01/10

Mae gwaith Ermisch a Belot (2008) yn canolbwyntio ar symudoledd daearyddol a'r cysylltiad rhwng symudiad blaenorol a chyfoes. Maent yn dadlau mai un o'r prif resymau dros y tueddiadau yw cryfder cysylltiadau cymdeithasol tu allan i'r cartref neu'r teulu. Awgrymwyd mai un o'r darganfyddiadau pennaf a welwyd mewn astudiaethau ar symudoledd daearyddol yn y deugain mlynedd diwethaf, yw bod rhai pobl yn fwy tueddol o symud nag eraill (Ermisch a Belot, 2008:1). Mae'r papur yn seiliedig ar y cysyniad fod lles unigolion yn ddibynnol ar nifer y cyfeillion 'agos,' yn ogystal â threuliant. Gall symudiad daearyddol olygu cynnydd mewn incwm ond gyda chost o ddifa cyfeillgarwch o ganlyniad i'r gost o geisio eu cynnal dros rhai milltiroedd (Ermisch a Belot 2008:1). Prif theori'r awduron felly yw bod y penderfyniad yma'n un cymhleth wrth feddwl am symudoledd daearyddol. Nid yw'r papur yn canolbwyntio ar rwydweithiau cymdeithasol; hynny yw, lle mae modd adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol eilaidd drwy rhai cynradd er mwyn ceisio am waith neu gysylltiadau a gwybodaeth. Yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar y syniad 'cynhenid,' o gyfeillgarwch, sef mai'r budd mwyaf yw rhyngweithio gyda chyfeillion. Mae'r ymchwil yn defnyddio data o'r BHPS neu'r 'British Household Panel Survey,' (2007) gan ddangos fod symudoledd daearyddol yn torri rhwydweithiau cyfeillgarwch lleol a bod y rhai sy'n symud yn debygol o gael rhwydweithiau llai, sydd yn effeithio eu symudoledd ar gyfer y dyfodol. Defnyddiwyd data o'r BHPS er mwyn cynhyrchu cyfres unigryw o newidynnau oedd yn eu galluogi i geisio mesur 'dwyster,' cysylltiadau cyfeillgarwch a'u pwysigrwydd lleol. Darganfuwyd fod rhwydweithiau cyfeillgarwch lleol ag effaith negyddol ar batrymau symudoledd gan ganlyniadau fod cael tair, yn hytrach na dwy, cyfaill lleol yn lleihau'r tebygolrwydd o symud yn bellach na ugain milltir, o 0.021 i 0.015. (Ermisch a Belot 2008:12). Wrth ystyried patrymau integreiddio felly, gwelwyd fod cysylltiadau a chyfeillgarwch lleol yn cael effaith ar batrymau symudoledd a all bod yn wir am y bröydd Cymraeg. Gellir dadlau fod pobl ifanc sydd yn hanu o deuluoedd uniaith Saesneg neu iaith gymysg felly yn debygol o sefydlu cysylltiadau a rhwydweithiau cymdeithasol o'r un iaith ac felly yn annhebygol o wneud cysylltiadau lleol cryf. Byddai hyn, o ganlyniad, yn gallu golygu lefelau neu batrymau o symudoledd uchel, o'i gymharu â pherson ifanc sydd wedi eu geni i deulu uniaith Gymraeg.

**Effeithiau Mudo ar Iaith ac Integreiddio**

Awgrymodd Hywel M Jones ei bod yn bosib bod cyfalaf cymdeithasol yn effeithio ar benderfyniadau unigolion i aros, neu i allfudo, o'u cymunedau. Mae'r term 'cyfalaf cymdeithasol' yn cyfeirio at gysylltiadau oddi mewn a rhwng rhwydweithiau cymdeithasol, ac mae tybiaeth po fwyaf o gysylltiadau rhwydwaith sydd gan unigolyn mewn cymdeithas, yna gorau oll yw hynny, oherwydd y bydd yn sicrhau integreiddio cymdeithasol a chydymffurfio â norm y gymdeithas honno. Yn achos y Bröydd Cymraeg, gellir tybio y byddai cynyddu 'cyfalaf cymdeithasol' unigolyn, yn cynnwys dysgu'r Gymraeg, er mwyn sicrhau'r cysylltiadau rhwydweithiau mwyaf bosib a thrwy hynny integreiddiad â'r gymuned. Derbynnir yn gyffredinol bod cymdeithas gydlynol, integredig yn beth da. Fodd bynnag, mewn cymunedau ble mae mwy nag un grŵp diwylliannol/ieithyddol, gwelir y gall cyfalaf cymdeithasol gael ei gyfyngu oddi mewn i'r grŵp, a heb wneud cysylltiadau ar draws y grŵpiau hyn, gall arwain at gymunedau rhanedig ac unigolion ynysig. Mae Robert Putnam (2006) wedi nodi sut y gall mewnfudiaeth arwain at greu cymunedau rhanedig, ble nad yw unigolion o wahanol grŵpiau diwylliannol yn ymddiried yn ei gilydd, a ble maent yn cynnal rhwydweithiau cymdeithasol ar wahân. Dangosodd astudiaeth gan Morris (1989) o un gymuned yn Ynys Môn yn yr 1980au bod tystiolaeth o rwydweithiau cymdeithasol ar wahân yn achos y Cymry Cymraeg brodorol, y mewnfudwyr di-Gymraeg a'r mewnfudwyr Cymraeg. Tra bod peth rhwydweithio rhwng y brodorion Cymraeg a'r mewnfudwyr Cymraeg, nid oedd fawr ddim rhwydweithio gan y naill grŵp na'r llall o siaradwyr Cymraeg gyda'r mewnfudwyr Saesneg, a oedd yn cynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol tu allan i'r gymuned gan fwyaf. Yn astudiaeth Jones (2010), awgrymir y gallai dysgu Cymraeg i fewnfudwyr gynyddu eu cyfalaf diwylliannol unigol, gan roddi iddynt fwy o gysylltiadau rhwydweithiau cymdeithasol yn eu cymunedau eu hunain, a thrwy hynny wella eu graddfa o integreiddio. Roedd peth tystiolaeth i gefnogi hyn yn astudiaeth Morris.

Yn ei hastudiaeth ar un gymuned yn Ynys Môn, mae Morris yn defnyddio dull dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol fel ei dull dewisol o gynnal ymchwil maes. Nodir bod rhai cysylltiadau cymdeithasol yn gryfach neu'n fwy pwysig nag eraill, megis cysylltiadau teuluol agos, a gwelir hefyd bod rhai rhwydweithiau'n fwy dwys nag eraill - hynny yw, mae'r bobl sydd o fewn rhwydwaith yr unigolyn dan sylw hefyd yn adnabod ei gilydd. Awgryma Morris

fod unigolion sydd wedi byw yn yr un lle am amser maith yn fwy tebygol o fod â rhwydweithiau o ddwysedd uchel na phobl sydd wedi mudo i'r ardal ers cyfnod cymharol fyr (Morris, 1989: 100). Roedd yr ardal astudiaeth wedi gweld mewnfudo dwys yn digwydd dros yr 20 mlynedd flaenorol, ac roedd peth canfyddiad ymhlith y boblogaeth frodorol fod y mewnfudwyr yn dod i Fôn ac yn 'dwyn ein swyddi'. Roedd y polareiddio cymdeithasol yn y gymuned yn digwydd yn bennaf ar sail iaith. Astudiwyd tri grŵp o bobl: roedd Grŵp 1 yn cynnwys siaradwyr brodorol dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, Grŵp 2 yn cynnwys mewnfudwyr dwyieithog Cymraeg a Saesneg, a Grŵp 3 yn cynnwys mewnfudwyr uniaith Saesneg. Tybiwyd mai gan y grŵp cyntaf fyddai'r rhwydweithiau cymdeithasol mwyaf dwys, gan eu bod wedi byw yn y gymuned hiraf. O ganlyniad i'w amser cyfyngedig yn y gymuned astudiaeth, tybiwyd y byddai gan Grŵp 2 a 3, lai o gysylltiadau ac felly rhwydweithiau oedd yn llai, ac yn llai dwys, na Grŵp 1. Yn unol â hynny, cafodd tair damcaniaeth eu ffurfio. Y ddamcaniaeth gyntaf oedd y byddai rhwydweithiau cymdeithasol yn cael eu ffurfio o fewn yr ardal leol yn ddibynnol ar iaith, cysylltiadau lleol a hyd fyw yn yr ardal. Yr ail ddamcaniaeth oedd y byddai rhwydweithiau Grŵp 1 yn dangos rhwydweithiau cryfach, yna Grŵp 2 wedyn, ac mai gan Grŵp 3 y byddai'r rhwydweithiau mwyaf llac. Defnyddiwyd y mewnfudwyr, a oedd yn siarad Cymraeg, fel grŵp rheoli. Os oedd mwy o debygrwydd rhwng Grŵp 2 a Grŵp 3, yna byddai cysylltiadau lleol a'r hyd amser yr oeddynt wedi byw yn yr ardal yn cael eu hystyried fel y ffactorau pwysicaf wrth ffurfio rhwydweithiau. Ond, os oedd mwy o debygrwydd rhwng Grŵp 1 a Grŵp 2, yna byddai iaith yn cael ei ystyried fel ffactor pwysicach.

Lluniwyd 3 rhestr o'r siaradwyr Cymraeg lleol, y mewnfudwyr oedd yn siarad Cymraeg, a'r mewnfudwyr oedd yn uniaith Saesneg. Tynnwyd yr enwau o gofrestr etholiadol a lluniwyd sampl ar hap, wedi ei rannu yn ôl rhyw. Gweinyddwyd holiadur ffurfiol i bob ymatebydd, er mwyn casglu gwybodaeth am hanes personol, perthnasau teuluol, gwaith, iaith, addysg aelodaeth i glybiau a chyfundrefnau, oed ac yn y blaen. Yn ychwanegol at hynny, gofynnwyd iddynt gadw dyddiadur, am wythnos, o'r holl gysylltiadau a wnaed yn ystod yr amser yma, a'r iaith a ddefnyddiwyd gyda phob cysylltiad. Yn achos Grŵp 3, a oedd yn siarad Saesneg yn unig, gofynnwyd iddynt nodi os oedd eu cysylltiadau'n medru siarad Cymraeg neu beidio. Trefnwyd ymweliad ychwanegol er mwyn trafod cynnwys y dyddiaduron, a chymerodd 40 o ymatebwr yn rhan o'r ymchwil (Morris, 1989:103).

Roedd y grŵpiau'n debyg iawn o safbwynt eu dosbarthiad rhyw ac oedran, er bod ychydig mwy o ymatebwyr wedi ymddeol yn sampl Grŵp 3, tra bod sampl Grŵp 2 ychydig yn ieuengach. Roedd aelodau grŵp 1 wedi eu geni yn y gymuned, tra bod tri chwarter Grŵp 2 wedi eu geni o fewn 15 milltir i'r ardal, ac aelodau Grŵp 3 wedi eu geni rhwng 16 a 50 milltir. Awgrymwyd y byddai cysylltiadau teuluol yn ffurfio rhan bwysig o rwydweithiau Grŵp 2, fel gydag aelodau Grŵp 1. Oherwydd bod aelodau Grŵp 3 yn fewnfudwyr i'r gymuned, ni ddisgwylid y byddai cysylltiadau rhwydweithiau teuluol cyn bwysiced gan ei bod y debygol fod aelodau eu teuluoedd yn byw ymhell. Gwelwyd bod aelodau Grŵp 1 wedi byw yn yr ardal am gyfartaledd o 30 mlynedd neu fwy, Grŵp 2 (mewnfudwyr Cymraeg eu hiaith) am gyfartaledd o 9 mlynedd a Grŵp 3 (mewnfudwyr uniaith Saesneg) am 12 mlynedd. Roedd hyn yn cynnig achos diddorol – os oedd hyd yr amser roeddynt wedi byw yn y gymuned y ffactor pwysicaf wrth ffurfio rhwydweithiau, yna byddai disgwyl i aelodau o Grŵp 3 fod â rhwydweithiau mwy dwys ac ehangach nag aelodau o Grŵp 2. Gwelwyd bod oddeutu hanner aelodau Grŵp 2 wedi symud i'r ardal oherwydd bod stad newydd o dai wedi ei adeiladu yno, a'u bod wedi methu â chael tŷ yn eu hardaloedd genedigol. Nododd traean o'r grŵp eu bod wedi symud oherwydd bod ganddynt berthnasau'n byw yno, ac roedd y gweddill wedi symud er mwyn bod yn agosach i waith. O safbwynt aelodau Grŵp 3, roeddynt wedi amlygu rhesymau amrywiol dros fudo i'r pentref. Roedd bron i hanner wedi symud er mwyn bod yn agos i deulu oedd wedi symud i'r ardal ynghynt, roedd traean wedi symud o ganlyniad i resymau gwaith ac roedd y gweddill wedi symud er mwyn byw mewn ardal ddeniadol ac i fyw bywyd mwy distaw.

Er bod astudiaeth Morris yn delio gyda grŵp poblogaeth wahanol i'r ymchwil hwn, mae modd gwneud rhai cymariaethau, hynny yw, mae modd cynnig yr un rhagdybiaeth am berthnasau cymdeithasol pobl ifanc. Er enghraifft, gwelwyd yng ngwaith Morris fod aelodau Grŵp 3 yn perthyn i lai o glybiau a chymdeithasau, ac mae hi'n ddiddorol nodi fod y rhai hynny yr oeddynt yn perthyn iddynt wedi eu lleoli mewn pentrefi neu drefi eraill. Roedd iaith y clybiau hefyd yn destun anfodlonrwydd i aelodau'r grŵp yma, fel yr oedd agweddau ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Gellir dadlau fod aelodaeth o glybiau a chymdeithasau lleol yn un mesur o integreiddio cymdeithasol, ond nid oedd yn ymddangos fod aelodau Grŵp 3 wedi integreiddio'n dda. Felly dywedodd un atebydd:

I don't belong to any clubs here. The Welsh don't want us there, so they speak Welsh all the time. Back home I used to be out all the time. (Mrs H. 70 Oed) (Morris, 1989:107)

O safbwynt tystiolaeth o'r dyddiaduron, gwelwyd fod gan y siaradwyr Cymraeg (Grŵpiau 1 a 2) fwy o gysylltiad â siaradwyr Cymraeg eraill, tra bod gan y di-Gymraeg (Grŵp 3) fwy o gysylltiad â phobl ddi-gymraeg eraill (Morris, 1989:110). Ychydig iawn o rwydweithiau cryf a sefydlwyd ar draws ffiniau iaith. Roedd y perthnasau cryfaf o fewn rhwydweithiau'r ymatebwyr yn digwydd gyda phobl o'r un grŵp ieithyddol â nhw eu hunain.

Dengys canlyniadau Morris rai o effeithiau cymdeithasol mewnfudo ar un gymuned Gymraeg. Dengys i ddechrau mai gan y siaradwyr Cymraeg lleol oedd y rhwydweithiau cryfaf a mwyaf dwys, a'r mewnfudwyr uniaith Saesneg oedd â'r rhwydweithiau gwanaf a lleiaf. Roedd y grŵp o fewnfudwyr Cymraeg eu hiaith yn disgyn rywle rhwng y ddau. Roedd perthnasau teuluol yn ffactor pwysig wrth ffurfio rhwydweithiau, ac roedd hyd yr amser yr oedd yr ymatebwyr wedi byw yn Ynys Môn hefyd yn ddylanwad. Awgrymwyd fod y siaradwyr Cymraeg wedi medru integreiddio'n well i'r gymuned leol oherwydd eu bod yn gallu cymryd rhan yn y clybiau a'r cymdeithasau, rhywbeth nad oedd y grŵp o fewnfudwyr uniaith Saesneg yn gallu gwneud oherwydd eu dealltwriaeth gyfyngedig o'r iaith Gymraeg. Roedd hyn wedi arwain at sefyllfa o dda grŵp iaith yn byw ar wahân i'w gilydd yn gymdeithasol:

It was apparent that the two language groups, although living side by side within the locality, were interacting socially quite separately. (Morris, 1989:114)

**Newid Economaidd, Mudo ac Iaith**

Effaith amlwg arall mae mewnfudiaeth ac allfudiaeth yn ei gael yw ar yr economi lleol. Eisoes awgrymwyd bod pobl ifanc yn fwy tebygol o symud na phobl hŷn, a nodwyd hefyd bod y fewnfudiaeth i Gymru a'r bröydd Cymraeg yn tueddu i fod yn bobl hŷn, nad ydynt o anghenraid yn medru cyfrannu tuag at yr economi. Mae i hyn oblygiadau dwys o ran tyfu'r economi yn lleol, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hyn trwy hyrwyddo cynlluniau fel Llwybro-Routes i geisio denu pobl ifanc i aros yn y cefn gwlad, neu i ddychwelyd iddo (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae Cyngor Gwynedd yn ei Gynllun Gwella 2007 nodi o dan adran "Datblygu Strategaeth a Chynlluniau Strategol i Ogledd Orllewin Cymru" pa mor bwysig i ddatblygiad economaidd yw arafu'r golled o bobl

ifanc dalentog o'r sir (Cyngor Gwynedd, 2007:18). Er bod allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd genedigol yn nodwedd amlwg o gymunedau ledled Prydain, mae allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg traddodiadol yng Nghymru yn cynnig achos arbennig o bwysig a diddorol, oherwydd yr effaith y gall hyn ei gael ar barhad yr iaith Gymraeg (Jones, 2010). Gellir ychwanegu ei fod yn cael effaith benodol hefyd o wanio datblygiad yr economi lleol, a heb waith addas, mae'n anodd i ieuenctid aros yn eu bröydd eu hunain hyd yn oed os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Oherwydd rhesymau fel hyn, neilltuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £1m o arian ar gynllun peilot i roi hwb i'r iaith Gymraeg ac adfywio economi cymunedau yng nghadarnleoedd yr iaith. Yn ogystal â gwario ar Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, nododd y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones, y byddai'r Llywodraeth yn gwario ar gynllun ym Mlaenau Ffestiniog a fyddai'n rhoi pwyslais ar sut y gall yr iaith "gyfrannu at gefnogi gobeithion y gymuned o ran datblygiad economaidd," tra yn ardal Peblig yng Nghaernarfon byddai'r cynllun yn golygu hybu sgiliau yn y Gymraeg wrth chwilio am waith. Hefyd mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi pecyn ariannu tair blynedd bellach ar gyfer prosiectau gwledig Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys tri mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf, sef Pen Llŷn, pentrefi ucheldir Tregaron, a Bro Ddyfi.

Astudiodd Morris (1995) effaith ailstrwythuro economaidd ar iaith a dosbarth cymdeithasol yng Ngwynedd, ac mae'n nodi'r ffordd yr arweiniodd cylchrediad newydd o gyfalaf i'r ardal rhwng yr 1960au a'r 1980au at gylchrediad newydd o bobl. Roedd y dylifiad hwn yn cynnwys canran uchel o bobl ddi-gymraeg ac mae Morris yn amlinellu sut y bu i hynny effeithio ar sefydliadau cymdeithasol pwysig y teulu a'r gymuned. Un effaith a welwyd oedd cynnydd mewn rhyng-briodi rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg ac yn sgil hynny gwelwyd effaith ar allu'r teulu i atgynhyrchu'r Gymraeg. Er enghraifft, nodwyd na chafodd y Gymraeg ei hatgynhyrchu mewn 40 y cant o deuluoedd yng Ngwynedd lle mai'r tad yn unig oedd yn siarad yr iaith, a 32 y cant o deuluoedd lle mai'r fam yn unig oedd yn siarad yr iaith. Effaith bellach fu newid yng nghyfansoddiad ieithyddol cymunedau a oedd wedi arfer bod yn rhai traddodiadol Gymraeg, gan leihau'r cyfle i bobl allu siarad yr iaith yn gymdeithasol. Awgrymodd Morris y byddai hynny'n cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn y tymor hir, gan arwain at fethiant y gymuned i atgynhyrchu'r iaith.

Mewn gwaith diweddarach, mae Morris yn ailymweld â'r thema hon mewn gwaith a wnaeth ar y cyd â Glyn Williams. Yn y gwaith hwn, mae Williams a Morris yn atgyfnerthu rhai o'r canfyddiadau a wnaeth Jones (2010) o safbwynt yr iaith Gymraeg a strwythurau cymdeithasol. Dadleua Williams a Morris bod strwythur cymunedol yn cael ei effeithio gan fewnfudiaeth pobl uniaith ac allfudiaeth pobl ddwyieithog:

On the other hand, community structure, in the sense of the existence of local institutions, their membership and language of practice, is more directly influenced by the in-migration of monoglots and out-migration of bilinguals, especially where the support structures make learning the language that much more difficult or unnecessary (Williams & Morris, 2000:88)

Mae Williams a Morris yn dadlau fod newidiadau economaidd yn cael effeithiau pell gyrhaeddo ar y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu'r iaith, wrth i'r teulu a'r gymuned wanio fel sefydliadau cymdeithasol Cymraeg, ac i sefydliadau newydd fel addysg a'r cyfryngau ddod yn fwy amlwg fel lleoliadau cynhyrchu'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth ddi-gymraeg. Un o'r agweddau a welir yn sgil gwanio'r defnydd teuluol a chymunedol o'r Gymraeg yw bod pobl yn llai tebygol o'i defnyddio'n ddyddiol o bosib oherwydd diffyg cyfle. Er enghraifft, astudiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg faint o siaradwyr Cymraeg rhugl Cymru oedd yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol, a chanfuwyd bod canrannau cymharol uchel yn ei defnyddio yng Ngwynedd a Cheredigion, tra bod y canrannau a oedd yn ei defnyddio'n ddyddiol mewn rhannau o dde Cymru yn isel iawn. Holwyd yr atebwyr pa iaith oeddynt wedi ei defnyddio yn y sgwrs ddiwethaf a gawsant, a gwelwyd bod 71 y cant o siaradwyr Cymraeg Gwynedd a 58 y cant o siaradwyr Cymraeg Ceredigion wedi siarad Cymraeg yn y sgwrs ddiwethaf a gawsant, o'i gymharu â dim ond 4 y cant yn sir Fynwy a Chasnewydd, 10 y cant yn y Rhondda, ac 11 y cant yn Sir Benfro. Un o effeithiau diffyg defnydd cyson o'r Gymraeg yw bod pobl yn colli eu hyder i siarad yr iaith, sydd yn ei dro yn arwain at lai o ddefnydd ohoni; mae'n creu cylch dieflig.

O safbwynt pobl ifanc, gellir dadlau bod eu hyder mewn defnyddio'r Gymraeg yn ffactor allweddol mewn integreiddio cymdeithasol, ac o'r herwydd edrychir yn awr ar adroddiad sydd wedi edrych yn fanwl ar y defnydd a wna pobl ifanc o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol, ynghyd â'u hyder mewn siarad yr iaith gyda gwahanol fathau o bobl. Cynhaliwyd yr astudiaeth 'Rhwydweithiau Cymdeithasol a Defnydd Iaith Pobl

Ifanc.'(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006) rhwng 2003-2005, gan edrych ar rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith 24 o bobl ifanc oed 13-17 mewn 12 ardal ar draws Gymru, sef cyfanswm o 288 o bobl ifanc. Roedd yr ardaloedd yn cynnwys Aberystwyth, Abergwaun, Amlwch, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Llangefni, Llanrwst, Machynlleth, Pwllheli, Rhydaman Y Bala ac Ystradgynlais. Dewiswyd y sampl o bobl ifanc i adlewyrchu eu gallu o'r iaith Gymraeg yn ogystal â gallu eu rhieni, gyda chategorïau'r rhieni'n cynnwys tri grŵp: y ddau riant yn siarad Cymraeg, un rhiant yn siarad Cymraeg a'r llall yn ddi-gymraeg, neu'r ddau riant yn siarad Saesneg yn unig. Cafodd yr ymatebwyr eu dewis ar hap. O'r 288 o ymatebwyr, roedd 76 y cant wedi cael eu geni a'u magu yn eu hardaloedd presennol, 11 y cant wedi symud yno o ardaloedd eraill yng Nghymru a 14 y cant wedi symud yno o du allan i Gymru. (Morris, 2010:84) Roedd tua dwy ran o dair o rieni'r ymatebwyr, 59 y cant o dadau a 62 y cant o famau, yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu dda, tra doedd gan 18 y cant o dadau ac 15 y cant o famau heb ddim gwybodaeth o'r iaith o gwbl. Er hynny, 35 y cant o'r holl ymatebwyr yn unig a nododd mai Cymraeg oedd iaith y cartref, tra'r oedd 43 y cant yn siarad Saesneg a 22 y cant yn defnyddio'r ddwy iaith. Nodwyd bod eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn amrywio, yn enwedig o fewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol. Darganfuwyd fod yr ymatebwyr yn teimlo'n fwyaf cyfforddus gyda phobl yr oeddynt yn eu hadnabod yn dda, ond roedd hyn yn lleihau'n sylweddol gyda'r bobl nad oeddynt yn eu hadnabod. Nid oedd hi'n syndod fod hyder y sampl yn gysylltiedig gyda'u gallu ieithyddol, ac er bod pob un â gwybodaeth am y Gymraeg a bod 77 y cant ohonynt yn gallu siarad yr iaith, roedd llawer ohonynt yn anghyfforddus yn ei defnyddio gyda phobl nad oeddynt yn eu hadnabod yn dda. Roedd 99 y cant o'r siaradwyr Cymraeg rhugl yn hyderus, neu'n hyderus iawn, wrth siarad Cymraeg gyda ffrindiau agos, ond roedd hyn yn lleihau i 76 y cant gyda phobl ifanc nad oeddynt yn nabod yn dda iawn. Gwelwyd yr ymatebwyr yn siarad Cymraeg yn aml gydag athrawon, ond yn anaml gyda ffrindiau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn dueddol o ddefnyddio mwy o Saesneg na Chymraeg ym mhob sefyllfa (Morris, 2010:96)

**Ffigwr 1: Graff a Ddengys yr Hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg**




Morris.D: Young People's Social Networks and Language Use: The Case Of Wales. 2009:7

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd o'r dyddiaduron yn dangos fod yr ymatebwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gyda'u teuluoedd a'u grŵpiau cyfoedion neu ffrindiau agos. Er hynny, fel y nodwyd yn yr adroddiad, nid oedd hyn yn awgrymu nad oedd y gymuned, o fewn y cyd-destun sefydliadol, yn chwarae rhan flaenllaw wrth ystyried pa iaith oedd yr un normadol. Y mwyaf yn y byd yr oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gymuned, y mwyaf oedd y cyfle a'r duedd i aelodau'r rhwydweithiau cymdeithasol ei defnyddio. Awgrymwyd bod teipoleg o gymunedau yn dod i'r amlwg yng Nghymru, sef cymunedau a oedd yn cymathu siaradwyr Cymraeg, cymunedau a oedd yn cael eu cymathu ble mai'r iaith Saesneg oedd y norm, a chymunedau lle'r oedd dau grŵp iaith ar wahân i'w gilydd. Yn achos y cyntaf, gwelwyd bod Pwllheli, y Bala, Llandysul, Aberteifi a Llangefni yn gymunedau lle'r oedd defnydd o'r Gymraeg yn uchel a lle'r oedd pwysau yn dod o du'r grŵp cyfoedion, y gymuned a chlybiau a chymdeithasau ar i'r bobl ifanc siarad Cymraeg. Yn achos yr ail deip, yr oedd y grŵp o siaradwyr Cymraeg ifanc yn cael eu cymathu'n gyflym i gyd-destun normadol lle mai'r Saesneg oedd y brif iaith. Heblaw am yr ysgol, nid oedd y bobl yn gwneud fawr o ddefnydd o'r Gymraeg mewn unrhyw gyd-destun cymdeithasol, ac roedd Amlwch, Abergwaun, Ystradgynlais a Rhydaman yn enghreifftiau o'r math hwn o

gymunedau. Roedd y trydydd achos, lle'r oedd y grŵpiau iaith yn bodoli ar wahân i'w gilydd i'w canfod yn Llanrwst, Machynlleth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth (Morris, 2010:96-97).

Mae'r astudiaeth hon yn rhoi mewn gweledìad i rwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, ac yn awgrymu bod gwahanol ffactorau yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, yn eu plith hyder y siaradwr, y defnydd a wneir o'r Gymraeg ar yr aelwyd, a defnydd addysgol a chymunedol. Tra'i bod yn ymddangos fod pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio fwy yn ieithyddol mewn rhai cymunedau, eto gwelir bod rhai eraill lle mae'r grŵpiau iaith yn bodoli ar wahân i'w gilydd. Mae'r enghraifft olaf hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Morris yn Ynys Môn (1989) lle gwelwyd bod mewnfudwyr Cymraeg eu hiaith yn integreiddio mwy i'r gymuned leol na'r mewnfudwyr di-Gymraeg.

**Cloi**

Yn y bennod gyntaf, trafodwyd y llenyddiaeth gefndirol briodol er mwyn sefydlu'r maes astudiaeth, gan edrych ar waith Hywel M Jones sy'n sail i'r ymchwil presennol, yn enwedig ei ganfyddiad bod pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru oddeutu bedair gwaith yn fwy tebygol o fudo allan o Gymru nag yw pobl ifanc a anwyd yng Nghymru. Amlinellwyd nifer o astudiaethau a oedd yn edrych ar wahanol agweddau ar fewnfudo ac allfudo poblogaeth, a'r ffactorau economaidd a chymdeithasol perthnasol. Gwelwyd yng ngwaith Drinkwater a Blackaby sut mai pobl ifanc â chymwysterau addysg uchel yw'r rhai mwyaf tebygol o allfudo. Ystyriwyd patrymau allfudo ymhlith graddedigion yn yr Alban yng ngwaith Bond, Charsley a Grundy, a gwelwyd o waith Jones & Jamieson mai'r syniad o 'gael ymlaen yn y byd' oedd yn gyrru pobl ifanc i allfudo.

Yna edrychwyd ar effaith mudo ar integreiddio cymdeithasol ac iaith, gan ystyried gwaith Morris (1989) ar fewnfudo, iaith a rhwydweithiau cymdeithasol mewn un gymuned yn Ynys Môn. Yno gwelwyd bod dau grŵp iaith yn bodoli'n gyfochrog ond ar wahân i'w gilydd, a oedd yn awgrymu nad oedd y mewnfudwyr i'r ardal yn integreiddio am resymau ieithyddol. O safbwynt y gwaith ymchwil presennol, gellir dadlau bod hyn yn arwyddocaol, os yw'n wir

fod diffyg integreiddio yn arwain at allfudo. Yna ystyriwyd rhai rhesymau strwythurol sydd tu ôl i'r patrymau o symud poblogaeth, gan edrych yn fyr ar y ffordd mae ailstrwythuro economaidd wedi effeithio ar batrymau mewnfudiaeth, patrymau teuluol a chymunedol, ac effaith hynny ar y Gymraeg. Yn olaf, ystyriwyd astudiaeth a gynhaliwyd ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn eu rhwydweithiau cymdeithasol, a'r modd yr oedd hynny'n arwain at wahanol raddau o integreiddiad cymunedol. Gwelwyd bod tri math o gymunedau'n ymddangos; yn gyntaf, cymunedau a oedd yn cymathu mewnfudwyr ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol; yn ail, cymunedau eraill sy'n newid i ddefnyddio'r Saesneg fel y brif iaith gymunedol; ac yn drydydd, cymunedau eraill sy'n cynnwys y ddau grŵp iaith ar wahân.

Yn y bennod nesaf, symudir ymlaen i edrych ar nifer o'r cysyniadau allweddol sydd wedi deillio o'r drafodaeth uchod, gan osod y drafodaeth honno o fewn cyd-destun theoretaidd, er mwyn gallu egluro rhai o'r patrymau a welwyd ac i osod sail glir a rhesymegol ar gyfer y gwaith maes dilynol.

# Pennod 2

# Y Cefndir Theoretaidd a Chysyniadau Allweddol

## Cyflwyniad

Fel fframwaith i'r traethawd, mae'n hanfodol amlinellu'r fframwaith theoretaidd y bwriedir ei ddefnyddio yn y traethawd, ynghyd â'r cysyniadau allweddol sy'n sail i'r gwaith maes. Defnyddir theori cymdeithaseg iaith leiafrifol a ffurfiwyd gan Williams a Morris (2000). Mae'r gwaith hwn yn defnyddio'r persbectif neo-Farcsaidd i drafod sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru heddiw, ac yn nodi bod grŵpiau iaith yn grŵpiau cymdeithasol sy'n gweithredu oddi mewn i gyd-destun economaidd a chymdeithasol. Trafodir y cysyniad o fri ieithyddol, a'r modd mae hynny'n ei dro'n effeithio ar y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith, a'r defnydd o iaith. Bydd hyn yn werthfawr wrth fynd ati i drafod y bobl ifanc sydd wedi mudo i mewn i'r bröydd Cymraeg a'u dyheadau a disgwyliadau i'r dyfodol, ynghyd â goblygiadau hynny o safbwynt cynhyrchu ac atgynhyrchu'r Gymraeg.

Yna edrychir ar gysyniadau sy'n allweddol i'r ymchwil maes a wneir yn y traethawd hwn, gan gynnwys y gymuned a'r bröydd Cymraeg, effeithiau newidiadau economaidd ar batrymau cynhyrchu ac atgynhyrchu iaith, a mudo ac allfudo. Yma yn ogystal bydd ystyriaeth i raddfeydd integreiddio cymdeithasol pobl ifanc a all fod yn ffactor allweddol wrth ystyried allfudo. Ond yn gyntaf mae angen amlinellu'r theori sy'n sail i'r astudiaeth faes arfaethedig, er mwyn cael fframwaith esboniadol i egluro'r canfyddiadau a wneir yn yr ymchwil maes o law.

## Cynhyrchu ac Atgynhyrchu Grŵpiau Iaith Leiafrifol

Gan dynnu ar waith theoretig cynharach gan Williams (1992), mae Williams a Morris (2000) yn cychwyn eu trafodaeth am gymdeithaseg grŵpiau iaith leiafrifol trwy nodi bod y

drafodaeth ar gymdeithaseg iaith yn deillio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pryd y dechreuodd cymdeithaseg gael ei ffurfio fel gwyddor wleidyddol. Prif amcan a bwriad sylfaenwyr y wyddor oedd cynnal trefn gymdeithasol, trwy gyfrwng y gwladwriaethau newydd a oedd yn ymddangos ar y pryd. Golygai twf democratiaeth fod angen creu cymdeithas unedig i gynnal y wladwriaeth, ac yn sgil hynny un gyfundrefn lywodraethol, ac un iaith wladwriaethol (2000:4) Dechreuodd y syniad o drefn normadol ymddangos, gyda'r wladwriaeth yn rhan o'r drefn honno. Roedd y wladwriaeth yn gweithredu yn ôl y gyfraith a chyfres o sefydliadau a weithredai'n unol â'r egwyddorion o hawliau cyffredin a hawliau unigol. Ystyrid pob unigolyn fel bod rhesymegol, a oedd yn ymwybodol o'i hawliau a'i ymrwymiadau, ac a fyddai'n derbyn cyfreithiau a oedd yno i warchod ei hawliau cyfreithlon a'i ryddid yn ei fywyd preifat. Yr un pryd, byddai'r wladwriaeth yn sicrhau undod a chadernid cymdeithas, ac yn sicrhau bod y sefydliadau cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol er lles cymdeithas gyfan (2004:4)

Roedd tair elfen yn cyfrannu at y model clasurol hwn - sef rhesymoliad, unigolyddiaeth moesol, a ffwythiannaeth sefydliadau cymdeithasol (2000:4). Roedd yn cadarnhau na allai'r unigolyn fod yn aelod cyflawn o'i gymdeithas heb gyfrannu tuag ati, a chymryd rhan lawn ym mywyd casgliadol y gymdeithas honno. Trwy resymoliad ac unigolyddiaeth moesol, roedd y wladwriaeth yn cadw ei grym a rheolaeth ac yn hyrwyddo'r 'hawliau cenedlaethol'. Hynny yw, roedd yr hyn a oedd yn fuddiol i'r 'genedl' y cyfystyr â budd cyffredin cymdeithas, ac yn sgil hynny budd pob unigolyn oedd yn rhan ohoni. Roedd y wladwriaeth hefyd â'r grym ac awdurdod i ddiffinio'r hyn oedd yn 'dda' a 'drwg', 'normal' a 'phatholegol', 'cynwysedig' ac 'eithriedig'. Dyma oedd y syniadau modern, a oedd yn cymryd lle'r 'traddodiadol' (2000:05)

Yn sgil twf y wladwriaeth Brydeinig fodern, gwelwyd yr iaith Saesneg yn cymryd ei lle fel iaith rhesymeg yng nghanol y wladwriaeth fodern ac arloesol newydd, tra bod ieithoedd a diwylliannau eraill yn cael eu heithrio a'u cau allan o'r drefn gymdeithasol newydd. Yng Nghymru, er bod yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan fwyafrif o'r boblogaeth ar y pryd, eto cafodd ei heithrio o brif lif cymdeithas:

Anything that is deemed archaic, traditional, marginal or minority is forbidden and made inferior because of its distance from an imposed normativity. The imposition of a supposedly progressive and scientific model of society has contributed to the destruction and elimination of language groups. Thus ethnic groups, which often tend to include minority language groups, are treated as part society, as part culture, in effect as a stranger within (Willams a Morris, 2000: 05)

Mae Williams a Morris yn dadlau er bod yr athroniaeth wleidyddol a oedd yn sail i sefydlu cymdeithas fodern yn ddiffygiol, eto cafodd effaith sylweddol ar ymarfer cymdeithasol yn y cyfnod dilynol, yn arbennig yn y modd mae'r disgwrs cymdeithasegol yn ymdrin ag ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol fel y Gymraeg fel gwyriad oddi wrth y norm, ac yn y broses honno yn ymyleiddio a stigmateiddio ei siaradwyr.

Yn eu gwaith ar ddatblygu theori grŵpiau iaith leiafrifol, mae Williams a Morris yn defnyddio fframwaith theoretaidd Gramscaidd o atgynhyrchu cymdeithasol a diwylliannol (2000: 5). Maent yn cyfuno gwaith *dependistas* America Ladin gyda'r cysyniad o ailstrwythuro economaidd, a strwythur a deinameg trefniant y farchnad lafur. Canolbwyntiant ar y modd mae grŵpiau cymdeithasol yn cael eu hatgynhyrchu, neu ddim, gan edrych ar newid cymdeithasol a'i effaith ar grŵpiau iaith. Yn hytrach na thrafod cynnal iaith a sifft iaith, fel y gwna Fishman ac eraill, yn hytrach maent yn ystyried prosesau fel atgynhyrchu iaith trwy ei throsglwyddo rhwng cenedlaethau, cynhyrchu iaith (trwy addysg, dyweder, ble mae unigolyn yn ennill hyfedredd yn y Gymraeg), neu ddiffyg atgynhyrchu iaith (ble nad yw'r teulu'n trosglwyddo'r iaith ymlaen i'r plant). Mae hyn yn caniatáu iddynt edrych ar ddeinameg prosesau cymdeithasol, ac effaith gwahanol sefydliadau cymdeithasol ar y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu'r Gymraeg. Maent yn dadlau fod y newidiadau economaidd a gafwyd yng Nghymru dros y ganrif ddiwethaf wedi arwain at symudiad poblogaeth a chyfalaf, sydd yn ei dro wedi effeithio ar sefydliadau cymdeithasol pwysig fel y teulu, y gymuned ac addysg. Ar yr un pryd, mae'r ailstrwythuro economaidd wedi effeithio ar farchnad lafur ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol, a hefyd ar statws a bri'r Gymraeg, yn gysylltiedig â'i hamlygrwydd, neu ddim, yn y farchnad lafur cyfnewidiol sydd o'i hamgylch. Dengys y ffigwr isod y newidynnau y dewiswyd canolbwyntio arnynt.

**Ffigwr 2: Cynrychiolaeth Sgematig o Atgynhyrchiad Ieithyddol**

MORRIS & WILLIAMS(2000:21):



Mae'r cysyniadau hyn yn caniatáu i ni ystyried perthnasedd y gwahanol asiantaethau cymdeithasol i'r broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith. Mae'n bosib nad yw'r teulu, er enghraifft, yn atgynhyrchu'r iaith, hyd yn oed pan fo'r rhieni yn siarad yr iaith, ond fod asiantaethau eraill, fel addysg, yn dysgu'r Gymraeg i blant. Yn amlwg, byddai'r un sefyllfa'n wir yn achos teuluoedd ble nad yw'r un o'r rhieni'n siarad Cymraeg, sef mai'r ysgol yw'r asiantaeth atgynhyrchu iaith, gyda'r gymuned o bosib yn ategu hynny, yn enwedig yn y bröydd Cymraeg. Mae Williams a Morris (2000:20) hefyd yn cysylltu'r prosesau o gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith gyda phrosesau mwy cyffredinol o atgynhyrchiad cymdeithasol a diwylliannol. Gwneir hyn trwy gydnabod mai dim un grŵp cymdeithasol yn unig yw grŵp iaith, a bod aelodau'r grŵpiau iaith hefyd yn aelodau grŵpiau cymdeithasol eraill sydd wedi eu seilio ar gender, dyweder, neu ddosbarth cymdeithasol, a bod y grŵpiau cymdeithasol hyn yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Gall pobl weld eu hunaniaeth o safbwynt mwy nag un o'r grŵpiau hyn, ac mae Williams a Morris yn nodi y gall hynny effeithio ar eu defnydd o iaith. Gan fod aelodau grŵpiau iaith hefyd yn aelodau ar yr un pryd o grŵpiau cymdeithasol eraill, maent hefyd yn cael eu heffeithio gan brosesau cymdeithasol ehangach fel newidiadau economaidd neu newidiadau polisi cymdeithasol. Felly nid polisïau iaith yn unig sy'n berthnasol iddynt, ond yn hytrach yr ystod gyfan o bolisïau sy'n effeithio ar aelodau cymdeithas drwyddi draw.

Mae Williams a Morris yn gosod eu trafodaeth o brosesau cymdeithasol yng nghyd-destun y broses ailstrwythuro economaidd byd eang. Dadleuir bod fframwaith polisi yn bodoli rhwng y prosesau byd eang sy'n hyrwyddo ailstrwythuro economaidd, a'r newid economaidd a chymdeithasol a geir ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae hwn yn fframwaith eang, sy'n ymdrin â phob math o agweddau ar gynllunio cymdeithasol, iechyd a lles.

Gwelir bod 'cyfreithloni' a 'sefydliadu' iaith yn gysyniadau pwysig yn theori Williams a Morris (2000:25) Mae cyfreithloni'n cyfeirio at agweddau cyfansoddiadol a rhai polisi cymdeithasol. Mae'n ymwneud â mwy na deddfwriaeth yn unig - yn hytrach, gall gwmpasu amrywiaeth o bolisïau cymdeithasol ar wahanol lefelau gwleidyddol. Yn y cyd-destun gwleidyddol neo-ryddfrydol presennol, mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni weld symud y pwyslais oddi wrth 'hawliau' dinasyddion tuag at 'alluogi' unigolion i fanteisio ar wahanol ddarpariaethau polisïau cymdeithasol. Digwyddodd y symudiad syniadol hwn drwy

Ewrop gyfan dros y 30 mlynedd diwethaf. Yng Nghymru, gwelir tystiolaeth ohono yn y polisïau addysg amrywiol a geir yng ngwahanol rannau o'r wlad, yn ogystal ag yn y gwahaniaeth a geir rhwng y cyfleoedd sydd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector gyhoeddus, gan fod hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar bolisïau sefydliadau unigol.

Mae sefydliadu yn cyfeirio at ymddygiad ailadroddus a wneir gan unigolion ac a gymerir yn ganiataol ganddynt - hynny yw, maent yn arferion 'synnwyr cyffredin' nad yw'r unigolyn yn meddwl amdanynt cyn eu gweithredu. Defnyddir y term hwn yn aml wrth gyfeirio at hiliaeth sefydliadol neu rywiaeth sefydliadol, ble nad yw'r siaradwr yn ymwybodol ei fod yn defnyddio iaith neu ymddygiad y gellir ei weld fel un hiliol neu rywiaethol. Mae Williams a Morris yn dadlau bod defnydd iaith wedi ei sefydliadu, yn yr ystyr bod arferion iaith yn cael eu 'cymryd yn ganiataol' gan ei siaradwyr (2000: 26). Gan fod iaith mor gymhleth, ni all unrhyw siaradwr fyfyrio ynghylch pob gair mae'n yngan neu sut neu pryd mae'n dweud rhywbeth, ac felly gwelir bod darnau ailadroddus o ddisgwrs yn cael effaith ar arferion cymdeithasol. Mae'r rhain yn aml yn dibynnu ar ddisgwrs blaenorol, sydd wedi ei sefydlogi mewn defnydd iaith bresennol fel olion o ymarfer blaenorol yng nghyswllt gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. O safbwynt y traethawd presennol, mae hyn yn berthnasol o safbwynt gwahaniaethu rhwng plant sy'n hanu o deuluoedd Cymraeg a di-gymraeg neu iaith gymysg, oherwydd bod yr iaith a welir fel eu hiaith 'normal' yn amrywio ac felly'n debygol o effeithio ar eu harferion cymdeithasol. O ganlyniad, gellir dadlau y gall eu cymdeithasoli oddi mewn i'r teulu effeithio i wahanol raddau ar faint maent wedi integreiddio i'w cymunedau yn y bröydd Cymraeg, ac y gall hyn effeithio ar eu symudoledd ar ôl iddynt ddod yn oedolion ifanc.

Mae Williams a Morris (2000:87) hefyd yn trafod symudoledd poblogaeth ar allu cymunedau i gynhyrchu ac atgynhyrchu'r Gymraeg.[5] Nodir sut mae ailstrwythuro economaidd yn dod â symudoledd poblogaeth yn ei sgil, a sut y profodd Cymru gynnydd sylweddol yn ystod yr 1970au a'r 1980au. Noda Williams a Morris:

> The in-migration of people, mainly older and non-Welsh-speaking, has been matched by an out-migration of young people, many of them Welsh speakers and often well-qualified. (Williams a Morris, 2000:87)

[5] Williams & Morris, 2000, ibid, t86

Dywedir nad darlun statig yw hyn, ond yn hytrach proses yr effeithir arni gan gyfnodau o ailstrwythuro economaidd. Un o effeithiau'r symudiad hwn yw'r lleihad sylweddol yn nifer cymunedau Cymru ble bo 75 y cant neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, trothwy yr ystyrir gan nifer o wneuthurwyr polisi ac academyddion, fel James (1985) ac Aitchison a Carter (1994), yn un sy'n hanfodol i sicrhau bod y gymuned yn parhau i atgynhyrchu'r Gymraeg. Gwneir hyn yn rhannol drwy sefydliadau'r gymuned, gan gynnwys clybiau a chymdeithasau; fodd bynnag, mewn astudiaeth ar rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc y cyfeiriwyd ati ym Mhennod 1, noda Morris (2010) nad yw plant a phobl ifanc o deuluoedd di-gymraeg yn aml yn cymryd rhan mewn unrhyw glybiau na chymdeithasau, felly byddai dylanwad y sefydliadau cymdeithasol hyn arnynt yn gyfyngedig iawn.

Sefydliad cymdeithasol pwysig arall o safbwynt cynhyrchu'r Gymraeg yw'r ysgol. Meddai Williams a Morris:

> Almost all Welsh-medium schools have shown their ability to produce a relatively high level of competence even when almost all of the pupils are drawn from families where Welsh is not spoken, and from communities where the language does not function (Williams a Morris, 2000: 24)

Priodolir y cynnydd a gafwyd yn nifer y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ers 1991 i'r cynnydd a gafwyd mewn ysgolion Cymraeg, yn enwedig yn ne ddwyrain Cymru (Jones, 2010). Mae llawer o bolisi cynllunio ieithyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn hyn yn cael ei dargedu ar y grŵp oedran hwn oherwydd pwysigrwydd cadw siaradwyr Cymraeg ifanc er mwyn cadw'r Gymraeg yn iaith hyfyw yn y cymunedau, ac ategir hyn yn 'Iaith Pawb', sef Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog y Cynulliad.[6]

I grynhoi, mae'r gwaith theoretaidd hwn yn gosod y cyd-destun theoretaidd priodol ar gyfer yr astudiaeth bresennol. Mae'n amlinellu sut mae aelodau o wahanol grŵpiau iaith hefyd yn aelodau o grŵpiau cymdeithasol eraill, a sut maent yn cael eu heffeithio gan newidiadau strwythurol sy'n deillio o'r isadeiledd economaidd. Gwelwyd bod newidiadau economaidd

---

6 Strategaeth Ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005

yn arwain at symudoledd cymdeithasol a daearyddol, wrth i bobl symud i chwilio am waith a chyfleoedd gyrfaol. Yn ei dro, gwelwyd bod hyn yn effeithio ar allu'r asiantaethau atgynhyrchu iaith, fel y teulu, addysg a'r gymuned, i barhau i atgynhyrchu'r iaith Gymraeg yn effeithiol.

**Cynhyrchu ac Atgynhyrchu Iaith**

Er nad yw iaith yn cael ei ystyried fel y ffactor sylfaenol wrth drafod allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd, fel y soniwyd eisoes, mae'n bwysig nodi fod pwysigrwydd yr iaith yn debygol o effeithio ar batrymau neu lefelau integreiddio pobl ifanc sydd wedi eu geni i deuluoedd iaith gymysg neu i deuluoedd uniaith Saesneg yn unig. Gellir dadlau fod gallu iaith pobl ifanc, neu i ba lefel y dysgwyd iaith yn effeithiol, yn rhannol ddibynnol ar y modd y mae'r unigolion yn gallu integreiddio'n effeithiol i'r gymuned neu'r gymdeithas y maent yn rhan ohono, ac felly magu dealltwriaeth eang o'r brif iaith a ddefnyddiwyd o fewn rhwydweithiau cymdeithasol.

Byddai'n gymorth felly trafod y gyfradd trosglwyddo[7] fel y disgrifiwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn eu papur ar '*Analysis of Census Results Pertaining to Language Transmission,*' (2008). Seilir y papur yma ar dablau arbennig o ganlyniadau'r Cyfrifiad yn 2001 yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a gyhoeddwyd mewn ymateb i gais gan is-grŵp o'r Bwrdd yr iaith Gymraeg, sef grŵp gweithredol ar ieithoedd brodorol a lleiafrifol. Darganfuwyd fod patrwm cyffredin yng nghyfraddau trosglwyddo Cymru a'r Alban, sef fod y cyfraddau trosglwyddo uchaf ymysg cyplau priod, lle mae'r ddau riant yn siarad yr iaith. Mae cyfraddau mewn cyplau sy'n cyd-fyw, lle mae'r ddau riant yn siarad yr iaith, ychydig yn is. Mae rhieni sengl benywaidd yn dod yn drydydd, yna cyplau lle mae'r partner benywaidd/gwraig, yn siarad yr iaith. Mewn cyplau lle mae'r partner gwrywaidd/gwr yn siarad yr iaith, mae'r cyfraddau trosglwyddo yn gymharol isel. Mae hyn yn anwybyddu'r rheini sengl wrywaidd gan fod lleiafrif ohonynt (2008: 1). Wrth gwrs, mae datblygiad yr iaith o fewn y system addysg yn gynyddol effeithio'r dosbarthiad o blant yn ôl amrywiaethau

[7] O math o deulu, sef y nifer y plant sydd yn gallu siarad yr iaith fel canran o pob plentyn o wahanol amrywiaethau teuluol. (Analysis of Census Results Pertaining to language Transmission. Hywel Jones. Tud: 1)

teuluol, gan fod rhaid ystyried oedrannau hŷn. O fewn teuluoedd lle mae lefelau cymharol isel o drosglwyddo, hynny yw, mewn teuluoedd lle ystyriwyd y system addysg fel yr unig fodd o drosglwyddo iaith, mae canrannau uchel o siaradwyr lle gwelwyd oedrannau hŷn. Yn ystadegol, gwelwyd fod 46 y cant o siaradwyr Cymraeg 3 oed, yn hanu o deuluoedd lle nad oes un rhiant yn siarad yr iaith. Mae'r canran yma'n disgyn i 21 y cant wrth ystyried plant oed 5-15 (2008: 2). Wrth gwrs, nid yw'r astudiaeth yma'n canolbwyntio ar yr oedrannau hynny sy'n bwysig ar gyfer yr ymchwil hon, ond credaf ei bod hi'n ddiddorol ystyried y cyfraddau yma yn ôl patrymau integreiddio , fel gwelwyd o'r tabl isod.

**Tabl 4: Pob cwpl lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg**[8]

| | 3 Oed | 4 oed | 3-4 Oed | 5-15 Oed | 16+ oed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 79 | 85 | 82 | 94 | 88 |
| **Yr Alban** | 55 | 61 | 58 | 71 | 60 |
| **Gogledd Iwerddon** | 28 | 39 | 34 | 63 | 77 |
| **Gweriniaeth Iwerddon** | 16 | 32 | 24 | 90 | 84 |

Wrth ystyried trosglwyddo iaith, mae hi'n amlwg fod dadl amlwg rhwng trosglwyddo o fewn y teulu fel system o gymdeithasoli cynradd ac o fewn y system addysg, fel system o gymdeithasoli eilaidd. Mae Fishman (1991) yn rhoi pwyslais penodol ar drosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau neu '*intergenerational,*', ac yn dadlau y dylid talu sylw i'r bobl ifanc hynny sy'n siarad Cymraeg yn y cartref, neu i'r bobl ifanc hynny sydd yn ystyried fod y Gymraeg yn iaith gyntaf neu'n gydradd iaith, yn ei eiriau ef, *"language use, if it could be measured, would give a truer picture of language vitality"* (Williams, 1991: 177). Mae Heini Gruffydd (2000) o'r un farn, hynny yw er mwyn sefydlu goruchafiaeth iaith o fewn y teulu, mae'n rhaid sicrhau fod rhieni'n ymwybodol o'u cyfraniad ieithyddol personol, gan fod cydberthynas cryf gyda'r iaith a ddefnyddiwyd gan bobl ifanc. Mae canlyniadau Gruffydd yn atgyfnerthu'r hyn a nodwyd eisoes, hynny yw bod y bobl ifanc hynny sy'n llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith, yn hanu o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg, mewn cymunedau lle siaradir Cymraeg neu Saesneg. (2000: 184) Roedd cydberthnasau eraill a ystyriwyd, megis y Gymraeg a dosbarth cymdeithasol neu ryw, yn llai pwysig na'r ffactor hanfodol yma, yn ôl Gruffydd (Language Revitalization Policy and Planning in Wales).

[8] Analysis of Census Results Pertaining to Language Transmission; Bwrdd Yr Iaith Gymraeg. 3: 2008.

Mae Morris a Williams (2000) yn ymhelaethu ar y trosglwyddo iaith o fewn y teulu neu drosglwyddo rhyng-genhedlaeth (2000: 63). Dadleuwyd fod y teulu hefyd yn gyfrifol am gyfeirio gweithgareddau eu plant tu allan i'r teulu, ac o ganlyniad, mae hi'n bwysig ei ystyried yng nghyswllt systemau ieithyddol eraill. Nid yn unig fod y teulu'n arwain yr iaith a ddefnyddiwyd o fewn y cartref, ond maent hefyd yn annog neu'n mynnu ar y gweithgareddau a wnaed tu allan i'r cartref (2000: 63). Fel yr awgrymir:

> This influence often extends to encompass the relationship between language and such activities. Many community activities are family-based and are part of the socialization process whereby children are integrated into language related activities. (Williams a Morris, 2000:63)

Dadleuwyd gan Williams a Morris (2000:43) fod cylchrediad cyfalaf sy'n gysylltiedig gydag ail-strwythuro economaidd, wedi arwain at gylchrediad o fewnfudo personol a chysylltiadol i Gymru. Mae hyn, yn ogystal ag effaith negyddol atgynhyrchiad yr iaith Gymraeg, yn anochel wedi arwain at gynnydd mewn priodi allan o grŵp iaith ac felly dirywiad yng ngallu'r teulu i fod yn asiantaeth sydd yn atgynhyrchu ieithoedd lleiafrifol. Erbyn 1981, roedd y nifer o deuluoedd gydag un rhiant yn gallu siarad Cymraeg a theuluoedd lle'r oedd y ddau riant yn gallu siarad yr iaith yn debyg. Cafodd hyn ei ailadrodd yn 1991, gyda 39,820 o deuluoedd gydag un rhiant yn siarad Cymraeg a 42,870 o deuluoedd gyda'r ddau yn siarad yr iaith. Gwelwyd y ffigyrau yn y tabl isod:

**Tabl 5: Cyfansoddiad y Cartref ac Iaith, 1981 a 1991: Plant o fewn eu Teuluoedd**[9]

| | 1981 Nifer | % | 1991 Nifer | % |
|---|---|---|---|---|
| **Y ddau riant yn Siarad Cymraeg:** | | | | |
| Y Plant yn Siarad Cymraeg | 287 | 8.8% | 285 | 7.8% |
| 1 neu fwy o Blant yn siarad Cymraeg | 2978 | 91.2% | 3655 | 92.8% |
| **Tad yn Unig yn Siarad Cymraeg:** | | | | |
| Y Plant yn Siarad Cymraeg | 840 | 63.8% | 965 | 50.4% |
| 1 neu fwy o Blant yn siarad Cymraeg | 476 | 36.2% | 951 | 49.6% |
| **Mam yn Unig yn Siarad Cymraeg:** | | | | |
| Y Plant yn Siarad Cymraeg | 725 | 58% | 848 | 41.2% |
| 1 neu fwy o Blant yn siarad Cymraeg | 525 | 42% | 1210 | 58.8% |
| **Dim un O'r Rhieni Yn Siarad Cymraeg:** | | | | |
| Y Plant yn Siarad Cymraeg | 20558 | 92.8% | 25997 | 87.2% |
| 1 neu fwy o Blant yn siarad Cymraeg | 1600 | 7.2% | 3805 | 12.7% |

Mae Williams a Morris (2000) wedi dangos fod yr iaith Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei atgynhyrchu pan mae'r ddau riant yn siarad yr iaith, ac mae'r tebygolrwydd yma'n lleihau'n sylweddol, pan nad yw un yn gallu siarad yr iaith (1987: 39). Mae'r cyfrifiad o 1981 yn dangos mai 58 y cant o deuluoedd, gydag un rhiant yn siarad Cymraeg, sy'n atgynhyrchu'r iaith, ond pan mae'r ddau yn siarad Cymraeg, mae'r atgynhyrchiad llawer uwch, gydag 93 y cant (2000: 39). Mae ffigyrau o'r cyfrifiad yn 1991 yn atgyfnerthu fod teuluoedd lle mae'r

[9] Addaswyd o Williams a Morris (2000:40)

fam yn unig yn siarad Cymraeg, yn fwy tebygol o drosglwyddo iaith na theuluoedd lle mae'r tad yn unig yn siarad yr iaith. Ymddengys yn ogystal, fod merched yn fwy tebygol o ddysgu'r iaith nag yw meibion (2000: 39). Pan mai'r fam yn unig sy'n siarad Cymraeg, mae 58 y cant o ferched a 48 y cant o feibion yn gallu siarad Cymraeg (Baker 1997). Mae'r tabl uchod yn dangos y tueddiadau yma.

Dengys fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn priodi allan o grŵpiau iaith dros y degawd, sydd yn awgrymu fod statws y teulu fel asiantaeth atgynhyrchu iaith yn gwanhau. Er hynny, dengys y data fod cynnydd wedi bod yng nghyfradd atgynhyrchiad iaith o fewn y teuluoedd hynny lle mae un rhiant a chymhwysedd yn yr iaith Gymraeg (2000:39). Lle mae'r tad yn unig yn siarad yr iaith, mae cynnydd o 13.4 y cant yng nghyfraddau atgynhyrchu iaith, o'i gymharu â 16.8 y cant lle mae'r fam yn unig yn siarad yr iaith. Er hynny, nid ydym yn sicr o gyd-destun yr atgynhyrchiad yma, hynny yw, os yw'n ganlyniad o atgynhyrchiad o fewn y teulu neu o waith asiantaethau atgynhyrchu eraill. Yn ogystal, nid ydym yn sicr o gymhwysedd yr atgynhyrchiad. Lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, mae cynnydd wedi bod yn y gyfradd uchel o atgynhyrchiad iaith, o 91.2 y cant yn 1981 i 92.8 y cant yn 1991. Nid yw bron i hanner y teuluoedd, gydag un rhiant â chymhwysedd yn yr iaith yn atgynhyrchu'r iaith (2000:40).

Mae'r mewnfudo a soniwyd amdano uchod, yn ogystal ag agweddau eraill o newid cymdeithasol, hefyd yn tanseilio gallu'r gymdeithas i gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith (2000:40). Mae hyn yn ganlyniad mae'r daearyddwyr wedi ymchwilio'n fanwl (Aitchison a Carter, 1994) Mae'r rhan fwyaf o ddata sy'n cefnogi'r honiad yma'n deillio o'r cyfrifiad pob deng mlynedd. Mae'r darlun sy'n ymddangos yn awgrymu dirywiad sylweddol a chynyddol yn nwysedd siaradwyr ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Er bod y patrwm yn debyg yn 1981 ac 1991, mae'r dwysedd wedi lleihau'n unffurf. Gwelwyd fod y newid mwyaf wedi bod mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r dwysedd yn ogystal â'r nifer absoliwt ar ei fwyaf mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Er bod yr hyn a gyflwynwyd gan ddaearyddwyr yn disgrifio'r newidiadau gofodol dros gyfnod o amser, maent hefyd yn awgrymu fod cysylltiadau gyda newidiadau cymdeithasol. Maent yn pwysleisio yn ogystal fod y boblogaeth wledig yng Nghymru yn dueddol o fod yn hŷn. Awgrymwyd hefyd, fod am ryw reswm, fod y gymdeithas mewn mannau trefol yn ei chael hi'n anodd cynnal eu rhuglder a'i drosglwyddo

i'w plant (Aitchson a Carter, 1994: 116). Yr hyn a awgrymwyd fwyaf, fod y rhyngweithio rhwng yr asiantaethau atgynhyrchu gwahanol, wedi tueddu i ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae'r dwysedd yn dirywio (2000:41).

Gellir hefyd cysylltu cynhyrchu ac atgynhyrchiad iaith gydag addysg. Fel y gwelwyd o'r cyfrifiad yn 1981, roedd bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth o addysg iaith Gymraeg. Y ddarpariaeth yma oedd yn bennaf gyfrifol am y cyfraddau atgynhyrchiad iaith (2000:41). Mae Aitchson a Carter (1994; 117) wedi awgrymu, er bod y Gymraeg wedi ymddangos yn arferion y system addysg, mae hyn yn dueddol o fod yn gamarweiniol. Maent yn pwysleisio, hyd yn oed deng mlynedd yn ôl, roedd y Gymraeg yn absennol o'r rhan fwyaf o ysgolion ac yn anghyffredin mewn eraill. Roedd tua 10 y cant yn cael eu dysgu gyda'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf, a 39 y cant fel ail iaith. Nid yw hi'n amlwg beth fydd effaith cyflwyno'r iaith i'r cwricwlwm cenedlaethol, ar ddefnydd iaith. Mae hi'n bwysig nodi'n ogystal, fod teuluoedd gydag un rhiant yn unig yn siarad yr iaith, yn dueddol o yrru eu plant i ysgolion sydd yn defnyddio addysg drwy'r iaith Gymraeg, fel rhyw fath o iawndal am y diffyg iaith o fewn teulu. Felly gwelwyd fod tuedd i'r asiantaethau gwahanol i weithio gyda'i gilydd fel system (2000:42).

**Y Gymuned a'r Bröydd Cymraeg**

Gan fod y cysyniad o'r bröydd Cymraeg yn elfen ganolog yn y traethawd presennol, a chan fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn elfen ganolog bwysig yn y broses o integreiddio mewnfudwyr, mae'n briodol troi'n awr i edrych yn fanylach ar y cysyniad o gymuned.

Mae'r cysylltiad rhwng cymunedau cefn gwlad Cymru a Chymreictod i'w gweld yn nheitl gwaith arloesol Alwyn D Rees (1938), lle sonia mai mewn cymunedau gwledig yn bennaf y ceir ffordd integredig o fyw . Yn ôl ei astudiaeth ar Lanfihangel yng Ngwynfa, nid oedd mannau trefol yn cynnig y ddarpariaeth hynny o gymuned, lle nad oedd modd gweld y posibilrwydd o fywyd traddodiadol lle'r oedd y trigolion yn teimlo eu bod yn perthyn. Darganfu yn ogystal, fod y teulu yn chwarae rhan fawr o fewn y strwythur cymunedol a honnodd fod y rhan fwyaf o gartrefi yn gysylltiedig gydag eraill drwy'r berthynas deuluol, neu fel yn ei eiriau ef, "*They are woven together like pig's entrails*" (1938: 131). Mae pwyslais yma ar oed y llinach deuluol ac felly pwyslais ar y gwerthoedd rhanedig sydd yn

perthyn i'r teuluoedd yma. Byddai hyn yn awgrymu pwysigrwydd cysylltiadau teuluol o safbwynt sefydlu gwreiddiau a hunaniaeth, nodweddion a fyddai'n amrywio i'r unigolion hynny sydd â chysylltiadau cryfach mewn mannau eraill heblaw'r bröydd. Byddai'n bwysig i mi ystyried y newidyn uchod wrth gynllunio fy ngwaith maes. Yr hyn sydd yn amlwg yng ngwaith Rees, yw'r ymdeimlad o'r bygythiad parhaol sydd yn gysylltiedig gyda diwydiannau newydd sydd yn golygu newid i'r ffordd 'draddodiadol,' o fyw. Mae'n delfrydu'r hyn a welir fel y ffordd Gymreig o fyw lle portreadir bygythiad gan y Seisnigo moesol ac ieithyddol i'r drefn gymdeithasol unigryw a gwerthfawr a welwyd gan Rees yn y bröydd Cymraeg.

Mae'r mater yma o fynediad i ddieithriad i ffordd benodol o fyw yn bwnc dadleuol iawn. Fel gwelwyd o waith Isabel Emmett (1964) mae'r rhai hynny sydd wedi ceisio astudio bywyd gwledig Cymraeg wrth fyw yn rhan ohono, wedi datgan teimladau gwrthweithiol tuag ato. Ar ôl treulio rhai blynyddoedd ym Manceinion, penderfynodd Emmett ddychwelyd i Gymru ar ôl ysgrifennu ei llyfr am bentref Llanfrothen, ac yn 1973, darparodd astudiaeth fanwl ar Flaenau Ffestiniog. Yn ystod ei hymchwil, darganfuwyd Emmett nad oedd un math o hunaniaeth Gymraeg yn bodoli, ond yn hytrach ei fod yn newid gydag amser, yn ôl ffasiwn ac yn ôl cyfnod. Efallai ei bod hi'n bwysig nodi yma, nad oedd Emmett yn gallu siarad Cymraeg ac mewn gwirionedd doedd ei gwaith heb enyn poblogrwydd nac ychwaith wedi bod yn ffafriol gyda'r bobl leol yn y gorffennol. Yn ei gwaith '*Blaenau Boys in the mid 1960's*,' mae hi'n disgrifio'r her ddiwylliannol yr oedd pobl ifanc yn ei wynebu o'r isddiwylliant Americanaidd oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod. Roedd ymddangosiad diwylliant newydd i Emmett yn ei hatgoffa o'r hyn yr oedd hi'n credu oedd Cymreictod, a beth yn union oedd 'Cymreictod,' yn ei olygu i bobl ifanc Blaenau Ffestiniog. Yn ei geiriau hi:

....I found myself drawn back into discussions of Welshness and grass-roots responses to attacks upon it. I argued that the decision of a group of teenagers in Blaenau and of similar groups elsewhere in Welsh-speaking North Wales to opt for Welshness, and their success in finding ways to be Welsh and yet not square, to be at times aggressively Welsh, did more for Welshness than so far Plaid Cymru or the Welsh Service of the BBC have managed to do. (Emmett 1982:167)

Roedd y profiad yn atgyfnerthu i Emmett, nad oedd yr ymdrechion diwylliannol i fyw yn y Gogledd Cymraeg, yn tarddu o ymrwymiad personol i'r traddodiad Cymraeg, ond yn hytrach

fel math o isddiwylliant oedd yn trwytho bywyd yn yr ardal yma. Fel yng ngwaith Rees (1950), pan amlygwyd fod marwolaeth y capel yn anochel yn golygu marwolaeth y Gymraeg, gwelodd Emmett, fod ardal Blaenau Ffestiniog yn gweld dirywiad y diwydiant llechi fel diwedd y diwylliant Gymraeg. Mae hiraeth yma am y chwarelwyr dewr oedd yn bortread o'r hyn a olygir wrth fod yn 'Gymraeg.' Felly beth a olygir wrth y term? Mewn rhai achosion, dadleuai Emmett fod bod yn Gymraeg yn golygu fod person wedi ei eni yma, i eraill fod person wedi ei eni a'i fagu yn y wlad; i eraill byw yng Nghymru ac ymddwyn mewn 'ffordd Gymraeg,' yn hytrach na 'ffordd Saesneg'; i eraill i fyw yng Nghymru ac i siarad Cymraeg; ac yn aml, cymysgedd o'r rhestr uchod (Emmett.1982:168). Er hynny, mae'r ffordd o fihafio sydd yn cael ei ystyried fel 'Cymraeg,' yn newid dros amser ac yn ôl cyfnod, fel mae cyflwr bywyd hefyd yn newid ac yn amrywio. Efallai nad yw'r ffactorau uchod yn wybyddus i bobl Cymru, dadleuai Emmett, ond mae'r ansicrwydd sydd yn gysylltiedig gyda'r iaith Gymraeg a'r hunaniaeth Gymraeg yn amlwg. Er hynny, nid yw'n meddiannu pob rhan o'u bywydau. Prif bwrpas bywydau'r Cymry yn ôl Emmett, yw ennill bywoliaeth, magu teulu a chael amser da, er bod honiadau positif o Gymreictod yn cael eu gwneud tu fewn a thu allan i gyfundrefnau ffurfiol, pleidiau gwleidyddol a sefydliadau academaidd sydd ddim bob amser yn canolbwyntio ar yr iaith nac ychwaith traddodiad. Yn hytrach rhaid cwestiynu'r hyn mae'r term 'bod yn Gymraeg,' yn golygu i siaradwyr Cymraeg a Di-gymraeg (1982: 170). Yn ystod yr 1960au hwyr, ymddangosodd math newydd, ymosodol o Gymreictod, wedi ei greu'n rhannol o ganlyniad i grŵp o weithwyr mae Emmett yn galw'n '*Partisans.*' Roedd yr arddull newydd yma'n fynegiant lleol o farn ac awdurdod sefydledig a ymledodd rhwng Americanwyr ac Ewropeaid ifanc a bu i deimladau gwrdd Saesnig y bobl gyffredin ddod yn fwy amlwg. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc proffesiynol nad oedd, o reidrwydd, wedi mynegi eu hunain yn yr un ffordd o'r blaen. O ganlyniad, bu cefnogaeth newydd i geisio diogelu'r hyn yr oeddynt yn credu y dylent achub a chadw, ac fel awgrymwyd gan Emmett, roedd hyn yn ffordd newydd iawn o geisio mynegi barn.

Er y gellir dadlau fod gwaith Emmett wedi dyddio'n sylweddol yn ôl cyfnod ac yn ôl agwedd gyffredinol, mae nifer o'r hyn a ysgrifennwyd amdano wedi parhau'n wirionedd hyd heddiw. Mae mathau newydd o Gymreictod yn aml yn ymddangos ac yna'n newid ei ffurf a'i sylwedd, ac o ganlyniad gellir dadlau fod yr hyn y mae mewnfudwyr yn ceisio integreiddio i mewn iddo'n newidyn parhaol. O safbwynt pobl ifanc, mae hunaniaeth Gymraeg yn destun

dadl ac yn ddibynnol ar farn yr unigolyn ac felly'n golygu fod rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn agored i'r newidiadau cymdeithasol hynny sy'n codi.

Wrth gwrs, nid yw'r astudiaethau uchod yn cuddio'r gwirionedd, hynny yw, fod Cymru wledig wedi profi newidiadau cymdeithasol ac economaidd parhaol ac yn benodol rhaid crybwyll y dirywiad mewn amaethyddiaeth, newidiadau crefyddol a'r newidiadau anochel hynny yn ei boblogaeth. Mae Wenger (1978) er enghraifft, wrth ysgrifennu ar ran o Glwyd, wedi disgrifio'r hyn a ddigwyddodd i'r iaith Gymraeg pan welwyd y pylu yn nylanwad y capeli. Roedd y Saesneg yn gynyddol amnewid yr iaith lle'n draddodiadol gwelwyd y Gymraeg yn unig. O ganlyniad, mae lawer o'r llenyddiaeth a ysgrifennwyd ar y pwnc o'r bröydd Cymraeg neu Gymru wledig, yn ystyried y cwestiynau manwl hynny o newidiadau economaidd a chymdeithasol. Maent yn cynnwys yr ail ddosbarthiad a chryfder yr iaith Gymraeg, canlyniad patrymau mudo a natur hunaniaethau lleol ac 'ethnig.' Yn aml iawn, fel awgrymwyd gan Day, gwelwyd Cymru yn sefyll ar groesffordd, lle gofynnir cwestiynau am y math o Gymru sydd yn gallu goroesi yn y byd sydd ohoni (1978: 153).

Er mwyn creu'r cysylltiad hynny rhwng cymuned a hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn, mae gwaith Emma James (2003) ar Lansteffan, Llandeilo a Llanybydder, yn ceisio datrys natur gymhleth cymunedau yng Nghymru drwy farn yr unigolion yr oedd hi'n cyfweld. Bu cymariaethau amlwg rhwng canfyddiadau'r trigolion lleol a'r boblogaeth oedd wedi mudo yno. Roedd gofyn i'r ymatebwyr ddisgrifio'r hyn yr oeddynt yn ystyried oedd 'cymuned,' ac ystyr y term iddynt fel unigolion. Yn ogystal, roedd gofyn iddynt hefyd benderfynu os oedd eu man byw nhw yn gallu cael ei ddisgrifio fel cymuned, ac os felly, beth oedd eu rôl nhw o fewn y gymuned yma. Un o'r prif themâu a amlygodd ei hun oedd y cysylltiad hwnnw rhwng 'ysbryd cymunedol,' a'r ymdeimlad o berthyn o fewn eu dealltwriaeth o beth yw cymuned (2003: 52). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried cymuned fel system gymdeithasol, gyda chyfres o berthnasau cymdeithasol, sy'n bodoli o fewn cymdogaeth benodol. Gwelodd James, fod pobl leol yn awyddus i bwysleisio eu cysylltiadau gyda phobl leol eraill ac yn rhoi sylw penodol i hyd y berthynas (2003: 54). Mae'r ffordd yma o feddwl yn gysylltiedig gyda gwaith Tönnies (1957) ar 'Gemeinschaft,' lle gwelwyd cymuned wedi ei gymeriadu gan berthnasau cyfarwydd. Awgrymwyd gan James, fod y boblogaeth yn teimlo fod parhad eu cymunedau yn ddibynnol ar y cysylltiadau â'r agosatrwydd yma. Roedd y

mewnfudwyr i'r cymunedau mewn golwg hefyd yn ystyried ysbryd cymunedol fel nodwedd bwysig a hanfodol, gyda'u dymuniad i fod yn perthyn ac yn rhan o'r gymuned, yn effeithio ar eu hymddygiad cymdeithasol. Er hynny, fel y darganfuwyd James fel canlyniad o'i chyfweliadau, roedd nifer o'r mewnfudwyr yn mynnu eu bod yn parhau i fod yn '*Outsiders*,' (2003: 59) er eu bod wedi ceisio newid eu safleoedd o fewn y gymuned. Fel awgrymwyd gan James, roedd rhai ohonynt wedi cyfaddef nad oeddynt byth yn debygol o gyflawni derbyniaeth lawn gan ddatgan mai eu diffyg cyfranogaeth oedd y rheswm dros hyn (James, 2003).

Wrth ystyried dau grŵp o unigolion sydd yn byw o fewn yr un gymdogaeth ond sydd yn gwahaniaethu yn nhermau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, mae'n rhaid felly ystyried safleoedd cymdeithasol. Yn astudiaeth James, roedd rheng neu safle o fewn y gymuned yn bwysig iawn i'r boblogaeth leol. Er mwyn ei ddisgrifio mewn ffordd syml, gwelwyd dosbarth cymdeithasol fel ffactor bwysig o safbwynt y dosbarthiad o fewn y gymuned. Er enghraifft, teimlodd y trigolion lleol eu bod yn haeddu sefyllfa well o fewn yr hierarchaeth gymunedol oherwydd eu honiad eu bod wedi bod yn rhan ohono am gyfnod mwy, eu cymuned 'nhw,' oedd hwn. Yn ail, honnwyd fod y mewnfudwyr â statws economaidd gwell ac felly'n perthyn i ddosbarthiadau cymdeithasol uwch, na'r bobl leol. Er hynny, awgrymwyd nad oedd y wybodaeth yma bob amser wedi ei wireddu gan ffaith, ond yn hytrach oherwydd bod y rhan fwyaf o'r mewnfudwyr yma wedi eu geni yn Lloegr. Mae'r darganfyddiadau uchod yn atgyfnerthu'r hyn yr ydw i'n ceisio ei ddarganfod drwy gydol yr astudiaeth yma, hynny yw bod gwahaniaethau amlwg yn yr hyn a ystyrir i fod yn berson lleol a mewnfudwr. Yn amlwg, nid yw'r gwahaniaethau yma'n bodoli gyda'r mewnfudwyr eu hunain ond hefyd yn amlwg yn eu plant a'u plant hwythau. Gellir dadlau ei fod yn gysylltiedig gyda'r cysyniad o berthnasau teuluol yn ogystal â chyfeillion, a'i fod yn cael ei fesur drwy hyd y berthynas a'r ymdeimlad hwnnw o fod yn perthyn. Efallai nad yw'r ymdeimlad yma'n gwbl ddibynnol ar yr unigolyn ei hun, ond yn hytrach ar y boblogaeth leol a'u barn a'u hagweddau nhw sydd yn ymestyn yn ôl canrifoedd. Yng ngeiriau James, "*The local population holds the key to acceptance*" (2003: 62). Mae Day a Fitton (1975) yn cyfeirio at y ffyrdd y mae unigolion yn pennu statws ac yn ei alw'n y 'system fuchedd.' Awgrymwyd gan James ei fod yn ffordd Cymraeg amlwg o raniad a dosbarthiad cymdeithasol, sydd â gwreiddiau diwylliannol yn hytrach nag economaidd (1975: 63). Mae'n cyfeirio at ffordd o fyw, sef buchedd sydd yn rhoi pwyslais amlwg i hunan ddisgyblaeth a

gwerthoedd rhanedig, ac yn gwahaniaethu rhwng y rhai sydd methu gwireddu'r gwerthoedd yma (Day a Fitton, 1975). Fel awgrymwyd gan James:

> Locals perceive in-migration as a threat; a threat to the environment which incorporates the concept of community and also their national identity. After in-migration, this hierarchy was upset and there was a need to reassess both the hierarchy and the manner in which it was controlled. (1975: 65)

O ganlyniad, gwelwyd fod y gwahaniaeth diwylliannol rhwng y ddau grŵp yng ngwaith James, yn amlwg drwy ddiwylliant y gymuned a'r annhebygrwydd rhwng y mewnfudwyr eu hunain a'r trigolion lleol. Mae Cohen (1982) yn awgrymu fod yr ymgais i fod yn perthyn i gymuned yn nodwedd hollbresennol o gymunedau ymylol. Lle mae cymunedau yn gweld eu hunain fel ymylol, boed hynny'n economaidd, yn gymdeithasol neu'n wleidyddol, maent yn aml yn ystyried eu hunain yn ddi-bŵer, yn cael eu hanwybyddu a'u camliwio, nodweddion a all bygwth y diwylliant hwnnw. Byddai'n gymorth i mi ddefnyddio gwaith James felly wrth ystyried fy mhrosiect ymchwil personol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cysylltiadau teuluol a chyfeillgarwch wrth drafod lefelau integreiddio ac nid yw'n crybwyll ffactorau ieithyddol, ond yn hytrach yn rhoi pwyslais ar y diwylliannol. Gwelwyd, yn ogystal, fod dosbarth cymdeithasol yn effeithio'r canlyniad, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae'r traethawd presennol yn canolbwyntio ar symudiad pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, oherwydd canfyddiad Jones (2010) o ddadansoddi ystadegau Cyfrifiadau bod pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru oddeutu bedair gwaith yn fwy tebygol o fudo allan o Gymru nag yw pobl ifanc a anwyd yng Nghymru. Felly byddai'n ddefnyddiol diffinio'r hyn a olygir gan y 'bröydd Cymraeg'.

Y Fro Gymraeg yw'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r ardaloedd yng Nghymru lle mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf, gydag o leiaf 50 y cant o'r boblogaeth yn medru'r iaith; dyma gadarnle'r iaith Gymraeg heddiw, neu fel awgrymwyd gan Aitchson, Carter a Rogers, *"y Craidd parhaol, di-ildio o Gymreigrwydd,"* (1989: 4). Gellir dadlau fod ei statws wedi bod yn ddadleuol, hynny yw, nid yw'n cael ei chydnabod yn swyddogol fel tiriogaeth ieithyddol a diwylliannol sy'n wahanol iawn i'r Gaeltacht yn Iwerddon a'r Gaidhealtachd yn yr Alban.

Yn ogystal, gan fod ei fodolaeth yn ddibynnol ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg, mae'r ardaloedd yn newid gan fod y niferoedd wedi ac yn newid yn sylweddol, dros y degawdau. Dadleuwyd fod y term wedi ei fathu am y tro cyntaf gan Owain Owain a gyhoeddodd map o'r Fro Gymraeg yn Nhafod y Ddraig, yn Ionawr 1964 (Gweler y map isod). Roedd yr 1960au yn gyfnod allweddol yn naearyddiaeth yr iaith Gymraeg, lle gwelwyd ei fod yn dirywio'n argyfyngus lle na fyddai'n bosib rhyddhau ei hun. Roedd y newidiadau a'r dirywiad yn fwyaf amlwg a phoenus yn y mannau gwledig, a bu'r 'Fro Gymraeg,' yn arf wleidyddol bwerus yn y cais i wella'r sefyllfa. Fel yng ngeiriau Owain Owain:

Rhaid, felly, i'r arfau gwleidyddol a ddefnyddiwn er sicrhau annibyniaeth wleidyddol fod yn gydnaws â'n cenedligrwydd, a chan mai yn y Fro Gymraeg y mae'r ymwybyddiaeth gryfaf o genedligrwydd, yna, yn y Fro Gymraeg y mae'r frwydr wleidyddol bwysicaf i'w hennill. Enillwn y Fro Gymraeg, ac fe enillir Cymru, ac oni enillir y Fro Gymraeg, nid Cymru a enillir."

**Ffigwr 3: Map o'r Fro Gymraeg**[10]




Fel awgrymwyd gan Aitchson a Carter (1994: 39), mae hi'n bwysig nodi fod y prosesau oedd yn cael eu hystyried yn elyniaethus i'r iaith Gymraeg yn fwy gelyniaethus lle'r oedd Cymraeg a Saesneg yn cysylltu'n ddyddiol. Bu unigedd yn un o'r ffactorau oedd yn cadw'r iaith Gymraeg, a bu diwydiannu, wedi cyplysu gyda symudoledd poblogaethau, yn torri'r unigedd yma. Roedd hyn hefyd yn wir am yr ardaloedd hynny oedd yn peri'r pryder fwyaf sef rhannau o'r Gogledd a'r Gorllewin, a'r craidd a welwyd fel y 'Fro Gymraeg' (1994: 41). Roedd hyn ar ei amlycaf yn ystod yr 1960au a'r 1970au ac yn bennaf yn ganlyniad i'r grymoedd demograffaidd pwerus. Roedd allfudiaeth, y enwedig gan y boblogaeth ifanc, yn

[10] http://openlearn.open.ac.uk/file.php/4420/!via/oucontent/course/5222/d172_2_fig001.small.jpg Cyrchwyd Mawrth 2012

parhau ar frys ac roedd mewnfudo'r boblogaeth ddi-gymraeg yn gorlethu nifer o gymunedau o fewn calon y fro Gymraeg. Mae'r pwyslais yma ar y pwysigrwydd o amddiffyn y Fro Gymraeg, wedi ymddangos fel ffactor hanfodol ym mholisïau Cymdeithas yr iaith ac wedi adlewyrchu yng ngweithgareddau mudiadau ieithyddol eraill megis Cymuned.

Rhai cenedlaethau yn ôl byddai'n bosib dweud fod y rhan fwyaf o Orllewin Cymru, o Sir Fôn i rannau o Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn rhan o'r Fro. Roedd hyn hefyd yn cynnwys rhannau sylweddol o Orllewin Powys a rhannau o'r hen Glwyd. Erbyn heddiw er hynny, mae tiriogaeth y Fro wedi dirywio a gellir dadlau fod rhan sylweddol o bedair sir yn rhan ohono, sydd hefyd yn cynnwys cymunedau o siroedd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Gwynedd (77,846), Sir Gaerfyrddin (84, 196), Ceredigion (37,918) a Sir Fôn (38, 893), er hyd yn oed yn y siroedd yma, nid oes modd dadlau fod pob pentref a thref yn gadarnleoedd. Mae ardaloedd eraill gyda chyfraddau uchel o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys rhannau o Gastell Nedd, Porth Talbot (23,404), rhannau o Orllewin Powys (25, 814), Gogledd Sir Benfro (23, 967), ucheldiroedd Conwy (31, 298), rhannau o Sir Ddinbych (23, 760), Sir Fflint (20, 599) a rhannau o Abertawe (28, 938). Mae'r ffigyrau yma'n wir yn ôl cyfrifiad 2001:

**Ffigwr 4: Siaradwyr y Gymraeg ym Mhrif Ardaloedd Cymru 2001**[11]




[11] http://i21.photobucket.com/albums/b276/CSoc45/cymrubach.png Cyrchwyd Mawrth 2012

**Symudoledd Daearyddol a Chymdeithasol**

Ym Mhennod 1 nodwyd bod pobl ifanc â'r cymwysterau gorau yn tueddu i symud allan o'r bröydd Cymraeg oherwydd y diffyg cyfleoedd a geir ynddynt. Cyplysir hyn â'r ffaith fod y bröydd Cymraeg yn cael eu nodweddu gan economïau cul a llai amrywiol, nad ydynt yn medru cynnig yr un fath o gyfleoedd gyrfaol i bobl ifanc galluog.

Edrychodd Williams, Roberts ac Issac (1978) ar rôl iaith yng nghyswllt symudoledd cymdeithasol yn eu gwaith yng Nghwm Rhondda yn yr 1970au, sef '*Language Aspirations For Upward Social Mobility*.' Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad addysg Gymraeg, a'r cymhellion oedd gan rieni dros ddewis y math hwn o addysg i'w plant. Yn benodol, ymchwiliwyd i'r berthynas rhwng iaith a symudoledd cymdeithasol uwch. Gwelwyd enghraifft o hyn yng Nghanada, lle gwelwyd cymhelliant i siaradwyr Ffrengig fod yn ddwyieithog yn hytrach na'r siaradwyr Saesneg (Lieberson, 1970, dyfynnwyd gan Williams, Roberts ac Issac,1978). Mae symudoledd cymdeithasol uwch i'r Ffrancwyr yng Nghanada yn golygu dysgu Saesneg er mwyn sicrhau gwell cyfleoedd cyflogaeth, ac mae ymchwil tebyg o wahaniaethu iaith yn awgrymu y gall grŵpiau iaith roi gwybodaeth bwysig i ni am ddeinameg grŵpiau statws. Mae Weber wedi awgrymu na ddylai systemau statws caeedig fod yn seiliedig ar linellau dosbarth, ond yn hytrach ar bynciau megis iaith, sydd yn torri ar draws linellau dosbarth. Noda Weber bod grŵpiau iaith yn wahanol i grŵpiau statws eraill oherwydd mae'n rhwyddach cael mynediad i'r grŵp drwy ddysgu'r iaith, neu adael y grŵp drwy wrthod yr iaith (Williams, Roberts ac Isaac, 1978: 193).

Fel y dadleuwyd gan Williams, Roberts ac Issac (1978), mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau ar yr iaith Gymraeg yn canolbwyntio ar agweddau tuag at yr iaith, gyda ffactorau cymdeithasol eraill yn cael eu gweld yn eilaidd. Bwriad Williams, Roberts ac Issac oedd creu ymchwil oedd yn talu mwy o sylw i'r ffactorau cymdeithasol hyn, er nad oes modd anwybyddu nodweddion fel agwedd yn gyfan gwbl. Mae'r gwaith yn cynnwys dwy ddamcaniaeth bwysig, sef os yw'r cyfleoedd gyflogaeth newydd sy'n gysylltiedig gyda chymhwyster yr iaith Gymraeg yn dueddol o fod yn yrfaoedd dosbarth canol, yna disgwylir i'r rhieni dosbarth gweithiol hynny sydd â gobeithion ar gyfer symudoledd cymdeithasol uwch ar gyfer eu plant, annog dysgu neu gadw'r iaith Gymraeg yn fwy na'r rhieni nad oes â gobeithion o'r

fath (Williams, Roberts ac Isaac, 1978: 194). Disgwylid i blant o'r grŵpiau yma gael eu denu i ysgolion dwyieithog. Er hynny, mae hi'n amlwg er y datblygiadau yma fod gan yr iaith Gymraeg werth cyfyngol, gan ei fod wedi ei gyfyngu i Gymru yn unig. Mae gwaith Watson (1964) wedi trafod symudoledd cymdeithasol uwch yn nhermau dau derm pwysig sef 'Spiralists,' a 'Burghers,' sef 'Spiralists,' yn unigolyn sydd yn cyfuno symudoledd cymdeithasol a daearyddol a 'Burghers,' sydd yn ystyried symudoledd cymdeithasol mewn modd mwy cyfyngedig ac yn ymlynu eu hunain i gymdeithas fwy lleol. Felly, mae ail ddamcaniaeth Williams, Roberts ac Issac yn awgrymu fod y rhieni hynny sy'n gyrru eu plant i'r ysgolion dwyieithog o ganlyniad i ddyheadau symudoledd, yn fwy tebygol o weld eu plant fel 'Burghers,' yn hytrach na 'Spiralists,' er y mae modd dadlau y bydd tuedd i 'Spiralism' olygu mudo o fewn Cymru (1964: 195).

Er mwyn profi'r ddamcaniaeth, dewiswyd dau grŵp o bedwardeg o rieni dosbarth gweithiol yn gydradd o ran gender ac wedi'u dewis ar hap ymysg rhieni plant yn mynychu dwy ysgol gynradd. Yr oedd un ysgol yn ddwyieithog ar llall yn ysgol Saesneg ei chyfrwng. Lleolwyd y ddwy ysgol yng Nghwm Rhondda â phoblogaeth dosbarth gweithiol yn gyffredinol, ardal ac erydiad amlwg yn yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod ydoedd (Williams et al 1978: 195). Dosbarthwyd atebwyr yr ymchwil i grŵp NW (rhieni heb ddewis addysg ddwyieithog) a grŵp W (rhieni a ddewisodd addysg ddwyieithog). Yr oedd gan rieni grŵp W ddau brif reswm dros ddewis addysg ddwyieithog i'w plant sef rhesymau diwylliannol megis cyd-destun emosiynol yr iaith Gymraeg a rhesymau academaidd megis ansawdd dysgu ac awyrgylch gyfeillgar yr ysgolion. Rhesymau gwahanol iawn a gafwyd gan rieni grŵp NW. Rhesymau tebyg oedd rhai yn seiliedig ar gyfleustra a beth oedd yn ymarferol i'r rhieni, yr oedd yna lai o gyfeiriadau tuag at yr iaith Gymraeg ac yn ogystal, llai o gyfeiriadau tuag at ddyfodol eu plant.

Er mwyn gwerthuso agweddau unigolion o fewn pob grŵp, yr oedd gofyn i atebwyr ymateb i gyfres o ddatganiadau a wnaeth ysgogi ymatebion ar bynciau megis gwerth dysgu'r Gymraeg, neu wastraff amser dysgu'r Gymraeg a pherthynas swyddi â'r iaith Gymraeg. Enghraifft o un datganiad oedd 'Dylai pobl sy'n byw yng Nghymru fedru siarad Cymraeg' a'r cyfle ganddynt i 'gytuno'n gryf,' ac i 'anghytuno'n gryf,' ar y raddfa. Dangosodd aelodau'r grŵp W agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ym mhob un datganiad, tra bod

grŵp NW yn debygol o fod yn llai sicr yn eu hymatebion. Wrth brofi prif ddamcaniaethau'r ymchwil, y mae rhieni plant sy'n mynychu addysg ddwyieithog yn dueddol o feddwl yn nhermau symudoledd cymdeithasol uwch i'w plant. Yr oedd y rhain yn fwy amlwg na'r rhieni lle mae'r plant yn derbyn addysg Saesneg. Yn ôl Williams et al (1978: 203) mae'r grŵp W yn cydnabod gwerth economaidd y Gymraeg sy'n cadarnhau ymchwil Khleif (1980) a Giggs a Pattie (1992) sy'n crybwyll bod meddu ar y Gymraeg yn cynyddu cyfleoedd swyddi a'r farchnad lafur. Yr oedd grŵp NW yn llai uchelgeisiol i'w plant yn nhermau cyflogaeth y dyfodol. O fewn Grŵp W, yr oedd y Gymraeg yn chwarae rôl bwysig yn eu huchelgais i'w plant, yr oeddynt yn ymdrin â symudoledd cymdeithasol a ffocws lleol, cyfyngiadau daearyddol, ac yn ffocysu ar Gymru.

Yn gyffredinol, gallwn ddweud fod rhieni grŵp W yn 'Burghers,' ac am aros yng Nghymru heb ail leoli, ond bod rhieni Grŵp NW yn 'Spiralists,' yn mynegi'r angen i ail leoli y tu allan i Gymru oherwydd swyddi. Yn ôl Grŵp W, dylai plant aros yng Nghymru i fanteisio ar yr iaith, meddu ar symudoledd cymdeithasol uwch a chyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg. Yn wir, y mae hyn yn cadarnhau'r ail ddamcaniaeth. Pwysleisiai ymchwil Williams et al (1978: 203), bwysigrwydd y Gymraeg yn gysylltiedig â'r symudoledd cymdeithasol uwch trwy addysg ddwyieithog ond y mae angen i hyn gynyddu ymhellach er mwyn i'r iaith ffynnu gan fod swyddi'r Gymraeg yn llai cyfyngedig. Mae hyn yn dwyn i'r cof gwaith Fishman (1976) bod ysgolion dwyieithog neu ysgolion ieithoedd lleiafrifol yn "Socially divisive," oherwydd eu bod yn darparu cyfleoedd a buddion y farchnad lafur unigryw i siaradwyr yr iaith leiafrifol hynny.

Fodd bynnag, er natur arloesol ymchwil Williams et al (1978), datgan y gwna ymchwil Bush et al (1981) a Davies (1986) bod gan unigolyn gymhelliannau amrywiol a chymhleth y tu hwnt i resymau economaidd yn unig wrth ddewis addysg i'w plant. Ond yn gyffredinol, gwelwyd fod gwaith Williams et al (1978) yn rhoi enghraifft wahanol i mi, tu hwnt i batrymau integreiddio, pam fod pobl ifanc yn dewis symud o'r bröydd. Gellir dadlau ei fod yn rhoi cais pwysig i resymau ymarferol a chymdeithasol dros symud, ac yn darparu theori hanfodol ar gyfer gweddill fy ngwaith.

Symudoledd o fath arall yw'r symudoledd daearyddol y cyfeiriwyd ato'n helaeth ym Mhennod 1. Bu mewnfudiaeth ac allfudiaeth yn bynciau llosg ac emosiynol yng Nghymru ers blynyddoedd maith, fel y gwelir o araith gan Emyr Llywelyn, sylfaenydd mudiad Adfer:[12]

> Every time a home in Y Fro Gymraeg goes to a foreigner we die; every time a young Welshman [sic] leaves Y Fro Gymraeg we die.....Our country, Wales, has ceased to be. Only the empty, meaningless name remains, without the substance of society and locality.
> Llywelyn (1986: 245) Dyfynnwyd gan Day (2002: 213)

Dadleuwyd fod lleihad graddol wedi bod ym mhoblogaeth y siroedd gwledig ers 1840 a tuag at y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y tuedd graddol yma'n cynyddu. Yn ystod yr 1880au yn unig, bu i chwarter y boblogaeth wledig, sef tua 100,000 o bobl, adael eu bröydd. Dadleuai Jenkins (1971) fod y patrymau mudo yma yn ganlyniad anochel i'r gofyn am fwy o weithwyr yn y rhannau mwyaf diwydiannol o Gymru ac y bu'n gysylltiad pwysig yn hanes Cymru Day 2002: Tud: 153). Er enghraifft, roedd yr ymfudwyr i'r trefi diwydiannol yn aml yn cadw cysylltiad gydag eraill o Gymru wledig a bu'n ganlyniad ffafriol i'r patrymu newydd yma. Er hynny, roedd y tueddiadau newydd yn golygu fod pobl yn mentro tu allan i'r hyn yr oeddynt wedi arfer a bu'r cynnydd cynyddol yn golygu fod yr ardaloedd gwledig yn colli eu gweithwyr sgiliedig, eu perchnogion siop, eu crefftwyr a'u gweithwyr proffesiynol, i'r ardaloedd mwyaf yng Nghymru a dinasoedd Lloegr (G. A Williams, 1985). Bu pocedi sylweddol o ddiwydiannu mewn rhai mannau o Gymru, ond bu'r newidiadau yma yn fodd o estroni ac ymylu Cymru wledig mewn ffordd nad oedd yn ffafriol nac ychwaith yn fanteisiol i'r ardaloedd hynny oedd yn teimlo'r effeithiau mwyaf. O ganlyniad, gwelwyd fod nifer o'r ardaloedd yma'n cael eu hystyried yn anghysbell yn ddaearyddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol o'r hyn a ystyriwyd fel y bywyd Prydeinig. Fel awgrymodd Day (2002) roedd unrhyw ymgais i geisio gwella'r sefyllfa yn ofer gan fod pwyslais cynyddol ar agweddau a theorïau trefol oedd yn ffafrio polisïau o'r un farn. Nid oedd unrhyw ddealltwriaeth felly o'r newidiadau mewn ardaloedd gwledig ac o ganlyniad bu absenoldeb unrhyw strategaeth amlwg ar gyfer datblygiad cymdeithasol, economaidd neu ddiwydiannol (2002: 154). Gellir

---

[12] 'gweler, e.e., 'Lladmerydd Y Fro Gymraeg... proffwyd tanbaid y deffroad iaith yng Nghymru.' Emyr Llew, Y Faner Newydd, Rhifyn 35, 2005.

dadlau fod y golled fwyaf yn ffurf y boblogaeth ifanc, oedd yn gadael gyda'u syniadau a'u hegni newydd gyda nhw.

Yng nghlwm gyda'r tueddiadau uchod, mae'r meddylfryd fod Cymru wledig yn golygu Cymru Cymraeg, sydd yn cael ei atgyfnerthu yng ngwaith Rees (1996) ac academyddion eraill. O ganlyniad, gwelwyd colled ym mhoblogaethau'r wlad fel colled y Gymraeg, ac fel y mae dyfyniad Llywelyn (1986) yn awgrymu uchod, mae'r rhagdybiaeth yma'n creu llawer o deimladau o ofn yn ogystal â theimladau radical. Gellir dadlau wrth gwrs nad dyma'r unig fath o Gymreictod, ac yn wir ei fod yn medru amlygu ei hun mewn nifer o wahanol ffurfiau. Mae'r Cymry wedi parhau i symud o'u hardaloedd gwledig a'u bröydd genedigol, ac yn bennaf i Loegr, er i ffigyrau diweddar ddangos symudiad arwyddocaol i Gaerdydd a De Morgannwg. Yn eu lle, gwelwyd ymfudwyr newydd i'r bröydd sydd yn cyrraedd o ardaloedd ffyniannus a llewyrchus yn Lloegr, gyda 20% o gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru wedi eu geni tu allan i'r wlad. Yn ogystal, mae cyfraddau'r boblogaeth wedi eu geni tu allan i Gymru yn uwch yn siroedd gwledig Ceredigion, Gwynedd a Powys, sydd yn awgrym fod rhai mannau o Gymru yn fwy amlgenhedlig, yn nhermau tarddiad pobl, na'r rhan fwyaf o Brydain (2002: 214).

Mae Giggs a Pattie (1992) yn eu hastudiaeth ar Gymru fel cymdeithas luosol, yn talu sylw manwl i'r dadleuon sy'n trafod iaith a statws cymdeithasol. Yn benodol, maent yn rhoi ystyriaeth i'r farn fod mewnfudwyr Saesneg yn gwanhau Cymreictod yr ardaloedd y maent yn mudo iddynt (Day 2002: 226), ac yn ceisio mynnu goruchafiaeth dros y boblogaeth leol (G. Williams 1986). Mae'n farn gyffredin fod y mewnfudwyr honedig yn falch ac yn drahaus yn eu hymddygiad, ac yn aml yn cael eu cymeriadu fel uwchraddol eu statws cymdeithasol mewn cymhariaeth i'r boblogaeth leol. Mae'r newidiadau cyflym sydd yn digwydd ar lefel lleol wedi ysbrydoli llawer o ysgrifenwyr, ac yn ystod y blynyddoedd mae mudiadau megis Plaid Cymru wedi ailadrodd fod mewnfudo yn fater gwleidyddol allweddol sydd yn fygythiad parhaol i'r hyn a ystyriwyd fel hunaniaeth Gymraeg. Mae'r ceisiadau i geisio lleihau'r effaith yng Nghymru yn amrywio yn ôl ardal ac yn cynnwys polisïau ar reolau cynllunio, adeiladu tai a thai haf neu ail dai. Yn ogystal, fel sydd yn digwydd yn Lloegr gyda mewnfudwyr sydd ddim yn siarad Saesneg, mae Cymuned wedi mynnu y dylid cymryd yr un camau i sicrhau fod mewnfudwyr di-gymraeg yn dysgu'r iaith. Mae Colin

Williams (2000) er enghraifft yn awgrymu fod, "*issues of rural community are being rediscovered and repackaged by the language movement in ecological form, as a matter of the survival of the cultural species and a necessary response to globalization.*" (Dyfynnwyd gan Day 2002: 228). O safbwynt yr ymchwil hwn er hynny, gwelwyd o'r llenyddiaeth fod mewnfudo, a mudo'n gyffredinol, yn bynciau dadleuol sydd yn debygol o gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y rhai sy'n dewis gadael neu gyrraedd. Byddwn i felly'n cwestiynu'r effaith y mae symud i ardal neu wlad arall yn cael ar y rhai sy'n gwneud y penderfyniad i newid ac o ganlyniad byddai'n bwysig i mi ystyried y ffactorau sy'n cyfrannu at y tueddiadau a'r newidiadau yma.

Fel y soniwyd eisoes, mae'r llenyddiaeth ar batrymau mudo a'r rhesymau dros y tueddiadau yn brin ac yn amrywio yn ôl manylder. Bydd y wybodaeth a ddarparwyd isod yn gymysgedd o ffigyrau o Gymru gyfan a rhannau penodol o Gymru. Mae'r wybodaeth ar y rhannau penodol yn bwysig gan iddo ddarparu mewnwelediad gwell i'r ardaloedd hynny yr ydw i am eu hastudio ar gyfer y gwaith maes.

Mae gan sefyllfaoedd economaidd, y farchnad lafur a'r byd tai, dylanwad cryf ar batrymau mudo rhanbarthol. Gall newidiadau a symudiadau effeithio ar ffyniant presennol a llewyrch ar gyfer y dyfodol ardal, yn ogystal â'r gofyn am wasanaethau lleol. Mae Bwletin Ystadegau Gwladol (2006) yn disgrifio'r prif symudiadau o fewn a thu allan i Gymru yn gyffredinol. Y prif bwyntiau a ddarganfuwyd oedd bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth o Loegr, sydd yn mudo i Gymru, yn gwneud hynny i'r Gogledd o'r wlad. Mae all-lif o fudwyr i Loegr yn cynnwys lefelau uchel o oedrannau 16-24, gydag eithriad De Ddwyrain Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd yn gadael Cymru, yn mudo i Dde Orllewin Lloegr, tra mae'r rhan fwyaf o fudwyr o Loegr yn cyrraedd Gogledd Orllewin Cymru. O safbwynt yr oed 16-24, mae'r patrymau mudo o fewn Gymru, yn awgrymu fod casgliad uchel yn symud i Dde Orllewin y wlad[13]. Er nad yw patrymau mudo o fewn Cymru yn altro'r niferoedd cyffredinol o bobl o fewn y wlad, gall symudoledd ddylanwadu ar strwythur y boblogaeth o fewn ardaloedd. Gall rhai ardaloedd golli mwy o bobl ifanc sydd yn mudo er mwyn dilyn cyfleoedd addysg uwch er

[13] GYFARWYDDIAETH YSTADEGOL (2006:1): *Patterns of Migration in Wales.* Bwletin Ystadegol, Ystadegau Gwladol. Cyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad Cenedlaethol, Cymru. 2006. www.wales.gov.uk/topics/statistics Cyrchwyd 20/06/09

enghraifft, tra gall y boblogaeth hŷn gael eu hatynnu i ardaloedd penodol ar gyfer ymddeol. Mae unigolion ar draws y sbectrwm oed, yn mudo mewn ymateb i gyfleoedd economaidd. Mae amcangyfrifon o fewn y bwletin hwn, yn cael eu darparu fel cyfartaledd y patrymau symudoledd yn ôl blwyddyn, dros gyfnod o 5 mlynedd sef o 1999 i ganol 2004.

Fel y gwelir o Dabl 6, sydd yn dangos y mewn llif cyfartalog o Loegr, o'r 5 prif ranbarth yng Nghymru, Gogledd Cymru sydd wedi profi'r nifer fwyaf o fewnfudwyr, gyda Chonwy yn cynnwys 27.7 y cant a Sir Fôn gyda'r lleiaf, sef 7.5 y cant. Gwynedd oedd yn dangos fel y sir gyda'r all-lif fwyaf (2006: 2). Yng Nghanolbarth Cymru, Powys oedd gyda'r nifer fwyaf o fewnfudwyr, gyda 68.3 y cant. Er hynny, Ceredigion oedd yn effeithio'r cyfartaleddau mewn llif ac all-lif, gyda 47 person mewn 1000 yn symud yno a 39 mewn 1000 yn symud allan. Dadleuwyd gan y Bwletin Ystadegol (2006), mae'r gyfradd uchel o fyfyrwyr sydd yn cyrraedd ac yn gadael pob blwyddyn, oedd y rheswm dros y patrymau yma.

O safbwynt de Orllewin Cymru, sir Gaerfyrddin oedd yn cyfrannu fwyaf tuag at y patrymau mudo gyda 41.2 y cant, ac Abertawe gyda'r lleiaf sef 13.8 y cant. Dangoswyd fod gan sir Benfro'r gyfradd mewnlif mwyaf, gyda llawer yn ymgartrefu yno ar ôl bod ar eu gwyliau. Mae'r Cymoedd hefyd yn dangos ystadegau diddorol, gyda'r Bwletin yn dangos fod patrymau mudo i'r ardaloedd yn isel. Er hynny, Caerffili oedd yn cyfrannu mwyaf gyda 30.2 y cant. Mae'n rhaid wrth gwrs crybwyll ffigyrau Caerdydd gan fod ystadegau'n gynyddol dangos fod cyfraddau uchel o bobl yn symud i ddinasoedd mwy Cymru. Roedd ffigyrau Caerdydd yn dangos patrymau mudo ar gyfradd o 43.8 y cant. Rhaid wrth gwrs rhoi ystyriaeth i oed yn ogystal, gyda chanlyniadau'r Bwletin yn dangos fod all-lif o fudwyr i Loegr, ar draws y 5 rhanbarth. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o oed 16-24, sydd yn awgrym fod y grŵp yma'n cynnwys myfyrwyr a graddedigion sydd yn symud ar draws y wlad i brifysgolion ac er mwyn dilyn gyrfaoedd.

**Tabl 6: Cyfartaledd y Patrymau Mudo gyda Lloegr, yn ôl Ardal, Pob Blwyddyn. Wedi Eu Sylfaenu ar Amcangyfrifon Rhwng 1999 a 2004 (Pob Mil)[14]**

| | CYFARTALEDD | | | CYFRADD (POB 1000 O'R BOBLOGAETH) | |
|---|---|---|---|---|---|
| **ARDAL** | **Mewn** | **Allan** | **Cyfartaledd** | **Mewn** | **Allan** |
| Gogledd Cymru | 17.7 | 14.0 | 3.7 | 27 | 21 |
| Canolbarth | 7.8 | 6.0 | 1.8 | 38 | 29 |
| De Orllewin | 11.7 | 8.9 | 2.9 | 18 | 14 |
| Y Cymoedd | 6.7 | 5.9 | 0.8 | 9 | 8 |
| De Ddwyrain | 15.5 | 13.7 | 1.8 | 23 | 21 |
| | | | | | |
| Cymru Gyfan | 59.4 | 48.5 | 10.9 | 20 | 17 |

O safbwynt mudwyr o Loegr, dengys fod Gogledd Cymru yn denu'r ffigyrau uchaf o bobl oed 65 a hŷn, gyda De Ddwyrain Cymru'n denu'r lleiafswm. Roedd Gogledd Cymru hefyd yn denu'r mwyaf o fudwyr o oed 0-12, 25-44 a 45-64, gyda De Orllewin Cymru'n dilyn. Ymddangoswyd fod pob awdurdod lleol, gan eithrio Gwynedd, yn cyfrannu tuag at y ffigyrau all lifo mudwyr oed 16-24, gyda Chonwy'n cyfrannu mwyaf. Er hynny, mae Conwy yn denu ffigyrau uchel iawn o fudwyr o oed 65 a drosodd (Tud: 2). Yng Ngheredigion, roedd cyfraddau uchel o fudwyr oed 16-24 o Loegr, o ganlyniad i'r nifer cynyddol o fyfyrwyr oedd yn hanu o gartrefi Saesneg. Dengys fod y ffigyrau uchod o ddiddordeb mawr i mi, yn enwedig wrth ystyried patrymau Gwynedd a Cheredigion yn benodol. O ganlyniad i rai o'r patrymau a welwyd yma, teimlaf y byddai'n bwysig i mi roi ystyriaeth ymhellach i'r siroedd mewn golwg yn y drydedd bennod.

[14] GYFARWYDDIAETH YSTADEGOL (2006): *Patterns of Migration in Wales.* Bwletin Ystadegol, Ystadegau Gwladol. Cyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad Cenedlaethol, Cymru. 2006. www.wales.gov.uk/topics/statistics

Gwelwyd fod 3 o'r 4 awdurdod lleol yn Ne Orllewin Cymru'n dangos yr un ffigyrau o safbwynt all lif uchel o bobl ifanc i Loegr, oed 16-24, gyda mewnlif uwch o fewn y grŵpiau oedran eraill. Mae'r un peth yn wir hefyd am Gaerdydd, sydd â'r nifer uwch o fewnfudwyr yn y grŵp oedran 16-24 o Loegr. Wrth ystyried y bobl oedd yn gadael, roedd 42 y cant o'r rheini oedd yn gadael Gogledd Cymru yn gwneud hynny i Ogledd Orllewin Lloegr, gyda 10 y cant ychwanegol yn symud i Orllewin y canolbarth (Tud: 4). Roedd yr un ardaloedd hefyd yn darparu'r mwyafrif o'r mudwyr o Loegr i Ogledd Cymru gyda 46 y cant a 17 y cant. O safbwynt canolbarth Cymru, roedd 31 y cant o fudwyr oedd yn gadael, yn gwneud hynny er mwyn symud i Orllewin canolbarth Lloegr, tra roedd 34 y cant o fudwyr i Ganolbarth Cymru'n symud yn y cyfeiriad gwrthwyneb.

Nid oes gan batrymau mudo o fewn Cymru, unrhyw effaith ar lefelau cyffredinol y boblogaeth, ond gall fod yn bwysig yn nhermau cartrefi lleol a marchnadoedd llafur. De orllewin Cymru, oedd yr unig un o'r 5 rhanbarth i brofi mewnlif o fudwyr, o gyfuniad o'r rhannau eraill. Dros y cyfnod o ganol 1999 i ganol 2004 roedd cynnydd o tua 650 o bobl, bob blwyddyn i'r De Orllewin. Mae'r mwyafrif o'r cynnydd yn hanu o'r newidiadau yn y Cymoedd ac yna o Ganolbarth Cymru, ac ychydig yn unig o'r Gogledd (Tud: 5). Er hynny, profodd Gogledd Orllewin Cymru, all lif o fudwyr i'r De Ddwyrain, gyda chyfartaledd o 140 yn fwy o bobl yn symud allan nag i mewn. Roedd y ffigyrau all lif o'r De Orllewin i Gaerdydd yn ddwbl hyn, sef 280 o bobl y flwyddyn. Wrth ystyried y patrymau yn ôl oed, roedd y golled a wnaed o ganlyniad i allfudiaeth yn y grŵp oedran 16-24 yn unig, sydd unwaith eto, o ganlyniad i gyfleoedd yrfa ac addysg yn ôl y Bwletin (2006). Mae'r canolbarth hefyd yn profi'r un golled mewn ffigyrau i'r De Orllewin, sef 170 o bobl y flwyddyn a'r De ddwyrain gyda 180 y flwyddyn. O safbwynt Gogledd Cymru, roedd all lif o fudwyr i ranbarthau eraill yng Nghymru, gyda 190 o bobl y flwyddyn yn symud allan nag yn symud i mewn. Roedd y rhan fwyaf o'r golled yma yn amlwg yn Ne Ddwyrain Cymru, gyda 160 o bobl o'r Gogledd yn symud yma, yn benodol yn y grŵp oedran 16-24 oedd yn casglu yng Nghaerdydd (2006: 5).

Gwelwyd fod symudoledd y grŵp oed 16-24 yn weithredol iawn yn y ffigyrau uchod. Er hynny, efallai nad yw'r ffigyrau yn rhoi digon o sylw i'r rhesymau pam fod y grŵp yma'n dangos lefelau uwch o fudo na grŵpiau eraill. Ymddengys nad addysg a gyrfa yn unig sy'n

sbardun i bobl ifanc adael eu bröydd, a gellir dadlau fod pobl yn symud am nifer o wahanol resymau ar wahân i'r rhai economaidd a datblygiad personol. Mae hyn yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol edrych yn fanylach ar rwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys teulu a chyfeillion, oherwydd pwysigrwydd y rhain, ynghyd â phatrymau integreiddio a chyfalaf cymdeithasol, ym mhenderfyniadau pobl ifanc i adael neu aros yn eu cymunedau eu hunain.

**Integreiddio a Chyfalaf Cymdeithasol**

Mae integreiddio cymdeithasol yn awgrymu fod diffyg rhyngweithiad cymdeithasol positif, a derbyniaeth, yn debygol o gael canlyniadau negyddol ar yr unigolyn, teulu, cymuned a chymdeithas. Mae astudiaethau ar integreiddio wedi dangos ei fod yn cael effaith bositif ar grŵpiau wedi eu heithrio'n gymdeithasol a bod cymryd rhan mewn rolau cymdeithasol yn sicrhau fod pobl yn datblygu eu hunan hyder a hunan werth, iechyd ac yn gwella ymrwymiad i'r gymdeithas ehangach.

Gellir dadlau fod y theori wedi ei datblygu gan Emile Durkheim yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lle awgrymwyd fod integreiddio cymdeithasol yn fodd lle mae pobl yn rhyngweithio ac yn cysylltu gyda'i gilydd a'r gymdeithas. Roedd yn credu'n gryf yn y theori, ac roedd yn awgrymu fod integreiddio'n rhoi pwrpas ac ystyr i fywyd. Roedd ei theorïau'n seiliedig ar grŵpiau cymdeithasol gwleidyddol, cymdeithasol domestig a chymdeithasol crefyddol. Yn ôl Durkheim, mae digwyddiadau megis rhyfel, a digwyddiadau gwleidyddol pwysig yn cynyddu integreiddio cymdeithasol sydd felly'n lleihau'r cyfrif o iselder a'r meddyliau hunanddinistriol. Mae cael gelyn cyffredin yn uno pobl gan droi unigolion i mewn i gymdeithas. Bu i Durkheim hefyd edrych ar y cysylltiadau oedd yn bodoli rhwng pobl oedd yn perthyn i grefydd benodol. Darganfuwyd fod pobl oedd yn credu mewn cred unfath yn cael eu huno o dan gred gyfrannol ac felly'n rhoi pwrpas i unigolion. Bu'n ymddangos fel nod cyffredin, yn ogystal â system cred gyffredin. Mae diffyg integreiddio cymdeithasol yn ôl Durkheim yn gallu arwain at *"excessive individualism,"* lle nad oes rhwymyn cymdeithasol sydd yn cadw unigolyn fel rhan o gymdeithas.

Mae'r theori'n cynnig fod pobl yn profi buddion meddyliol, corfforol ac emosiynol wrth gredu eu bod yn cyfrannu ac yn rhan o gydweithfa. Mae cymdeithasegwyr yn ceisio darganfod sut mae'r theori'n cysylltu gyda modelau cymdeithasegol eraill, gan gynnwys y theori o ddilysu neu 'validation.' Mae integreiddio cymdeithasol yn dibynnu ar y grŵp cyfoed. Fel awgrymwyd gan Hardy (2009):

Social integration relies on the peer group as one motivator in retention in an academic environment. Additional study suggests validation from faculty or leadership in creating a sense of inclusion for students struggling with integration in an unfamiliar environment is also beneficial.[15] (2009: 1)

Mae cymdeithasegwyr yn pwysleisio fod dilysu neu '*validation*,' yn rhan bwysig o integreiddio cymdeithasol, drwy awgrymu y gall olygu profiadau academaidd positif i grŵpiau lleiafrifol.

Gwelwyd fod y gwaith uchod yn adlewyrchu rhannau o fy ngwaith i, lle awgrymwyd fod diffyg integreiddio yn golygu nad yw unigolyn yn teimlo fel rhan gyflawn o'r gymuned neu'r gymdeithas ac felly'n teimlo eu bod wedi eu heithrio'n gymdeithasol. Byddai canlyniadau tebyg yn golygu na fyddai unigolyn yn teimlo'n hapus nac yn fodlon ac efallai'n penderfynu mudo i geisio am yr integreiddio yma. Mae'n rhaid hefyd nodi fod y cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymdeithasol yn debygol o fod yn llai o fewn y Fro Gymraeg gan y gellir dadlau fod llai o gyfleoedd yn gyffredinol. Mae'r theori hefyd yn cysylltu gyda gwaith Hywel M Jones, lle gwelwyd y gall integreiddio fod yn un o'r ffactorau allweddol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd.

Yn gysylltiedig gyda'r theori uchod, y mae'r cysyniad o Gyfalaf Cymdeithasol a ddatblygwyd gan Jacobs (1961), Bourdieu (1983) Coleman (1988) a Putnam (2000). Mae Putnam yn cyflwyno'r theori drwy awgrymu:

Whereas physical capital refers to physical objects and human capital refers to the properties of individuals, social capital refers to connections among individuals – social networks and the norms of reciprocity and trustworthiness that arise from them. In that sense social capital

[15] http://www.ehow.com/about_5399164_theory-social-integration.html Cyrchwyd 16/09/10

is closely related to what some have called "civic virtue." The difference is that "social capital" calls attention to the fact that civic virtue is most powerful when embedded in a sense network of reciprocal social relations. A society of many virtuous but isolated individuals is not necessarily rich in social capital.

(Putnam 2000: 19).

Gellir dadlau ei fod yn ymestyn ar y theori ar integreiddio cymdeithasol, lle gwelwyd ei fod yn pwysleisio fod rhyngweithio'n galluogi i bobl adeiladu cymdeithasau ac felly sicrhau fod synnwyr o berthyn a rhwydweithiau cymdeithasol cryf. Gwaith Robert Putnam sydd yn uno'r gwaith ar gyfalaf cymdeithasol, hynny yw, mae'n tynnu ar waith nifer o ysgrifenwyr er mwyn creu theori gynhwysfawr. Mae'n dadlau fod cyfalaf cymdeithasol yn galluogi i ddinasyddion adfer problemau cyfunol yn gynt ac yn haws ac yn dadlau ei fod yn galluogi i'r gymdeithas ddatblygu o ganlyniad i hyn. Bu o'r un meddylfryd a Durkheim, pan awgrymodd fod cyfalaf cymdeithasol yn bodoli er mwyn lles pobl. Mae'r rhai sydd â diddordeb mewn lles cymdeithasol wedi cymryd diddordeb mawr yng ngwaith Putnam, ac yn ei gysylltu gyda dwysedd rhwydweithiau cymdeithasol y mae pobl yn rhan ohonynt. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio gydag eraill mewn gweithgareddau anffurfiol, cymdeithasol ac o fewn eu perthnasau gydag eraill a grŵpiau a chyfundrefnau. Er enghraifft, mae dirywiad wedi bod yn y nifer o weithgareddau cymunedol yn America a chynnydd mewn gweithgareddau hamdden unigol. O ganlyniad, dadleuwyd gan Putnam fod cyfalaf cymdeithasol yn gwanhau (2000) Heb y rhwydweithiau a'r cysylltiadau yma rhwng pobl, dadleuwyd na fydd cydlynu cymdeithasol.

O safbwynt fy ymchwil i, gellir dadlau fod cyfalaf cymdeithasol yn gyfeiriad pwysig, hynny yw, mae Putnam yn gallu dangos fod datblygiad plant a phobl ifanc yn cael ei effeithio a'i siapio gan gyfalaf cymdeithasol. Mae ymddiriedaeth, a normau o fewn teuluoedd, yr ysgol, grŵp cyfoedion a'r gymuned ehangach yn cael effaith ar eu cyfleoedd a'u dewisiadau eu cyrhaeddiad addysgol ac felly eu hymddygiad a'u datblygiad (2000: 296-306). O safbwynt integreiddio cymdeithasol felly, byddai unigolyn yn llai tebygol o fudo o'r fro petai'n teimlo cyfalaf cymdeithasol ac er mwyn gweithredu hyn, yn rhan o grŵpiau cymdeithasol a chyfoed ehangach. Mae'r gwaith uchod yn fy ngalluogi i ystyried gwaith Hywel Jones ar integreiddio yn ehangach, ac felly i gymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau a all effeithio ar benderfyniad unigolyn i fudo neu i aros.

**Cloi a Damcaniaeth**

Yn y bennod hon, edrychwyd ar y theori sy'n sail i'r astudiaeth arfaethedig. Mae'r theori hon yn ystyried mai un grŵp cymdeithasol ymhlith nifer yw grŵp iaith, ac o'r herwydd daw ei aelodau dan ddylanwad newidiadau strwythurol ehangach fel aelodau unrhyw grŵp cymdeithasol arall. Gwelwyd sut mae newid economaidd yn gallu effeithio ar batrymau cynhyrchu ac atgynhyrchu iaith, a bod hyn yn gysylltiedig â'i gwerth yn y farchnad lafur a pha mor bwysig yw hi i hybu symudoledd cymdeithasol uwch. Ystyriwyd y cysyniadau o gymunedau a'r bröydd Cymraeg, mewnfudo ac allfudo, a'r modd y defnyddir dadansoddiad o rwydweithiau cymdeithasol i hybu ein dealltwriaeth o brosesau cymdeithasol ehangach sy'n effeithio ar actorion cymdeithasol. Yn olaf, ystyriwyd y cysyniadau o integreiddio a chyfalaf cymdeithasol, gan y tybir y bydd y rhain yn effeithio ar ddyheadau a bwriadau pobl ifanc yn y bröydd Cymraeg i aros neu i symud o Gymru.

Wrth ystyried y llenyddiaeth a adolygwyd yn ystod pennod un a phennod dau felly, dadleuwyd fod nifer o ffactorau a all effeithio ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, gan gynnwys cyfuniad o ffactorau diwylliannol ac economaidd fel ei gilydd. Er hynny, prif ddamcaniaeth yr astudiaeth yw disgwylir i'r bobl ifanc hynny, sydd yn hanu o deuluoedd ymfudol ac sydd yn dewis ymfudo o'r bröydd, wneud hynny ar sail diffyg mewn economi leol, a chyfleoedd ar gyfer gwaith a chyflogaeth uwch nac sydd ar gael o fewn eu hardaloedd traddodiadol. Yn wahanol i'w cymheiriaid sydd yn enedigol i'r fro, awgrymwyd y bydd eu dewis hwythau, er yn ystyriaeth eilaidd, yn gysylltiedig gyda'u patrymau integreiddio a'u cyfalaf cymdeithasol lle gwelwyd sail ar gyfer cynllunio ieithyddol ar gyfer y dyfodol.

Mae hyn yn gosod y cyd-destun yn awr ar gyfer symud ymlaen i ystyried y cymunedau ble y bwriedir cynnal y gwaith maes, sef dwy gymuned wledig wedi eu canoli ym Mlaenau Ffestiniog a Thregaron.

# Pennod 3

# Ardaloedd Ymchwil

## Cyflwyniad

Yn y bennod hon, byddaf yn trafod yr ardaloedd ymchwil a ddewiswyd ar gyfer gwireddu'r gwaith ymchwil ac yn trafod eu proffil mewn manylder. I ddechrau byddaf yn esbonio pam y dewiswyd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel ardaloedd ymchwil ac arwyddocâd hyn i'r gwaith. Er mwyn hyn, byddaf yn trafod yr hyn a elwir yn ardal Cymunedau yn Gyntaf a'r lefelau o amddifadedd ardal sydd yng nghlwm wrth hyn. Yna byddaf yn trafod beth yw Cymunedau yn Gyntaf a'r hyn y mae'r statws yn ei olygu i'r Cymunedau mewn golwg. Byddaf yn rhoi dadansoddiad o broffil Ardal 1 ac yna proffil Ardal 2, gan roi disgrifiad byr o'i ffeithiau economaidd a chymdeithasol a'r hyn sy'n cymeriadu'r ardaloedd dan olwg. Yn ogystal, byddaf yn ystyried polisïau iaith ysgolion y ddwy ardal, er mwyn cymharu'r goblygiadau posib o safbwynt cynllunio ieithyddol ac er mwyn darganfod unrhyw wahaniaethau amlwg. Fel y soniwyd yn y rhagarweiniad, mae newidiadau i strwythur Cymunedau yn Gyntaf ers Ebrill 2012 ac ers cwblhau'r ymchwil hwn, wedi golygu newidiadau mawr yn y Cymunedau dan sylw. Nid yw'r rhaglen yn bodoli fel ag yr oedd yn wreiddiol yn y ddwy ardal, ac o ganlyniad nid ydynt yn cael eu hystyried fel ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Nid ydynt felly yn derbyn yr un gronfa ariannol ac yn dioddef o'r herwydd. Er hynny, ystyriwyd fod yr ardaloedd yn parhau â lefelau o amddifadedd uchel ac maent yn parhau yn ganolog i'r Fro Gymraeg, sydd y gellir dadlau â goblygiadau amlwg i'r ymchwil hwn.

## Cefndir Damcaniaethol

Mae dewis yr ardaloedd ymchwil dan sylw yn cymryd i ystyriaeth gwaith yr ystadegydd Hywel Jones (2010) ar 'Welsh Speakers, Age Profile and Outmigration, mae'n nodi mae ei fwriad yw *"[to] examine out-migration and in particular the relationship between living in a traditionally Welsh-speaking area and out-migration"* (2010:119). Er bod amrywiaeth o ystadegau sy'n cofnodi ffigyrau allfudiaeth o Gymru, ychydig iawn sy'n canolbwyntio ar

allfudiaeth tymor hir, sef mwy na deuddeg mis, yn ôl Jones, ac awgryma fod llai fyth yn ymchwilio'r berthynas rhwng allfudiaeth a'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae astudiaeth Jones yn defnyddio data Astudiaeth Hydredol yr ONS ac yn nodi iddo wneud hynny'n flaenorol wrth edrych ar raddfeydd cadw iaith (Jones, 2005) a ganolbwyntiodd ar allu unigolion i siarad Cymraeg yn 1991 a 2001. Roedd yr ymchwil hwn yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol ymchwilio ymhellach i groestoriad o bobl ifanc 15-24 oed, gan edrych ar y rhai 15-18 oedd yn parhau i fod yn yr ysgol, a rhai oedd eisoes wedi gadael addysg (Jones, 2010:119). O safbwynt yr iaith Gymraeg, gwelwyd fod y niferoedd a nodwyd oedd yn gallu siarad yr iaith yn 2001 yn is nag y byddid yn tybio ar sail Cyfrifiad 1991 o'r rhai oed 18 i 31 yn 2001. Er enghraifft, roedd y niferoedd o bobl ifanc 15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 1991 o'i gymharu â'r niferoedd 25 oed yn 2001, yn dangos dirywiad o 38 y cant, o 8,462 i 5,262 (Jones 2005:119). Mae Jones yn haeru os gellir dileu'r methiant i gadw gwybodaeth o'r iaith o un cyfrifiad i'r llall, bydd unrhyw ostyngiad yn y *niferoedd* sy'n siarad Cymraeg yn cael ei achosi gan allfudiaeth (heblaw am farwolaethau). Mae'n mynd ati felly i ymchwilio ymhellach i'r ffenomen hon trwy ddefnyddio data o'r Astudiaeth Hydredol ONS sy'n defnyddio data o gyfrifiadau 1971, 1981, 1991 a 2001. O safbwynt Cymru yn unig, mae'r rhagdybiaeth a wnaed gan y Swyddfa ar gyfer Ystadegau Cenedlaethol, yn ôl eu hystadegau ar boblogaeth 2006, yn ei gwneud hi'n glir fod mewnfudiaeth i Gymru yn cyrraedd ei huchafbwynt o fewn y grŵp oedran 18-19 (2007). Er enghraifft, roedd 18,662 o fyfyrwyr israddedig oedd â'u cartref yng Nghymru, wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch tu allan i'r wlad, tra'r oedd 25,177 o fyfyrwyr o ardaloedd eraill y DU wedi eu cofrestru mewn sefydliadau o fewn Gymru (HEFCW 2002). Byddai cymhariaeth o'r niferoedd a oedd yn gallu siarad Cymraeg o oed 25-34 a gofnodwyd mewn cyfrifiad hwyrach felly yn cynnwys grŵpiau a oedd â nodweddion tra gwahanol i'w gilydd, sef y rhai oedd yn ddisgyblion ysgol yng Nghymru degawd ynghynt ac yn parhau i fyw yno, a'r rhai oedd yn israddedigion yn y wlad o'r tu allan, ond a oedd yn dal i fod yno (Jones, 2010:121).

Penderfynodd Jones edrych ar yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg, gan eu diffinio yn nhermau daearyddiaeth llywodraethau lleol yn 1971, sef cylch Caerfyrddin, Dinefwr, Llanelli a Cheredigion oedd yn gynt Dyfed, cylch Ynys Môn, Arfon, Dwyfor a Meirionydd yn yr hen Wynedd, gan eu creu yn un 'ardal' ar gyfer ei astudiaeth. Yna roedd yn dynodi gweddill Cymru fel ei 'ardal' arall. Mae'n haeru y gellid disgwyl bod y rhan fwyaf o bobl a oedd yn symud i Loegr o Gymru yn gwneud hynny am resymau yn ymwneud â gwaith. Dywed

ymhellach mai ychydig a fyddai'n symud am resymau tai a chymudo (Jones, 2010:123). Mewn gwrthgyferbyniad, dywed fod ardaloedd eraill o Gymru sydd tu allan i'r 'bröydd Cymraeg', ac eithrio Sir Benfro, yn debygol iawn o weld graddfeydd cymharol uchel o gymudo oherwydd eu hagosrwydd at ffin Lloegr. Dywed fod adroddiad o Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn 2002 wedi honni bod cyfraddau diweithdra uchel a phrisiau tai is na'r cyfartaledd yn gysylltiedig â chyfraddau uchel o allfudiaeth. Mae'r bröydd Cymraeg yng ngorllewin a gogledd orllewin Cymru yn rhai difreintiedig, gyda'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth oddeutu 75 y cant o'r cyfartaledd Ewropeaidd. Yn ogystal, mae prisiau tai o fewn yr ardal Gymraeg yn parhau'n isel, hyd yn oed yn 2004 o'i gymharu â gweddill y DU, er bod ychydig o amrywiaethau. Mae'n bosib felly bod a wnelo ffactorau strwythurol economaidd[16] fwy â phenderfyniad yr unigolyn i fudo allan o'i ardal, yn hytrach na ffactorau ieithyddol neu ddiwylliannol:

> It needs to be borne in the mind that economic factors such as these may be even more important for individuals' decisions concerning migration than their own personal characteristics. (Jones, 2010:123)

Gwelwyd felly fod cynnal astudiaeth o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gwireddu ymchwil Jones (2010) hynny yw bod yr ardaloedd a soniwyd amdanynt yn ei ymchwil ef yn ardaloedd difreintiedig yn y Fro. Effaith amlwg arall mae mewnfudiaeth ac allfudiaeth yn ei gael yw ar yr economi lleol. Eisoes awgrymwyd bod pobl ifanc yn fwy tebygol o symud na phobl hŷn, a nodwyd hefyd bod y fewnfudiaeth i Gymru a'r bröydd Cymraeg yn tueddu i fod yn bobl hŷn, nad ydynt o anghenraid yn medru cyfrannu tuag at yr economi. Mae i hyn oblygiadau dwys o ran tyfu'r economi yn lleol, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hyn trwy hyrwyddo cynlluniau fel Llwybro -Routes i geisio denu pobl ifanc i aros yn y cefn gwlad, neu i ddychwelyd iddo (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae Cyngor Gwynedd yn ei Gynllun Gwella 2007 nodi o dan adran "Datblygu Strategaeth a Chynlluniau Strategol i Ogledd Orllewin Cymru" pa mor bwysig i ddatblygiad economaidd yw arafu'r golled o bobl ifanc dalentog o'r sir (Cyngor Gwynedd, 2007:18). Er bod allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd genedigol yn nodwedd amlwg o gymunedau ledled Prydain, mae allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg traddodiadol yng Nghymru yn cynnig achos arbennig o bwysig a diddorol, oherwydd yr effaith y gall hyn ei gael ar barhad yr iaith Gymraeg (Jones, 2010:124). Gellir

[16] (Jones, 2010:123)

ychwanegu ei fod yn cael effaith benodol hefyd o wanio datblygiad yr economi lleol a chynaliadwyedd cymunedau, a heb waith addas, mae'n anodd i ieuenctid aros yn eu bröydd eu hunain hyd yn oed os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Oherwydd rhesymau fel hyn, neilltuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £1m o arian ar gynllun peilot i roi hwb i'r iaith Gymraeg ac adfywio economi cymunedau yng nghadarnleoedd yr iaith. Yn ogystal â gwario ar Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, nododd y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones, y byddai'r Llywodraeth yn gwario ar gynllun ym Mlaenau Ffestiniog a fyddai'n rhoi pwyslais ar sut y gall yr iaith "gyfrannu at gefnogi gobeithion y gymuned o ran datblygiad economaidd," tra yn ardal Peblig yng Nghaernarfon byddai'r cynllun yn golygu hybu sgiliau yn y Gymraeg wrth chwilio am waith (Cyngor Gwynedd 2007: 20) Hefyd mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi pecyn ariannu tair blynedd bellach ar gyfer prosiectau gwledig Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys tri mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf, sef Pen Llŷn, pentrefi ucheldir Tregaron, a Bro Dyfi (Cyngor Gwynedd 2007: 20) Barn Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd bod y " ... berthynas rhwng yr iaith ac adfywio economaidd yn allweddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig" (Cyngor Gwynedd 2007:2)

Astudiodd Morris (1995) effaith ailstrwythuro economaidd ar iaith a dosbarth cymdeithasol yng Ngwynedd, ac mae'n nodi'r ffordd yr arweiniodd cylchrediad newydd o gyfalaf i'r ardal rhwng yr 1960au a'r 1980au at gylchrediad newydd o bobl. Roedd y dylifiad hwn yn cynnwys canran uchel o bobl ddi-gymraeg ac mae Morris yn amlinellu sut y bu i hynny effeithio ar sefydliadau cymdeithasol pwysig y teulu a'r gymuned. Un effaith a welwyd oedd cynnydd mewn rhyng-briodi rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg ac yn sgil hynny gwelwyd effaith ar allu'r teulu i atgynhyrchu'r Gymraeg. Er enghraifft, nodwyd na chafodd y Gymraeg ei hatgynhyrchu mewn 40 y cant o deuluoedd yng Ngwynedd lle mai'r tad yn unig oedd yn siarad yr iaith, a 32 y cant o deuluoedd lle mai'r fam yn unig oedd yn siarad yr iaith (1995: 379). Effaith bellach fu newid yng nghyfansoddiad ieithyddol cymunedau a oedd wedi arfer bod yn rhai traddodiadol Gymraeg, gan leihau'r cyfle i bobl allu siarad yr iaith yn gymdeithasol. Awgrymodd Morris y byddai hynny'n cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn y tymor hir, gan arwain at fethiant y gymuned i atgynhyrchu'r iaith.

Mewn gwaith diweddarach, mae Morris yn ailymweld â'r thema hon mewn gwaith a wnaeth ar y cyd â Glyn Williams. Yn y gwaith hwn, mae Williams a Morris yn atgyfnerthu rhai o'r

canfyddiadau a wnaeth Jones (2010) o safbwynt yr iaith Gymraeg a strwythurau cymdeithasol. Dadleua Williams a Morris bod strwythur cymunedol yn cael ei effeithio gan fewnfudiaeth pobl uniaith ac allfudiaeth pobl ddwyieithog:

On the other hand, community structure, in the sense of the existence of local institutions, their membership and language of practice, is more directly influenced by the in-migration of monoglots and out-migration of bilinguals, especially where the support structures make learning the language that much more difficult or unnecessary (Williams & Morris, 2000:88).

Mae Williams a Morris yn dadlau fod newidiadau economaidd yn cael effeithiau pell gyrhaeddol ar y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu'r iaith, wrth i'r teulu a'r gymuned wanio fel sefydliadau cymdeithasol Cymraeg, ac i sefydliadau newydd fel addysg a'r cyfryngau ddod yn fwy amlwg fel lleoliadau cynhyrchu'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth ddi-gymraeg. Un o'r agweddau a welir yn sgil gwanio'r defnydd teuluol a chymunedol o'r Gymraeg yw bod pobl yn llai tebygol o'i ddefnyddio'n ddyddiol o bosib oherwydd diffyg cyfle. Er enghraifft, gwyddom o arolygon Defnydd Iaith 2004- 2006 fod canran is o bobl 16-29 oed yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol nag unrhyw grŵp oed arall[17]. Er bod y system addysg yn cynhyrchu mwy o siaradwyr rhugl, nid yw'r ffactorau eraill yn gadarnhaol. Mae'r canran o'r plant sy'n cael eu magu gyda'r Gymraeg yn iaith y cartref yn isel ac felly yn anochel yn effeithio ar ffigyrau ei ddefnydd.[18] Un o effeithiau diffyg defnydd cyson o'r Gymraeg yw bod pobl yn colli eu hyder i siarad yr iaith, sydd yn ei dro yn arwain at lai o ddefnydd ohoni; mae'n creu cylch dieflig.

Gwelwyd felly fod pwysigrwydd yr ardaloedd a ddewiswyd yn amlwg wrth ystyried y gweithiau uchod. Roedd hi'n hanfodol yn ogystal fod yr ardaloedd yn adlewyrchu'r proffil a welwyd yng ngwaith Jones er mwyn creu gwir lun o'r patrymau a'r tueddiadau sy'n lliwio'r bröydd erbyn heddiw. Mae proffil yr ardaloedd fel rhai Cymunedau yn Gyntaf yn tynnu sylw i faes polisi ac yn gosod y traethawd ymchwil hwn o fewn ei gyd-destun polisi. Isod byddaf yn ymhelaethu ar yr hyn sydd yn gyffredin i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

[17] Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg Jones: (2011: 8) http://www.welshlanguagecommissioner.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf Cyrchwyd 20/06/12

[18] http://www.welshlanguagecommissioner.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf

Y mae'r gwaith cynradd a ddadansoddir yn y traethawd ymchwil hwn wedi cael ei weithredu mewn dwy ardal wahanol yng Nghymru, sef yr ardaloedd hynny y soniwyd ychydig amdanynt eisoes, Blaenau Ffestiniog yn sir Gwynedd a Thregaron yng Ngheredigion. Dewiswyd yr ardaloedd mewn golwg am nifer o resymau, yn bennaf oherwydd eu bod yn ardaloedd lliwgar ac unigryw o safbwynt eu poblogaeth a gan eu bod wedi bod yn destun i nifer o astudiaethau blaenorol. O ganlyniad, teimlaf eu bod yn ardaloedd fydd yn datgelu llawer am y pwnc mewn golwg ac yn enghreifftiau pwysig o'r hyn sydd yn nodweddiadol o'r sefyllfa yn y Bröydd Cymraeg, heddiw. Yn ail, credaf ei bod hi'n bwysig nodi fod fy ardaloedd dewisedig yn ardaloedd sydd wedi eu labelu fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, hynny yw, maent yn rhan o raglen flaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer *"gwella rhagolygon ac amodau byw trigolion y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.*[19]*"*

**Ardaloedd Cymunedau Yn Gyntaf**

Yn ystod y flwyddyn 2000, dechreuodd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, bryderu ynghylch â'r diffyg buddsoddiad, yr annhyfiant a'r difaterwch, oedd yn bodoli mewn nifer o gymunedau yng Nghymru[20]. Bu cais felly i geisio mesur y diffygion oedd yn bodoli drwy gyflwyno'r Mynegiant Amddifadedd lluosog Cymru, (MALIC) er mwyn ceisio goleubwyntio'r ardaloedd oedd angen y cymorth fwyaf. Roedd y MALIC yn defnyddio chwe mesurydd er mwyn sefydlu cymhariaeth rhwng wardiau o fewn cynghorau sir, oedd yn cynnwys rhoi pwyslais ar incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad i wasanaethau a diogelwch cymunedol. Yn benodol, bu i'r Cynulliad rannu'r mesuryddion i deitlau oedd yn canolbwyntio ar dlodi ac amddifadedd er mwyn darganfod yn union sut y maent yn effeithio ar unigolion o fewn eu cymunedau. Er mwyn creu mesuryddion a mynegiannau addas, rhaid i ddechrau esbonio yn union beth yw ystyr y tlodi a'r amddifadedd y soniwyd amdanynt.

[19] (www.cymunedau-yn-gyntaf.org <http://www.cymunedau-yn-gyntaf.org. Cyrchwyd 20/09/09

[20] LLYODRAETH CYNULLIAD CYMRU. Cymunedau yn Gyntaf. www.wales.org.uk Cyrchwyd 20/09/09

a) Tlodi ac Amddifadedd

Dadleuwyd fod tlodi ac amddifadedd yn cael eu defnyddio ar y cyd, ond yn aml, dylai gwahaniaeth amlwg fod rhyngthynt. Mae cyflwr tlodi yn golygu nad oes digon o arian, asedau ariannol eraill neu feddiannau materol ar gyfer cynnal anghenion. Cyfeirir amddifadedd at ofyn sydd heb ei gyflawni sydd yn cael ei achosi gan ddiffyg adnoddau'n gyffredinol, nid adnoddau ariannol yn unig. Gall pobl gael eu hystyried yn amddifad os ydynt yn diffygio mewn safonau materol o ddiet a dillad, ac nid ydynt yn cyfranogi mewn cyflogaeth nac ychwaith gweithgareddau hamdden. Os ydynt yn diffygio yn yr adnoddau ariannol i gyflawni'r safonau yma, yna maent yn byw mewn tlodi.[21]

Yn ogystal, mae'r MALIC wedi pwysleisio, er bod rhai pobl yn profi rhai mathau o amddifadedd, efallai nad ydynt bob amser ar incwm isel ac mae'r bobl sydd yn profi amddifadedd sengl neu luosol ond llym, yn debygol o gael incwm isel iawn ac ychydig neu ddim adnoddau (Ystadegau ar Gyfer Cymru, MALIC 2008. Tud: 3). Felly mae amddifadedd yn ddibynnol ar lefel y cyflyrau a gweithgareddau sydd yn cael eu profi, ac yn ogystal, tlodi incwm ac adnoddau materol eraill sydd ar gael i'r unigolyn neu'r cartref.

Mae'n rhaid nodi'r pwysigrwydd o wahaniaethu rhwng amddifadedd cymdeithasol ac amddifadedd cyffredinol: efallai nad oes gan bobl adnoddau materol nac ychwaith cyfleusterau. Yn ogystal, efallai nad oes ganddynt fynediad i weithgareddau a pherthnasau cymdeithasol cyffredin. Os yw'r rhain yn fathau gwahanol o amddifadedd, yna mae pobl yn profi nifer fathau o amddifadedd neu luosol, ac eraill, mathau sengl.

b) Amddifadedd Lluosol

Mae hi'n amlwg felly fod amddifadedd yn gysyniad mwy eang na thlodi. Fel mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei grynhoi, mae tlodi'n golygu diffyg arian (neu hanfodion eraill) i fyw. Mae amddifadedd yn cyfeirio at y problemau a achoswyd o ganlyniad i ddiffyg mewn adnoddau a chyfleon, nid arian yn unig (MALIC 2008, Tud: 4). Awgrymwyd yn aml , fod amddifadedd lluosol neu '*Multiple Deprivation,*' yn fath arwahan o amddifadedd a all gael ei

[21] LLYODRAETH CYNULLIAD CYMRU. Cymunedau yn Gyntaf. www.wales.org.uk Cyrchwyd 20/09/09

fesur yn uniongyrchol. Dadleuwyd fod angen darganfod ffordd addas o'i fesur, ac yna crynodeb o'r cydrannau ar amddifadedd. Hynny yw, awgrymwyd gan y Cynulliad fod modd cyfrifo amddifadedd fel y mae modd cyfrifo cyfoeth, drwy gyfuno asedau gwahanol unigolion. Ond, penderfynwyd ei fod yn gysyniad cymhleth ac nid yw'n fath arwahan o amddifadedd o gwbl, ond yn hytrach, cyfuniad yw o ffurfiau mwy penodol o amddifadedd, a all gael eu mesur ar eu pen eu hunain i ryw raddau (Tud: 4). Y ddadl allweddol yma yw, os yw cyfuniad gwahanol o'r math o amddifadedd yn rhyngweithio'n gyson, yna maent yn debygol o gael effaith mwy mewn cyfuniadau penodol.

c) Lefelau o Amddifadedd

Mae cyfuno gwahanol briodoleddau amddifadedd i un mynegiant yn unig, yn golygu fod nifer o'r cysylltiadau sydd yn effeithio ar y pwnc yn gorfod cael eu hystyried, gan gynnwys y cartref a'r ardal ddaearyddol. Canlyniad amlwg yw bod unigolion a theuluoedd sydd yn dioddef o amddifadedd yn debygol o glystyru gyda'i gilydd yn ddaearyddol. Gall hyn effeithio ar deuluoedd ac unigolion sydd ddim yn dioddef o'r un problemau ond sydd yn profi ac yn byw'r amddifadedd cyffredinol yn eu hardaloedd. Er gall y rhan fwyaf o ddata gael ei gasglu ar lefelau unigol o amddifadedd, mae'r canlyniad mewn unrhyw fynegiant yn debygol o gael ei gyflwyno fel sgôr cyfrannol i ardal ddaearyddol benodol (Tud: 5). Ond, fel awgrymwyd gan y Cynulliad, bydd hyn yn cyfuno'r amddifadedd a brofwyd gan grŵpiau gwahanol o fewn yr ardal benodol a gydag amddifadedd lluosol, nid yw o reidrwydd yr un bobl yn profi'r un math o amddifadedd:

Some people will experience one kind of deprivation; others a different kind of deprivation. Some people will experience several kinds of deprivations; others none at all. (MALIC 2008:5 Technical Report.)

Yn olaf, mae yna fathau amrywiol o amddifadedd nad oes bosib eu penodi i un ardal ddaearyddol yn unig. Er enghraifft, mae rhai problemau cymdeithasol megis trosedd, yn gallu cael eu cysylltu gyda'r ardaloedd gyda dioddefwyr sydd yn byw tu allan i'r ardal hwnnw, ond sydd yn gweithio neu'n siopa o fewn yr ardal mewn golwg. Gwelwyd map gyfer amddifadedd Lluosol yng Nghymru 2011, isod

:

**Ffigwr 5: Map o'r amddifadedd yng Nghymru**[22]




Mae adroddiad gan y 'Joseph Rountree Foundation,' (JRF) ar 'Poverty and Social Exclusion in Britain,' yn ceisio dod i'r afael ar dlodi ym Mhrydain. Mae'r holiadur tlodi a gwaharddiad cymdeithasol yn y degawd diwethaf, sydd yn ceisio mesur y nifer o bobl ym Mhrydain sydd yn diffygio yn yr hyn a ystyriwyd fel anghenion sylfaenol gan y gymdeithas ehangach. Mae newidiadau sylfaenol wedi bod yn yr hyn yr ydym yn eu hystyried fel anghenion ac felly ymateb y gymdeithas i'r hyn a olygwyd wrth ddiffinio'r term amddifadedd cymdeithasol. Drwy ailadrodd ymarfer tebyg yn 1983, 1990 a 1999, mae modd dadansoddi sut mae tlodi wedi newid dros amser. Er nad yw'r holiaduron wedi bod yn unfath, mae digon o ddata cyffredin sy'n golygu fod modd cydnabod newidiadau sylfaenol. I ddechrau, gwelwyd fod newid yn yr eitemau a ystyriwyd, gan y mwyafrif o'r boblogaeth, sydd yn anghenraid ym mywyd pob dydd. Gwelwyd newid yn nifer y bobl sydd wedi eu

[22] http://4.bp.blogspot.com/-L98ip1SKZVM/TjARHI5XQhI/AAAAAAAABPs/Q55wlHTV6dw/s1600/wimd_2008_annotated.png. Under the Raedar, deprivation in Wales 27/07/2011

heithrio o'r anghenion hynny o ganlyniad i dlodi. Yn ogystal gwelwyd newidiadau mewn tlodi yn cael ei ddiffinio yn nhermau methu fforddio anghenion penodol bywyd, ac yn olaf, newid yn y nifer o bobl sydd yn dioddef o dlodi tymor hir:

> Over the 16 years between 1983 and 1999, the British population has, as a whole, become more generous in what it considers to be necessities of life that everybody should be able to afford. As the average wealth of the population has increased and technology has progressed, so goods and services that were once luxuries have become more generally available and have begun to be perceived as necessities by increasing numbers of people. (2000:43)

O safbwynt tlodi a gwaharddiad cymdeithasol, mae'r holiadur uchod yn gwahaniaethu rhwng pedwar dimensiwn o amddifadedd: tlodi, neu waharddiad o incwm ac adnoddau boddhaol, gwaharddiad o'r gwasanaethau, a gwaharddiad o berthnasau cymdeithasol. Nid oes amheuaeth fod diffyg gwaith taledig yn ffactor sydd yn achosi tlodi a gwaharddiad cymdeithasol. Er hynny, hyd yn oed os yw cyflogaeth lawn ar gael, ni fyddai tlodi ac amddifadedd yn diflannu. Gall cyflogau fod yn rhy isel, os nad yw budd-dal plant neu lwfans dibyniaeth yn cyfrannu tuag atynt.

Wrth ystyried fy ymchwil personol, byddai modd dadlau fod nifer o'r bröydd Cymraeg a soniwyd amdanynt, yn profi amddifadedd a thlodi neu'r ddau, ar nifer o wahanol lefelau. O ganlyniad i nifer o ffactorau amrywiol, mae pobl yn dioddef o ddiffyg gwasanaethau, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. Ystyrir felly ei bod hi'n bwysig i mi edrych ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel rhan o fy ymchwil, yn benodol oherwydd eu bod wedi eu labelu fel ardaloedd sydd yn dioddef o amddifad, a bod hyn wedi ei brofi o ganlyniad i fesuryddion a dangosyddion amrywiol a fesurwyd gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ogystal, gallai'r dirywiad mewn poblogaethau ifanc yn y bröydd, fod o ganlyniad i rai, neu bob un, o'r rhesymau a soniwyd amdanynt eisoes.

Bu cais gan y Cynulliad Cenedlaethol, i greu mesurydd oedd yn goleubwyntio'r problemau yma a cheisio eu cywiro. Mae hi'n glir o unrhyw astudiaeth gyfrifol, fod y gydran ariannol wrth fesur amddifadedd o bwysigrwydd arwyddocaol. Gellir dadlau ei fod yn ystyriaeth sylfaenol wrth ystyried y mynegiant ar gyfer yr MALIC, ac mae hi'n amlwg, yn ogystal, fod mathau arwahan o amddifadedd yn cael eu profi'n wahanol gan wahanol grŵpiau. Oherwydd

hyn, mae ffyrdd gwahanol o fesur amddifadedd wedi eu datblygu gan y Cynulliad sydd yn cael eu cyfuno o fewn y MALIC.

Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan yr astudiaeth, yn canolbwyntio ar greu cyfres o is fynegiannau cryf, hynny yw, incwm, iechyd, addysg a ffactorau eraill yn wahân. Mae modd dilysu'r is fynegiannau hyn oherwydd eu bod yn mesur y ffactor ei hun (er enghraifft, yn achos budd-daliadau) neu drwy wneud cymariaethau gydag astudiaethau ymchwil eraill. Yn ôl y Cynulliad, mae'r ffordd yma o feddwl yn golygu ffynonellau data mwy cymhleth na'r hyn a ddefnyddiwyd i fesur amddifadedd yn y gorffennol. Yn ogystal, mae'n golygu fod angen dangosyddion amlwg sydd yn fesuryddion argyhoeddiadol o amddifadai ardal, sydd yn nodwedd fanwl gywir o'r ardal hwnnw (Tud: 6). Fel y soniwyd uchod, mae'r wyth math o amddifadedd a benderfynwyd arnynt yn cynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, amgylchedd, mynediad i wasanaethau a diogelwch cymunedol. Roedd pob un o'r pynciau wedi eu sylfaenu ar amrywiaeth o ddangosyddion oedd yn golygu eu bod yn cael eu mesur mewn gwahanol ffyrdd gan ddefnyddio gwahanol unedau. Er hyn, roedd rhaid eu dosbarthu gan eu bod yn defnyddio unedau gwahanol a bu rhaid eu gwneud yn gydnaws. Defnyddwyr incwm a chyflogaeth fel y ffactorau pwysicaf, ac felly cawsant y sylw mwyaf yn y mynegiant. Cawsant eu mesur fel:

**Tabl 7 Dosbarthiad yr Unedau gwahanol**[23]

| | |
|---|---|
| Incwm: 23.5% | Dangosyddion oedd yn cynnwys oedolion a phlant ar yr aelwydydd lle ceir cymhorthdal incwm, credyd pensiwn, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, credyd treth plant neu gredyd treth incwm a cheiswyr lloches. |
| Cyflogaeth: 23.5% | Y dangosyddion a ddefnyddiwyd oedd rhai sy'n hawlio budd-daliadau perthynol i incwm, budd-dal analluogrwydd/lwfans anabledd difrifol, rhai sy'n cyfranogi yn y Fargen Newydd ar gyfer pobl ifanc a chyfnod gweithgaredd dwys a rhai sy'n cyfranogi yn y Fargen Newydd ar gyfer rhieni sengl. |

[23] COMMUNITIES FIRST GUIDANCE: www.wales.gov.uk Cyrchwyd 20/09/09: 6

| | |
|---|---|
| Iechyd: 14% | Y dangosyddion a defnyddiwyd oedd, salwch cyfyngedig hirdymor, cyfradd marwolaethau safonedig, cyfradd safon uchel ar gyfer mynychder canser, pwysau geni isel i fabanod unigol. |
| Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant: 14% | Y dangosyddion a ddefnyddiwyd oedd y sgorau ar gyfartaledd i Gyfnod Allweddol 2, 3 a 4, cyfraddau'r holl absenoldebau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed a nifer yr oedolion 25-59/64 oed heb unrhyw gymwysterau. |
| Tai: 5% | Y dangosyddion a ddefnyddiwyd oedd diffyg gwres canolog a chartrefi gorlawn, gan eithrio llety i fyfyrwyr. |
| Amgylchedd: 5% | Y dangosyddion a ddefnyddiwyd oedd, ansawdd yr aer a gollyngiadau i'r aer, perygl llifogydd ac agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol. |
| Mynediad i Wasanaethau: 10% | Y dangosyddion a ddefnyddiwyd oedd, yr agosrwydd at siopau bwyd, meddygfeydd, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfeydd bost, llyfrgell gyhoeddus, canolfannau hamdden, deintydd a'r GIG a nodau trafnidiaeth. |
| Diogelwch Cymunedol: 5% | Y dangosyddion a defnyddiwyd oedd troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, troseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu a digwyddiadau pan geir tân. |

Mae'r wybodaeth uchod yn darparu cefndir amlwg i'r ffordd y dechreuwyd dosbarthu ardaloedd o dan y teitl 'Cymunedau yn Gyntaf.' Dros y deugain mlynedd diwethaf, mae datblygiad mynegiannau ar gyfer mesur amddifadedd ar lefel leol, wedi cael ei ystyried fel nodwedd bwysig o fewn polisi'r llywodraeth, yn bennaf ar gyfer adnabod ardaloedd sydd angen eu blaenoriaethu o safbwynt adfywiad a chymorth ariannol. Yn wreiddiol, cynlluniwyd y mynegiannau yma ar gyfer ardaloedd polisi penodol, er enghraifft addysg neu iechyd, ond dros y degawdau diwethaf, mae'r cysyniad o fynegiant cyffredin ar lefel lleol

wedi mynegi ei bwysigrwydd. Mae cynllunio data ar gyfer ardaloedd bach, yn benodol y cyfrifiad, wedi cyfrannu at y datblygiad yma. Fel awgrymwyd gan y Cynulliad:

The Welsh Index of Multiple Deprivation was designed to model levels of deprivation in Wales and support the objective targeting of resources. It used a more sophisticated methodology than the earlier Index of Socio-Economic Conditions and was based on more representative measures of deprivation at the small-area level, some of which used administrative data from new sources. (2009:6)

Roedd cyfanswm o 865 o wardiau pan ysgrifennwyd yr adroddiad a bu cyfrifoldeb ar yr adran adfywio a chyfiawnder cymdeithasol i ddewis 100 o'r wardiau mwyaf amddifad i enyn y statws Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r ardaloedd yma'n wasgaredig ar hyd Cymru o fewn 18 awdurdod lleol gydag ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ar eu ffiniau. Pan gafodd y rhaglen ei chyhoeddi yn 2001, bu'n gweithio gyda 142 o gymunedau a gyda chyhoeddiad y MALIC 2005, ychwanegwyd 46 ardal newydd, ac erbyn heddiw mae cyfanswm o 188 ardal. Mae hyn yn arwyddocaol, gan iddo olygu fod y diffiniad o amddifadedd wedi ei ehangu, oedd yn galluogi i'r cynllun ystyried mwy o ardaloedd.

**Ffigwr 6: Map o Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, Cymru[24]**




Mae'r holl brosiect yn seiliedig ar yr egwyddor fod tlodi ac anfantais yn cael eu creu gan nifer o ffactorau cymhleth megis cyrhaeddiad addysgol uchel, amgylcheddau a thai gwael, y camddefnydd o sylweddau, marchnadoedd swyddi lleol, systemau budd-daliadau, stigma a chanfyddiadau am bobl a llefydd, er enghraifft. Er mwyn ceisio gwella'r problemau, mae'n rhaid deall beth yw'r achosion a'r prosesau. Mae'n darparu cyfleoedd i bobl sydd yn byw yn yr ardaloedd hynny a labelwyd i fod o dan anfantais drwy archwilio beth yw realiti tlodi ac

[24] http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/110209cfmapen.pdf Communities First leaflet and Map

yn gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau lleol er mwyn eu gwella. Yng ngeiriau eiriolwyr y cynllun:

Communities First is about people challenging the barriers, whether they be real or perceived, which prevents residents from fulfilling their own potential and from effecting change where they live. It is about supporting communities, groups and individuals to find their voices and use their skills and experiences to change, challenge, negotiate, persuade and jointly plan for the benefit of their communities.[25]

Pam felly fy mod i wedi dewis astudio ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer fy ngwaith maes? Byddai'n bwysig i mi nodi fod y gweithgareddau a phrosiectau lleol sydd yn ganlyniad ffafriol o gynllun y Cynulliad wedi newid yr ardaloedd hynny y maent yn gweithredu ynddynt ac wedi bod yn esiampl werthfawr o newidiadau cymdeithasol ac economaidd ar gyfer y gwell. Mae'r bobl leol yn cymryd cyfrifoldeb nodedig a blaenllaw yn eu cymunedau a'u hardaloedd a gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu o fewn y Fro Gymraeg, byddai'n gymorth i mi ystyried y newidiadau yma yn fy ymchwil i. Un o geisiadau Cymunedau yn Gyntaf, yw ceisio ysgogi pobl leol i fyw yn lleol ac i aros yno'n ogystal. Mae cadw'r boblogaeth ifanc gan ychwanegu at eu sgiliau a'u profiadau bywyd yn rhan annatod o'u cynlluniau, ac fel y gwelir o fy enghreifftiau isod, maent yn ceisio gwireddu hyn drwy roi ystyriaeth benodol i'r gymuned ei hun. Drwy sicrhau mai pobl leol a mudiadau cymunedol fydd wrth wraidd y dasg o drawsnewid cymunedau, mae'n galluogi iddynt chwarae rhan allweddol drwy brosesau o ymgynghori a thrafodaethau cymdogol. Mae modd i bobl leol ddod yn aelod o'r Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, ac i wirfoddoli gyda'r gwaith o drefnu i ymgynghori gyda'r gymuned a gweithredu Cynlluniau Datblygu Potensial a Gweithredu yn y gymuned fel ei gilydd. Bydd y gefnogaeth yma, sydd yn barod wedi sefydlu, yn galluogi cefnogaeth ehangach i mi fel ymchwilydd ac yn golygu fod diddordeb cilyddol rhyngom a all olygu cyd-weithio ar lefel fwy.

Cynlluniwyd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn sicrhau fod pobl leol yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu atebion i'r problemau sy'n eu hwynebu. Mae'r rhaglen yn hyblyg ac nid oes llawer o reolau pendant, ond mae'r rhai sy'n bodoli yn gwneud yn siŵr fod cymunedau yn

[25] www.communities-first.org "What is Communities First?" Tud: 1 Cyrchwyd 09/09/10

ymwneud yn agos â'r broses a bod yr arian yn cael ei wario'n briodol. Serch hynny, disgwylid i bobl leol cymryd rhan yn y broses a bod tystiolaeth o'r rhan a chwaraeir ganddynt ar gael. Disgwylid, yn ogystal, i'r cynlluniau a weithredir yn y gymuned cael eu datblygu gan bartneriaeth sy'n cynnwys pobl leol a chynrychiolwyr o'r cyrff cyhoeddus.

Wrth ystyried pobl ifanc, bydd yr ymchwil hwn yn cael ei weld fel rhan o'r adran Cynllun Datblygu Potensial (Canllaw ar Gyfer Rhoi Cymunedau Yn Gyntaf, Tud: 35). Dylai Cynlluniau Datblygu Potensial ganolbwyntio at baratoi'r gymuned a'r asiantaethau perthnasol i adfywio eu cymunedau. Gellir dadlau ei fod yn ymwneud â chynyddu hyder a datblygu sgiliau a gwybodaeth pob un sy'n rhan o'r broses ac i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

Wrth drafod fy ardaloedd dewisedig, byddaf yn cynnwys y prosiectau lleol sydd eisoes wedi eu sefydlu o fewn y cymunedau yn ogystal â'r newidiadau a wnaed yn barod er mwyn gwella'r cymunedau hynny a chadw eu poblogaethau'n gyson. Bydd gweld enghraifft o'r ymarfer da hynny, yn rhoi ysgogiad yn ogystal â chanllaw i mi weithio oddi wrtho yn fy ngwaith ymchwil. Yn bwysicach oll er hynny, wrth ddefnyddio ardaloedd a labelwyd fel rhai Cymunedau yn Gyntaf, fel enghreifftiau yn fy ngwaith, byddaf yn derbyn cefnogaeth sydd eisoes yn bodoli ac yn gweithio ar broblem sydd yn ceisio cael ei gywiro gan y bobl sydd yn gweithio o fewn y gymuned. Bydd yr ardaloedd hefyd yn sicrhau mynediad gwell a haws wrth i mi gydweithio gyda'r asiantaethau lleol a gan ein bod yn canolbwyntio ar fath o fudd cyffredin, byd modd ennyn mwy o syniadau a magu ymchwil gyda chanlyniadau mwy dilys.

1) **ARDAL 1: BLAENAU FFESTINIOG**

**Cyflwyniad**

**Ffigwr 7: Map o Flaenau Ffestiniog**[26]




For most of this century Blaenau has been perceived as not only a dying town but irremediably ugly, backward and in no sense a fashionable place to live. (Emmett, 1982 Tud: 185)

Pan drafodwn ardal debyg i Blaenau Ffestiniog, mae hi'n wir nodi fod digon i'w ddweud am y dref, ond efallai nad yw'r ymateb bob amser yn adlewyrchiad ffafriol! Llechi sydd wedi bod yn sylfaen i'w gyfoeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac er bod y chwareli llechi yn parhau i fod yn gyflogwr pwysig yno, mae'r niferoedd wedi dirywio a gellir dadlau fod y cyfnod euraidd, bellach ar ben.[27] Er hynny, mae modd dadlau mai dyma'r wir reswm dros fodolaeth Blaenau Ffestiniog, fel awgrymwyd gan Emmett (1982), nid oedd Blaenau'n bodoli fel tref, neu bentref hyd yn oed, ar ddechrau'r map Arolwg Ordnans cyntaf yn 1838

[26] http://northwalestoday.com/image-files/blaenau-Ffestiniog-north-wales-map-web.jpg Cyrchwyd 20/06/12
[27] www.Ffestiniog.org.uk History (Tud: 1)

(Tud: 180). Fel yng ngeiriau Emmett, *"It grew up in a hurry in the slate boom, like a town in a gold rush!"* (Tud: 180); ac roedd llechi o'u chwareli yn cael eu hallforio o amgylch Prydain ac ymhellach. Erbyn 1881, roedd ei boblogaeth yn cyrraedd 13,000, er roedd y gost ddynol o gynhyrchu'r llechi, yn uchel.[28] Gyda'r dirywiad yn elw'r llechi a diffyg buddsoddiad newydd, mae'r dref wedi ei adael gyda tomeni gwastraff ac ychydig o gyfleusterau. Bellach, nid oes llawer o waith yn yr ardal gyda thrafferthion i ennyn ac ysgogi buddsoddiad o unrhyw fath. Er ei fod yn sefyll yn ganol Parc Cenedlaethol Eryri, roedd y gwastraff llechi, sydd yn rhan annatod o'i gymeriad, yn sicrhau nad oedd yn cael ei gynnwys yn swyddogol gan yr awdurdod, nodwedd arall sydd yn ei ddieithrio rhag cynhyrchu a denu arian.

Mae'r dref yn gyfadran ganolog i rwydwaith eang o chwareli a gweithiau llechi wedi ei chysylltu gan domeni gwastraff, adeiladau cysylltiedig â system drafnidiaeth o reilffyrdd a llethrau. Mae ei holl dirwedd wedi ei ddatblygu dros gyfnod o gan mlynedd, ac er bod ei chwareli bron yn wag, mae'r gymuned a'r anheddiad yn parhau. Awgrymwyd fod ei ddirywiad wedi cychwyn ar ôl 1878, ac nid oedd am oroesi'r di boblogaethau a ddigwyddodd yn ystod y rhyfel byd cyntaf. Er hynny, mae hi'n amlwg fod y dref a'i thrigolion yn parhau i fod yn hiraethlon am y cyfnod euraidd yma, pan oedd digon o waith i gadw pawb yn fyw ac yn gweithio'n lleol. Heb yr enw da a grëwyd yn ystod ei godiad, efallai na fyddai gymaint o bobl yn aros yma, nac ychwaith yn parhau i fagu plant yma. Mae nifer yn ei ramanteiddio, ac yn sicrhau mewn gwirionedd na fydd yr enw da byth yn gadael. Fel amlygwyd gan un o ysgrifenwyr y safle gwe leol:

"It is one of the most prominent man-made landmarks in Gwynedd, visible from great distances to the south. It serves as a potent reminder of the theme in this landscape of man's enduring struggle for natural resources."[29]

Nid pawb sydd yn ei weld mewn golau ffafriol er hynny. Mae Emmett, oedd yn byw yn yr ardal yn ystod yr 1960au fel y gwelwyd o'r dyfyniad uchod, yn negyddol iawn am ei ragolygon. Fel mudwr i'r ardal, roedd hi'n amlygu fod nifer o'i thrigolion yn elyniaethus tuag at fewnfudwyr yn enwedig oherwydd bod canran uchel iawn o'r boblogaeth yn siarad

[28] www.Ffestiniog.org.uk History (Tud: 3) Cyrchwyd 17/09/09

[29] www.Ffestiniog.org.uk History (Tud: 1) Cyrchwyd 17/09/09

Cymraeg. Roedd Emmett yn ysgrifennu ar ddechrau dirywiad mawr yr ardal, wrth iddi ddisgrifio nad oes ond ychydig neu ddim gwaith yma a bod niferoedd uchel o bobl ifanc a chanol oed wedi gadael er mwyn cael hyd i gyflogaeth well. Roedd y tai gwag yn cael eu prynu gan fewnfudwyr Saesneg oedd yn sicrhau fod y prisiau bellach yn rhy uchel i bobl leol. Roedd y gwaith yno ar y pryd yn golygu fod y rhan fwyaf o'i drigolion yn cael eu labelu fel dosbarth gweithiol, hynny yw, mae hi'n disgrifio'r rhan fwyaf o swyddi i ferched fel *"tedious,"* neu *"menial,"* (Tud: 180) ac i ddynion fod *"most jobs involve dirt, grease, dust, danger, working clothes"* (Tud: 183). Awgrymwyd fod y diffyg amrywiaeth yn y swyddi yn cael ei resynu gan y trigolion lleol; roedd gormod o fyfyrwyr chweched dosbarth yn gadael ac nad oedd digon o bobl ifanc yn teimlo fod ganddynt ddewis. Fel yng ngeiriau Emmett, nid yw baw yn hudo ac mae llwch a pherygl yn amharu ar bobl gan gyfyngu eu cyfleoedd mewn bywyd. Roedd y diffyg dirywiad yma'n gysylltiedig gyda'i hanes fel tref dosbarth gweithiol, ac yn ôl Emmett, statws yr iaith Gymraeg yma (Tud: 183).

Gellir dadlau nad yw llawer wedi newid ers i Emmett fod yn ysgrifennu. Wrth gwrs, mae modd dadlau fod ei gwaith yn unochrog ac yn cael ei ysgrifennu o farn mewnfudwr, sydd yn sicrhau nad oes perygl o or-ramanteiddio'r ardal. Mae hi'n ystyried ei fod yn dref sydd wedi ei adael ar ôl fel petai, hynny yw, mewn cymhariaeth i drefi tebyg ar ei ffiniau megis Porthmadog, Betws y Coed a Chaernarfon ymhellach byth. Mae hi'n dadlau fod ei boblogaeth yn uchel ond o dan anfantais, ac yn awgrymu fod gan dwristiaid ddigon o resymau i aros unrhyw le arall (Tud: 188, Dyfynnwyd gan Cohen). Yn hanesyddol, mae adnoddau ariannol a materol wedi cael eu cyfeirio at wahanol ardaloedd heblaw'r ardal hon ac mae diffyg pryder wedi bod ar ei ran. Pan wnaed penderfyniadau dros fuddsoddi yng Ngwynedd, bu'n ganlyniad anochel fod Blaenau'n cael ei anwybyddu oherwydd ei ddirywiad cyflym, a bu i bolisïau oedd wedi ei sylfaenu ar yr honiad yma, yn cyfrannu at ei gyflwr (Tud: 184). Er hynny, nid yw'r elfen gymunedol yn ffactor mae Emmett wedi gallu anwybyddu. Yn ei gwaith, 'Place, Community and Bilingualism in Blaenau Ffestiniog,' mae hi'n cyfaddef fod gwaith a bywyd y trigolion yn galed ac yn beryg, gyda'r ardal yn enyn enw caled a brwnt ond *"beneath that surface lies a living tradition of love of poetry and song, of articulate, often well read discussions and arguments"* (Tud: 205). Mae'r gwrthgyferbyniadau yma'n parhau hyd heddiw, ac yn wir, yn cymeriadu'r ardal i ryw raddau. O ganlyniad, gwelwn fod patrymau mudo, yr iaith Gymraeg, diwylliant a newidiadau cymdeithasol wedi bod yn rhan anochel o hanes a phresennol Blaenau Ffestiniog. Fel ardal

astudiaeth, mae ei phoblogaeth liwgar, ei ffigyrau ymfudo a'r synnwyr o berthyn sydd yn ei gymeriadu, yn golygu y bydd yn enghraifft bwysig o'r dirywiad yn boblogaethau'r ifanc yn y Fro Gymraeg heddiw. Bydd gweddill yr adran yn trafod cyflwr economaidd cymdeithasol yr ardal.

**Ffeithiau Economaidd Cymdeithasol**

Er mwyn ystyried darlun cyfannol ardal, mae hi'n bwysig asesu'r sefyllfa bresennol yn nhermau dangosyddion, allweddol mesuradwy. Mae creu data sylfaenol drwy ddefnyddio'r cywerth cenedlaethol fel cymhariaeth, yn galluogi i mi adnabod ei gryfderau a'r gwendidau ac yn rhoi canllaw ar gyfer buddsoddiad gwell ar gyfer y dyfodol. Mae asesu iechyd ardal gyda chyfres o fesuriadau meintiol hefyd yn rhoi syniad i ni o'r gwelliannau posib. Mae'r adran nesaf yn darparu adolygiad o ddata sylfaenol sydd yn gysylltiedig gyda phob agwedd o'r astudiaeth a'r ffordd o adnabod problemau allweddol a chyfleoedd yn y categorïau yma, sef poblogaeth, anactifedd economaidd, cyflogaeth, lefelau o gymwysterau, amddifadedd lluosol, sgiliau'r iaith Gymraeg a daliadaeth tai. Mae'r data yr ydw i am ddefnyddio ar gyfer yr ardal yn hanu o brif ffynhonnell yr SYG neu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac er mwyn dadansoddi ardaloedd daearyddol bychain, byddaf yn defnyddio canllaw Miller (2008) sydd yn canolbwyntio ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE) neu "Super Output Areas." Ardaloedd daearyddol sydd yn cynnwys yr un faint o bobl yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach, ac o safbwynt ardal Blaenau Ffestiniog, maent yn trafod ardaloedd Bowydd a Rhiw a Diffwys a Maenofferen. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal yn rhannu ei ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf drwy ACE drwy'r Cyfrifiad 2001. Mae 1,896 ACE yng Nghymru a phob un ô phoblogaeth o tua 1,500 o bobl. Dyma yw'r ystadegau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r MALIC yn ogystal. O safbwynt poblogaeth Blaenau Ffestiniog, fel dengys y graff, gwelwyd fod newidiadau amlwg pob blwyddyn. Mae ffigyrau Cymru a Gwynedd yn dangos twf poblogaeth isel ond sefydlog dros y chwe blynedd diwethaf o tua chwarter canran (Adroddiad Miller, Tud: 36). Mae hyn yn wrthgyferbyniad amlwg gyda data Blaenau Ffestiniog, sydd yn dangos brig yn nhwf ei boblogaeth yn 1y cant yn 2004, a disgynnant serth dros y tair blynedd i ddilyn i ddirywiad blynyddol o 2.5y cant yn 2007. Mae amcangyfrifon cyfredol, yn awgrymu fod gan Blaenau, boblogaeth o 2,933, sydd yn 2.4y cant o boblogaeth Gwynedd. Awgrymwyd gan adroddiad Miller (2008), mai'r rheswm tebygol

dros hyn yw allfudiad (Miller, 2008. Tud: 36). Yn gysylltiedig gyda hyn, yw bod y demograffig oed yn dangos diffyg amlwg yn y boblogaeth wrywaidd (o'i gymharu â'r gyfran genedlaethol). Yn yr oedrannau 30-44 (2.5y cant yn is) a 45-64 (tua 10y cant yn is). Nid oes rhesymau amlwg dros y diffyg yma. Heblaw'r gyfran is yma yn yr oedrannau gweithiol uwch, mae'r demograffig ym Mlaenau Ffestiniog yn cyd-fynd â'r cywerth cenedlaethol.

Wrth ystyried y gyfran o bobl (o'r ddau ryw) o oed gweithio, o fewn y boblogaeth yn ardal Blaenau Ffestiniog , o'i gymharu â Gwynedd a Chymru, mewn cytundeb â'r ddemograffeg oed, mae'n ymddangos fod cyfran is o bobl, o fewn yr oed gweithio, yn yr ardal ymchwil, nag o fewn y cymariaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Gellir dadlau fod hyn o ganlyniad i'r ffaith fod pobl o oed gweithio o fewn yr ardal, yn dioddef o ddiffyg rhagolygon cyflogaeth yn lleol, ac yn cael eu gorfodi i adael (Adroddiad Miller, Tud: 38).

O safbwynt y sefyllfa economaidd, mae'r dosbarthiad o anactifedd economaidd yn datgan fod person o oed gweithio yn anactif yn economaidd neu'n actif. I'r rhai sydd yn anactif, y categorïau penodol yw: wedi ymddeol, myfyrwyr, edrych ar ôl teulu/y cartref, yn dioddef o salwch parhaol neu'n anabl ac eraill. Yn anffodus, mae'r data ar gyfer y lefel yma ar gael i wedi ymddeol, myfyrwyr neu eraill. Er hyn, mae hyn yn caniatáu i gymariaethau yn erbyn y lefelau rhanbarthol a chenedlaethol ac yn cyfarwyddo'r lefel o anactifedd. Dengys fod lefel anactifedd economaidd Blaenau Ffestiniog, 5y cant yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol (adroddiad Miller: 39) Er bod y lefel yma'n unfath â gweddill y sir (29y cant), mae yna gyfraddau uwch o bobl wedi ymddeol neu fyfyrwyr yng Ngwynedd. Mae hyn yn gadael bwlch tebyg o 5y cant o fewn y categori anactifedd 'eraill,' rhwng Blaenau Ffestiniog a Gwynedd. O'i gymharu â'r canran cenedlaethol o bobl wedi eu dosbarthu fel 'eraill,' mae ffigwr Blaenau Ffestiniog, 5.9y cant yn uwch (Adroddiad Miller, Tud: 38).

Ystyriwyd y cymariaethau rhwng strwythurau'r gyflogaeth yn yr ardal a gweddill Gwynedd a'r DU. Mae hi'n bosib gweld y berthynas groes rhwng Blaenau Ffestiniog a'r DU, hynny yw, mae'r strwythur gyflogaeth o'r DU â chrynodeb uwch o weithwyr yn yr ardaloedd cyflogaeth gyntaf a Blaenau Ffestiniog yn y rhai is. Mae gan yr ardal ymchwil, cyfraddau uwch o weithwyr (na'r DU) yn y dosbarthiadau cyflogaeth 'Gwasanaethau Personol,' 'Gweithwyr Peiriannau ac Offer Prosesu,' a chyfraddau arwyddocaol, is, yn y dosbarthiadau

'Proffesiynol,' 'Cydymaith Proffesiynol a thechnegol,' a 'Rheolwyr a Swyddogion Uwch.' Yn ogystal, mae cyfran uchel o bobl wedi eu dosbarthu yn y 'Swyddi Elfennol,' a Chrefftau Sgiliedig,' ym Mlaenau Ffestiniog. Yn gysylltiedig â hyn, yw lefelau cymhwyster yn yr ardal ymchwil o'i gymharu â Gwynedd a'r DU. Yn amlwg o'r canlyniadau yw bod cyfraddau uwch o bobl heb unrhyw gymwysterau ym Mlaenau Ffestiniog o'i gymharu â Gwynedd a gweddill y wlad. Yn amlwg hefyd yw bod cyfraddau is yn yr ardal ymchwil â chymwysterau uwch. I'r rhai hynny sydd wedi eu cyflogi, mae'r gyfradd o rheini sydd heb gymwysterau yn disgyn i 31.6y cant (Adroddiad Miller 2008, Tud: 39). I'r rhai hynny sydd yn anghyflogedig, mae'r gyfradd o rheini gyda lefelau 'uwch,' o gymwysterau yn disgyn i 6.2y cant, o'i gymharu â lefelau cenedlaethol a sirol o 13.7y cant a 14.5y cant. Mae'r gyfradd o bobl heb ddim cymwysterau yn gyfartal ar draws yr ardal ymchwil, sir a'r wlad.

O safbwynt nifer yr hawlwyr budd-dal, o oed gweithio, ym Mlaenau Ffestiniog a Gwynedd, mae nifer yr hawlwyr yn yr ardal ymchwil yn annormal o uchel o'i gymharu â gweddill Gwynedd â'r DU (13.9y cant). O hynny, mae 24y cant yn hawlwyr budd-dal analluo/*Incapacity Benefit* (Adroddiad Miller 2008, Tud: 40). Mae hyn yn gysylltiedig gyda'r Mynegiant Amddifadedd ar y lefel ardaloedd bychain. Mae hi'n amlwg o'r graff fod Blaenau Ffestiniog yn profi lefelau uwch o amddifadedd na Gwynedd a Chymru o swm arwyddocaol. Ymddengys fod Gwynedd yn sgorio'n uwch na Chymru ym mhob categori heblaw Tai. O safbwynt defnyddio Cymru fel cymhariaeth gyda Blaenau Ffestiniog, mae'r dref yn profi'r amddifadedd mwyaf o safbwynt 'Incwm,' 'Iechyd,' a 'Tai.' Yn nhermau 'Addysg,' a 'Cyflogaeth,' mae'r dref yn dioddef mwy na Chymru ond i raddau llai.

Wrth ystyried yr ymchwil hwn, byddai'n bwysig i ni drafod sgiliau'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Fel y soniwyd eisoes, dengys nad yw iaith yn ymddangos fel y ffactor pwysicaf wrth drafod allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd, ond byddai'n gymorth i ni ystyried ei effaith ym mhob ardal astudiaeth. Mae'r ffigyrau ar gyfer yr iaith yn ymddangos yn uchel, yn enwedig wrth eu cymharu â gweddill Cymru. Mae tua 3 mewn 4 o drigolion Blaenau Ffestiniog yn gallu ysgrifennu neu ddarllen Cymraeg ac mae tua 4 mewn 5 yn gallu siarad yr iaith. Mae hyn yn cymharu â 2 mewn 3 yng Ngwynedd a cyn lleied â 1 mewn 5 yng Nghymru.

O ganlyniad, mae'r data sylfaenol yma'n gallu cael ei ddefnyddio fel cyfres o ddangosyddion mesuradwy lle gellir creu ciplun o iechyd y dref. Gall y dangosyddion allweddol yma gael eu

mesur ar unrhyw adeg er mwyn darganfod os oes unrhyw welliannau ers y canlyniadau cychwynnol. O safbwynt data sylfaenol Blaenau Ffestiniog, dengys nad yw'n cymharu'n ffafriol gyda meincnodau cenedlaethol. Mae hi'n amlwg fod angen cynnydd sylweddol mewn nifer o ardaloedd os yw'r dref am gyrraedd neu ragori'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar hyn o bryd, ychydig o rwystrau sydd yn atal y dref rhag datblygu ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhwystrau yma'n cynnwys lefelau addysgol ac amrywiaeth sgiliau. Ar ôl ei frig yn 2004, bu i Flaenau Ffestiniog brofi cyfraddau uchel o ddiboblogi o'i gymharu â Gwynedd â Chymru. Dadleuwyd fod bygythiad parhaol gan ddiffyg amrywiaeth mewn sgiliau, crefftau a syniadau sydd yn hanfodol ar gyfer adfywio'r dref. Dadleuwyd y bydd cyfranogaeth y gymuned yn allweddol ar gyfer adfywio'r ardal a sicrhau fod y trigolion yn cymryd rhan weithredol ar gyfer gwella eu sgiliau addysgol a lefel eu sgiliau.

**Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf**

Er mwyn cyfiawnhau fy mhenderfyniad i ddefnyddio Blaenau Ffestiniog fel ardal Cymunedau yn Gyntaf yn fy ymchwil, byddai'n bwysig i mi atgyfnerthu'r hyn mae'r ardal yn ceisio ei sefydlu er mwyn sicrhau nad yw'n colli cyfran uchel o'i boblogaeth ifanc. Yn ystod mis Medi 2007, datblygwyd Strategaeth Adfywio'r dref gan bartneriaid strategaeth a lleol y gyfundrefn Blaenau Ymlaen. Grŵp gwirfoddol yw Blaenau Ymlaen, sydd wedi ei adeiladu o gyfuniad o gyfundrefnau proffesiynol a gwirfoddol gan weithio mewn partneriaeth, gyda'r bwriad o adfywio Blaenau Ffestiniog. Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys:

- Cymunedau yn Gyntaf (Bowydd a Rhiw)
- Cyfle Ffestiniog (Asiantaeth Adfywio)
- Antur 'Stiniog (Grŵp Datblygol yr Awyr Agored)
- Menter y Moelwyn (Prosiect Neuadd y Farchnad)
- Cyngor Sir Gwynedd
- Heddlu Gogledd Cymru
- Blaenau Bendigedig
- Cyngor Tref Ffestiniog
- Siambr Fasnach
- Rheilffordd Ffestiniog
- Y Dref Werdd

Y gobaith yw creu:

....an exciting, vibrant and attractive place to live, work and to visit, renowned for culture and the arts, our strong sense of community and the stunning environment. The town will build on these unique characteristics in a sustainable manner in order to achieve economic, social and environmental regeneration. (Adroddiad Miller: Tud: 24)

Mae'r weledigaeth yma am y dref yn ceisio gwneud y mwyaf o'i adnoddau naturiol ar gyfer cynnydd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys hybu datblygu sgiliau, hyder ac agweddau entrepeneraidd yn ogystal ag uchafu'r potensial sydd yn gysylltiedig gyda thwristiaeth, ar gyfer cyflogaeth o safon uchel a chyfleoedd fusnes. O'r newidiadau yma, gwelwyd patrwm yn datblygu. Gwelwyd fod cyfrannau uchel o bobl ifanc yn gadael y dref o ganlyniad i nifer o ffactorau amrywiol. Yr awgrym pennaf yw eu bod yn allfudo o ganlyniad i ddiffyg gwaith yn yr enghraifft yma, er y gellir dadlau y byddai diffyg integreiddio'n sicrhau nad oes rhesymau uwch i bobl aros yma neu ddychwelyd. Bwriad Cymunedau'n Gyntaf felly yw creu'r cyfleoedd i bobl aros yn ogystal â sicrhau fod cyfleoedd integreiddio ar gael drwy wneud y mwyaf o'i adnoddau lleol. Mewn partneriaeth gyda'r ysgol uwchradd leol a'r clybiau ieuenctid, bydd modd darganfod beth yn union mae'r syniadau a chynlluniau newydd yma'n golygu i'r boblogaeth ifanc, ac os byddent yn ddigon i'w cadw yma. Yn ogystal, os nad rhesymau economaidd yw'r prif ysgogiad i bobl adael, bydd modd darganfod beth yn union sydd yn eu cadw neu yn eu hybu i adael. O ganlyniad, mae ceisio newid gwedd yr ardal, fel sy'n amlwg mewn nifer o ardaloedd gwledig Cymru, yn un o flaenoriaethau pennaf Blaenau Ffestiniog, a byddai'n gymorth cyfuno'r broses yma gyda fy ymchwil i a'r boblogaeth ifanc a'r gymuned ehangach. Fel yng ngeiriau Emmett (1982):

Blaenau Ffestiniog, then, is a living community. Clearly the complexity here described colors most of the lives who have grown up in the town; it is primarily their community.[30]

[30] 'Belonging. Identity and Social Organisation in British Rural Cultures.' (Tud; 209)

## 2) ARDAL 2, TREGARON

### Cyflwyniad

**Ffigwr 8: Map o Dregaron[31]**




Gellir dadlau fod y ddwy ardal ymchwil yn gwahaniaethu'n fawr oddi wrth ei gilydd o safbwynt un pwynt pwysig iawn. Tref ddiwydiannol yw Blaenau Ffestiniog gyda'i thraddodiadau personol ei hun tra bod Tregaron wedi ei ddisgrifio fel a *"Permanent and unchanging core of Welshness, Y Fro Gymraeg,"* (Aitchison, Carter a Rogers, 1989. Tud: 3) ac yn fwy gwledig ei thraddodiadau na hanes eithaf diweddar Blaenau Ffestiniog. Er hynny, mae'r ardal wedi ysgogi diddordeb ymchwil eang gan gynnwys gwaith Aitchison, Carter a

[31] http://chasewaterstuff.files.wordpress.com/2011/12/carmarthenlampeter-aberystwyth-line-map.jpg?w=500&h=483 Cyrchwyd 20/06/12

Rogers (1989) ar 'Mewnfudo a'r Iaith Gymraeg.' Yn hanesyddol, pan ystyriwyd y cyfrifiad yn 1901, roedd 98.2y cant o boblogaeth Tregaron yn siarad Cymraeg, ond yn fwy pwysig fyth, oedd bod 73.9y cant o'r ffigwr hyn yn uniaith Gymraeg (1989:3). O safbwynt ei lleoliad ymysg y mynyddoedd Cambrian, tua 15 milltir o Aberaeron a 17 o Aberystwyth, bu Tregaron yn ganolfan lleol pwysig yn ystod y canol oesoedd. Fel y gwelwyd yn barod, mae ei hanes yn ymestyn ymhellach na hanes ifanc Blaenau Ffestiniog, ac o ganlyniad, bydd yn gymhariaeth bwysig o safbwynt fy ymchwil personol i. Byddai'n gymorth i mi gymharu dwy ardal gyda chefndiroedd gwahanol ac sydd wedi eu lleoli mewn mannau gwahanol yng Nghymru, ond sydd bellach yn profi'r un problemau cymdeithasol. Fel y tybiwyd, ardal gyda thraddodiad amaethyddol cryf yw Tregaron, gyda ffeiriau amaethyddol megis y 'Ffair Garon,' sydd yn parhau i gael ei chynnal ers 1292.[32] Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd porthmyn yn casglu yma o'r ardaloedd amgylchynol, er mwyn cerdded eu defaid a'u gwartheg i Lundain. Er hynny, ffyniant y diwydiant gwlân sydd wedi arwain at ddatblygiad Tregaron yn ogystal ag un o'r banciau Cymraeg cyntaf, sef Banc y Ddafad Ddu. O ganlyniad, mae gweu wedi bod yn un o'r diwydiannau pwysicaf yma, yn benodol o'r gwlân a gasglwyd yn lleol. Yn ystod ei anterth, roedd teuluoedd cyfan o ardal y Doldre yn cymryd rhan yn y gweithgaredd er mwyn ychwanegu at eu hincymau. Yn 1851, roedd 176 o hosanwyr yn gweithio yn yr ardal, a bu'n enwog am ei sanau gwlanog oedd yn cael eu gyrru i'r glowyr yn Ne Cymru.[33] Erbyn heddiw, wrth gwrs, gyda dirywiad amaeth, a dirywiad busnesau a diwydiannau teuluol yn gyffredinol, dirywio hefyd y mae poblogrwydd Tregaron. Fel yn achos Blaenau Ffestiniog, roedd cyfnod euraidd y chwyldro diwydiannol ar ben yng Nghymru, er y gellir dadlau fod ei wreiddiau yn wir wedi cychwyn yma. Er na chafodd trigolion yr ardal eu heffeithio'n uniongyrchol gan y dirywiad yn y diwydiant gwaith â llaw, cawsant eu heffeithio gan yr alldafliad a greodd hyn i weddill y wlad.

Erbyn 1931, y cyfrifiad olaf cyn yr Ail Ryfel Byd, roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal wedi aros tua'r un peth, gyda lleihad isel yn unig i 94.7y cant, ond erbyn y dyddiad yma, 33.5y cant yn unig oedd yn uniaith Gymraeg. Er hyn, dadleuwyd gan Aitchison, Carter a Rogers (1982) fod yr ardal yn parhau i fod yn un gwbl Gymraeg. Er enghraifft, yn 1947,

[32] CEREDIGION RESEARCH AND INFO SECTION 2001. Cyngor Sir Ceredigion. www.ceredigion.gov.uk. (2009)

[33] CEREDIGION RESEARCH AND INFO SECTION 2001. Cyngor Sir Ceredigion. www.ceredigion.gov.uk. (2009)

ysgrifennodd Emrys Jones yn ei thesis doethur ar "Tregaron: a Sociological Study of a Welsh Rural Community,' oedd ffurfio'r sylfaen i'w gyfraniad i'r llyfr enwog "Welsh Rural Communities," wedi ei olygu gan Elwyn Davies ac Alwyn Rees (1960). Yn ei gyflwyniad, bu i Emrys Jones ddatgan ei fod wedi dewis Tregaron gan ei fod yn *"thoroughly welsh,"* ac o ganlyniad, ni thirfwrdd i ysgrifennu pennod am yr iaith gan ei fod yn cymryd yn ganiatael ei fod yn fater di-ddadl. Fel iddo ysgrifennu am ei holiadur:

With very few exceptions, every interview was conducted in Welsh (Aitchison, Carter a Rogers (1989:1).

Ond, bu i newidiadau, o safbwynt mewnfudo, effeithio'r ardal yn dilyn o'r cyfnod yma, er nad oedd ar raddfa mor ddwys o'i gymharu â'r hyn a ddigwyddodd wedyn ac sy'n parhau i ddigwydd i ryw raddau. Roedd llawer o'r mewnfudwyr yn gwneud hynny o fewn yr ardal leol, ond, fel y soniwyd eisoes, bu cyswllt hanesyddol gyda Llundain oedd wedi ei sefydlu gan y delwyr gwartheg a'r porthmyn a gafodd ei gadw a'i ddatblygu gan y diwydiant llaeth. Dadleuwyd gan Aitchison, Carter a Rogers, er hynny, nad oedd y mewnfudo yn ddigon i atal y dirywiad cyffredinol yn y ffigyrau allfudo. Rhwng 1901 a 1931, disgynnodd y boblogaeth wledig, dros dair oed, o 7949 i 5983 (Tud: 3), oedd yn ddisgyniant o 20.2y cant. Yn y degawdau a ddilynodd, bu i'r dad boblogi gwledig yma barhau i danseilio bywiogrwydd diwylliant yr ardal, ond nid oedd hyn yn ddigon i berswadio rhai pobl mai dyma oedd diwedd y diwydiant amaethyddol. Mewn llythyr i'r Welsh Gazette yn 1949, nodwyd fod nifer y plant oedd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r mudo gorfodol i ganolfannau diwydiannol yn Lloegr a Chymru. Er hynny, dadleuwyd gan fod amaethyddiaeth wedi 'dod at ei hun,' fel un o'r diwydiannau pwysicaf a bod cyflwr gwasanaeth y tir yn llawer mwy deniadol nag oedd, efallai y byddai'r llif o allfudwyr yn lleihau ac o ganlyniad byddai'n rhoi cymorth i ddiogelu'r ffordd wledig o fyw *"with it's emphasis on the cultural and the spiritual - the traditional life of the real Wales and the glory of the nation"* (Tud: 3, Aitchison, Carter a Rogers). Nid dyma a ddigwyddodd wrth gwrs, a drwy gydol yr 1950au, roedd pobl yn parhau i adael eu hardal leol.

Erbyn 1961, roedd poblogaeth Tregaron yn 3973, a dros y degawd dilynol, disgynnodd hyn o tua 9 y cant i 3610. Disgynnodd nifer y siaradwyr Cymraeg fel canlyniad i hyn o 3634 i 3125, sef gostyngiad o 14y cant. Yn 1961 er enghraifft, roedd 92y cant o boblogaeth yr ardal

yn gallu siarad Cymraeg, disgynnodd hyn i 86.6y cant yn 1971 (Tud: 3). Yn ôl Aitchison, Carter a Rogers (1982), mae'n rhaid ystyried beth oedd effaith hyn ar boblogaeth ifanc yr ardal, sef y sector sydd yn darparu'r cyfraniad mwyaf positif i gymeriad cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yr ardal, yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r gwahaniaethau yma yn yr iaith Gymraeg rhwng Blaenau Ffestiniog a Thregaron yn debygol o fod yn gymariaethau pwysig yn ystod fy ngwaith ymchwil, gan ei fod yn ymddangos fod Blaenau wedi llwyddo i gadw ei thraddodiad Cymraeg , lle ymddengys fod Tregaron wedi dioddef llawer mwy. Byddai hyn yn gymorth i mi fesur effaith yr iaith Gymraeg ar allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd.

**Ffeithiau Economaidd Cymdeithasol**

Mae ardal Cymunedau Yn Gyntaf Tregaron a'r Ucheldir yn un o'r Deg Cymuned o ddiddordeb dynodedig. Yn fwy penodol, mae'r ardal hon yn un o ddim ond pedwar 'Cynnig Dychmygus,' oherwydd ei anian wledig. Mae oddeutu 380 milltir sgwâr o gefn gwlad Ceredigion yn yr ardal. Yn ymestyn o Landdewi Brefi yn y De, i Bonterwyd yn y Gogledd, mae'r ardal yn cynnwys tref farchnad Tregaron a nifer o bentrefi a phentrefannau llai o faint. Gan fod oddeutu 5,200 o drigolion yn byw yn yr ardal Cymunedau yn Gyntaf Tregaron a'r Ucheldir, hon yw un o'r ardaloedd mwyaf yng Nghymru.[34]

Mae un broblem fawr wrth geisio adnabod ardaloedd o amddifadedd gwledig, sef fod dadansoddiadau arferol sy'n ymwneud ag ardaloedd daearyddol, yn dueddol o ymdrin ag ardaloedd mwy, tu allan i ardaloedd trefol, ac felly maent yn heterogenaidd mewn natur. Mae ardaloedd gwledig yn dueddol o ddangos cymysgedd mwy o dlodi cymharol a chyfoeth mewn ardaloedd lleol, bychain o gymharu ag ardaloedd trefol lle mae gwahaniaethau gofodol amlwg. O ganlyniad, cytunodd Cyngor sir Ceredigion a'r Cynulliad Cenedlaethol y byddai'r ardaloedd yma'n cael eu rhannu'n wahanol, hynny yw, nid ydynt wedi eu dosbarthu yn ôl wardiau. Fel yn ardal Aberystwyth, cafodd yr ardal ei ddiffinio yn ôl mesuriadau ar amddifadedd cymharol, megis budd-daliadau tai. Er hynny, roedd ardal Tregaron a'r Ucheldiroedd yn gymhleth i'w ddiffinio o ganlyniad i'r broblem o geisio adnabod ardaloedd

---

[34] COMMUNITIES FIRST GUIDANCE: www.wales.gov.uk Cyrchwyd 17/09/09

o amddifadedd parhaol gydag aneddiadau cymdeithasol amrywiol, wedi ei wasgaru. Yn gyffredinol, gwelwyd clystyrau o amddifadedd yn y pentrefi rhwng Ponterwyd a Llanddewi Brefi, ond roedd yr ardaloedd gwledig agored rhwng yr aneddiadau yma â phoblogaeth wasgaredig ac yn cynnwys patrwm gwasgaredig o gartrefi amddifad ymysg cartrefi nad oedd wedi eu hamddifadu. Felly bu rhaid ffurfio ffin barhaol o amgylch y pentrefi, oedd yn sicrhau ei fod yn cynnwys pob anheddiad.

O safbwynt patrymau amddifadedd yr ardal, dengys nad yw Ceredigion yn cael ei labelu fel un o 10 y cant ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru, ac o ganlyniad, mae Aberystwyth a'r Penparcau wedi ei ddosbarthu fel 30 y cant i 50 y cant. Yn ôl y Cynulliad Cenedlaethol a'u mesuryddion MALIC, roedd sgôr Ceredigion yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Tai (19 y cant) a Mynediad (45 y cant). Er hynny, roedd y sir yn dangos sgorau uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer Incwm (2 y cant) a Chymuned (6y cant). Yn ogystal, mae 34 y cant o ardaloedd yng Ngheredigion yn disgyn o dan y cyfartaledd yng Nghymru fel ardaloedd amddifad.[35]

Er ei bod yn ardal Cymunedau yn Gyntaf, mae ei statws yn wahanol iawn i Flaenau Ffestiniog, gan ei fod wedi ei dewis oherwydd ei sefyllfa wledig. Gan ei bod hefyd yn un o'r ardaloedd mwyaf, mae'r arian sydd yn cael ei ddynodi iddynt, yn cael ei rannu yn ôl 5 ardal, er eu bod a phoblogaeth isel a gwasgaredig iawn. Mae poblogaeth Tregaron ei hun yn cyrraedd 1,217 sydd ychydig yn llai na ward Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog. Er hynny, mae wedi ei wasgaru drwy wahanol ardaloedd o fewn y pentref. O safbwynt y boblogaeth, mae'r ardal Cymunedau'n Gyntaf a ddynodwyd yn 5, 209 o'i gymharu â 74,941 yng Ngheredigion. Mae 2,593 o'r rhain yn wrywod, o'i gymharu â 2,616 sy'n fenywod[36]. Nid oes sefydliadau addysg uwch yn yr ardal, fel ym Mlaenau Ffestiniog, ond dadleuwyd y byddai rhai myfyrwyr yn cymudo i Brifysgol Aberystwyth neu Brifysgol Llanbedr Pont Steffan, er nid yw'r boblogaeth o fyfyrwyr yn debygol o gael effaith mawr wrth fesur poblogaeth yr ardal a chyflyrau economaidd cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae strwythur y boblogaeth yn debyg iawn i gyfartaledd y sir, hynny yw gyda chyfraddau isel o oedrannau 15-24 a chyfraddau uchel o oed 45-64. Yn ogystal, mae cyfraddau isel iawn o symudoledd yn yr ardal, gyda 91 y cant o'r trigolion yn datgan nad oeddynt wedi synod yn ystod 2000/01

[35] (<http://new.wales.gov.uk/statsdocs>) Tud: 7 Cyrchwyd 17/09/09
[36] Ceredigion Research and Information Section, Tud: 4

(Ceredigion Research and Information Section, Tud: 4). Ar lefel lleol, mae llif poblogaethau'n isel iawn yn Nhregaron o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y sir. Mae patrymau mudo'n cynrychioli rhwng 13.8y cant a 16.9 y cant o'r boblogaeth. Roedd y llif allanol yn -2.2 y cant yn Nhregaron (Tud: 4).

Dadleuwyd fod Tregaron yn gwasanaethu nifer o swyddogaethau lefel isel gan gynnwys mân-werthu cyffredinol, gwasanaethau ariannol personol a banciau, ysgol uwchradd, ysbyty cymunedol a Chanolfan Iechyd. Er hynny, gellir dadlau ei fod yn un o'r ardaloedd mwyaf arunig yn y sir, yn enwedig wrth ystyried cyfyngiadau daearyddol a phatrymau hanesyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn ddibynnol ar Aberystwyth ar gyfer ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cyflogaeth, mân-werthu ar raddfa mwy a hyd yn oed agweddau cymdeithasol. Yn ogystal, mae cyfraddau eithaf uchel o'r boblogaeth sy'n teithio i'w gwaith yn Aberystwyth o Dregaron, yn debygol o atgyfnerthu'r cysylltiadau gyda'r ganolfan hwnnw, gan olygu y bydd Aberystwyth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau lefel isel yn ogystal (Cerdigion Research and Information Section Tud: 5).

Awgrymir gan fesuriadau amddifadedd o ardaloedd gwledig, fod ardaloedd tebyg i Dregaron yn cuddio pocedi o amddifadedd. Roedd dosbarthu Tregaron fel rhan o ardal Cymunedau yn Gyntaf yn ddibynnol ar y lefelau uchel o hawlwyr budd-dal tai. Dadleuwyd yn ogystal fod hyn o ganlyniad i gyfraddau uchel o ystadau tai yn yr ardal. O safbwynt yr economi a chyflogaeth mae tua 61 y cant o drigolion oed 16-74 yn actif yn economaidd; mae hyn yn gyfradd uchel o'i gymharu â gweddill y sir o ganlyniad i fyfyrwyr addysg uwch sydd yn byw tu allan. Mae 18 y cant yn anactif yn economaidd gyda 8 y cant yn ddi-waith o ganlyniad i salwch. Mae hyn yn debyg iawn i ffigyrau'r sir. O safbwynt y gyflogaeth a swyddi sydd ar gael, mae'r cyfraddau uwch o fewn y sectorau cynradd o amaethyddiaeth, sef 16y cant o holl ardaloedd Ceredigion ( 6). Mae cyfraddau eithaf isel o'r grym gwaith yn gweithio o fewn o sector cynhyrchu. Gwelir fod Tregaron yn gwahaniaethu'n fawr gydag ardal Blaenau Ffestiniog o safbwynt ei sefyllfa ddaearyddol yn ogystal â'i chyfraddau diweithdra a hawlwyr budd-dal. Gellir dadlau ei fod wedi ei amgylchynu gydag ardaloedd mwy a chyfoethog nag yw Blaenau ac o ganlyniad, mae cyfleoedd o safbwynt gwaith a theithio yno yn debygol o fod yn haws. Fel y soniwyd esioes, o safbwynt cyfraddau salwch ac anabledd, mae 8y cant yn anactif yn economaidd o ganlyniad i salwch, sydd yn debyg iawn i ffigyrau eraill y sir.

Mae hyn yn cymharu â 11 y cant yng ngweddill Cymru. Mae 17 y cant yn hawlio rhyw fath o fudd-dal allweddol yn yr ardal o'i gymharu â 12 y cant yng Ngheredigion a 19 y cant yng ngweddill Cymru. Gwelwyd ei fod yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Mae'r nifer sy'n hawlio budd-dal ceisio am waith yn eithaf isel gydag 1y cant yn Nhregaron a Cheredigion. Gwelwyd wrth gymharu, fod ffigyrau Blaenau Ffestiniog ychydig uwch.

O safbwynt yr iaith Gymraeg, sydd yn ymddangos yn ffactor pwysig yn yr ardal hon, gwelwyd fod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 67.6 y cant sydd yn uwch na'r cyfartaledd sirol. Er hynny, gwelwyd o ffigyrau'r consensws fod 23.38 y cant yn dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau o safbwynt yr iaith Gymraeg o'i gymharu â 38.76 y cant yng ngweddill Ceredigion a 71.57 y cant drwy Gymru gyfan[37] (Ystadegau'r cyfrifiad 2001) Gwelwyd felly ei fod yn parhau'n bwysig yn yr ardal sydd yn adlewyrchiad o ymdrechion yr ysgolion a'r gymuned i'w gadw'n ffactor cymdeithasol allweddol. O ganlyniad, teimlaf ei fod yn ymdebygu i Blaenau yn yr ystyr yma ac felly'n gymhariaeth bwysig wrth geisio trafod allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd. Mae hi'n bwysig nodi er hynny, eu bod yn ardaloedd gwbl wahanol ac felly yn gymariaethau ac yn enghreifftiau da ar gyfer fy astudiaeth, gan fod yr amrywiaethau cymdeithasol yn debygol o ddangos amrywiaethau tebyg neu wahanol.

**Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf**

Mae hi'n amlwg o'r prosiectau Cymunedau'n Gyntaf sydd yn bodoli yn y ddwy ardal eu bod yn ceisio am brosiectau a gweithgareddau gwahanol oherwydd bod eu hanghenion yn amrywio. O safbwynt pobl ifanc er enghraifft, mae Cymunedau yn Gyntaf Blaenau Ffestiniog yn ceisio darparu mwy o sgiliau cyffredinol, tra mae ardal Tregaron yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael yn gyffredinol. Yn ogystal, maent yn ceisio cryfhau'r rhwydweithiau cymunedol sydd ar gael yn barod. Dros y blynyddoedd diweddar, mae Cymunedau yn Gyntaf Tregaron, wedi ceisio cynyddu cyfranogaeth pobl ifanc yn yr ardal. Mae'r prosiect wedi gweithio'n agos gyda grŵpiau a phrosiectau i'r ifanc sydd yn cynnwys rhai gwirfoddol. Mae'r grŵpiau hyn wedi bod yn ceisio hybu cyfranogaeth y grŵpiau o bobl ifanc hynny sydd yn anodd eu cyrraedd ac sydd ddim fel arfer yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau prif lif. Byddai hyn yn gymorth i fy ymchwil gan ei fod yn ceisio cynyddu

[37] www.neighbourhoodstatistics.gov.uk <http://www.neighbourhoodstatistics.gov.uk> Cyrchwyd 18/09/09

cyfleoedd bobl ifanc ym mhob maes fydd yn darparu mewnweledlad i mi o'r gwaith sydd yn barod yn cael ei wneud er mwyn ceisio cadw poblogaeth ifanc yr ardal. Byddai'n bwysig i mi hefyd wrth ystyried y bobl ifanc hynny sydd yn ei chael hi'n anodd integreiddio i'r ardal a'r gymuned, ac sydd yn aml ar yr ymylon yn gymdeithasol. At bwrpas ystyried yr iaith Gymraeg, byddai'n gymorth i mi ddarganfod pa iaith sydd yn cael ei ddefnyddio fwyaf o fewn y gweithgareddau cymdeithasol yma. Oherwydd ei sefyllfa ddaearyddol, mae hi'n bwysig ystyried os yw mwy o bobl ifanc yn dewis aros yn eu hardaloedd a cheisio am waith a bywyd cymdeithasol yn y trefi mwy, megis Aberystwyth, neu os ydynt yn dueddol o adael yn gyfan gwbl. Mae hyn yn ystyriaeth ychwanegol i Flaenau Ffestiniog, lle gellir dadlau fod rhaid cymudo'n bellach er mwyn darganfod y gwasanaethau yma.

Mae partneriaid allweddol Cymunedau'n Gyntaf Tregaron a'r Ucheldiroedd yn cynnwys:

- Cymdeithas Llanfihangel y Creuddyn a'r Cylch
- Cymdeithas Ystrad Meurig a'r Cylch
- Clwb Garddio Ponterwyd Gardening Club
- Pafiliwn Cyf
- Eglwys Ioan Fedyddiwr Ysbyty Cynfyn
- CGYMCA Ffair Gŵyl Iwan
- Home Start Ceredigion
- Cylch Meithrin & Cylch Ti a Fi Llanddewi Brefi
- Clwb Cerdded Crwydro Caron Walking Club
- Llanafan Women's Institute
- Cymdeithas Twm Sïon Cati
- Ffrindiau Ysgol Llanddewi Brefi Parent/ Teachers Association
- Ieuenctid Caron
- Ffair Garon Cyfyngedig

Mae hi'n bwysig rhoi ystyriaeth i'r grŵpiau yma wrth geisio fy ngwaith ymchwil.

**Polisïau Iaith Cyngor Sir ac Ysgolion y Ddwy Ardal**

Byddai'n gymorth ystyried polisïau iaith ysgolion y ddwy ardal dan sylw. Gan fod y traethawd eisoes wedi canolbwyntio ar broffil economaidd a chymdeithasol Blaenau Ffestiniog a Thregaron yn ystod y bennod hon, byddai cymhariaeth ieithyddol yn ogystal yn ychwanegu at ganfyddiadau'r ymchwil. Isod mae disgrifiad cryno o ganllawiau iaith a benodwyd gan Gynghorau Sir y ddwy ardal gan gynnwys eu nod a'u hamcanion.

**Polisi Iaith Gwynedd**

Yn ystod Rhagfyr 1996 cyhoeddodd Gwynedd Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y pryd, ac mae'n amlinellu sut y dylai'r cyngor ymdrin â'r cyhoedd gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. O dan Ran 1 a Rhan 2 Deddf Iaith 1993, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Addysg Leol, ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n delio'n benodol ag addysg. Gelwir y cynllun yn 'Cynllun Addysg Gymraeg,' ac mae'n rhan o'r Prif Gynllun Iaith. Cymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith am gyfnod o 3 mlynedd o dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar y 3ofed o Fehefin 2011. Mae nod ac amcanion y Polisi Iaith fel a ganlyn:

3.1 Nod y Polisi Iaith [1996] yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed perthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed perthnasol golygir fod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae hyn yn cynnwys datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith a disgwylir i holl sefydliadau addysgol y Sir hyrwyddo ac atgyfnerthu'r Polisi o fewn ei gweinyddiad, y cwricwlwm ac o fewn eu bywyd cymdeithasol. Er bod y pwyslais pennaf ar ddwyieithrwydd, rhoddi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn creu sylfaen cadarn i ddatblygiad ieithyddol ymhellach. Mae hyn yn unol â phrif nod y Cynllun Addysg Gymraeg sef sicrhau *"datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-dysgu ymlaen."*

Diffinia'r Polisi Iaith ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o ddwyieithrwydd yn ôl y carfanau iaith isod:

- Carfan A: Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Carfan B: Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.
- Carfan C1: Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.
- Carfan C2: Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg.
- Carfan CH: Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall.

Disgwylir i bob ysgol ddarparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl trwy gynllunio ieithyddol bwriadus.

Yn benodol, mae'r Polisi yn nodi fod angen gosod sylfaen cryf i'r Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau fod disgyblion Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r iaith cyn gynted â phosib. Er mwyn diogelu hyn, bydd yr awdurdod yn canolbwyntio ar y materion isod:

3.15

- Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion sy'n fewnfudwyr di-gymraeg fynychu'r Canolfannau Iaith er mwyn iddynt, ar ôl derbyn cwrs dwys o Gymraeg, allu integreiddio'n naturiol i'w hysgol a'u cymuned.
- Parhau i gynnig hyfforddiant penodol i gefnogi datblygiad y Gymraeg ar draws y cyfnodau allweddol, ac yn benodol ar gyfer athrawon yn yr ysgolion cynradd yn ardaloedd Bangor a De Meirion.
- Hyrwyddo datblygiad Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol e.e. hyrwyddo'r pontio o CA2 i CA3 gan sicrhau'r ddarpariaeth ieithyddol briodol ar gyfer y disgyblion[38].

Yr un yw nod y polisi ar draws ysgolion cynradd y Sir i gyd sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn Cyfnod Allweddol 2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn ogystal. Yng Nghyfnod Allweddol

[38] http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1110/cynllun_addysg_gymraeg_gwynedd__2011.pdf Tud: 5 cyrchwyd 01/08/13

2, mae'r ysgolion yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Yn ddiweddar, mae gwaith ar ddarpariaeth iaith y Sir i'r oedran 14-19 yn ceisio sicrhau fod dilyniant 16+ i'r meysydd galwedigaethol newydd sy'n cael eu cyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 4. Sefydlwyd Grŵp Partneriaeth 16+ rhwng prif ddarparwyr addysg y sir i hyrwyddo gwell dilyniant ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a bydd dilyniant ieithyddol yn ganolog i hyn. Sefydlwyd Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg ar draws rhanbarth y Gogledd er mwyn hyrwyddo cyd weithio rhwng sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth addysgol Gymraeg neu ddwyieithog:

Mae hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog yn un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 ac mae disgwyliad y bydd pob cwrs a gyllidir trwy'r grant blynyddol yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog. Yn ymarferol, bydd sicrhau dilyniant ieithyddol priodol yn y cyrsiau hyn yn rhan greiddiol o gylch gorchwyl is-grŵp ansawdd Rhwydwaith 14-19 Gwynedd.[39]

Mae Gyrfa Cymru yn rhan o'r Rhwydwaith 14-19, a defnyddi'r eu harbenigedd hwy er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith a rhoddir sylw i bwysigrwydd y Gymraeg o fewn cyflogaeth.

O ganlyniad, ystyriwyd fod Polisi Iaith Gwynedd yn rhoi pwyslais ar addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar gan ddatblygu hyfedredd yn y ddwy iaith erbyn addysg ysgol uwchradd. Yma ceir mesuriadau amlwg sydd yn ceisio diogelu'r iaith a'i atgyfnerthu fel iaith 'normal,' o fewn a thu allan i'r system addysg.

**Polisi Iaith Ceredigion**

Mae Cynllun addysg Sengl Ceredigion yn nodi'r flaenoriaeth a rhoddi'r i feithrin dwyieithrwydd ac adlewyrchir hyn ym mholisi iaith gorfforaethol y Sir. Mae Strategaeth Iaith Awdurdod Ceredigion yn gweithredu ar yr egwyddorion canlynol:

- Datblygu medrau disgyblion fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl ac yn hyderus, gan alluogi iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn byw ynddi, gan feithrin balchder at yr ieithoedd yn ogystal.

[39] http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1110/cynllun_addysg_gymraeg_gwynedd__2011.pdf Tud: 10 cyrchwyd 01/08/13

- Mae Strategaeth iaith yn ganolog i lwyddiant y ddarpariaeth ddwyieithog.
- Y prif amcan yw sicrhau sgiliau dwyieithog y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Dylid sicrhau cyfathrebu eglur o'r strategaeth iaith drwy gynnwys y Strategaeth Iaith mewn dogfennau a gwefannau sirol. Hefyd dylid cynnwys y Strategaeth Iaith, a chyd-destun ysgol unigol wrth ddatblygu dwyieithrwydd, yn y Llawlyfr ysgol ynghyd â dogfennau perthnasol eraill yr ysgol.
- Mae ethos cwbl Gymraeg a Chymreig ym mhob ysgol yn sail i'r strategaeth. Mae'r strategaeth yn cael ei monitro'n flynyddol gan ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth megis Llawlyfrau'r ysgolion, Cynlluniau Gweithredu Addysg Gymraeg ysgolion unigol, data cyrhaeddiad disgyblion, ymweliadau cyswllt, ymweliadau athrawon bro, arolygiaethau ESTYN ac ymweliadau gydag aelodau o wasanaeth ymgynghorol Ceredigion sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg[40].

Er mwyn gwireddu'r Cynllun Iaith nodi'r mai Cymraeg fydd cyfrwng bywyd ac addysg mewn Sefydliadau meithrin a babanod. Asesir y disgyblion yn unol â meini prawf Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg Iaith Gyntaf, fel yn achos Polisi Iaith Gwynedd. Mae'r Sir yn ceisio sicrhau mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gweinyddiad yr ysgol drwy ei ddefnyddio fel prif iaith ei wasanaethau a'i chyhoeddiadau, annog y Gymraeg fel iaith cyfathrebu naturiol yr athrawon a disgyblion a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac allgyrsiol. Gwelwyd felly fod y Polisïau iaith o safbwynt ysgolion cynradd y ddwy Sir felly, yn ymdebygu.

Er hynny, gwelir gwahaniaethau amlwg rhwng Polisïau Iaith y Siroedd o safbwynt darpariaeth uwchradd. Mae'r ysgolion cynradd yn gosod nod benodol i ddwyieithrwydd eu disgyblion. Mae hyn yn gosod cyfrifoldeb ar ysgolion cyfun i gadarnhau dwyieithrwydd pob disgybl ac i'w cefnogi a'u cynnal yn y datblygiad hwn. Mae gan bob ysgol uwchradd o fewn yr Awdurdod y cyfrifoldeb i sicrhau parhad a dilyniant ieithyddol addas i bob disgybl. Er hynny, gwelir fod disgyblion, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd yn cael eu hasesu yn ôl meini prawf cwricwlwm cenedlaethol Iaith Gyntaf. Mae ysgolion yn gosod grwpiau penodol o ddisgyblion ar wahanol haenau o'r continwwm iaith er mwyn sicrhau dilyniant a datblygiad ieithyddol y disgybl. Yma felly, ystyriwyd fod rhaniadau neu haenau yn cael eu gosod o fewn yr ysgol yn ôl gallu ieithyddol. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer athrawon yn yr

[40] http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_rkyvdownload.cfm Cyrchwyd 01/08/13

ysgolion yng Ngheredigion. Noda'r Polisi Iaith y dylai'r staff a phenodi'r bod yn ddwyieithog neu yn ymrwymo i gyrsiau Cymraeg yn ôl eu hangen.

Mae graddfeydd ieithyddol amrywiol i wahanol ysgolion yng Ngheredigion sydd yn gosod rheolau a chategorïau ieithyddol ar gyfer yr ysgol dan sylw. Mae disgwyl i'r ysgolion yng Nghategori A throsglwyddo 80% o'r profiad addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4. Mae'r ysgol a ddewiswyd ar gyfer y sampl hwn, yn disgyn yng Nghategori A.

O ganlyniad, ystyriwyd fod Polisïau Iaith y ddwy ardal yn unfath wrth ystyried addysg gynradd y disgyblion. Er hynny, mae'r ddarpariaeth ieithyddol yn amrywio wrth i bobl ifanc gyrraedd yr ysgol uwchradd ac yma disgwylid gweld rhaniadau amlwg yn y ddwy sampl wrth i'r astudiaeth ddatblygu.

**Cloi**

Yn y bennod hon, edrychir ar yr ardaloedd ymchwil dewisedig ar gyfer y traethawd hwn. Mae'r ardaloedd a ddewiswyd yn cymryd i sylw gwaith Jones (2010) a ffactorau economaidd allanol sy'n cymeriadu'r Fro Gymraeg heddiw. Mae'r bennod yn rhoi crynodeb o wahanol lefelau o amddifadedd ac yn disgrifio'r hyn sydd yn gyffredin i Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yna mae proffil byr o'r ardaloedd a ddewiswyd i gynnal y gwaith ymchwil gan gynnwys polisïau iaith yr ysgolion a'r siroedd dan sylw.

O ganlyniad, gwelwyd wrth edrych ar ffactorau allweddol y ddwy ardal fod modd adeiladu dwy ymchwil wahanol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'u bröydd. Mae Blaenau Ffestiniog a Thregaron, yn amrywio'n fawr yn ôl eu sefyllfaoedd economaidd a chymdeithasol ac felly'n amrywio yn eu hanghenion a'u gofynion. Yn ogystal, ystyriwyd fod amrywiaethau yn ôl eu polisïau iaith, yn debygol o gael effaith ar ymateb a defnydd pobl ifanc o'r iaith. Mae'r gymhariaeth yn debygol o ddarparu ystyriaethau newydd i mi o safbwynt y gwahaniaethau sydd rhwng pobl ifanc sydd yn hanu o ardaloedd gwledig neu drefol, a byddai'n bwysig i mi adnabod y gwahaniaeth rhwng eu hanghenion a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Bydd y bennod nesaf yn amlinellu fy ngobeithion ar gyfer fy ngwaith ymchwil cynradd gan gynnwys methodoleg yr astudiaeth a'r hyn y byddaf yn ceisio cyflawni wrth edrych ar y ddwy ardal mewn golwg.

# Pennod 4

# Cefndir y Fethodoleg a Dulliau Ymchwil

## Cyflwyniad

Pwrpas y bennod hon yw darparu'r cefndir damcaniaethol ar gyfer fy ngwaith maes a'r ymchwil yn benodol. I ddechrau byddaf yn gosod y cefndir i fy nulliau ymchwil o fewn ei fframwaith theoretaidd ac yn clymu'r hyn a ysgrifennwyd amdano ym Mhennod 2 gyda'r dulliau ymchwil a ddewiswyd ar gyfer y traethawd. Trafodir gwaith Williams a Morris (2000) er mwyn rhoi cefndir i'r gwaith maes, yna byddaf yn trafod rhwydweithiau a chyfalaf cymdeithasol yng nghyd â thestun y gwaith ymchwil, ac yna'n ystyried pwysigrwydd y ffactorau cymdeithasol allanol sydd yn allweddol i'r fethodoleg.

Eglurir cefndir epistomolegol a damcaniaethol yr astudiaeth, ac esbonnir pam defnyddiwyd y dull ansoddol a meintiol o gasglu data. Disgrifir y modd yr aethpwyd ati i ddewis sampl o ymatebwyr ynghyd â'r holiaduron, grŵpiau ffocws a chyfweliadau strwythuredig a ddefnyddiwyd fel dull o gasglu data manwl am Allfudiaeth Pobl Ifanc o'r Bröydd Cymraeg. Yma hefyd bydd trafodaeth am foeseg a lleihau tuedd yn yr astudiaeth.

## Cefndir Damcaniaethol y Fethodoleg

Mae safle amlwg i ddamcaniaeth cymdeithasegol yn y broses ymchwil. Crybwylla Berg (2007:19) ei swyddogaeth, "*as interrelated ideas about various patterns, concepts, processes, relationships or events*".

Fel y soniwyd ym mhennod dau, fel fframwaith i'r traethawd, mae hi'n bwysig amlinellu'r cefndir theoretaidd sy'n gorff iddo ynghyd â'r cysyniadau allweddol sydd yn sail i'r gwaith maes. Yma gwelwyd ystyriaethau ieithyddol yn nhermau ei gyd-destun cymdeithasol ehangach fel sydd yn amlwg o waith Fishman (1991). Gan ystyried adfywio ieithyddol, gellir dadlau mai syniadau Fishman sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad cymdeithaseg iaith,

addysg ddwyieithog a chynllunio ieithyddol (Williams 2000:13). Mae gwaith Fishman yn awgrymu'r esgeulustod amlwg o iaith o fewn y gwyddorau cymdeithas ac yn wir, gellir dadlau nad yw iaith yn ymddangos fel un o'r prif ffactorau wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Er hynny, fel ym marn Fishman (2002) nid yw iaith yn newidyn cwbl ddealladwy, hyd yn oed heddiw ac fel yn ei eiriau ef:

A language is simultaneously indexical of both the material and the non material regardless of its traditionally associated culture, symbolic of that culture (and of membership in that culture) and therefore, like all symbols, easily politicised, and finally, language is also part and parcel of the bulk of any culture (note the complete interdependence of language and laws, religion, education, jokes, riddles, songs, blessings, curses, greetings and the thousand pleasantries of everyday life). Culture and language are in large part identical rather than merely the co-occurrences or "fellow travellers" that they are all too often taken to be (2002:273).

Er nad ymddengys fod ystyriaethau ieithyddol yn effeithio ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, pwysig yw nodi fod iaith yn gysylltiedig gyda graddfeydd o integreiddio a'r ymdeimlad o berthyn ac ystyriaethau cymdeithasol llai amlwg. Yma felly gwelwyd pwysigrwydd ar gyfer cynllunio ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Ceir arweiniad i waith Williams a Morris (2002) wrth ystyried cynllunio ieithyddol ar gyfer y byd sydd ohoni. Mae gwaith gan Williams a Morris (2000) "*Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*" yn defnyddio'r persbectif neo-Farcsaidd i drafod sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru heddiw, ac yn nodi bod grŵpiau iaith yn grŵpiau cymdeithasol sy'n gweithredu oddi mewn i gyd-destun economaidd a chymdeithasol. O'r safbwynt yma, byddai'n gymorth i mi ystyried y cysyniadau sy'n allweddol i'r traethawd gan gyffwrdd ar effeithiau newidiadau economaidd ar batrymau cynhyrchu ac atgynhyrchu iaith a mudo ac allfudo. Er mwyn cynnal y gwaith maes arfaethedig ar bobl ifanc, defnyddir y dechneg o drafod rhwydweithiau. Gellir dadlau ei fod yn gysyniad defnyddiol oherwydd ei fod yn rhoi darlun o 'gyfalaf cymdeithasol,' neu raddfa integreiddio unigolyn yn ei gymuned. Ystyrir y gall graddfa integreiddio gymdeithasol pobl ifanc fod yn ffactor allweddol wrth ystyried allfudo.

Gan dynnu ar waith theoretig cynharach gan Williams (1992), mae Williams a Morris (2000) yn cychwyn eu trafodaeth am gymdeithaseg grŵpiau iaith leiafrifol trwy nodi bod y drafodaeth ar gymdeithaseg iaith yn deillio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pryd y dechreuodd cymdeithaseg gael ei ffurfio fel gwyddor wleidyddol. Prif

amcan a bwriad sylfaenwyr y wyddor oedd cynnal trefn gymdeithasol, trwy gyfrwng y gwladwriaethau newydd a oedd yn ymddangos ar y pryd. Mae tair elfen sy'n cyfrannu at y model clasurol hwn sef rhesymoliaeth, unigolyddiaeth moesol a ffwythiannaeth sefydliadau cymdeithasol (2000:20). O ystyried y traethawd hwn, mae'n codi'r cwestiwn a allai'r unigolyn fod yn aelod cyflawn o'i gymdeithas heb gyfrannu tuag ati a chymryd rhan lawn ym mywyd casgliadol y gymdeithas honno? Mae'n gwestiwn fydd yn fy arwain at y graddfeydd o integreiddio'r bobl ifanc hynny sydd yn dewis gadael eu bröydd.

Yn sgil twf y wladwriaeth fodern yng ngwaith Williams a Morris, oedd y datblygiad o Saesneg fel yr 'iaith fodern,' a ddiystyrodd yr holl ieithoedd a diwylliannau eraill. Yng Nghymru, er bod Cymraeg yn rhan flaenllaw o'r disgwrs yma, cafodd ei heithrio o brif lif cymdeithas. Fel rhan o'r gwaith theoretaidd i'r traethawd ymchwil hwn, byddai'n bwysig i mi ystyried y ffordd y cafodd y Gymraeg a'i siaradwyr eu heithrio'n gymdeithasol a'r stigma sydd efallai'n parhau i gael ei theimlo gan ei siaradwyr. Gellir dadlau yn ogystal ei fod yn cael effaith ar y ddelwedd o'r Gymraeg a bod y bobl ifanc hynny a ystyrir ar gyfer y traethawd yn teimlo'r stigma ac yn anfodlon iawn i gysylltu eu hunain gyda'r iaith a'r diwylliant. Gall hyn mewn amser arwain at ddiffyg integreiddio. Byddai'n bwysig i mi yn ogystal, ystyried y newidiadau economaidd a gafwyd yng Nghymru dros y ganrif ddiwethaf sydd wedi arwain at symudiad poblogaeth a chyfalaf sydd, yn ei dro, wedi effeithio ar sefydliadau cymdeithasol pwysig megis y teulu, y gymuned ac addysg. Mae'r cysyniadau hyn yn caniatáu i ni ystyried perthnasedd y gwahanol asiantaethau cymdeithasol i'r broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith. Mae'n bosib nad yw'r teulu, er enghraifft, yn atgynhyrchu'r iaith, hyd yn oed pan fo'r rhieni yn siarad yr iaith, ond fod asiantaethau eraill, fel addysg, yn dysgu'r Gymraeg i blant. Pan ddadansoddwyd data'r cyfrifiad 1991 yng Nghymru, darganfyddodd Baker a Jones (1991) fod o 11.6 y cant o aelwydydd yng Nghymru, mae'r ddau bartner yn siarad Cymraeg; yn 5.2 y cant o aelwydydd yng Nghymru, mae'r gŵr, ond nid y wraig, yn siarad Cymraeg ac mewn 6.0 y cant o aelwydydd yng Nghymru, mae'r wraig, ond nid y gŵr yn siarad yr iaith. Golygai hyn fod cyfanswm o 22.8 y cant o aelwydydd lle allai un neu mwy partner siarad Cymraeg i'w plant. Os yw'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yna mae 91.3 y cant o siawns y bydd eu plant yn siarad yr iaith.

Yn amlwg, byddai'r un sefyllfa'n wir yn achos teuluoedd ble nad yw'r un o'r rhieni'n siarad Cymraeg, sef mai'r ysgol yw'r asiantaeth atgynhyrchu iaith, gyda'r gymuned o bosib yn ategu hynny, yn enwedig yn y bröydd Cymraeg. Wrth ystyried cynhyrchu ac atgynhyrchu

iaith mae Williams a Morris wedi dangos fod yr iaith Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei hatgynhyrchu pan mae'r ddau riant yn siarad yr iaith, ac mae'r tebygolrwydd yma'n lleihau'n sylweddol, pan nad yw un yn gallu siarad yr iaith (1987: 39). Gellir dadlau fod gan y ddamcaniaeth yma sylfaen pwysig o safbwynt fy ngwaith maes i.

**Perthnasau a Chyfalaf Cymdeithasol**

O safbwynt perthnasau cymdeithasol, yng nghyd-destun gwaith maes y traethawd hwn, byddaf â diddordeb yn strwythur cymdeithasol y sampl drwy eu cysylltiadau cyfeillgarwch, carennydd, credo a'u diddordebau. Byddaf yn ystyried yr unigolion o fewn eu rhwydweithiau a'r cysylltiadau rhyngthynt. Dadleuwyd fod archwiliad ar rwydweithiau yn ddefnyddiol ar gyfer yr astudiaeth o batrymau perthnasau teuluol a strwythurau cymunedol. Gellir dadlau ei fod yn ymestyn ar y theori o integreiddio cymdeithasol, lle gwelwyd ei fod yn pwysleisio fod rhyngweithio yn galluogi i bobl adeiladu cymdeithasau ac felly sicrhau fod synnwyr o berthyn a rhwydweithiau cryf. Dros y 40 mlynedd diwethaf gwelwyd twf yn y defnydd o'r archwiliad hwn i astudio cymdeithas, er bod gwreiddiau'r dull yn mynd yn ôl i gymdeithaseg glasurol yr Almaen, ble'r oedd Tönnies, Weber a Simmel yn defnyddio'r term fel metaffor. Yn yr 1930au, datblygwyd y dull ymhellach gan Moreno (1953) a ddefnyddiodd '*sociometrics*' i astudio strwythurau grŵpiau trwy eu patrymau cyfeillgarwch a rhyngweithio anffurfiol. O safbwynt fy ngwaith maes, byddai'n bwysig i mi ystyried gwaith Putnam (2000) sydd yn rhoi ystyriaeth i gyfalaf cymdeithasol a'i gred fod datblygiad plant a phobl ifanc yn cael ei effeithio a'i siapio gan gyfalaf cymdeithasol Mae ymdriniaeth a normau o fewn teuluoedd, yr ysgol, grŵp cyfoedion a'r gymuned ehangach yn cael effaith ar eu cyfleoedd a'u dewisiadau. Mae'r theori o gyfalaf cymdeithasol, i'w roi yn syml, yn amlygu'r cysyniad o wneud cysylltiadau gydag eraill, a drwy eu cynnal a'u cadw, mae pobl yn aml yn gallu gweithio gyda'i gilydd a chyflawni pethau na fyddai'n bosib, neu ag anhawster mawr, cyflawni'n unigol. Cysylltir pobl drwy gyfres o rwydweithiau ac maent yn aml yn rhannu gwerthoedd cyffredin gydag aelodau eraill o'r rhwydweithiau yma. Gellir ystyried y rhwydweithiau fel adnodd, sy'n ffurfio cyfalaf. Fel awgrymwyd gan Fields (2008:4)

As well as being useful in its immediate context, this stock of capital can often be drawn on in other settings. In general then, it follows that the more people you know, and the more you share a common outlook with them, the richer you are in social capital.

Mae Fields yn mynd ymlaen i nodi fod unigolion yn debygol o fod yn fwy parod i gydweithredu i gyflawni dyheadau cilyddol os ydynt yn rhannu gwerthoedd cyffredin. Mae systemau ffurfiol ym marn Fields (2008:5) sydd yn cyfuno trefn amhersonol a rheolau hierarchyddol, yn aml yn gais i reoli'r cydweithrediad anffurfiol yma a gall hyn, yn ei dro, arwain at ffurfiau o wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y rhai sydd ddim yn rhan o'r grŵp.

Neu i'w roi yng ngeiriau Fields (2008:6):

Social relationships can sometimes serve to exclude and deny as well as include and enable. People's networks should be seen, then, as part of the wider set of relationships and norms that allow people to pursue their goals and also serve to bind society together.

Bod yn rhan o rwydwaith, â chyfres o werthoedd rhanedig, yw'r hyn sydd yn ganolog i'r cysyniad o gyfalaf cymdeithasol. Mae trafod y ffenomena cymdeithasol yma fel cyfalaf yn ddeuol. Ar un llaw, mae'n awgrymu eu bod yn adnodd, neu hyd yn oed yn ffynhonnell o bŵer a dylanwad sydd wedi ei wreiddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol penodol. Fel y soniwyd eisoes, Robert D Putnam sydd yn gyfrifol am boblogeiddio'r term a'i ddatblygu o theori gymdeithasol ac economaidd. Yn ei farn ef, mae'r cysyniad o gyfalaf cymdeithasol yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y lefel micro o brofiadau unigolion a gweithgareddau dyddiol, a'r lefel meso o sefydliadau, asiantaethau a chymuned. O ganlyniad, drwy ddiffinio cysylltiadau fel modd o gyfalaf, mae'r cysyniad yn arwain at gyfres o esboniadau sy'n cysylltu'r lefelau micro, meso a macro, gyda'i gilydd.

Mae'r theori'n ddefnyddiol wrth i mi ystyried rhwydweithiau cymdeithasol mewn ffordd wahanol, hynny yw, a yw rhwydweithiau cymdeithasol sampl fy nhraethawd yn effeithio ar eu cydlyniad gyda'u cyfoedion ac , yn y pen draw, ar eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

I Faust a Wasserman (1994), mae'r safbwynt rhwydwaith cymdeithasol yn gweld theorïau, modelau a cheisiadau yn nhermau proses (1994: 4). Hynny yw, *"relations defined by linkages among units are a fundamental component of network theories"* (1994:4). Mae'n canolbwyntio ar fesur y berthynas a'r llif ymysg pobl, grŵpiau, cyfundrefnau, cyfrifiaduron a gwybodaeth gysylltiadol neu endidau eraill. Y rolau o fewn y rhwydweithiau yw'r bobl a grŵpiau, lle mae'r cysylltiadau'n dangos y perthnasau neu'r llif ymysg y bobl.

> The network perspective differs in fundamental ways from standard social and behavioural science research and methods. Rather than focusing on attributes of autonomous individual units, the associations among these attributes, or the usefulness of one or more attributes for predicting the level of another attribute, the social network perspective views characteristics of the social units as arising out of structural or relational processes or focuses on properties of the relational systems themselves.
>
> Faust a Wasserman (1994:7)

Ystyrir felly bod y dull hwn yn addas iawn ar gyfer cynnal gwaith maes yn yr ymchwil maes arfaethedig.

**Ffactorau Economaidd**

Yn olaf, mae hi'n bwysig fod y gwaith maes yn adlewyrchu'r ffactorau cymdeithasol ehangach sy'n effeithio ar benderfyniad pobl ifanc i adael y bröydd, drwy ystyried gwaith Hywel Jones (2010) ar y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar fy sampl dewisedig a'u dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae'n rhoi ystyriaethau tu hwnt i batrymau integreiddio dros y rhesymau pam fod pobl ifanc yn dewis gadael eu bröydd ac yn rhoi pwyslais ar y farchnad lafur a'r economi yn gyffredinol. Fel y soniwyd eisoes, penderfynodd Jones edrych ar yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg, gan eu diffinio yn nhermau daearyddiaeth llywodraethau lleol. Mae'n honni y gellid disgwyl bod y rhan fwyaf o bobl a oedd yn symud i Loegr o Gymru yn gwneud hynny am resymau yn ymwneud â gwaith.

Mae'r bröydd Cymraeg yng ngorllewin a gogledd orllewin Cymru yn rhai difreintiedig, gyda'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth oddeutu 75 y cant o'r cyfartaledd Ewropeaidd (Jones 2010: 123). Yn ogystal, mae prisiau tai o fewn yr ardal Gymraeg yn parhau'n isel, hyd

yn oed yn 2004 o'i gymharu â gweddill y DU, er bod ychydig o amrywiaethau. Mae'n bosib felly bod a wnelo ffactorau strwythurol economaidd fwy â phenderfyniad yr unigolyn i fudo allan o'i ardal, yn hytrach na ffactorau ieithyddol neu ddiwylliannol:

> It needs to be borne in the mind that economic factors such as these may be even more important for individuals' decisions concerning migration than their own personal characteristics.
>
> (Jones, 2010:123)

O ganlyniad, gwelwyd fod ystyriaethau ymhellach wrth drafod y gwaith maes a'r fethodoleg a ddewiswyd ar gyfer y traethawd hwn.

## Nod ac Amcanion yr Astudiaeth Bresennol

Nod yr ymchwil hwn yw casglu, asesu a dehongli'r rhesymau pam fod pobl ifanc o deuluoedd sydd wedi mudo i'r ardal yn dewis gadael y bröydd Cymraeg ar raddfa pedair gwaith yn fwy na phobl ifanc o deuluoedd sydd yn wreiddiol o'r ardal. Bwriad yr astudiaeth yw asesu gobeithion a dyheadau'r bobl ifanc yma ar gyfer y dyfodol ac i ddehongli'r gobeithion a'r dyheadau yma yn ôl eu cefndir teuluol ac ieithyddol a'u dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Y grŵp targed er mwyn gwireddu'r amcanion hyn yw pobl ifanc 15-18 oed sydd yn parhau mewn addysg llawn amser, yn y bröydd y maent yn byw ynddynt ar hyn o bryd a phobl ifanc 19-25 oed sydd bellach wedi gadael eu bröydd a naill ai, mewn addysg uwch tu allan i Gymru neu mewn gwaith llawn amser. Drwy edrych ar y ddwy ystod oedran, mae hi'n bosib darganfod yr hyn sydd yn gyffredin i'r bobl ifanc 15-18 oed, sydd ar fin gwneud eu penderfyniadau ar gyfer y dyfodol a'r ysgogiadau a'u barn a'u hagweddau nhw am y fro y maent yn byw ynddi. Drwy ystyried yr oed 19-25 oed, mae hi'n bosib darganfod y rhesymau pam y maent yn dewis gadael eu bröydd a'r hyn sy'n eu hysgogi i aros neu i adael.

Prif ddamcaniaeth yr astudiaeth yw mai ffactorau economaidd fydd yn effeithio'n bennaf ar ddyhead pobl ifanc, sydd yn perthyn i deuluoedd ymfudol, i fudo, er bydd ystyriaeth yn ogystal i batrymau integreiddio a chyfalaf cymdeithasol. Byddaf yn edrych ar effeithiau iaith ar benderfyniad y bobl ifanc yma i adael neu i aros o fewn eu bröydd, gan ymddengys nad yw iaith yn ymddangos yn ffactor blaenllaw yn eu penderfyniad o safbwynt gwaith Jones (2010). Diben hwn yn ogystal yw creu darlun cyflawn o statws a gwerth yr iaith Gymraeg o fewn y

Bröydd a ddewiswyd, ac ymhellach er mwyn hysbysu argymhellion polisi a chynlluniau ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Byddai'n gymorth i mi ystyried iaith fel ffactor gan ei fod, yn ddadleuol efallai, yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y teuluoedd hynny sydd yn dewis mudo i'r ardal. Byddaf yn gwneud hyn drwy edrych ar iaith y teulu yn ogystal ag iaith y sampl o bobl ifanc eu hunain. Gan gynnwys yr iaith y maent yn defnyddio o fewn eu sefyllfaoedd cymdeithasol personol.

**Epistemoleg**

Wrth ystyried cyflawni ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol, mae hi'n bwysig cychwyn drwy ystyried cwestiynau epistomolegol ynglŷn â natur gwybodaeth. Mae Somekh a Lewin yn ei ddiffinio fel y *"philosophical questions relating to the nature of knowledge And truth"* (2005:1). Yn ei hanfod, yr hyn sydd yn ganolog i ymchwil gwyddorau cymdeithas yw pobl yng nghyd-destun eu bywydau a gyda chwestiynau athronyddol sy'n perthnasu gyda natur gwybodaeth a gwirionedd (epistemoleg), gwerthoedd (axioleg) a bod (ontoleg) sydd yn tanategu dyfarniad a gweithredoedd dynol (Somekh a Lewin 2005:1). Mae ymchwil cymdeithasol empeiraidd, hynny yw, gwaith ymchwil sy'n cynnwys casglu data am bobl o fewn eu cyd-destun cymdeithasol, yn cyfeirio'n drwm at yr ymarferion a thraddodiadau sy'n rhan o gymdeithaseg, seicoleg, hanes a'r celfyddydau creadigol. Er hynny, fel awgrymwyd gan Somekh a Lewin:

> As a recognised and codified practice, however, social science research has its origins in the emergence of the nation state with its political demands for the classification and analysis of individuals and populations. (2005:2)

Mae Bryman (2001:11) yn nodi mai'r cwestiwn canolog i'w ystyried yw a ellir astudio'r byd cymdeithasol yn yr un modd â'r gwyddorau naturiol, lle y gellir mesur y byd yn y modd gwyddonol. Gelwir y dull yma o astudio'r byd yn ddull Positifistaidd, sy'n seiliedig ar ddeall cymdeithas er mwyn esbonio'r unigolyn. Mae'r dull ymchwil meintiol o bositifistiaeth, sy'n gysylltiedig gyda'r dull ystadegol, yn deillio o gymdeithaseg wyddonol Comte a Durkheim (Roberts 1982:09). Roedd Comte a Durkheim eisiau datblygu methodoleg a fyddai'n dilyn y

drefn gwyddorau naturiol wrth astudio'r gymdeithas ddynol, gyda'r bwriad o ddeall yr unigolyn drwy astudio'r gymdeithas.

Fel awgrymwyd gan Sarantakos:

He [Comte] believed social investigatiors should not seek explanations of social problem sin the theological principles or metaphysical theories, but rather in Society itself And in the structure of social relations.(1998:3)

O ganlyniad, tan yr 1960au yn ôl Sarantakos, roedd gwyddorau cymdeithas yn gyffredinol a chymdeithaseg yn benodol yn bositifistaidd gan mwyaf o safbwynt eu theori a'u methodoleg, gyda'r gwaith ymchwil cymdeithasegol cyffredin yn cynnwys dulliau holiadol ac arbrofion rhan fwyaf, ac yn cael eu cyfeirio tuag at feintioliad a'r defnydd o ystadegau a chyfrifiaduron (Sarantakos 1998:4)

Y dull epistemoleg gyferbyniol o ddehongli'r byd yw'r dull deongliadol, sydd yn gosod pwyslais ar geisio dehongli yn hytrach na mesur y byd cymdeithasol, am nad yw'r byd cymdeithasol yn gweithredu yn yr un modd a'r dull gwyddonol. Yn hytrach nag astudio cymdeithas i ddeall yr unigolyn, gosodir pwyslais ar ddeall yr unigolyn i esbonio cymdeithas. Mae cymdeithaseg ddeongliadol yn gysylltiedig gyda gwaith Vico (1668-1744) Dilthey (1833-1911) ac yn fwy na neb Weber (1864-1920) a'i bwyslais ar *verstehen*, hynny yw'r ddealltwriaeth empathetig o ymddygiad dynol (Sarantakos 1998:35). Sefydlwyd y persbectif er mwyn ymateb i bositifistaeth a gwahaniaethodd damcanydd Almaeneg Wilhelm Ditley rhwng dau fath o wyddoniaeth, Geisteswissneschaften (Gwyddorau dynol) a Naturwissenschaften (Gwyddorau naturiol) (Berg: 2007). Er mwyn deall natur y gymdeithas, rhaid i'r ymchwilydd feddu ar fewnwelediad i fywyd actorion y gymdeithas honno. Yn ôl damcaniaeth Weber, gallwn ddisgrifio Cymdeithaseg fel astudiaeth o weithredu cymdeithasol sy'n amlygu un o'i brif gysyniadau sef 'gweithred gymdeithasol.' Yn ôl Weber, dylwn ddeall gweithredoedd cymdeithasol drwy ddeall yr ystyron a chymhellion sydd wrth wraidd ymddygiad dynol. Teimlais fod y persbectif yn berthnasol iawn wrth geisio canfod cymhellion, dyheadau a gobeithion y bobl ifanc yma ar gyfer y dyfodol. Fel awgrymwyd gan Somekh a Lewin:

Human experience is characterized by complexity, And social science researchers need to resist the temptation to impose unwarranted order through the application of 'one size fits all theories. (Somekh a Lewin 2005:3)

**Strategaethau Ymchwil**

Penderfynwyd dewis triongliant o ddulliau ansoddol a meintiol ar gyfer yr astudiaeth hon. Yn gyffredinol, defnyddir y term cynllun ymchwil er mwyn disgrifio nifer a natur y dulliau a ddefnyddiwyd mewn prosiect ymchwil. Yn arferol, defnyddir un fethodoleg sylfaenol, wedi ei dynnu o un cyd-destun methodolegol sef yr ansoddol neu'r meintiol. Ond, yn gynyddol, mae ymchwilwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau methodolegol o fewn eu gwaith ymchwil. Yn aml iawn, mae ymchwilwyr yn cyfuno gwahanol ddulliau o gasglu data , er enghraifft holiaduron ac arbrofion, arbrofion ac arsylwi ac yn y blaen. Dyma a elwir yn driongliant o ddulliau, cysyniad sydd wedi ei drafod yn danbaid o fewn y gwyddorau cymdeithas (Sarantakos 1998: 168) ac sy'n aml yn cael ei ddefnyddio gan gymdeithasegwyr ac ymchwilwyr meintiol ac ansoddol. Mae manteision triongliant yn cynnwys y gallu i feddu ar wybodaeth amrywiol ar yr un pwnc; i ddefnyddio cryfderau pob dull i oresgyn gwendidau'r llall; i gyflawni lefel uchel o ddilysrwydd a dibynadwyedd ac i oresgyn y gwendidau sydd yng nghlwm ag astudiaethau un dull. Byddaf yn defnyddio cyfuniad o ddulliau er mwyn manteisio ar wybodaeth feintiol a chyffredinol gan fy sampl, drwy ei ddefnyddio fel sylfaen cychwynnol ac un y bydd modd ymhelaethu ac adeiladu arno. Yn ogystal, byddaf yn defnyddio dulliau ansoddol o fewn y ddwy ystod oed neu haen sampl er mwyn ymhelaethu ar eu safbwyntiau mewn modd dynamig a hyblyg a gweddodd natur y testun dan sylw i'r dim. Mae'r dull ansoddol yn galluogi i'r ymatebwyr fynegi eu safbwyntiau unigryw yn ogystal â darparu mewnwelediad eang i'r pwnc o dan olwg. Mae cryn ddadlau wedi bod ar y defnydd o ddulliau ansoddol a meintiol, ond paradocsaidd yw'r gwahaniaeth yn ôl Berg (2007:3):

Quality refers to the what, how, when, and where of a thing-it's essence and ambience. Qualitative Research thus refers to the meaning, concepts, definitions....and descriptions of things. In contrast, quantitative research refers to counts and measures of things.

Y dull yma bydd yn rhoi cig ar esgyrn y gwaith meintiol.

Byddaf yn ymhelaethu ar fy nulliau ymchwil ymhellach yn y bennod hon.

## Y Sampl

Gellir dadlau mai'r hyn sydd wedi peri'r problemau mwyaf i mi yw darganfod sampl sydd yn ffitio'r disgrifiad o'r hyn a ystyrir yn deuluoedd ymfudol. Er bod Jones (2010) yn mynegi mai pobl ifanc sydd heb eu geni yn y bröydd Cymraeg sydd â thebygrwydd pedair gwaith yn fwy o adael y bröydd, teimlais y byddai'n ddefnyddiol cynnwys y bobl ifanc hynny sydd wedi eu geni yn y bröydd ond sydd yn hanu o deuluoedd ymfudol, lle mae eu rhieni wedi mudo i'r bröydd a lle gwelwyd mai Saesneg yw prif iaith y cartref. O ganlyniad, disgwylir i'r sampl yma fod yn un bychan, wrth ddisgwyl mai bychan yw poblogaethau'r ardaloedd a ddewiswyd a'r bröydd yn gyffredinol. Y nifer a'r math o sampl yw un o'r cwestiynau methodolegol a ystyrir ar ddechrau pob ymchwil, gan fod ceisio am sampl sydd yn gynrychiolaidd o'r holl boblogaeth yn amhosib a gellir dadlau fod samplo yn ddewis gwell gan ei fod yn gyfeiriad at boblogaeth benodol mewn cyfnod byr o amser ac yn darparu canlyniadau cymharol a dilys (Sarantakos 1998:139-140). Er hynny, roedd darganfod sampl a fyddai'n ddigonol wedi profi'n dasg gymhleth.

Ar gyfer darganfod sampl o bobl ifanc 15-18 oed oedd yn parhau mewn addysg, roedd hi'n ymddangos mai'r ffordd fwyaf effeithiol o hel sampl oedd drwy ysgolion uwchradd yr ardaloedd dewisol, sef Blaenau Ffestiniog, a Thregaron. Mae'r rhesymau a ddewiswyd y ddwy ardal yma wedi ei nodi mewn manylder ym mhennod tri. I ddechrau, roedd gan yr ysgol wybodaeth lawn ar bob un o'r disgyblion blwyddyn 10 ac 11 a fyddai'n gymwys i gymryd rhan yn y sampl, hynny yw, roeddynt yn ymwybodol o'u cefndiroedd teuluol ac ieithyddol. Nid mater o ddewis y sampl oedd, ond yn hytrach cael hyd i ddigon o bobl ifanc oedd yn ffitio'r disgrifiad. Roedd yr ysgolion yn y ddwy ardal yn awyddus i gymryd rhan, gan eu bod yn teimlo bod mewnfudo yn ymddangos fel achos cyffredin a chynhwysfawr o fewn eu cymuned yn ogystal â allfudiaeth y boblogaeth ifanc. Yn ail, roedd yr ysgolion yn barod iawn i roi mynediad i mi mewn awyrgylch a fyddai'n gyfforddus i'r unigolion oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil. O ganlyniad, cafwyd 29 o ymatebwyr ym Mlaenau Ffestiniog, a 31 o Dregaron, i gymryd rhan o fewn y grŵp oedran yma. Roedd y sampl yn cynnwys nifer cyfartal o fenywod a gwrywod.

O safbwynt darganfod y sampl hŷn sef 19-25, cafwyd mwy o anhawster. I ddechrau, roedd hi'n ofynnol fy mod yn cael hyd i sampl o bobl ifanc o deuluoedd ymfudol oedd wedi byw ym Mlaenau Ffestiniog a Tregaron a lle welwyd mai prif iaith y cartref oedd Saesneg, ac yn ail, roedd hi'n ofynnol fod y bobl ifanc yma bellach wedi gadel y bröydd yma. Unwaith eto, roedd ysgolion y ddwy ardal yn gallu rhoi arweiniad a chymorth i mi yn yr achos yma. Bu cynllun LLWYBRO - ROUTES a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yng Nghymru, yn ceisio monitro symudiad pobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Gyda chynrychiolwyr oedd â chysylltiadau gydag ysgolion uwchradd y ddwy ardal, roedd modd cadw cofnod o 'lwybrau'r' pobl ifanc yma yn nhermau eu patrymau symudoledd daearyddol. Yn ffodus iawn, roedd yr ysgol yn Nhregaron yn barod i rannu manylion cyswllt cyn -ddisgyblion oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen LLWYBRO - ROUTES, sef menter datblygiad cymunedol ac economaidd sydd yn ymchwilio tueddiadau symudoledd pobl ifanc wedi eu haddysgu yng nghanolbarth Cymru dros y 30 mlynedd diwethaf. Bu'n gynllun a gafodd ei ryddhau gan Gynulliad y Llywodraeth yng Nghymru er mwyn ceisio dangos i bobl ifanc fod modd cyflawni eu huchelgeisiau heb adael neu drwy ddychwelyd i'w cymunedau magwrol. Roedd y rhaglen yn casglu data gan bobl ifanc wedi eu haddysgu yng Nghymru ac yna'n cadw mewn cysylltiad drwy gylchlythyr a safle gwe'r cynllun. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Cynulliad yn cynnwys cyfweliadau a grŵpiau trafodaeth a holiadur ar lein o tua 500 o bobol oedd wedi eu cofrestru gyda'r cynllun. Bu'n fodd o edrych ar eu hagweddau yn nhermau eu gallu i fyw a gweithio yn y lle y cawsant eu magu ac effaith Llwybro - Routes ar eu bywydau. Er hynny, nid yw'r cynllun yn parhau i gasglu data nac ychwaith yn parhau i weithredu yn yr un modd ac yr oedd ar gychwyn y prosiect. O ganlyniad, roedd cysylltu gyda'r sefydlydd a cheisio cael mynediad i'r data yn profi'n ddi-werth. O ganlyniad, roedd yr ysgol yn Nhregaron yn fodlon cysylltu gyda'r unigolion a gyfranogodd yn y cynllun a gofyn am eu caniatâd i yrru gwybodaeth ymlaen i mi. O safbwynt Blaenau Ffestiniog, rydw i'n wreiddiol o'r ardal hwnnw, ac felly'n ymwybodol o nifer o bobl ifanc oedd yn addas ar gyfer y sampl uchod. O ganlyniad, roedd modd i mi gysylltu'n uniongyrchol gyda'r ymatebwyr a gyrru holiadur ar lein atynt. Roeddynt hwythau wedi cydnabod y tueddiadau ymfudo cyffredin pobl ifanc o ardaloedd gwledig, ac roeddynt hwythau â diddordeb yn eu cymhellion. Yn y modd yma felly, darganfuwyd 27 unigolyn, yn wreiddiol o'r ddwy ardal, sef 15 ym Mlaenau Ffestiniog a 12 yn Nhregaron, a oedd yn fodlon cymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd y sampl yn cynnwys niferoedd cyfartal o

wrywod a benywod. Gellir dadlau mai ar egwyddorion pelen eira oedd sylfaen y sampl, gan fod y cysylltiadau a wnaed yn rhan o'r cysylltiad cychwynnol a wnaed gyda'r ysgolion.

**Cynllun Peilot**

O ganlyniad i natur yr astudiaeth a'r grŵp sampl bychan oedd ei angen, teimlais y byddai'n ddefnyddiol creu cynllun peilot ar ddechrau'r astudiaeth er mwyn ymchwilio'r posibilrwydd o gael grŵp cymhariaeth neu grŵp rheoli a fyddai o ddefnydd cymharol i weddill y sampl 15-18 oed. Pwrpas y cynllun peilot oedd ceisio darganfod y gwerth o gael grŵp cymharol o bobl ifanc oedd wedi hanu o deuluoedd oedd yn enedigol i'r fro ac i asesu os oedd eu cymhellion a'u dyheadau nhw yn wahanol i'r rhai nad oedd yn enedigol. Roedd yr ysgol uwchradd ym Mlaenau Ffestiniog yn fodlon i mi yrru holiaduron ar lein i'r disgyblion blwyddyn 11 yno, yn ystod Mawrth 2009 ac o hynny, cefais y cyfle i ddewis y rhai oedd yn enedigol i'r fro. Cefais 30 o holiaduron yn ôl wedi eu llenwi ac yn cynrychioli'r sampl cywir, sef pobl ifanc oedd yn hanu o gartrefi lle mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref a lle'r oedd y rhieni a'r ymatebwr yn enedigol i'r fro. Fel awgrymwyd gan Sarantakos:

.....There may be unanswered questions and some doubts about the effectiveness of the instruments or even the whole project and the reaction of the respondents to the study or parts of it, and unknown problems might exist and might have to be solved before the main study can begin (Sarantakos 1998: 291).

Y bwriad oedd y byddwn yn ceisio sicrhau fod y dulliau a'r samplau a ddefnyddiwyd yn addas, dilys yn ddibynadwy ac yn effeithlon ac yn rhydd o unrhyw broblemau neu gamgymeriadau. Gellir dadlau fod y gyfradd ymateb i'r cynllun peilot wedi bod yn uchel o ystyried y sampl ac roedd yr ymatebion o ddiddordeb mawr. Er hynny, bu'r teimlad nad oedd cymhariaeth rhwng dau holiadur yn ddigonol ar gyfer creu cymhariaeth deg o'r ddwy sampl ac nad oedd yn darparu gwir adlewyrchiad a'r ardaloedd yr oeddynt yn rhan ohonynt. O ganlyniad, teimlais y byddai cymhariaeth o safbwynt dulliau ansoddol y grŵp oed 15-18 yn fwy defnyddiol ac yn dangos cymhariaeth fwy cynhwysfawr o obeithion a dyheadau'r bobl ifanc yma ar gyfer y dyfodol, a'r rhesymau dros adael eu bröydd. Bu'n profiad gwerthfawr er hynny a ddarparodd arweiniad a phatrwm i weddill yr ymchwil.

**Dulliau Meintiol 15-18**

Gweinyddwyd ymchwil meintiol fel dull cychwynnol i fy astudiaeth ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Yn wahanol i ymchwil ansoddol, y mae ymchwil meintiol yn canolbwyntio ar safbwynt yr ymchwilydd a phrofi neu wrthbrofi perthnasau newidyddion, felly mae gofyn am gadw pellter oddi wrth yr ymatebydd. Mae data rhifiadol yn gallu cynnig cyfraniad gwerthfawr i ddata ansoddol a meintiol. Mae ystadegau disgrifiadol yn cael eu defnyddio er mwyn crynhoi data ac yn cynnwys mesuriadau o dueddiadau canolog, neu fel awgrymwyd gan Somekh a Lewin, mae gan ystadegau disgrifiadol, rôl bwysig i'w chwarae sy'n galluogi i'r ymchwilydd ymchwilio'r data cyn ymgymryd â dadansoddiad (2005:215) O safbwynt yr ymchwil hwn, mae ymchwil meintiol yn darparu sylfaen cychwynnol i mi allu adeiladu o'i amgylch, hynny yw, er mwyn creu gorolwg disgrifiadol o brif safbwyntiau a chanfyddiadau'r bobl ifanc tuag at eu bröydd a'u cymhellion ar gyfer y dyfodol cyn ymdreiddio'n ddyfnach i themâu amrywiol a chymhleth yr ymchwil ansoddol. Yn ogystal, mae dull meintiol yn rhoi sampl o ymatebwyr i mi ar gyfer cynnal cyfweliadau neu grŵpiau ffocws ar gyfer y ddau grŵp oed ac yn ddefnyddiol ar gyfer cyflawni'r dull triongliadol sydd yn darparu dibynadwyedd a dilysrwydd i'r ymchwil.

**Holiaduron Meintiol 15-18**

Penderfynwyd ar y dull holiaduron ar gyfer y data meintiol i'r oed 15-18, er mwyn casglu data strwythuredig a di strwythur gan yr ymatebwyr mewn modd dibynadwy a dilys. Pwrpas yr holiadur oedd darparu trosolwg effeithiol o brif ddyheadau a gobeithion pobl ifanc y bröydd ar gyfer y dyfodol. Mae strwythur yr holiaduron yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig, gyda chwestiynau caeedig ar gychwyn yr holiadur, sef cwestiynau aml ddewis ac ar ffurf tabl, a rhai agored tuag at ddiwedd yr holiaduron. Pwrpas y cwestiynau agored oedd casglu data mwy cynhwysfawr ac mewn gweledol ar y pwnc o allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Prif ddull meintiol felly oedd holiadur dwyieithog a oedd yn cynnwys 41 cwestiwn.

Cafodd yr holiaduron eu dosbarthu ar ffurf ar lein i'r ysgolion uwchradd ym Mlaenau Ffestiniog a Thregaron. Er mwyn cychwyn perthynas gyda'r ysgolion, cafodd e-bost ei gynllunio oedd yn gofyn am gefnogaeth a chyfranogiad yr ysgolion yn yr ymchwil ac i ofyn am eu caniatâd i wneud cysylltiad ymhellach. Roedd ymateb yr ysgolion yn ffafriol ac roedd diddordeb sylweddol yn y pwnc gan fod y cymunedau wedi gweld newidiadau mawr yn sgil cyfraddau mewnfudo. Bu'n galonogol a phositif iawn. Mewn ymateb i'r brwdfrydedd cysylltais gyda'r ysgolion er mwyn sefydlu perthynas a chysylltiad personol gyda'r sefydliadau, gan fy mod i'n ymwybodol nad yw holiaduron ar lein yn ddull personol iawn o weithredu. Er hynny, roedd gan y ffurf ar lein manteision amlwg i mi fel ymchwilydd ac i'r ysgol. I ddechrau, roedd y dull ar lein yn sicrhau nad oeddwn i'n tarfu ar unrhyw wersi i'r disgyblion gan fod yr ysgol yn dewis yr amser oedd yn gyfleus. Yn ail, nid oeddwn i fel ymatebydd yn rhan o'r broses ac felly bu'n ddull sydd yn lleihau fy nhuedd i. Yn olaf, bu teimlad fod llenwi holiadur ar lein o ddiddordeb i'r ymatebwyr eu hunain, roedd yn ddull a oedd yn eu sbarduno yn hytrach na llenwi holiadur â llaw.

Fel y soniwyd eisoes, mae gofynion y sampl yn gyfyngedig ac felly roedd yr ymateb i'r holiaduron yn adlewyrchiad o hyn. Yn ogystal, roedd hi'n ofynnol i'r ysgolion eu hunain ddewis y disgyblion oedd yn addas i gymryd rhan ac o ganlyniad i hyn cafwyd 29 o ymatebion ym Mlaenau Ffestiniog a 31 yn Nhregaron. Roeddynt yn cynnwys niferoedd cyfartal o wrywod a benywod. Ar ddechrau'r holiadur, roedd gan yr ymatebwyr gyfle i nodi manylion cyswllt er mwyn cymryd rhan bellach yn yr ymchwil. Yn anffodus nid oedd yr ymateb yn y ddwy ardal o fantais fawr, gyda 5 o Blaenau Ffestiniog yn nodi eu manylion cyswllt a 3 o Dregaron. Felly cytunodd yr ysgol i gynnal grŵpiau ffocws i mi yn ystod un o wersi arferol yr ysgol gydag un grŵp oedd wedi cymryd rhan yn yr holiaduron a sampl fechan oedd yn hanu o deuluoedd oedd yn wreiddiol o'r Fro a lle welwyd fod prif iaith y cartref yn Gymraeg. Mae trafodaeth ar y dull ansoddol yma isod.

**Manteision ac Anfanteision y Dull**

Fel sydd yn amlwg wrth wireddu unrhyw ddull ymchwil, mae manteision ac anfanteision amlwg. I ddechrau, gellir nodi nad oedd ymateb uchel ar gyfer creu cymhariaeth feintiol yn unig ac yn ail nid yw'r sampl wedi ei ddewis ar hap yn y ddwy achos o ganlyniad i

rwystredigaethau'r sampl. Er hynny, mae'r manteision amlwg yn cynnwys gwrthrychedd. Mae'r ymchwilydd yn cadw pellter oddi wrth yr ymatebydd ac felly nid yw'n ei arwain mewn unrhyw ffordd sy'n ei gwneud hi'n haws gweinyddu ymchwil meintiol a chadw at hypothesis a newidyddion y mae'r ymchwilydd am arbrofi. Yn ogystal, arbrawf statig megis llenwi holiaduron yw ymchwil meintiol, sy'n golygu fod dibynadwyedd a dilysrwydd yn perthyn iddo gan fod yr amgylchiadau'n aros yn debyg bob tro. Gellir dadlau er hynny mai'r brif fantais yw'r gallu i gyffredinoli a'r gallu i gymharu â data dros gyfnod o amser fel y nodi'r gan Bryman (2001:66) ymchwil meintiol yw:

......a consistent instrument for gauging differences. This consistency relates to two things:our ability to be consistent over time and our ability to be consistent with other researchers.

Er hynny, dadleuwyd nad yw dulliau meintiol yn cipio ar wir ystyr ymddygiad cymdeithasol. Mae meintioli'n aml yn crynhoi data sy'n gyffredin i gredoau'r ymchwilydd yn hytrach na'r ymatebydd. Fel awgrymwyd gan Sarantakos (1998:43):

The whole Research project is geared towards quantifying and measuring: measurement is taken for granted, and introduces a peculiar and biased perception of the world.

Nid yw'r ymchwilydd meintiol yn gwahaniaethu rhwng y byd cymdeithasol a'r byd gwyddonol, naturiol. Dylid trin unigolion yn wahanol i gemegau neu anifeiliaid fel awgryma gan Bryman. Ymhellach mae'r broses ymchwil yn un ffug ac arwynebol wrth ffocysu ar fanylder a chywirdeb yn hytrach na safbwyntiau unigolion, sydd y gellir dadlau, yn anodd ei mesur. O ganlyniad, byddai'n gymorth i mi dynnu ar ddulliau ansoddol er mwyn ceisio da wneud rhai o'r anfanteision yma.

**Grŵpiau Ffocws Ansoddol 15-18**

O ganlyniad i ymateb isel yn y cwestiwn, ymchwil ymhellach, yn yr holiaduron i'r grŵp oed yma, penderfynwyd cynnal grŵpiau ffocws o fewn yr ysgolion er mwyn casglu data ansoddol

ar ddyheadau a gobeithion y bobl ifanc ar gyfer y dyfodol. Penderfynwyd cynnal dau grŵp ffocws cymharol, hynny yw, grŵp o 31 oedd yn cynnwys unigolion wedi eu geni i deuluoedd oedd yn hanu o deuluoedd ymfudol a lle welwyd fod prif iaith y cartref yn Saesneg, a grŵp cymharol o 30 o unigolion oedd yn hanu o deuluoedd oedd yn wreiddiol o'r Fro a lle welwyd fod prif iaith y cartref yn Gymraeg. Cafwyd yr un nifer yn y ddwy ysgol. Roedd y sampl ar gyfer y grŵp cyntaf yn amlwg o'r holiaduron, ond cafodd yr ail grŵp eu dewis ar hap o'r un dosbarthiadau ar weddill. Roedd yr ymchwil ansoddol gymharol yma'n galluogi i mi wneud cymhariaeth rhwng y ddau grŵp, ac i asesu os oes gwahaniaethau rhwng eu dyheadau a'u gobeithion. Cafodd y grŵpiau eu cynnal ar yr un diwrnod ond o fewn gwahanol gyfnodau yn y ddwy ysgol. Roeddynt yn cynnwys niferoedd cyfartal o wrywod a benywod.

Gellir dadlau fod y dull o grŵpiau ffocws yn ddull gymharol newydd o safbwynt methodoleg ymchwil. Fel dull o ddata ansoddol, cyfweliadau mewn grŵp yw grŵpiau ffocws, lle gwelwyd pwyslais ar y berthynas ryngweithiol o fewn y grŵp ac sydd yn canolbwyntio ar bwnc a gyflenwyd gan yr ymchwilydd, sydd yn aml yn cymryd y rôl o gymedrolwr. Fel awgrymwyd gan Morgan (1997:2):

The hallmark of focus groups is their explicit use of Group interaction to produce data and insights that would be less accessible without the interaction found in a Group.

Dadleuwyd fod 3 prif ddefnydd i grŵpiau ffocws o fewn ymchwil y gwyddorau cymdeithas. I ddechrau, maent yn cael eu defnyddio fel dulliau annibynnol sef yn cael eu hystyried fel y brif ffynhonnell data. Yn ail, maent yn cael eu defnyddio fel dulliau atodol mewn prosiectau sy'n ddibynnol ar ddulliau cynradd eraill megis holiadur. Yn drydydd, maent yn cael eu defnyddio mewn prosiectau aml ddull, lle mae cyfuniad o ddulliau yn hytrach nac un dull cynradd (Morgan 1997:3) Mae'r ymchwil hwn yn defnyddio'r grŵp ffocws fel dull aml ddull, sydd yn atodi dull cynradd arall ac yn cyfuno gyda dulliau meintiol ar gyfer creu ymchwil cyflawn (Morgan 1997:3). Mae grŵpiau ffocws yn wahanol i gyfweliadau a gynhaliwyd fel grŵp, gan awgrymwyd gan Frey a Fontana (1989) a Khan a Manderson, (1992) eu bod yn fwy ffurfiol. Yn benodol, maent yn dadlau eu bod yn gwahodd cyfranogwyr i'r drafodaeth ac yn pwysleisio rôl eglur y cymedrolwr. O safbwynt yr ymchwil hon, defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn creu grŵp ffocws creadigol yn ogystal â diddorol, hynny yw dewiswyd nifer o bynciau trafodaeth a bu ffyrdd gwahanol o'u hateb. Roedd rhai yn gofyn am drafodaeth ffurfiol a rhai yn gofyn am gyfraniad anffurfiol megis tynnu llun o'r

pwyntiau positif a negyddol sydd yn rhan o'u bröydd. Gan fy mod yn gweithio gyda phobl ifanc, roedd hi'n bwysig nad oedd y grŵp ffocws yn fwy nag awr o hyd ac yn cynnwys cyfuniad o ddulliau er mwyn ei wneud yn hwylus i'r ymatebwyr. Roedd y strwythur yn dilyn yr un patrwm o safbwynt y ddau grŵp. Fel awgrymwyd gan Morgan (1997: 6-7):

> I prefer to treat focus groups as a "broad umbrella" or "big tent" that can include many different variations. Of course, this approach requires researchers to make choices about doing focus groups one way rather than another.

O safbwynt y prosiect ymchwil hwn felly, gwelwyd fod manteision y grŵp ffocws, fel techneg cyfweld, yn galluogi i'r ymchwilydd i arsylwi'r rhyngweithio sydd ymysg y grŵp mewn golwg. Bydd y trafodaethau mewn grŵp yn fy ngalluogi i ddarganfod tystiolaeth am y gwahaniaethau a'r tebygrwydd sy'n bodoli rhwng barn a phrofiadau'r grŵpiau o bobl ifanc yn hytrach na chymharu cyfweliadau. Er hynny, byddai'n bwysig i mi gwestiynu fy rôl i fel cymedrolwr a strwythur yr hyn sydd yn cael ei drafod mewn manylder er mwyn dileu unrhyw duedd.

### Cyfweliadau Ansoddol 19-25

Dewiswyd cyfweliadau dwys fel dull ansoddol i'r grŵp 19-25 oed. Gweinyddwyd 20 o gyfweliadau dwys, di strwythur gyda phobl ifanc 19-25 oed, oedd bellach wedi gadael eu bröydd. Bu hyn yn cynnwys 10 o Flaenau Ffestiniog, a 10 o Dregaron. Roedd cynnal y cyfweliadau yn dasg gymhleth gan fod y bobl ifanc hynny o fewn y sampl, bellach yn byw yn ddaearyddol wasgaredig. Er hynny, roedd nifer ohonynt yn dychwelyd adref o bryd i'w gilydd, ac o ganlyniad roedd modd trefnu dyddiad i'w cyfweld yn unol â hyn. Cafodd y cyfweliadau eu gwireddu yn ystod Ionawr tan Fawrth 2011. Penderfynwyd cynnwys cynrychiolwyr o weithwyr ieuenctid o'r ddwy ardal yn ogystal mewn 4 cyfweliad pellach gan fod nifer isel, er boddhaol, i'r sampl, ystyriwyd y byddai barn ychwanegol, wrthrychol, gan arbenigwyr yn y maes yn cyfoethogi'r ymchwil a'r darganfyddiadau. Er hynny, gwybodaeth ymylol oedd hon a safbwynt y bobl ifanc oedd brif ffocws yr astudiaeth. Dosbarthwyd ffurflen caniatâd, dwyieithog, i bob ymatebydd cyn medru cynnal y cyfweliadau, ac yr oedd

gofyn iddynt gytuno â nod, amcanion a phwrpas academaidd yr ymchwil cyn arwyddo. Pwysleisiwyd yn ogystal fod gan bob ymatebydd yr hawl i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Roedd hyd y cyfweliadau'n amrywio o dri chwarter awr i awr a chwarter yn ddibynnol ar lif a rhyddid yr ymatebydd.

Penderfynwyd ar gyfweliadau di strwythur ar gyfer y sampl lle mae gen i fel ymchwilydd y rhyddid i ganolbwyntio ar bynciau penodol i'r ymchwil. Mae strwythur y cyfweliadau'n hyblyg ac nid oes llawer o gyfyngiadau er mae'r rhai sy'n bodoli yn aml yn cael eu gweld fel arweinyddion yn hytrach na rheolau. O ganlyniad, mae'r cyfweliad yn debyg i sgwrs anffurfiol lle mae'r berthynas rhwng yr ymchwilydd a'r ymatebydd yn rhwydd a lle gwelwyd fod y naratif yn naturiol. Mae'r strwythur yn creu awyrgylch hamddenol a naturiol. Roedd hi'n bwysig ceisio osgoi arwain yr ymatebydd neu dangos tuedd ar bob cyfrif ac felly dileu'r effaith Hawthorne (Roethlisberger a Dickson 1939) lle gwelwyd fod yr ymatebydd yn rhoi atebion y byddai'r ymchwilydd yn disgwyl. Roedd y data a gasglwyd yn gyfoethog a defnyddiol a gwelwyd ei fod yn ddull addas ar gyfer casglu data ansoddol ar y pwnc o allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Gymraeg. Cafodd pob cyfweliad eu cofnodi'n *verbratim* sydd yn sicrhau dilysrwydd a llif naturiol y cyfweliad.

**Manteision ac Anfanteision y Dull Ansoddol**

Gellir dadlau fod manteision dulliau ansoddol yn amlwg o safbwynt eu natur agored a'u naws hyblyg. Mae'n ddibynnol ar y cyfathrebiad rhwng ymchwilydd ac ymatebydd a gellir dadlau fod ymchwilydd ac ymatebydd yn gweithio gadai'i gilydd er mwyn cyrraedd nod rhanedig. Fel awgrymwyd gan Sarantakos (1998:51):

......respondents are 'subjects' who define, explain, interpret and construct reality, and as such they are as important as, if not more important than, the researcher.

Addas iawn yw'r ymchwil ansoddol felly i'r ymchwil hwn er mwyn adlewyrchu natur egnïol y bobl ifanc hynny a gyfranogodd yn yr ymchwil. Cafodd yr ymatebwyr y cyfle a'r rhyddid i fynegi eu hunain a'u barn a theimlaf ei fod yn galluogi i'r ymatebwyr drosglwyddo eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol mewn modd naturiol. Bu hefyd yn fodd i mi ddeall eu cymhellion o safbwynt personol a naturiol. Fel awgrymwyd gan Weber, er mwyn

deall gweithred ddynol, roedd rhaid deall yr ystyron a'r cymhellion tu ôl i ymddygiad dynol. Gwaith y cymdeithasegydd, yn ôl Weber, oedd rhoi ei hun yn safle'r sawl a astudiai, a cheisio deall a theimlo'r hyn yr oedd yn ei ysgogi i wneud yr hyn yr oedd yn ei wneud. Gelwir hyn yn *verstehen* (Bryman 2004:13). Mewn ymchwil ansoddol, byd olwg yr unigolyn yw'r canolbwynt, a'i dehongliad hi/ef o gymdeithas yw'r nod. Nodwedd arall bwysig o ymchwil ansoddol yw ei allu i greu damcaniaeth i geisio esbonio gweithred cymdeithas (Walliman 2006:37). Tra bod ymchwil meintiol yn aml yn ceisio profi damcaniaeth, gwelwyd fod y dull ansoddol yn aml yn cael ei weithredu i greu damcaniaeth (Bryman 2001:20) sy'n nodwedd werthfawr mewn maes ymchwil newydd, fel allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Gymraeg.

Er hynny, mae anfanteision amlwg i'r dull ansoddol yn enwedig wrth ystyried y prosiect ymchwil hwn. I ddechrau mae problemau o safbwynt dilysrwydd wedi eu hachosi gan wrthrychedd yn enwedig wrth ystyried fy rôl i fel ymchwilydd yn y broses ansoddol. Mae perygl yn ogystal o gasglu data di werth a di ystyr yn enwedig wrth ystyried grŵpiau ffocws a chyfweliadau di strwythur ac o'r herwydd yn cymryd llawer iawn o amser i gasglu ac i ddadansoddi (Sarantakos 1998: 53). Wrth ystyried cyffredinoli a chynrychiolaeth, gellir dadlau anfanteision wrth ddefnyddio dulliau ansoddol. Yn ogystal, gan mai sampl bychan o ymatebwyr sydd ar gael i mi o fewn y ddwy ystod oed, bydd hi'n gymhleth iawn i mi gyffredinoli o'r darganfyddiadau. Yn olaf, gwelwyd fod problem ac anfanteision wrth drafod moeseg yr ymchwil, yn enwedig wrth ystyried fy sampl i gyda'r cynllun Llwybro - Routes ac o safbwynt cael mynediad i gylch personol yr ymatebwyr.

**Moeseg Ymchwil**

Rhan hanfodol o waith cymdeithasegol yw moeseg ymchwil. Ers cyfnod ymgais hawliau sifil yr 1950au a 1960au, mae ymchwilwyr wedi ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch egwyddorion moesegol sy'n ganolog i'r broses ymchwil (Barber 1973). Mae moeseg ymchwil yn gyffredinol yn ymwneud â'r cod a'r egwyddorion sydd yng nghlwm wrth ymddygiad unigolion o fewn y gymdeithas. Fel awgrymwyd gan House (1993:68):

Ethical principles are abstract and it is not always obvious how they should be applied in given situations....the balancing of such principles in concrete situations is the ultimate ethical act.

Dadleuai Berg (2007:83) bod ymchwilwyr yn profi'r hyn mae'n galw'n "ethical blind," wrth weinyddu'r ymchwil cymdeithasegol. Golyga hyn bod ymchwilwyr am ddarganfod am ffenomena cymdeithasol newydd, ond ar yr un pryd mae'n ofynnol iddynt ystyried goblygiadau moesegol eu hymchwil i'r sawl sy'n cyfrannu iddo.

Wrth ystyried y prosiect ymchwil hwn, gellir dadlau fod nifer o ystyriaethau'n codi, yn enwedig wrth ystyried fy mod yn ymdrin â phobl ifanc. Un o'r trefniadau cyntaf felly oedd ceisio am wiriad CRB oedd yn sicrhau fy mudd i yn ogystal â diogelu'r ymatebwyr. Roedd hyn hefyd yn galluogi i mi ymweld â'r ysgolion pam fu'r galw yn codi. Yn ail, cynlluniwyd llythyr i bwyllgor moeseg y brifysgol oedd yn gofyn am ganiatâd i wireddu'r ymchwil arfaethedig a gydag ychydig o ystyriaethau, cafwyd y caniatâd i fwrw ymlaen gyda'r prosiect ymchwil. Mae'n bwysig ystyried fframwaith Y Ddeddf Gwarchod Data (1998) sydd yn gosod goblygiadau sylfaenol ar gyfer unrhyw ymchwil, megis dylid prosesu'r wybodaeth mewn modd teg a chyfreithiol, dylid prosesu'r wybodaeth am gyfnod cyfyngedig yn unig, dylid sicrhau bod y wybodaeth yn ddigonol, perthnasol a heb fod yn ormodol, ei fod yn fanwl gywir ac nad yw'n cael ei gadw'n hirach nac sydd angen. O safbwynt yr ymchwil hon, pwysleisiwyd cyfrinachedd y data ac ni ddatgelwyd gwybodaeth bersonol ynglŷn ar ymatebydd na'r sefydliadau y maent yn rhan ohonynt. Ni throsglwyddwyd unrhyw wybodaeth i bersonau na chwmnïau eraill ychwaith. Pwysleisiwyd fod yr holl ddata'n cael ei gadw mewn man priodol a diogel o dan glo, boed hynny'n electronig neu'n ysgrifenedig ac esboniwyd y byddai'n cael ei ddinistrio ar ôl cyfnod penodol yr ymchwil. Gwelwyd felly'r pwysigrwydd o drafod yr holl ystyriaethau a rheolau moesegol i'r ymatebwyr cyn cychwyn yr ymchwil. Yn ail, rhoddwyd y cyfle a'r dewis i'r ymatebwyr barhau gyda'r ymchwil ym mhob cam ac i barchu'r penderfyniadau yma. Rhoddwyd llythyr i bob un o'r cyfranogwyr a'r ysgolion yn esbonio pwrpas a natur yr ymchwil a chafodd y cyfranogwyr y dewis i gael eu recordio ar beiriant sain neu beidio. Dewisodd rhai i beidio yn hyn o beth yn unol â chanllawiau BSA a BERA.

**Rôl yr Ymchwilydd yn y Broses Ymchwil**

Gellir dadlau fod fy rôl i fel ymchwilydd yn rhan annatod o'r broses ymchwil, ac yn wir, gellir ystyried y berthynas rhwng yr ymchwilydd a'r ymatebydd yn un deublyg (Kahn a Cannell 1957:62) a bod y ddwy yn dylanwadu ar ei gilydd. Yn ogystal, dylid ystyried fy nhuedd i fel ymchwilydd a'r effaith mae hyn yn ei gael ar wrthrychedd yr ymchwil. O safbwynt fy rôl i, yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd fy mod i yn un o'r bobl ifanc hynny sydd yn hanu o gartref lle nad yw'r rhieni'n enedigol o'r fro a lle gwelwyd fod prif iaith y cartref yn Saesneg. Yn ogystal rydw i'n perthyn i un o'r ardaloedd ymchwil er nid i'r llall ac roedd hyn yn fanteisiol ac yn anfanteisiol ar y ddwy ochr. Roedd modd i mi ddeall safbwyntiau a phersbectifau'r ymatebwyr ar y byd sy'n elfen hollbwysig o'r broses ymchwil ansoddol yn ôl Berg (2007:131). Roedd fy mhresenoldeb i ym Mlaenau Ffestiniog yn amlwg, hynny yw, roedd yr ysgol a ddefnyddiwyd yn gyn ysgol ac roedd y rhai yr oeddwn i'n ei gyfweld yn fy adnabod yn dda. Roeddwn i hefyd yn gyfarwydd gyda'r ardal a'i phroblemau cymdeithasol. Roedd hyn yn fanteisiol gan nad oedd angen ennill mynediad a cheisio am ymddiriedolaeth yr ymatebwyr. Er hynny, bu'n anfantais gan fod rhaid i mi sefydlu fy rôl fel ymchwilydd yn ogystal â chyfoed a theimlais y byddai rhai'n anfodlon datgelu rhai pethau gan eu bod yn fy adnabod ac roedd diffyg anhysbysrwydd yma. Roedd yr hyn a oedd yn wir ym Mlaenau Ffestiniog, hefyd yn wir ond i'r gwrthwyneb, yn Nhregaron. Roedd ennill mynediad i'r ardal wedi ei wneud yn haws o ganlyniad i'r ysgol a gan fy mod innau hefyd yn perthyn i ardal ddifreintiedig â phroblemau cymdeithasol dwys. Er hynny, dengys fod naws a diwylliant y ddwy ardal yn wahanol iawn gyda gwahaniadau amlwg rhwng yr hyn a welwyd fel diwylliant 'Cymraeg' a'r hyn a welwyd gan y diwylliant 'Saesneg. ' Daeth hyn i'r amlwg fwyfwy yn ystod fy ngwaith maes a theimlais gan rai o'r ymatebwyr yn Nhregaron, eu bod yn fy nghysylltu gyda'r diwylliant 'Cymraeg.' Roedd yn wers newydd i mi. Er hynny, rydw i wedi bod yn ffodus iawn o weithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid ers 5 mlynedd bellach, ac roedd y profiad yma'n fy ngalluogi i ddarbwyllo'r ymatebwyr ifanc a darganfod rhyw fath o werthoedd rhanedig cyffredin. Mae'n rhaid cyfaddef fod y ffactor yma yn hwyluso'r ymchwil ac yn ei gwneud hi'n haws i mi ennyn gwybodaeth. Yr oedd y cysylltiadau cychwynnol a wnaed gyda'r ysgolion uwchradd yn ogystal â chynllun peilot cychwynnol yn bwysig a dengys fod fy mhrofiad gwaith gyda phobl ifanc yn ogystal â mewn prosiectau ymchwil eraill yn y gorffennol wedi bod o ddefnydd gwerthfawr iawn.

O safbwynt fy nhuedd i fel ymchwilydd yr hyn a oedd yn amlwg oedd fy mod ag affinedd gyda rhai o'r ymatebwyr ac nid oedd hyn o unrhyw ddefnydd wrth ystyried tuedd. Yr hyn a olygir wrth drafod tuedd yw'r hyn a eilw Weber (1949:5), "a one sided accentuation" o agweddau penodol realiti cymdeithasol. Yn ôl ef, defnyddir y term er mwyn canfod cydberthynas neu batrymau amlwg rhwng agweddau arbennig y realiti cymdeithasol hynny. At hynny, diffinia Hammersley a Gomm (1997:23) tuedd yn ôl y canlynol, "systematic deviation from validity" ac yn ogystal, " a deformation of research practice". Ymddengys felly mai rhinwedd negyddol i'w hosgoi ym mhob achos yw tuedd ym maes ymchwil gwyddorau cymdeithas. Wedi dweud hynny, mae ysgolheigion y maes hefyd yn cydnabod elfennau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â thuedd o fewn y broses ymchwil. Ategir hyn gan Khilnani (1993) sy'n nodi bod tuedd yn medru canolbwyntio ar agweddau pwysicaf ffenomen, agweddau a fyddai o bosib yn guddiedig heblaw hynny. Er hynny, ystyrir y tuedd yn yr ymchwil hwn yn ddylanwad negyddol yn enwedig wrth ystyried fy rôl i fel ymchwilydd. O safbwynt fy nulliau ymchwil, byddai'n bwysig ystyried fy rôl i fel cymedrolwr a'r tuedd y bydd yn anodd ei osgoi. Mae presenoldeb ymchwilydd yn debygol o effeithio'r data sydd yn cael ei gasglu wrth ddefnyddio grŵpiau ffocws fel ym mhob dull ymchwil ansoddol. Mae ymchwilwyr yn ceisio osgoi'r tuedd yma drwy fod yn adlewyrchol yn eu sgiliau cymedrol, yn enwedig wrth drafod achosion sydd yn codi cwestiynau moesegol, megis mewn ymchwil o fewn y gwasanaeth iechyd (Barbour 2007:49). Mae gwahanol gymedrolwyr yn dueddol o gynhyrchu data sydd yn wahanol o safbwynt ei ffurf a'i gynnwys, er enghraifft mae Grey et al (1997) yn ei hastudiaeth hi o ysmygu a phobl ifanc wedi rhoi sylw i effaith gender y cymedrolwr ar y data a gynhyrchwyd. Gwelwyd bod gender y cymedrolwr wedi effeithio ar hunaniaethau gwrywol y gwrywod yn y grŵp yn ei barn hi, er bod Allen (2005) yn dadlau nad yw'r cyhoeddiad mor syml â hynny. Dadleuai fod agweddau pwysicach megis dangos sensitifedd i'r grŵp ffocws yn ogystal â diddordeb diffuant yn cael effaith ar rôl weithredol y cymedrolwr. Er y ddadl uchod, gwelwyd fod nifer o ystyriaethau eraill o safbwynt fy rôl i fel ymchwilydd, fel awgrymwyd gan Barbour (2008:50):

> However, just as it can be counter productive to select a Group that is too homogeneous, so, too, can it be unhelpful to choose a moderator who is ân 'insider.' Hurd and Mcintyre (1996) point out that there can be 'seduction in sameness,' wherby the researcher shares too many of the group's taken for granted assumptions and therefore is unable to expose these to critical scutiny.

Dylid ystyried hyn yn ystod fy rôl i fel cymedrolwr ym Mlaenau Ffestiniog. Yr hyn a welwyd yw bod sicrhau ymchwil diduedd yn dasg anodd iawn ac nid yw hi bob amser yn bosib i gymdeithasegwyr. Fel awgrymwyd gan Becker (1967: 239) yw efallai fod cysylltiad rhwng tuedd a rôl yr ymchwilydd yn y broses ymchwil. Mae Gitlin et al (1989) hefyd yn ategu mai grŵpiau pwerus y gymdeithas yn hytrach na rhai llai pwerus sy'n debygol o fuddio o'r ymchwil sy'n seiliedig ar duedd. Yr hyn a welwyd felly yw bod fy rôl i ymchwilydd yn ogystal ag unrhyw duedd yn debygol o effeithio ar y gymuned ymchwil mewn golwg. Er mwyn lleihau tuedd felly, byddai'n gymorth i mi ystyried fy rôl fel ymchwilydd a chymedrolwr yn enwedig o safbwynt y gymuned ymchwil dan olwg. Mae'n bwysig sicrhau fy mod yn camu yn ôl oddi wrth atebion yr ymatebwyr, yn enwedig wrth ystyried fy nghefndir teuluol, personol, fel un o'r sampl ac yn hynny o beth, osgoi tynnu ar fy mhrofiadau fy hun a chadw meddwl agored a beirniadol.

Yn unol â fy rôl i fel ymchwilydd, mae'r cysyniad o wrthrychedd. Fel awgrymwyd gan Somekh a Lewin (2005: 347):

Objectivity, refers to the removal of the persona (emotions, knowledge, experience, values and so forth) of the researcher from the Research Process. It is seen as central to the quality of Research based on epistemological assumptions that truth can be determined as something distinct from particular contexts or participants.

Er hynny, cymhleth iawn yw ceisio dileu gwrthrychedd o unrhyw waith ansoddol, gan ei fod, yn ei hanfod, yn gofyn i'r ymchwilydd ymbellhau a pharhau'n niwtral oddi wrth y prosiect ymchwil (Sarantakos 1998: 19). Mae hyn yn dasg anodd wrth ystyried cnewyllyn dulliau ansoddol, sydd yn annog agosatrwydd rhwng elfennau'r ymchwil a'r ymchwilydd yn bersonol. Fel awgrymwyd gan Sarantakos (1998: 20) nid yw realiti cymdeithasol yn bodoli'n wrthrychol ond yn hytrach yn cael ei greu drwy ryngweithiad a dehongliad, lle gwelwyd fod yr ymchwilydd yn chwarae rhan flaenllaw. Er hynny, mae bod yn niwtral neu fod yn wrthrychol yn ganolog i unrhyw ymchwil ond yn gwahaniaethu rhwng dulliau ymchwil ansoddol a meintiol. Gwelwyd felly fod pwysigrwydd i mi gadw'n wrthrychol yn enwedig wrth ystyried fy nghysylltiadau gyda Blaenau Ffestiniog yn yr ymchwil er y byddai hyn yn dasg anodd. Er hynny, nid oedd dim aelod o fy nheulu yn mynychu'r ysgol bellach nac ychwaith yr un o'r boblogaeth ymchwil ymhellach a pherthynas deuluol nac ychwaith agos. O safbwynt gwireddu'r ymchwil, roedd hi'n bwysig sicrhau awyrgylch naturiol a hyblyg ac i

gadw'r cwestiynau'n wrthrychol, i beidio ag arwain yr ymatebwyr yn y cyfweliadau ac i fod yn ymwybodol o wrthrychedd wrth ystyried fy rôl i fel cymedrolwr.

## Pecynnau Meddalwedd Cyfrifiadurol a Dadansoddi'r Data

Ar gyfer dadansoddi'r gwaith maes, roedd rhaid defnyddio pecynnau meddalwedd cyfrifiadurol arbennig er mwyn cofnodi'r data. Gan fod yr ymchwil yn cynnwys ymchwil ansoddol a meintiol, rhaid oedd tynnu ar becynnau meddalwedd arbenigol y ddau faes. Er mwyn dadansoddi'r canlyniadau meintiol, defnyddiwyd pecyn meddalwedd SPSS (Software Package for Social Sciences). Roedd y pecyn yma'n ddefnyddiol gan ei fod yn gallu dadansoddi'r cydberthynas rhwng newidyddion megis cenedligrwydd man geni ac iaith y teulu. Bu hefyd yn ffordd effeithiol o lunio themâu a phatrymau meintiol cymhleth. Ar gyfer dadansoddi'r gwaith maes ansoddol gan gynnwys y grŵpiau ffocws a'r cyfweliadau dwys, defnyddiwyd cronfa data Weft QDA sy'n feddalwedd cod agored. Roedd yn fy ngalluogi i rannu'r data mewn fframwaith o themâu gan fod y meddalwedd yn galluogi i'r cyfweliadau a'r grŵpiau ffocws cael eu gosod mewn fframwaith cronfa data a'u didoli a'u croeswirio yn ôl themâu. Yn ogystal, roedd yn caniatáu i mi ddarganfod y prif themâu a'r berthynas rhyngddynt a gwelwyd fod y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r gwaith. O safbwynt cwestiynau creadigol y grŵpiau ffocws, roedd modd cymharu darluniau'r bobl ifanc yn ôl yr hyn a welwyd yn y llun ac felly eu barn a'u teimladau nhw am yr ardal y maent yn byw ynddo.

## Cloi

Yn y bennod methodoleg hon, cafwyd ymdriniaeth â damcaniaethau cymdeithasegol Williams a Morris (2000) ar grŵpiau iaith leiafrifol a chyfalaf cymdeithasol. Yn ychwanegol i hyn, ceir drafodaeth ar y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg . Trafodwyd strategaethau ymchwil ansoddol a meintiol yr astudiaeth a'r dulliau ymchwil sef holiaduron hanner strwythuredig, cyfweliadau di strwythur a grŵpiau ffocws. Esboniwyd sut y byddaf yn haenu'r sampl yn ôl grŵp oed 15-18 a 19-25. Amlinellwyd y strategaethau a'r dulliau mewn perthynas â allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd

Cymraeg a'u dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Mae trafodaeth ar y dulliau samplo a ddefnyddiwyd yn ogystal ag ystyriaethau moesegol yr ymchwil a'r pecynnau meddalwedd cyfrifiadurol a ddefnyddiwyd.

Yn y bennod nesaf, byddaf yn trafod darganfyddiadau'r ymchwil meintiol ar gyfer y grŵp sampl 15-18 oed. Yma ceir dadansoddiad o'r holiaduron meintiol ar ffurf tablau amlder a darperi'r sylfaen ar gyfer darganfod dyheadau a gobeithion y grŵp sampl ar gyfer y dyfodol, yn nhermau eu patrymau allfudiaeth a chyfanheddu.

# Pennod 5

# Dadansoddiad Meintiol 15-18 oed

## Cyflwyniad

Yn y bennod hon, trafodir yn fanwl ganfyddiadau'r arolwg a gynhaliwyd ym Mlaenau Ffestiniog a Thregaron. Fel y nodwyd eisoes, y bwriad o haenu'r sampl yn y modd hwn oedd i'm galluogi'i ddeall rhesymau dros allfudo drwy drafod yn gyntaf dyheadau a gobeithion pobl ifanc tra'r oeddynt yn parhau i fyw yn eu cymunedau, ac yn ail, edrych ar y grŵp hŷn oedd eisoes wedi gwneud y penderfyniad i adael eu bröydd.

Cyn dehongli'r canfyddiadau, mae'n rhaid nodi ac atgoffa mai sampl eithaf bychan, er digonol, a ddaeth i'r amlwg. Roedd hyn yn ddisgwyliad, gan ein bod yn trafod ardaloedd gwledig sydd â daearyddiaeth eithaf bychan ac wrth gwrs mae'r boblogaeth sampl yn un leiafrifol. Wedi dweud hynny, gellir dadlau fod y nifer a gasglwyd wedi dangos patrwm diddorol a dilys iawn.

Yn gyntaf trafodir grŵp 15-18 oedd yn mynychu ysgol uwchradd neu goleg neu chweched dosbarth. Y gobaith oedd y byddai'r sampl yma'n dangos gobeithion y bobl ifanc hynny sydd ar gychwyn gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol, hynny yw penderfyniadau addysgol neu yrfaol, ac a fyddai'n eu harwain i wahanol ardaloedd. Mae'r sampl yn cynnwys 29 o bobl ifanc oed 15-18 o Blaenau Ffestiniog a 31 o Dregaron oedd wedi nodi eu bod mewn addysg llawn amser. Defnyddir cyfuniad o dablau amlder yn ogystal â thablau croes er mwyn arddangos y canlyniadau hyn.

**Holiadur Grŵp oedran 15-18**

I ddechrau trafodir nodweddion cyffredinol y sampl megis oed, rhyw, man geni, man byw presennol a chenedligrwydd. Yna mae pwyslais ar iaith yr ymatebwyr gan gynnwys iaith a siaradir gydag aelodau o'r teulu yn ogystal â chefndir ieithyddol y teulu. Trafodir dosbarth yn ôl swyddi'r rhieni a'r iaith a ddefnyddir o fewn eu cefndiroedd a'u hanes addysgol, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddiwyd gyda chyfoedion yn y fan hyn. Yn olaf, byddaf yn edrych ar ddyheadau a gobeithion yr ymatebwyr ar gyfer y dyfodol ac yn fwy penodol eu dewisiadau wrth ystyried aros neu adael eu bröydd.

**Y Sampl**

Danfonwyd yr holiadur ar ffurf electronig neu ar lein i'r ysgolion uwchradd ym Mlaenau Ffestiniog a Thregaron ym mis Hydref 2010. Roedd ymateb yr ysgolion yn y ddwy ardal yn weddol debyg o ystyried gofynion y sampl, gyda 29 o ymatebwyr o Flaenau Ffestiniog a 31 o Dregaron, gan wneud cyfanswm o 60. O ystyried man byw presennol yr ymatebwyr, gwelwyd fod 100y cant o'r ymatebwyr, yn y ddwy ardal, wedi nodi eu bod yn byw yn lleol, ac felly yn mynychu'r ysgol leol a ddim yn teithio o ardaloedd eraill. Gellir dadlau fod hyn yn ffactor pwysig gan fod pob un o aelodau'r sampl yn byw o fewn eu bro ac felly'n wir adlewyrchiad o'r ardaloedd hynny.

**Tabl 8: Nifer yr ymatebwyr yn ôl ardal (N=Nifer)**

| **Ardal** | N | % |
|---|---|---|
| Blaenau Ffestiniog | 29 | 48.3% |
| Tregaron | 31 | 51.7% |
| **Cyfanswm** | **60** | **100%** |

Wrth ystyried y sampl yn ôl gender, gwelwyd fod y niferoedd yn debyg unwaith eto sydd yn bwysig i bwrpas cymhariaeth.

**Tabl 9: Gender yr ymatebwyr yn ôl Ardal**

| | **Gender** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ardal** | **Gwryw** | **%** | **Benyw** | **%** |
| Blaenau Ffestiniog | 15 | 51.7 | 14 | 45.2% |
| Tregaron | 14 | 48.3 | 17 | 54.8% |
| **Cyfanswm** | **29** | **100** | **31** | **100** |

Fel y soniwyd eisoes, mae'r sampl yn y ddwy ardal yn cynnwys unigolion sydd yn blant i ymfudwyr a/neu yn ymfudwyr eu hunain. Er mwyn sicrhau dilysrwydd ac i ddibenion cymhariaeth, roedd hi'n bwysig cael nifer cyfartal o bobl ifanc oedd wedi eu geni'n lleol ond yn blant i ymfudwyr a phobl ifanc oedd wedi eu geni tu allan i'r "Fro Gymraeg" yr oeddynt y nawr yn byw ynddi. Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd y sampl, yn ôl eu man geni.

**Tabl 10: Man Geni'r Ymatebwyr yn ôl Ardal**

| | **Man Geni** | | | | | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tu Allan i Gymru** | | **Yng Nghymru ond Nid yn Lleol** | | **Yn Lleol** | | |
| | N | % | N | % | N | % | N |
| Blaenau Ffestiniog | 13 | 44.8% | 2 | 6.9% | 14 | 48.3% | 29 |
| Tregaron | 15 | 48.4% | 5 | 16.1% | 11 | 35.5% | 31 |
| **Cyfanswm** | **28** | **46.7%** | **7** | **11.7%** | **25** | **41.7%** | **60** |

Gwelwyd fod niferoedd eithaf cyfartal o ymatebwyr sydd wedi eu geni tu allan i Gymru a'r rhai sydd wedi eu geni'n lleol yn y ddwy ardal. O ganlyniad, mae hi'n bosib cymharu'r sampl yn ôl cenedligrwydd ac yn ôl ardal. Er enghraifft, roedd 44.8y cant o Flaenau Ffestiniog yn nodi eu bod wedi eu geni tu allan i Gymru o'i gymharu â 48.4y cant Tregaron Yn ogystal, nododd 48.3y cant ym Mlaenau Ffestiniog, eu bod wedi eu geni'n lleol, sef o fewn eu bröydd, o'i gymharu â 35.5y cant yn Nhregaron. O safbwynt y rhai a gafodd eu geni yng Nghymru ond nid yn lleol, gwelwyd mai nifer fechan iawn yw'r rhain yn y ddwy ardal, sef 6.9y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 16.1y cant yn Nhregaron. Wrth gwrs, er bod niferoedd y sampl yn debyg, mae'r hyn sydd yn wahanol yn y ddwy ardal yn dechrau ymddangos wrth ystyried y cwestiwn o genedligrwydd. Gellir dadlau mai'r dadansoddiad mwyaf trawiadol wrth ystyried nodweddion cyffredinol yr ymatebwyr yw'r cysyniad o genedligrwydd ac yn benodol, cenedligrwydd yn ôl ardal fel y gwelwyd o'r tabl isod:

**Tabl 11: Cenedligrwydd Yr Ymatebwyr yn ôl Ardal**

| | **Cenedligrwydd** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal** | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Prydeinig** | | **Arall** | | **Cyfanswm** | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| Blaenau Ffestiniog | 18 | 62.1 | 9 | 31.0 | 2 | 6.9 | 0 | 0 | 29 | 100 |
| Tregaron | 7 | 22.6 | 11 | 35.5 | 12 | 38.7 | 1 | 3.2 | 31 | 100 |
| **Cyfanswm** | **25** | **41.7** | **20** | **33.3** | **14** | **23.3** | **1** | **1.7** | **60** | **100** |

Yn ddiddorol gwelwn o'r tabl uchod gymhlethdod sampl y ddwy ardal yn enwedig o gofio bod un ai'r unigolion wedi hanu o gartrefi lle mae rhieni'r sampl, neu hwy eu hunain yn ymfudwyr, y mynegodd 62.1y cant o Flaenau Ffestiniog eu bod o genedligrwydd Cymraeg o'i gymharu â 22.6y cant o Dregaron. Gwelwyd yn ogystal fod y nifer oedd yn ystyried eu hunain yn Saesneg yn debyg iawn yn y ddwy sef 31.0y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 35.5y cant yn Nhregaron, ond fod y rhai sydd yn ystyried eu hunain yn Brydeinig, gymaint mwy ym Mlaenau Ffestiniog nac yn Nhregaron, sef 38.7y cant o'i gymharu â 6.9y cant.

Braslun yn unig a welwyd o'r ffigyrau uchod, hynny yw, gwelwyd ymateb y sampl yn ôl ardal yn hytrach na chefndir teuluol a man geni. Byddai'n gymorth i ni felly edrych ar genedligrwydd yn ôl ardal a man geni er mwyn creu dadansoddiad llawn.

**Tabl 12: Cenedligrwydd yr Ymatebion yn ôl eu Man Geni ac Ardal**

| **Man Geni** | **Cenedligrwydd** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tu Allan i Gymru** | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Prydeinig** | | **Arall** | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 4 | 30.8 | 8 | 61.5 | 1 | 7.7 | 0 | 0 |
| **Tregaron** | 0 | 0 | 9 | 60 | 5 | 33.3 | 1 | 6.7 |
| **Cyfanswm** | **4** | **14.3%** | **17** | **60.7%** | **6** | **21.4%** | **1** | **3.6%** |
| **Cymru ond Nid yn Lleol** | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 2 | 100% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Tregaron** | 4 | 80% | 0 | 0% | 1 | 20% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **6** | **85.7%** | **0** | **0%** | **1** | **14.3%** | **0** | **0%** |
| **Lleol** | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 12 | 85.7% | 1 | 7.1% | 1 | 7.1% | 0 | 0% |
| **Tregaron** | 3 | 27.3% | 2 | 18.2% | 6 | 54.5% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **15** | **60%** | **3** | **12%** | **7** | **28%** | **0** | **0%** |

Gwelwyd o'r ffigyrau uchod fod 30.8 y cant o Flaenau Ffestiniog, sydd wedi eu geni tu allan i Gymru, wedi nodi eu bod o genedligrwydd Cymraeg o'i gymharu â 0 y cant o Dregaron,

sydd, y gellir dadlau, yn wahaniaeth sylweddol. Er hynny, nid oes gwahaniaeth amlwg pan welwyd fod 61.5 y cant o ddisgyblion Blaenau Ffestiniog sydd wedi geni tu allan i Gymru sydd yn galw eu hunain yn Saesneg o'i gymharu â 60 y cant o Dregaron. Mae'r ffigyrau yma'n nodweddiadol yn eu tebygrwydd gan y gellir dadlau y byddai'r ymatebwyr sydd wedi eu geni tu allan i Gymru yn uniaethu â chenedligrwydd ar wahân i genedligrwydd Cymraeg, ac yn cysylltu'r cysyniad gyda man geni yn hytrach na hunaniaeth fabwysiadol. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhai a gafodd eu geni tu allan i Gymru sydd yn gweld eu hunain fel Prydeinig, 7.7 y cant, ym Mlaenau Ffestiniog, o'i gymharu â 33.3 y cant yn Nhregaron.

Er hyn gellir dadlau fod y gwahaniaeth mwyaf ac arwyddocaol yn amlwg o'r ffigyrau sydd yn dangos yr oedd yn nifer yr ymatebwyr a gafodd eu geni yn lleol ac sydd yn nodi eu bod o genedligrwydd Cymraeg. Mae 85.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog, o'i gymharu â 27.3 y cant yn Nhregaron, wedi eu geni'n lleol ac yn honni eu bod o genedligrwydd Cymraeg. Mae'n bwysig cadw mewn golwg fod pob aelod o'r sampl, yn y ddwy ardal, wedi eu geni i deuluoedd ymfudol ac yn eu barn hwy, yn deuluoedd di-gymraeg, ond mae gwahaniaeth amlwg rhwng ffigyrau'r ddwy. Mae'r rhesymau dros y tueddiadau yma yn cael eu trafod mewn mwy o fanylder wrth drafod y grŵpiau ffocws a gynhaliwyd a drafodir ym mhennod 6.

**Tabl 13: Cyfansoddiad y Teulu yn ôl Ardal**

| Cyfansoddiad y Teulu | Blaenau Ffestiniog | | Tregaron | |
|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % |
| Tad yn Absennol | 6 | 20.7% | 5 | 16.1% |
| Mam yn Absennol | 2 | 6.9% | 1 | 3.2% |
| Llys Fam | 1 | 3.4% | 0 | 0% |
| Llys Tad | 2 | 6.9% | 0 | 0% |

Canfyddir y canlyniadau yma drwy'r dewis 'amherthnasol' yn yr holiadur, hynny yw, os nad yw'r tad neu'r fam yn byw yn y cartref yna mae'r ymatebwr yn nodi fod y cwestiwn yn 'amherthnasol' iddynt. Gwelwyd o'r canlyniadau uchod fod cyfradd eithaf uchel o'r sampl, yn y ddwy ardal, yn byw mewn teuluoedd un rhiant. Hynny yw, dengys fod absenoldeb y tad

yn amlwg mewn 20.7 y cant o gartrefi'r sampl ym Mlaenau Ffestiniog a 16.1 y cant o gartrefi yn Nhregaron. Dengys yn ogystal, fod absenoldeb y fam yn amlwg mewn 6.9 y cant o gartrefi ym Mlaenau Ffestiniog a 3.2 y cant o Dregaron. Gellir dadlau fod y ffigyrau yma'n gallu awgrymu statws y ddwy ardal fel rhai Cymunedau yn Gyntaf, lle gwelwyd fod lefelau uwch na'r disgwyliad o deuluoedd un rhiant. Yn ogystal, efallai fod y ffigyrau uchod yn gallu awgrymu mwy am benderfyniad pobl ifanc i adael eu bröydd, hynny yw, fod aelodau o'u teulu, gan gynnwys eu rhieni, yn byw mewn mannau eraill tu hwnt i'r bröydd a Chymru.

Mae prif iaith y cartref hefyd yn ddylanwadol ac yn awgrymu amrywiaeth amlwg rhwng y ddwy ardal. Fel y gwelwyd o'r tabl isod, mae 20.7 y cant o Flaenau Ffestiniog sydd yn credu mai Cymraeg yw prif iaith y cartref o'i gymharu â 0 y cant o Dregaron.

**Tabl 14: Prif Iaith y Cartref yn ôl Ardal**

| | **Prif Iaith Gartref** | | | | | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | | | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 6 | 20.7% | 17 | 58.6% | 6 | 20.7% | 29 | 100 |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 23 | 74.2% | 8 | 25.8% | 31 | 100 |
| **Cyfanswm** | 6 | 10% | 40 | 66.7% | 14 | 23.3% | 60 | 100 |

Yr hyn sydd yn ddiddorol ac fel sydd wedi ei grybwyll eisoes, yw bod sampl y ddwy ardal yn cynnwys unigolion sydd wedi eu geni i deuluoedd sydd wedi mudo i'r ardal a gydag o leiaf un rhiant sydd yn ddi-gymraeg felly. Byddaf yn ymhelaethu ar y pwnc yma ymhellach yn y dadansoddiad. Gwelwyd mai 74.2 y cant o Dregaron sydd yn nodi mai Saesneg yw prif iaith y cartref ac mae'r gweddill, sef 25.8 y cant yn siarad y ddwy. Mae'r un patrwm yn gyffredin ym Mlaenau Ffestiniog, sef, fod y rhan fwyaf o'r sampl yn nodi mai Saesneg yw prif iaith y cartref. Wrth edrych ar y rhesymau pam fod y bobl ifanc hynny a anwyd i deuluoedd di-gymraeg yn dewis gadael y bröydd Gymraeg felly, mae'r ffigyrau uchod yn nodweddiadol. Dengys, er bod y bobl ifanc yma'n cael eu trochi mewn cymunedau a diwylliant Gymraeg nid

yw'r iaith yn cael ei defnyddio yn y cartref yn yr un ffordd, ac felly er nad yw diffyg iaith yr unigolion yn eu dylanwadu i symud o'r Bröydd, fod iaith y cartref yn gynyddol yn cael effaith. I ychwanegu at y pwynt yma, gellir dadlau yn ogystal, nad yw rhieni'r boblogaeth sampl yn cael eu trochi yn yr un ffordd â'u plant gan fod y plant yn mynychu sefydliadau addysg Gymraeg, ac felly heb integreiddio'n llawn i'r gymuned y maent yn rhan ohono. Byddai hyn, dros amser yn effeithio ar hunaniaeth eu plant. Wrth gyfeirio at y grŵpiau ffocws, ac fel y soniwyd eisoes, nid oedd poblogaeth y sampl yn uniaethu gyda diwylliant Cymraeg Tregaron, ac nid oeddynt yn teimlo'n rhan ohono. Roedd hyn yn amlwg yn dylanwadu ar benderfyniad y bobl ifanc yma i adael y dref.

Cwestiynir os yw'r rhieni yn effeithio ar y penderfyniad hwn ac os yw hwy hefyd yn teimlo'r un gwahaniaethu a'u plant. Mae'r ffigyrau wrth gwrs yn wahanol ym Mlaenau Ffestiniog, hynny yw, nid oedd yr un gwahaniaeth o safbwynt diwylliant yn amlwg fel yr oedd yn Nhregaron ac roedd y ffigyrau ar gyfer y bobl ifanc hynny oedd yn nodi eu bod o genedligrwydd Cymraeg yn uwch ym Mlaenau Ffestiniog nac yn Nhregaron. Mae hi'n bwysig cwestiynu felly, os yw'r ffigwr uwch o 20.7 y cant yn nodi mai prif iaith eu cartref yw Cymraeg ym Mlaenau Ffestiniog o'i gymharu â 0 y cant yn Nhregaron, yn nodweddiadol o safbwynt diwylliant ardal a phenderfyniad pobl ifanc ac yn benodol plant mewnfudwyr, i adael y bröydd Gymraeg. Byddai'n gymorth i ni ystyried gallu ieithyddol y rhieni yn y sampl yn ogystal â phrif iaith y cartref yn ôl yr iaith a siaradwyd gyda'r tad a gyda'r fam, er mwyn ennyn mwy o wybodaeth am y patrwm iaith aelwydydd yn y sampl.

**Tabl 15: Gallu ieithyddol y Tad yn y Sampl**

| Ardal | Gallu Ieithyddol y Tad yn y Sampl (Cymraeg) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Siarad yn Rhugl (Iaith Gyntaf) | | Siarad yn dda (Ail Iaith) | | Deall Cymraeg | | Ddim yn Siarad Nac yn Deall Cymraeg | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 3 | 10.3% | 11 | 37.9% | 6 | 20.7% | 9 | 31% |
| **Tregaron** | 4 | 12.9% | 3 | 9.7% | 6 | 19.4% | 16 | 51.6% |

Gwelwyd o dablau 9 a 10 uchod fod gallu ieithyddol rhieni'r sampl yn amrywio yn ôl rhiant ac yn ôl ardal. Dengys fod 10.3 y cant o'r tadau yn siarad Cymraeg yn rhugl ym Mlaenau Ffestiniog, o'i gymharu â 12.9 y cant yn Nhregaron. O safbwynt y fam yn y sampl, gwelwyd fod 24.1 y cant o famau yn siarad Cymraeg yn rhugl ym Mlaenau Ffestiniog, o'i gymharu â 3.2y cant yn Nhregaron. Gwelwyd niferoedd uchel yn y ddwy ardal o rieni nad oedd yn siarad nac ychwaith yn deall Cymraeg yn enwedig wrth ystyried y tadau yn y ddwy ardal. Dengys fod ffigyrau Tregaron yn sylweddol uwch gyda 51.6 y cant o dadau'r sampl ddim yn siarad nac yn deall Cymraeg. Mae nifer cymharol is ym Mlaenau Ffestiniog, sef 31 y cant. Byddai'n ddiddorol felly cymharu nifer y siaradwyr ail iaith yn y ddwy ardal yn achos y tadau. Gwelwyd fod 37.9y cant o dadau, ym Mlaenau Ffestiniog, yn honni eu bod yn siarad Cymraeg yn dda, neu fel ail iaith a'i gymharu â lefel sylweddol is o 9.7 y cant yn Nhregaron. Mae'r hyn a welwyd yma'n ategu'r sylwadau uchod, lle gellir dadlau fod y tadau yn mabwysiadu'r iaith o reidrwydd o ganlyniad i ardal a gwaith traddodiadol Gymraeg a welwyd yn y diwydiant llechi ym Mlaenau Ffestiniog.

**Tabl 16: Gallu Ieithyddol y Fam yn y Sampl**

| Ardal | Gallu Ieithyddol y Fam yn y Sampl (Cymraeg) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Siarad yn Rhugl (Iaith Gyntaf) | | Siarad yn dda (Ail Iaith) | | Deall Cymraeg | | Ddim yn Siarad Nac yn Deall Cymraeg | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| Blaenau Ffestinio g | 7 | 24.1% | 9 | 31% | 7 | 24.1% | 6 | 20.7% |
| Tregaron | 1 | 3.2% | 7 | 22.6% | 12 | 38.7% | 11 | 35.5% |

O safbwynt gallu ieithyddol y fam yn y sampl, gwelwyd patrwm amrywiol. Dengys fod y ffigyrau'n debyg yn y ddwy ardal yn enwedig wrth nodi fod crynodeb uchel yn deall yn hytrach nag yn siarad yr iaith yn rhugl fel iaith gyntaf neu yn dda, fel ail iaith. Gwelwyd fod 24.1 y cant o Flaenau Ffestiniog yn deall Cymraeg a 38.7 y cant yn Nhregaron. Er hynny, gellir dadlau fod gallu Cymraeg y fam ym Mlaenau Ffestiniog yn fwy datblygedig nag iaith y fam yn Nhregaron. Dengys fod 24.15 y cant yn siarad Cymraeg yn rhugl, fel iaith gyntaf, ym Mlaenau Ffestiniog, o'i gymharu â 3.2 y cant yn Nhregaron. Ond gwelwyd mai niferoedd cyfatebol oedd yn amlwg wrth ystyried y mamau yn y sampl oedd ddim yn siarad nac ychwaith yn deall Cymraeg, gyda 20.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 35.5 y cant yn Nhregaron. Yn gyffredinol felly, awgrymwyd gan y ffigyrau uchod, fod gallu ieithyddol y rhieni yn y ddwy ardal yn amrywio'n fawr ac yn adlewyrchiad o broffiliau gwreiddiol yr ardaloedd. Yn ogystal, gellir dadlau ei fod yn cynrychioli gwir ddarlun o'r hyn a welwyd fel newidiadau ac amrywiaethau o fewn y bröydd Gymraeg, yn ogystal ag amrywiaeth y sampl mewn golwg.

Er hynny, ystyriwyd nad yw gallu ieithyddol yn wir adlewyrchiad o'r defnydd iaith o fewn y cartref, gan fod dynameg deuluol a hyder wrth ddefnyddio iaith yn debygol o effeithio ar yr

iaith a ddefnyddiwyd. Mae'r tablau isod yn dangos gallu ieithyddol rhieni'r sampl yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cartref. Unwaith eto bydd cymhariaeth yma rhwng y ddwy ardal.

**Tabl 17: Gallu Ieithyddol Yn ôl Yr Iaith a Ddefnyddiwyd yn y Cartref (Tad)**

| Canran y Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y Cartref | Gallu Ieithyddol (Cymraeg) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Siarad yn Rhugl (Iaith Gyntaf) | | Siarad yn dda (Ail Iaith) | | Deall Cymraeg | | Ddim yn Siarad Nac yn Deall Cymraeg | | Cyfanswm | |
| **Dim** | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0 | 3 | 20% | 3 | 20% | 9 | 60% | 15 | 100% |
| **Tregaron** | 1 | 4.5% | 1 | 4.5% | 5 | 22.7% | 15 | 68.2% | 22 | 100% |
| **Llai Na Hanner** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 3 | 50% | 3 | 50% | 0 | 0% | 6 | 100% |
| **Tregaron** | 1 | 25% | 1 | 25% | 1 | 25% | 1 | 25% | 4 | 100% |
| **Mwy na Hanner** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 20% | 4 | 80% | 0 | 0% | 0 | 0% | 5 | 100% |
| **Tregaron** | 1 | 50% | 1 | 50% | 0 | 0% | 0 | 0% | 2 | 100% |
| **Siarad Bob Amser** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 2 | 66.7% | 1 | 33.3% | 0 | 0% | 0 | 0% | 3 | 100% |
| **Tregaron** | 1 | 100% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 100% |

Mae'r niferoedd uchod yn adlewyrchu gallu ieithyddol y tad yn ôl y canran o Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y cartref. Dengys nad yw'r mwyafrif yn siarad nac yn deall Cymraeg ac felly nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn y cartref gyda 60 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 68.2 y cant o Dregaron. Isel yn ogystal yw'r nifer oedd yn siaradwyr rhugl ond oedd yn

siarad yr iaith bob amser gyda 2 o ymatebwyr o Blaenau Ffestiniog a 1 Tregaron. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol ychwaith rhwng y ddwy ardal yma.

**Tabl 18: Gallu Ieithyddol Yn ôl Yr Iaith a Ddefnyddiwyd yn y Cartref (Mam)**

| **Canran y Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y Cartref** | **Gallu Ieithyddol (Cymraeg)** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Siarad yn Rhugl (Iaith Gyntaf)** | | **Siarad yn dda (Ail Iaith)** | | **Deall Cymraeg** | | **Ddim yn Siarad Nac yn Deall Cymraeg** | | **Cyfanswm** | |
| **Dim** | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 7.1% | 2 | 7.1% | 6 | 42.9% | 6 | 42.9% | 15 | 100% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 3 | 14.3% | 7 | 33.3% | 11 | 52.4% | 21 | 100% |
| **Llai Na Hanner** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 20% | 3 | 60% | 1 | 20% | 0 | 0% | 5 | 100% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 4 | 44.4% | 5 | 55.6% | 0 | 0% | 9 | 100% |
| **Mwy na Hanner** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 2 | 28.6% | 4 | 71.4% | 0 | 0% | 0 | 0% | 6 | 100% |
| **Tregaron** | 1 | 100% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Siarad Bob Amser** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 3 | 100% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 100% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |

O'r tabl uchod gwelwyd patrwm tebyg yn nefnydd y Gymraeg gan y fam, hynny yw bod y canlyniadau'n eithaf gwasgaredig ar draws y tabl. Dengys nad yw defnydd iaith yn ogystal â

gallu o fewn y cartref yn newidyn pendant ac fel y soniwyd eisoes, ei fod yn adlewyrchu natur y sampl unigryw. Fel yn achos canlyniadau a phatrymau iaith y tad, dengys fod y crynodeb fwyaf yn nodi nad ydynt yn siarad nac yn deall yr iaith Gymraeg, gyda 6 (42.9 y cant) ym Mlaenau Ffestiniog a 11 (52.4 y cant) yn Nhregaron ac felly nid oedd defnydd ohono yn y cartref. Nid oedd gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy ardal yn yr achos yma ychwaith, er y gellir dadlau fod canlyniadau Blaenau Ffestiniog yn fwy gwasgaredig nag yn achos Tregaron.

Yr hyn a ategwyd uchod yw bod gallu a defnydd iaith yn amrywio'n fawr ar draws y ddwy ardal ac er mwyn ei hymchwilio ymhellach, byddai'n gymorth ystyried man geni rhieni'r sampl, yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd yn y sampl.

Mae'r ffigyrau uchod ar gyfer patrymau defnydd iaith y fam a'r tad gyda'r ymatebwyr yn awgrymu rhai patrymau sylfaenol . Dengys nad yw'r mwyafrif o'r rhieni hynny na chafodd eu geni yng Nghymru yn defnyddio'r iaith gyda'u plant yn y cartref. Yn ogystal, gellir cysylltu'r duedd hon gyda defnydd iaith y bobl ifanc yn y sampl, lle gwelwyd er bod y bobl ifanc yma'n dysgu'r iaith ac yn cael eu trochi yn yr iaith a'r diwylliant Gymraeg yn yr ysgol a thu allan i'r cartref yn gyffredinol, nid yw'r effaith yma'n amlwg o fewn y teulu. O ganlyniad, gellir dadlau nad yw'r bobl ifanc yma'n derbyn yr un ymlyniad i'r iaith yn wahanol iawn i'r rhai hynny oedd yn siarad Cymraeg yn y cartref.

Er mwyn dadansoddi'r duedd yma mewn mwy o fanylder, gwelwyd fod anghysondebau amlwg rhwng y ffigyrau o rieni oedd wedi dysgu'r Gymraeg a'r defnydd o Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y cartref.

**Tabl 19: Nifer y Tadau Wedi Dysgu'r Iaith Gymraeg a'i Defnydd yn y Cartref**

| Wedi Dysgu'r Gymraeg: | Iaith y Tad Gyda'r Ymatebwr | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | Saesneg | | Y Ddwy | | Amherthnasol | | Cyfanswm | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Yn Y Cartref (Iaith Gyntaf)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 3 | 37.5% | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 12.5% | 4 | 50% |
| **Tregaron** | 4 | 50% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 4 | 50% |
| **Yn y Gymuned (Fel Plentyn/Ail Iaith)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 20% | 1 | 20% | 2 | 40% | 0 | 0% | 4 | 80% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 1 | 20% | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 20% |
| **Yn y Gymuned (Fel Oedolyn/ail Iaith)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 11.1% | 3 | 33.3% | 0 | 0% | 0 | 0% | 4 | 44.4% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 5 | 55.6% | 0 | 0% | 0 | 0% | 5 | 55.6% |
| **Drwy Wersi (Fel Oedolyn)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 2 | 15.4% | 6 | 46.2% | 0 | 0% | 0 | 0% | 8 | 61.5% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 3 | 23.1% | 2 | 15.4% | 0 | 0% | 5 | 38.5% |
| **Heb Ddysgu'r Gymraeg** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 3 | 12% | 1 | 4% | 5 | 20% | 9 | 36% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 10 | 40% | 1 | 4% | 5 | 20% | 16 | 64% |

Gwelwyd o'r canlyniadau uchod mai 15.4 y cant yn unig o dadau oedd wedi dysgu'r iaith Gymraeg drwy wersi fel oedolion, oedd yn siarad yr iaith gyda'r ymatebwyr ym Mlaenau Ffestiniog, mae hyn yn cymharu â 0 y cant yn Nhregaron. Yn wrthgyferbyniol, dengys fod 46.2 y cant yn siarad Saesneg yn y cartref ym Mlaenau Ffestiniog ar ôl gwersi Cymraeg o'i gymharu â 23.1 y cant yn Nhregaron. Wrth adlewyrchu, fel yr amlygwyd gan Hywel Jones (2010) nad yw dysgu'r iaith yn chwarae rhan flaenllaw wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r Bröydd Cymraeg, a dengys felly nad sylweddol yw'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref wrth ystyried fod nifer o'r tadau mewn golwg wedi dysgu'r iaith. O ganlyniad, gellir dadlau unwaith eto nad yw gwybodaeth a gallu o'r iaith Gymraeg yn effeithio ar yr iaith yn gyffredinol yn y cartref, ac oherwydd hynny, byddai modd ystyried hyn yn nhermau gallu integreiddio'r bobl ifanc yma. O safbwynt y ffigyrau ar gyfer y Gymraeg ac iaith y fam gyda'r ymatebwyr, gwelwyd canlyniadau tebyg:

**Tabl 20: Nifer y Mamau Wedi Dysgu'r iaith Gymraeg a'i Defnydd yn y Cartref**

| **Wedi Dysgu'r Gymraeg:** | **Iaith y Fam Gyda'r Ymatebwr** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | | **Amherthnasol** | | **Cyfanswm** | |
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Yn Y Cartref (Iaith Gyntaf)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 6 | 75% | 1 | 12.5% | 0 | 0% | 0 | 0% | 7 | 12.5% |
| **Tregaron** | 1 | 12.5% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 87.5% |
| **Yn y Gymuned (Fel Plentyn/Ail Iaith)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 2 | 16.7% | 3 | 25% | 2 | 16.7% | 0 | 0% | 7 | 58.3% |
| **Tregaron** | 1 | 8.3% | 3 | 25% | 1 | 8.3% | 0 | 0% | 5 | 41.7% |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn y Gymuned (Fel Oedolyn/ail Iaith)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 4 | 28.6% | 0 | 0% | 0 | 0% | 4 | 28.6% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 8 | 57.1% | 1 | 7.1% | 1 | 7.1% | 10 | 71.4% |
| **Drwy Wersi (Fel Oedolyn)** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 3 | 33.3% | 0 | 0% | 1 | 11.1% | 4 | 44.4% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 3 | 33.3% | 1 | 11.1% | 0 | 0% | 4 | 44.4% |
| **Heb Ddysgu'r Gymraeg** | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 5 | 29.4% | 0% | 0% | 0 | 0% | 5 | 29.4% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 1 | 58.8% | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 58.8% |

Dengys nad oedd 0 y cant o famau ym Mlaenau Ffestiniog nac yn Nhregaron, wedi cael gwersi Cymraeg fel oedolion neu oedd wedi dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned fel oedolion, yn dewis siarad yr iaith gyda'r ymatebwyr yn y cartref. Ychydig iawn yn ogystal oedd yn penderfynu siarad cyfuniad o'r ddwy iaith, gyda 0 y cant ym Mlaenau Ffestiniog o famau wedi cael gwersi fel oedolion ac sydd yn dewis siarad y ddwy iaith o'i gymharu â 7.1 y cant yn Nhregaron.

Gwelwyd o'r ffigyrau uchod o ganlyniad nad yw canran uchel o'r rhieni yn y sampl o'r ddwy ardal wedi dysgu'r Gymraeg, yn defnyddio'r iaith gyda'r ymatebwyr yn y cartref.

**Iaith o Fewn y System Addysg (Gweithredwr Cymdeithasoli Iaith Eilaidd)**

Fel y soniwyd eisoes, nid yw iaith yn uniongyrchol yn cael effaith ar benderfyniad pobl ifanc i aros neu i adael eu bröydd yng nghyd-destun pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru, neu i deuluoedd ymfudol. Mae hyn yn amlwg yng ngwaith Jones wrth iddo ystyried effaith iaith ar bobl ifanc a'u patrymau symudoledd. Er hynny, fel sydd yn amlwg uchod o'r iaith a ddefnyddiwyd yn y cartref, gwelwyd effaith anuniongyrchol gallu iaith ar genedligrwydd dewisol y sampl yn ogystal â'u dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Erbyn hyn, mae nifer o Awdurdodau Addysg leol Cymru yn barod i lunio cynlluniau addysg Gymraeg gan sicrhau fod dilyniant datblygedig addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn ac o ganlyniad gwelwyd safon yng ngallu Cymraeg yr unigolion oedd yn rhan o'r sampl. Fel yr amlinellwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn eu dogfen ar ffurf a Chanllawiau ar gyfer Llunio Cynlluniau addysg Gymraeg awdurdodau addysg Leol Cymru o dan ddeddf yr iaith Gymraeg (1993:8) mae Bwrdd yr Iaith yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl ysgolion er mwyn ceisio sicrhau safon y Gymraeg *"fel mamiaith ac ail iaith."* (1993:8). Yn ogystal, gwelwyd eu bod yn ceisio hyrwyddo Cymraeg llafar ac ysgrifenedig gan sicrhau sgiliau darllen a dysgeidiaeth Gymraeg o safon uchel.

Er hynny, gellir dadlau fod patrymau integreiddio'r bobl ifanc yma â chymhlethdod uwch a bod eu patrymau integreiddio yn ddibynnol ar ffactorau allanol, tu hwnt i iaith a'r iaith y siaradir yn yr ysgol. Mae gwaith i Fwrdd yr iaith a gynhyrchwyd gan Ganolfan Ymchwil Ewrop a Chwmni iaith, ar Rwydweithiau Cymdeithasol a Defnydd Iaith Pobl Ifanc yn edrych ar natur pobl ifanc yn nhermau eu gallu a'u hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae'n dadansoddi'r prif ffactorau o gymorth i egluro'r amrywiaethau o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg o fewn rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc. Bu'n pwysleisio patrwm defnydd iaith rhwydweithiau cymdeithasol y grŵp yma gan roi ystyriaeth i bob rhan o'r gychrannau a'r amrywiaethau mewnol. Rhoddwyd ystyriaeth flaengar i'r bobl ifanc eu hunain o fewn eu rhwydweithiau, ac mae'n tynnu sylw i'r lleoliadau cymdeithasol sy'n rhoi mynediad i lawer o wybodaeth sy'n cael ei greu'n weithredol drwy ryngweithio. O ganlyniad:

Mae'r wybodaeth yma'n cael ei strwythuro yn ôl sefyllfaoedd o ran yr egwyddor nad yw 'deall,' iaith yn ymwneud a'i ddefnyddio yn unig, ond hefyd y gwahanol ffyrdd y caiff ei ddefnyddio mewn gwahanol gyd-destunau gyda gwahanol gyd-sgwrswyr (2006:261-262).

Yn ogystal, gwelwyd cymhariaeth yma rhwng yr aelwydydd lle gwelwyd y Gymraeg yn cael ei defnyddio, ac yn amlwg lle nad yw'n cael ei defnyddio mae cyfyngiadau yn ei defnydd ymysg y bobl ifanc. Mae gan deuluoedd o'r fath gyfansoddiad rwydwaith eu hunain, ac mae'r rhwydweithiau yma, yn gyffredinol yn canolbwyntio ar ddefnydd o'r Saesneg. O ganlyniad, awgrymwyd fod dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg o fewn y rhwydweithiau cymdeithasol, yn creu mwy o gyfleoedd ac yn cynyddu'r posibilrwydd bod yr aelodau sy'n rhan o'r rhwydwaith yn defnyddio'r Gymraeg. Darganfuwyd fod dwysedd y Gymraeg yn uwch o fewn cylchrannau'r rhwydweithiau lle gwelwyd y Gymraeg ar yr aelwyd (2006: 263). O safbwynt yr ymchwil hwn felly, gellir ystyried fod patrymau iaith yr unigolion yn y sampl, gan gynnwys iaith yr aelwyd, yn chwarae rhan flaenllaw ym mhatrwm eu rhwydweithiau ac o ganlyniad eu graddfeydd o integreiddio. Bu'n bwysig felly fod cwestiynau'r holiadur meintiol yn adlewyrchu gofynion yr ymchwil uchod ac o ganlyniad, bu pwyslais yma ar ddefnydd iaith o fewn a thu allan i sefydliad addysgol y sampl.

I ddechrau, penderfynwyd gwneud cymhariaeth rhwng Prif Iaith y cartref ac Iaith a ddefnyddiwyd o fewn dosbarthiadau yn yr ysgol:

**Tabl 21: Prif Iaith y Cartref yn ôl Iaith y Dosbarth**

| **Iaith y Dosbarth** | **Prif Iaith y Cartref** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | | **Cyfanswm** | |
| **Cymraeg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 6 | 17.6% | 15 | 44.1% | 5 | 14.7% | 26 | 76.5% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 4 | 11.8% | 4 | 11.8% | 8 | 23.5% |
| **Saesneg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 1 | 9.1% | 0 | 0% | 1 | 9.1% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 8 | 72.7% | 2 | 18.2% | 10 | 90.9% |
| **Y Ddwy** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 2 | 20% | 0 | 0% | 2 | 20% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 7 | 70% | 1 | 10% | 8 | 80% |
| **Amrywio** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 4 | 80% | 1 | 20% | 5 | 100% |

Gwelwyd o'r tabl uchod fod gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy ardal ymchwil a phrif iaith y cartref yn ôl iaith y dosbarth. I ddechrau, dengys fod 44.1 y cant oedd yn nodi fod prif iaith eu cartref yn Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ym Mlaenau Ffestiniog o'i gymharu â 11.8 y cant yn Nhregaron. Gellir dadlau fod y ffigwr yma'n adlewyrchiad o adeiledd yr ysgol, hynny yw, gwelwyd yn Nhregaron fod y bobl ifanc hynny o aelwydydd Saesneg a gyda gallu ieithyddol cyfyngedig yn y Gymraeg yn cael eu didoli rhag y bobl ifanc hynny sy'n hanu o aelwydydd Cymraeg. Nid yw'r un patrwm yn wir ar gyfer Tregaron ac mae darpariaeth unfath yn cael ei gynnig yn yr ysgol yn yr ardal hon. O ganlyniad, gellir dadlau fod y gwahaniaeth yn y ffigwr sylweddol hwn yn dangos yr adeiledd yma, yn enwedig wrth ystyried fod 70 y cant o Dregaron y sampl yn nodi mai prif iaith eu cartrefi oedd Saesneg, hefyd yn nodi mai Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddiwyd o fewn eu dosbarthiadau. Mae hyn yn gymhariaeth sylweddol wrth weld mai 20 y cant oedd y ffigwr ar gyfer Blaenau Ffestiniog. O safbwynt cynlluniau iaith ar gyfer y dyfodol, gellir nodi fod y rhaniad a

soniwyd amdano uchod yn gymhorthydd ar gyfer y ddau grŵp iaith, ond gwelwyd yn ogystal ei fod yn effeithio'n sylweddol ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y dosbarth. Er mwyn dadansoddi ei effeithiau pellach, byddai'n gymorth ystyried prif iaith y cartref yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd tu allan i'r dosbarth.

**Tabl 22: Prif Iaith y cartref yn ôl Iaith a Ddefnyddiwyd tu Allan i'r Dosbarth Yn Yr Ysgol**

| **Iaith Tu Allan i'r Dosbarth Yn Yr Ysgol** | **Prif Iaith y Cartref** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | | **Cyfanswm** | |
| **Cymraeg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 4 | 33.3% | 5 | 41.7% | 3 | 25% | 12 | 100% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Saesneg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 2 | 6.7% | 8 | 26.7% | 1 | 3.3% | 11 | 36.7% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 16 | 53.3% | 3 | 10% | 19 | 63.3% |
| **Y Ddwy** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 5 | 35.7% | 1 | 7.1% | 6 | 42.9% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 5 | 35.7% | 3 | 21.4% | 8 | 57.1% |
| **Amrywio** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 2 | 50% | 2 | 50% | 4 | 50% |

O'r ffigyrau a gasglwyd, dengys fod 41.7 y cant o Flaenau Ffestiniog oedd yn nodi mai prif iaith eu cartref oedd Saesneg yn siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth yn yr ysgol. Mae'r ffigwr yma'n gymharol gyda 0 y cant yn Nhregaron. Dengys fod yr hyn a rhagfynegwyd uchod felly'n wir am y rhaniadau a wnaed o fewn yr ysgol. Mae'r strwythur a'r arferion yn yr ysgol yn Nhregaron yn amlwg yn cael effaith uniongyrchol ar yr iaith a siaradir tu allan i'r dosbarth, hynny yw, mae cyfanswm uchel o'r sampl yn nodi eu bod yn siarad Saesneg o fewn yr ystafell ddosbarth hefyd yn nodi fod yr un arfer yn amlwg tu allan. Nid yw'r ffigyrau yr un mor drawiadol ym Mlaenau Ffestiniog. Er mwyn ystyried parhad y patrwm, gwelwyd y ffigyrau ar gyfer prif iaith y cartref yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd gydag athrawon:

**Tabl 23: Prif Iaith y Cartref yn ôl Iaith a Ddefnyddiwyd Gydag Athrawon**

| Iaith A Ddefnyddiwyd Gydag Athrawon | Prif Iaith y Cartref | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | Saesneg | | Y Ddwy | | Cyfanswm | |
| **Cymraeg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 4 | 15.4% | 11 | 42.3% | 4 | 15.4% | 19 | 73.1% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 5 | 19.2% | 2 | 7.7% | 7 | 26.9% |
| **Saesneg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 6.7% | 2 | 13.3% | 0 | 0% | 3 | 20% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 9 | 60% | 3 | 20% | 12 | 80% |
| **Y Ddwy** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 5.9% | 5 | 29.4% | 1 | 5.9% | 7 | 41.2% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 7 | 41.2% | 3 | 17.6% | 10 | 58.8% |
| **Amrywio** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 2 | 100% | 0 | 0% | 2 | 100% |

Cadarnhawyd y sylwadau gyda'r ffigyrau uchod lle dengys fod ffigwr uwch o'r sampl ym Mlaenau Ffestiniog yn nodi mai prif iaith eu cartref yw Saesneg ond eu bod yn siarad Cymraeg gyda'u hathrawon gyda 42.3 y cant ym Mlaenau Ffestiniog o'i gymharu â 19.2 y cant yn Nhregaron. Dadleuwyd fod y ffigwr yma'n ddisgwylid, gan y byddai arwahanu disgyblion yn ôl ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn golygu y byddai'r mwyafrif o'r ddysgeidiaeth yn cael ei gynnal yn yr ieithoedd addas.

Er mwyn darganfod os yw'r tueddiadau uchod yn debygol o effeithio ar batrymau integreiddio pobl ifanc, ystyrir prif iaith y cartref y sampl, yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd gyda'u ffrindiau tu allan i'r ysgol:

**Tabl 24: Prif Iaith y Cartref yn ôl yr Iaith a Ddefnyddiwyd gyda Ffrindiau Tu Allan i'r Ysgol**

| Iaith Gyda Ffrindiau Tu Allan i'r Ysgol | Prif Iaith y Cartref | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | Saesneg | | Y Ddwy | | Cyfanswm | |
| **Cymraeg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 5 | 62.5% | 1 | 12.5% | 1 | 12.5% | 7 | 87.5% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 1 | 12.5% | 0 | 0% | 1 | 12.5% |
| **Saesneg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 2.7% | 10 | 27% | 2 | 5.4% | 13 | 35.1% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 18 | 48.6% | 6 | 16.2% | 24 | 64.9% |
| **Y Ddwy** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 6 | 54.5% | 2 | 18.2% | 8 | 72.7% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 2 | 18.2% | 1 | 9.1% | 3 | 27.5% |
| **Amrywio** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 1 | 25% | 0 | 0% | 1 | 25% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 2 | 50% | 1 | 25% | 3 | 70% |

Dengys fod lled amrywiaeth ymysg y canfyddiadau uchod ac mewn rhai achosion mae'r patrwm ar gyfer prif iaith y cartref a'r iaith a ddefnyddiwyd gyda ffrindiau tu allan i'r ysgol, yn debyg yn y ddwy ardal. Er enghraifft, gwelwyd fod niferoedd y sampl a nododd mai prif

iaith eu cartref yw Saesneg a'u bod yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau'r un fath gyda 12.5 y cant yn y ddwy ardal. Er hynny, gwelwyd gwahaniaeth sylweddol yn y niferoedd oedd yn nodi mai prif iaith eu cartref yw Saesneg a'u bod yn siarad Saesneg gyda'u ffrindiau tu allan i'r ysgol, gyda 2.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog, o'i gymharu â 48.6 y cant yn Nhregaron. Mae'r un duedd yn amlwg wrth ystyried y ffigwr oedd yn nodi eu bod yn siarad y ddwy iaith gyda'u ffrindiau gyda 54.5 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 18.2 y cant yn Nhregaron.

Gellir dadlau fod cynyddu'r gallu a'r defnydd o Gymraeg ymysg pobl ifanc wedi bod yn nod blaenllaw mewn ymrwymiadau cynllunio iaith yng Nghymru dros gyfnod maith. Cyn bod yr arfer o gynllunio iaith yn cael ei hadnabod, pwysleisiwyd fod sylw ac ymdrechion y rhai a fu'n hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg, wedi troi at ei ddefnydd ymysg pobl ifanc. Un o'r dogfennau craidd cyntaf y Bwrdd tuag at hyrwyddo'r ddarpariaeth yma yw 'Strategaeth yr Iaith Gymraeg,' (1995) lle nodwyd 4 prif her, sef i gynyddu niferoedd y bobl sy'n siarad Cymraeg; darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith; newid arferion defnyddio'r iaith ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir; atgyfnerthu'r iaith fel iaith gymunedol. Wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg felly, awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i bolisïau iaith debyg. Er hynny, gellir dadlau nad yw'r hyn a obeithiwyd amdano yn cael ei ymarfer yn ardal Tregaron ac nad yw elfennau o'r cynllunio ieithyddol a anelwyd at bobl ifanc yn eu cyrraedd. Gwelwyd enghreifftiau o hyn yn y canlyniadau uchod.

Fel gweithredwr o gymdeithasoli eilaidd, gellir dadlau fod amrywiaeth o glybiau i'r ieuenctid yn dylanwadu ar allu ieithyddol yn ogystal â gallu integreiddio pobl ifanc i'r gymuned y maent yn rhan ohoni. Fel sydd yn amlwg o waith Bwrdd Yr Iaith Gymraeg, mae aelodaeth i glybiau tu allan i'r ysgol a'r iaith a ddefnyddiwyd o fewn y clybiau yma'n arwyddocaol. Mae'r astudiaeth hon yn rhoi mewnwelediad i rwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, ac yn awgrymu bod gwahanol ffactorau yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, yn eu plith hyder y siaradwr, y defnydd a wneir o'r Gymraeg ar yr aelwyd, a defnydd addysgol a chymunedol. Tra'i bod yn ymddangos fod pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio fwy yn ieithyddol mewn rhai cymunedau, eto gwelir bod rhai eraill lle mae'r grŵpiau iaith yn bodoli ar wahân i'w gilydd. Mae strategaeth Bwrdd Yr Iaith ar waith ieuenctid yn cael ei chydnabod gan bolisi'r gwasanaeth ieuenctid Cenedlaethol, sydd yn

amlinellu pedair egwyddor sylfaenol i waith ieuenctid, hynny yw ei fod yn gyfranogol, grymusol, addysgol a mynegiannol.

Gwelwyd ymdrech i geisio sefydlu'r iaith Gymraeg fel yr iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc, er fel awgrymwyd gan Dr Tim Williams, mae'r diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymdeithas ehangach yn golygu nad yw ymdrechion yr ysgolion yn cael eu gwireddu. Awgrymwyd gan Gruffudd (2000: 174) mai 6.4 y cant o blant ysgolion cynradd oedd yn cael eu magu gyda'r Gymraeg fel iaith yr aelwyd, gyda 9.35 yn gallu ei siarad yn rhugl, yn aml o ganlyniad i ymdrechion yr ysgol, a 29.6 y cant yn ei siarad gyda rhuglder cyfyngedig (Gruffudd 2000:174).

Gwelwyd felly pwysigrwydd clybiau a grŵpiau a gynhaliwyd tu allan i'r ysgol a'r iaith a ddefnyddiwyd o fewn y clybiau yma. Byddai mewnwelediad i'r defnydd iaith yma'n fodd o ystyried iaith mewn cysylltiad â graddfeydd integreiddio'r bobl ifanc hynny o gartrefi ymfudol a rhoi ystyriaeth ychwanegol ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Isod mae'r ffigyrau yn dangos y ffigyrau aelodaeth i glwb yn ôl prif iaith y cartref:

**Tabl 25: Prif Iaith y Cartref yn ôl Aelodaeth i Glwb**

| **Aelod o Glwb** | **Prif Iaith y Cartref** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | |
| **Yndi** | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 5 | 16.7% | 5 | 16.7% | 3 | 10% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 11 | 36.7% | 6 | 20% |
| **Nac Ydi** | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 3.3% | 13 | 43.3% | 2 | 6.7% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 12 | 40% | 2 | 6.7% |

Gwelwyd ym Mlaenau Ffestiniog, fod 16.7 y cant o'r sampl a nodwyd fod prif iaith eu cartref yn Gymraeg yn aelod o glwb o'i gymharu â 0 y cant yn Nhregaron. Yn ogystal, gwelwyd fod niferoedd sylweddol uwch yn nodi nad ydynt yn aelod o glwb sydd yn nodi mai Saesneg yw prif iaith eu cartref, gyda 43.3 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 40 y cant yn Nhregaron. Er hynny, gellir dadlau fod nifer uwch o'r sampl yn Nhregaron, oedd yn nodi mai Saesneg yw prif iaith eu cartref yn aelod o glwb, gyda 36.7 y cant o'i gymharu â 16.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog. Er mwyn ystyried y canlyniadau yma mewn mwy o fanylder, byddai'n gymorth dadansoddi'r brif iaith a ddefnyddiwyd o fewn y clybiau yn ôl prif iaith y cartref.

**Tabl 26: Iaith y Clwb yn ôl Prif Iaith y Cartref (% Yn ôl Cyfanswm)**

| Iaith y Clwb | Prif Iaith y Cartref | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | Saesneg | | Y Ddwy | | Cyfanswm | |
| **Cymraeg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 4 | 40% | 2 | 20% | 3 | 30% | 9 | 90% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 1 | 10% | 0 | 0% | 1 | 10% |
| **Saesneg** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 1 | 12.5% | 0 | 0% | 1 | 12.5% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 6 | 75% | 1 | 12.5% | 7 | 87.5% |
| **Y Ddwy** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 9.1% | 2 | 18.2% | 0 | 0 | 3 | 27.3% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 4 | 36.4% | 4 | 36.4% | 8 | 72.7% |

Dengys fod 40 y cant oedd yn nodi mai Cymraeg yw prif iaith eu cartref ym Mlaenau Ffestiniog, hefyd yn siarad Cymraeg o fewn eu clybiau, mae hyn yn cymharu â 0 y cant yn Nhregaron. Yr hyn a ymddengys fel y ffigyrau mwyaf trawiadol er hynny yw'r niferoedd oedd yn nodi mai prif iaith eu cartref yw Saesneg, ond eu bod yn siarad y ddwy iaith mewn clybiau, gyda 18.2 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 36.4 y cant yn Nhregaron. Gellir dadlau fod hyn yn ffigwr calonogol o safbwynt cynlluniau iaith, gan ddengys fod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn annibynnol oddi wrth iaith y cartref. Ond ceir gwrthgyferbyniad yma'n ogystal, gyda 75 y cant o'r sampl yn Nhregaron, yn nodi mai Saesneg yw prif iaith y cartref yn ystyried Saesneg fel yr iaith drechol o fewn eu clybiau. Mae hyn yn cyferbynnu'n llym gyda'r ffigwr o 12.5 y cant ym Mlaenau Ffestiniog. Yn olynol gwelwyd gwahaniaethau pwysig rhwng Blaenau Ffestiniog a Thregaron. Ymddengys patrwm cyffredin o ddefnydd iaith a chenedligrwydd. Yn amlwg, mae llwyddiant Blaenau Ffestiniog i gynnal yr iaith Gymraeg mewn amryw o sefyllfaoedd cymdeithasol tu allan i'r sefydliad addysgol, yn amlycach nag yn Nhregaron a gellir dadlau y byddai hyn hefyd yn dylanwadu ar ddewis cenedl yr unigolion yn y sampl. Fel awgrymwyd gan Gruffudd (2010: 180) wrth ystyried llwyddiant polisïau iaith a chynlluniau iaith o safbwynt pobl ifanc, mae hi'n bwysig ystyried y newidynnau sydd yn anochel megis y duedd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd amrywiol a'r sefyllfaoedd sydd yn cyfrannu tuag at y Gymraeg neu'n ei rwystro. Yn ail, dylid goleubwyntio unrhyw anghysondebau rhwng y llwyddiant sy'n perthyn i ddysgeidiaeth iaith leiafrifol a'r defnydd a wnaed o'r iaith honno. Yn drydedd, dylid ystyried os yw trosglwyddo'r iaith drwy'r system addysg yn debygol o gynhyrchu rhieni sydd yn barod i drosglwyddo'r iaith hwnnw o fewn y cartref (Gruffudd 2000: 180).

Gwelwyd o'r dystiolaeth a'r patrymau uchod fod iaith yn ystyriaeth hanfodol wrth gynllunio astudiaeth ar allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg. Nid yw o reidrwydd yn effaith uniongyrchol ar ddyheadau a gobeithio'r bobl ifanc hynny, ond gellir dadlau fod ei bresenoldeb yn codi materion uwch ynghylch â graddfeydd integreiddio a hydered iaith.

**Dosbarth Cymdeithasol ac Ystyriaethau Ieithyddol**

Mae'r pwysigrwydd o ddadansoddiad dosbarth cymdeithasol y sampl yn amlwg o waith Jones (2010), hynny yw, gwelwyd fod ystyriaethau cymdeithasol megis dosbarth yn cael effaith uniongyrchol ar Allfudiaeth Pobl Ifanc o'r broydd Cymraeg. Mae'r uchod yn wir am unrhyw ardal sydd yn profi lefelau uchel o fudo ac allfudo yn benodol yn ei gyd-destun economaidd lle gwelwyd fod newidiadau poblogaeth yn ganlyniad anochel o newidiadau mewn strwythurau economaidd. Mae'r un patrwm yn wir o fewn y Broydd Gymraeg yn enwedig wrth ystyried yr ardaloedd ymchwil mewn golwg a'u statws fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. I bwrpas ystadegol ym Mhrydain, defnyddir graddfa'r Cofrestrydd cyffredinol ar gyfer diffinio dosbarth cymdeithasol a grŵpiau cymdeithasol economaidd. Er hynny, dadleuwyd nad lefel y sgil o fewn gwaith yw'r ffordd fwyaf cynhwysfawr o fesur mynediad i adnoddau cymdeithasol. Mae cyflwyniad yr ystadegau cenedlaethol wedi mynd i'r afael ar y dadleuon yma, ac o'r herwydd defnyddiwyd y dosbarthiad cymdeithasol economaidd (NS-SEC) sydd ystyried cysyniadau allweddol perthnasau ac amgylchiadau cyflogaeth yn hytrach na sgil. Mae astudiaeth gan Drinkwater a Blackaby yn ystyried mudo a phatrymau marchnad lafur, a gwelir mai pobl ifanc â chymwysterau addysg uchel yw'r rhai mwyaf tebygol o allfudo. Noda Drinkwater a Blackaby hefyd bod bygythiad i economïau lleol wrth i bobl ifanc cymwys symud allan, a phobl wedi ymddeol, sy'n anweithredol economaidd, symud i mewn. Mae eu sylwadau yn hyn o beth yn rhai a nodwyd gan fudiadau pwyso fel Cymuned, ymhlith eraill, sy'n pryderu am effaith y fewnfudiaeth hon ar ddyfodol y Gymraeg yn y Bröydd Cymraeg. Yn ogystal rhaid talu sylw i ailstrwythuro economaidd sydd wedi effeithio ar batrymau mewnfudiaeth, patrymau teuluol a chymunedol, ac felly'n anochel, effaith hynny ar atgynhyrchu'r Gymraeg. Mae trosolwg o'r patrymau dosbarth ymysg y sampl fel a ganlyn:

## Tabl 27: Gwaith Yn ôl Ardal (Tad)

| Gwaith Tad | Blaenau Ffestiniog N | % | Tregaron N | % |
|---|---|---|---|---|
| Swyddi Uwch Rheolaethol a Phroffesiynol | 2 | 6.9% | 2 | 6.5% |
| Swyddi Is Rheolaethol a Phroffesiynol | 2 | 6.9% | 2 | 6.5% |
| Swyddi Canolradd | 5 | 17.2% | 2 | 6.5% |
| Cyflogwyr Bychain a Gweithwyr Hunan gyfrif | 9 | 31% | 14 | 45.2% |
| Swyddi Is Goruchwyliol a Thechnegol | 2 | 6.9% | 3 | 9.7% |
| Swyddi Hanner Rheolaethol | 2 | 6.9% | 2 | 6.5% |
| Swydd Rheoli | 3 | 10.3% | 0 | 0% |
| Di-waith Tymor Hir | 3 | 10.3% | 3 | 9.7% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3.4% | 3 | 12.9% |

Dengys y canlyniadau uchod fod y patrwm dosbarth o fewn y ddwy ardal yn eithaf tebyg ac y gellir dadlau yn adlewyrchiad cynrychiolaidd o'r ardaloedd o dan sylw. Gwelwyd fod cyfraddau uwch o gyflogwyr bychain a gweithwyr hunan gyfrif yn Nhregaron nac ym Mlaenau Ffestiniog, gyda 31.0 y cant a 45.2 y cant. Mae ffigyrau tebyg o dadau oedd yn ddi-waith yn y ddwy ardal, gyda 10.3 y cant o'r sampl ym Mlaenau Ffestiniog, a 9.7 y cant yn Nhregaron. Ystyrir fod y ffigyrau yma'n rhannol adlewyrchiad o statws y ddwy gymuned fel rhai Cymunedau yn Gyntaf. Ymddengys fod cyfraddau uwch o'r sampl yn Nhregaron ddim yn sicr o swyddi eu tadau, sef 12.9 y cant sydd yn ystyriaeth ymchwil pellach a nodwedd y byddaf yn trafod mewn mwy o fanylder yn fy mhennod casgliadau.

## Tabl 28: Gwaith Yn ôl Ardal (Mam)

| Gwaith Mam | Blaenau Ffestiniog N | % | Tregaron N | % |
|---|---|---|---|---|
| Swyddi Uwch Rheolaethol a Phroffesiynol | 1 | 3.4% | 1 | 3.2% |
| Swyddi Is Rheolaethol a Phroffesiynol | 2 | 6.9% | 3 | 9.7% |
| Swyddi Canolradd | 5 | 17.2% | 9 | 29% |
| Cyflogwyr Bychain a Gweithwyr Hunan gyfrif | 3 | 10.3% | 1 | 3.2% |
| Swyddi Is Goruchwyliol a Thechnegol | 2 | 6.9% | 2 | 6.5% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swyddi Hanner Rheolaethol | 5 | 17.2% | 4 | 12.9% |
| Swydd Rheoli | 1 | 3.4% | 0 | 0% |
| Di-waith Tymor Hir | 8 | 27.6% | 9 | 29% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 6.9% | 2 | 6.5% |

Dengys tabl 24 gwaith y fam yn ôl ardal. Gwahanol iawn yw'r ffigyrau uchod o'i gymharu â gwaith y tad. I ddechrau, gellir dadlau fod cyfraddau llawer uwch o'r sampl yn nodi bod eu mamau yn ddi-waith yn dymor hir yn y ddwy ardal, gyda 27.6 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 29 y cant yn Nhregaron. Dengys yn ogystal fod cyfraddau uwch wedi eu crynodi yn y golofn 'swyddi hanner rheolaethol,' gyda 17.2 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 29 y cant yn Nhregaron. Wrth gyflwyno'r canlyniadau, gwelwyd patrwm tebyg yn y ddwy ardal sy'n awgrym o'r economïau lleol yn ogystal â phatrwm gwaith y rheini. I ddechrau, dengys fod cyfraddau uchel o wragedd tŷ ymysg y sampl yn ogystal â mamau sydd â swyddi ac elfen reolaethol isel. O safbwynt y tadau yn y ddwy ardal, gwelwyd dibyniaeth ar waith gan gyflogwyr bychain neu bwyslais ar waith hunan cyflogedig mewn ardaloedd lle nad oes economïau ffyniannus a llawn. Gwelwyd dirywiad y ddwy ardal yn glir yn yr achos hwn o safbwynt yr amrywiaeth a'r patrymau gwaith.

O safbwynt allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg felly, gellir dadlau nad yw arwyddocâd y canlyniadau'n amlwg. Ystyrir economïau'r ddwy ardal a'r dosbarthiad uchod o safbwynt y rhieni. I ddechrau, gwelwyd patrwm traddodiadol yn ei hanfod, gyda'r mwyafrif o dadau yn weithredol o fewn yr economi a chyfradd lawer uwch o famau yn anweithredol. Yn ogystal, gall cyfraddau uwch o weithwyr hunan gyfrif awgrymu marchnad boblogaidd i ymfudwyr gan ei fod yn fodd o fod yn weithredol heb orfod dysgu'r iaith nac ychwaith cydymffurfio â chanllawiau newydd. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau uchod yn cynnig ysgogiadau dros allfudiaeth y bobl ifanc o'r broydd, er y gellir dadlau fod y dirywiad yn economïau'r ddwy ardal, newidiadau o fewn y farchnad lafur, gan gynnwys dirywiad gwaith â llaw, oedd yn cymeriadu natur yr economïau, yn golygu newid gwedd i'r boblogaeth ifanc yno.

Mae'r canlyniadau uchod yn cyd-fynd â gwaith Jones (2010). Proses arall y mae Jones (2010) yn rhoi sylw arbennig i'r fewnfudiaeth a gafwyd i'r bröydd Cymraeg. Ym mhob

blwyddyn o 1981-2001, profodd Cymru fewnfudo positif o weddill y DU (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007), a dywed Jones fod agweddau megis harddwch naturiol y cefn gwlad a'r ardaloedd glan y môr yn ffactor yn hyn. Yn ogystal â'r broses gyffredinol o symudiad poblogaeth o ardaloedd trefol i'r cefn gwlad, dywed Jones fod a wnelo lleoliad Prifysgolion Bangor, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, ac ysbytai megis Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Gwili yng Nghaerfyrddin ac Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, â'r fewnfudiaeth a welwyd. Mae'n debygol bod cyfran uchel o staff proffesiynol y sefydliadau hyn yn fewnfudwyr, meddai, ac ar yr un pryd, mae'r prinder swyddi proffesiynol yn y bröydd Cymraeg yn debygol o fod y rheswm pam fod gymaint o siaradwyr Cymraeg yn mudo allan:

It is the significance of those latter sectors and the paucity of other opportunities within the traditionally Welsh-speaking area which is likely to be the cause too of the high out-migration rates seen among the non-Welsh speakers with professional and managerial occupations (Jones, 2010:129).

Mae tystiolaeth ychwanegol a geir o Gyfrifiad 2001 yn awgrymu bodolaeth yr hyn a elwir yn droell-ddringo i'w weld ym mhatrymau galwedigaethol y bröydd Cymraeg. Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2001, mae'n dangos bod y canrannau o siaradwyr Cymraeg sydd ymhlith y dosbarth o reolwyr ac uwch swyddogion yn y bröydd Cymraeg yn is nag y gellid disgwyl o ystyried canran y boblogaeth gyffredinol sy'n siarad Cymraeg: Ynys Môn - 44.4 y cant (61 y cant yn siarad Cymraeg); Gwynedd - 54.4 y cant (67 y cant yn siarad Cymraeg) a Cheredigion - 43.2 y cant (52 y cant yn siarad Cymraeg) (Jones, 2010 129). Gallai hyn fod yn ffactor bwysig wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg.

**Dyheadau a Gobeithion Ar Gyfer y Dyfodol**

Mae rhan olaf y dadansoddiad yn cynnwys ystyriaeth o obeithion a dyheadau'r bobl ifanc hynny a anwyd tu allan i Gymru neu i deuluoedd ymfudol, ar gyfer y dyfodol ac os yw'r rhesymau dros eu dewisiadau'n adlewyrchiad o'u cefndiroedd teuluol ac ieithyddol. Mae Bond, Charsley a Grundy (2008) wedi edrych ar '*Migration, Settlement and Identity among 'English' Graduates in Scotland,*' ac maent yn cynnig nifer o ganfyddiadau diddorol ar gyfer yr astudiaeth bresennol. Roedd gwaith Bond, Charsley a Grundy yn cynnwys 6 prosiect oedd yn mynd i'r afael â materion o ffrwythlondeb, heneiddio ac allfudiaeth, ac yn enwedig

allfudiaeth graddedigion. Un o'r prif resymau dros yr astudiaeth hon oedd bod yr Alban yn denu niferoedd sylweddol o fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU a thramor. Er enghraifft yn 2004/2005, roedd 26 y cant o fyfyrwyr addysg uwch yn yr Alban yn hanu o gartrefi tu allan i'r wlad. Mae'r myfyrwyr yma'n amlwg yn fudwyr cymwysedig â chymwysterau uchel, ond maent yn cael eu disgrifio fel grŵp "*Unsettled*" (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 1). Bu iddynt hwythau geisio ymchwilio dyheadau a gobeithion y bobl ifanc yma ar gyfer y dyfodol, yn debyg iawn i'r gwaith ymchwil hon.

I ddechrau felly, gwelwyd fod le yma i geisio darganfod beth oedd gobeithion addysg uwch pobl ifanc y sampl, fel y gwelwyd isod:

**Tabl 29: Dewisiadau Addysg Uwch yn ôl Ardal a Prif iaith y Cartref**

| **Addysg Uwch** | **Prif Iaith y Cartref** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | | **Cyfanswm** | |
| **Ie** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 33.3% | 0 | 0% | 1 | 33.3% | 2 | 66.7% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 33.3% | 1 | 33.3% |
| **Na** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 3 | 50% | 0 | 0% | 3 | 50% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 3 | 50% | 0 | 0% | 3 | 50% |
| **Ddim yn Siŵr** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 5 | 9.8% | 15 | 29.4% | 4 | 7.8% | 24 | 47.1% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 20 | 39.2% | 7 | 13.7% | 27 | 52.9% |

Nid yw'r canlyniadau uchod yn fy marn i yn dangos unrhyw ddarlun pendant. Yn benodol gellir dadlau ei fod yn adlewyrchiad o oed y sampl hynny yw nad yw'r bobl ifanc wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch eu haddysg uwch. Teimlaf fod y ffigwr o 0 y cant o'r unigolion yn y ddwy ardal sydd yn nodi mai Saesneg yw prif iaith y cartref ac sydd yn dweud nad ydynt am fynychu addysg uwch yn gamarweiniol a bod y ffigwr o 29.4 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 39.2 y cant yn Nhregaron yn awgrym aneglur o ddyfodol y bobl ifanc hynny. Fodd bynnag, gall y canlyniadau adlewyrchu'r newid gwedd mewn addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt gan gynnwys y costau byw uwch wedi cyplysu â ffioedd efryddol. Ond, o'r canlyniadau uchod, penderfynwyd gofyn cwestiynau ynghylch dewisiadau addysg uwch cyfrwng Cymraeg:

**Tabl 30: Dewisiadau addysg Uwch Yng Nghymru yn ôl Ardal a Prif Iaith y Cartref**

| **Rhesymau Dros Addysg Uwch Yng Nghymru** | **Prif Iaith y Cartref** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | **Saesneg** | | **Y Ddwy** | | **Cyfanswm** | |
| **Amherthnasol** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 5 | 9.4% | 16 | 30.2% | 4 | 7.5% | 25 | 47.2% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 22 | 41.5% | 6 | 11.3% | 28 | 52.8% |
| **Eisiau gadael Cymru** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 2 | 66.7% | 0 | 0% | 2 | 66.7% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 1 | 33.3% | 0 | 0% | 1 | 33.3% |
| **Cwrs Da** | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Blaenau Ffestiniog** | 1 | 25% | 0 | 0% | 1 | 25% | 2 | 50% |
| **Tregaron** | 0 | 0% | 0 | 0% | 2 | 50% | 2 | 50% |

Gwelwyd fod y ffigyrau uchod yn ategu'r hyn a welwyd o safbwynt dewisiadau addysg uwch, hynny yw bod yr unigolion yn y sampl yn ansicr o'u dewisiadau. Er hynny, dengys mai safon a chynnwys y cwrs ei hun yw'r ysgogiad pennaf yn hytrach na lleoliad, gyda 25 y cant o Flaenau Ffestiniog yn nodi mai prif iaith eu cartref yw Cymraeg yn gwneud dewisiadau addysg uwch ar gynnwys y cwrs yn hytrach na lleoliad a 25 y cant o Flaenau Ffestiniog a 50 y cant o Dregaron sydd yn nodi mai'r ddwy iaith a ddefnyddiwyd yn eu cartref yn nodi'r un rheswm. Mae'r canlyniadau yma'n dwy i gof gwaith Jones (2010) ar ddyheadau a thueddiadau disgyblion ôl 16 cyfrwng Cymraeg wrth ddewis addysg uwch. Dengys mai effaith cyfyng iawn gafodd cyfalaf diwylliannol Cymraeg ar y penderfyniad i ddewis addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Penderfynwyd peidio â chanolbwyntio'n ormodol ar ddewisiadau addysg uwch y sampl, gan nad pwyslais ar fudiad graddedigion a geir yma, ond yn hytrach ar y bobl ifanc hynny oedd ar fin gwneud y penderfyniadau sylfaenol hynny ar gyfer eu dyfodol. Edrychir felly ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar fan gyfanheddu pobl ifanc y sampl ym Mlaenau Ffestiniog.

### Tabl 31: Rhesymau'r Sy'n dylanwadu Ar Fan Gyfanheddu Pobl Ifanc Y Sampl

| **Rhesymau** | **Blaenau Ffestiniog** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Pwysig** Nifer | % | **Ddim yn Bwysig** Nifer | % |
| **Byw'n agos i Deulu** | 19 | 31.7% | 10 | 16.7% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 18 | 30% | 11 | 18.3% |
| **Byw'n agos At Bartner/Priod** | 13 | 21.7% | 16 | 26.7% |
| **Ennill Cyflog Da** | 20 | 33.3% | 9 | 15% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 17 | 28.3% | 12 | 20% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 18 | 30% | 11 | 18.3% |
| **Amgylchedd/Ardal Ddeniadol** | 16 | 26.7% | 13 | 21.7% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 14 | 23.3% | 15 | 25% |
| **Eisiau Aros Yng Nghymru** | 10 | 16.7% | 19 | 31.7% |
| **Eisiau Gadael Cymru** | 8 | 13.3% | 21 | 35% |

Mae pwysigrwydd y dewisiadau uchod yn amlwg yn gyffredin i bobl ifanc y sampl, hynny yw, gellir dadlau fod y niferoedd tebyg yn y ffactorau y maent yn credu oedd yn bwysig yn debyg ar draws y tabl. Er hynny, gwelwyd mai 16.7 y cant yn unig ym Mlaenau Ffestiniog oedd yn gweld y pwysigrwydd aros yng Nghymru. Dengys mai'r nodweddion pwysicaf yw byw'n agos at deulu (31.7 y cant) ac i ennill cyflog da (33.3 y cant) gyda byw'n agos at ffrindiau hefyd yn marcio'n uchel (30 y cant). Gwelwyd ysgogiadau economaidd yn ogystal â pherthnasedd yma, gyda'r cyfuniad yn amlwg yn bwysig. Gwelwyd y canlyniadau i Dregaron, isod:

**Tabl 32: Rhesymau'r Sy'n dylanwadu Ar Fan Gyfanheddu Pobl Ifanc Y Sampl (Tregaron)**

| **Rhesymau** | **Tregaron** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Pwysig** Nifer | % | **Ddim yn Bwysig** Nifer | % |
| **Byw'n agos i Deulu** | 24 | 40% | 7 | 11.7% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 25 | 41.7% | 6 | 10% |
| **Byw'n agos At Bartner/Priod** | 19 | 31.7% | 12 | 20% |
| **Ennill Cyflog Da** | 24 | 45% | 7 | 6.7% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 25 | 41.7% | 6 | 10% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 21 | 35% | 10 | 16.7% |
| **Amgylchedd/Ardal Ddeniadol** | 20 | 33.3% | 11 | 18.3% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 17 | 28.3% | 14 | 23.3% |
| **Eisiau Aros Yng Nghymru** | 6 | 10% | 25 | 41.7% |
| **Eisiau Gadael Cymru** | 11 | 18.3% | 20 | 33.3% |

Crynodeb uwch a welwyd mewn rhai mannau wrth ystyried Tregaron. I ddechrau, gwelwyd fod 45 y cant yn gweld fod ennill cyflog da yn un o'r rhesymau pwysicaf oedd yn dylanwadu ar eu man cyfanheddu. Yn dilyn â ffigwr agos yw gwneud gwaith gwobreuol (41.7 y cant), byw'n agos i ffrindiau (41.7 y cant) a byw'n agos i deulu (40 y cant). Gwelwyd er hynny,

mai 10% yn unig oedd yn ystyried byw yng Nghymru fel un o'r rhesymau pwysicaf. Unwaith eto, gwelwyd cyfuniad o resymau economaidd a pherthnasol yn perthyn i ddewisiadau'r sampl yn Nhregaron. Er bod y ffigyrau ychydig yn uwch ac yn llai gwasgaredig nag yn ffigyrau Blaenau Ffestiniog, gwelwyd mai'r un rhesymau sy'n eu hysgogi a'u dylanwadu.

Gofynnwyd i'r sampl yn y ddwy ardal ddewis y rheswm pennaf sy'n dylanwadu ar eu man cyfanheddu, dengys y canlyniadau isod:

**Tabl 33: Y Rheswm Pwysicaf Sy'n Dylanwadu Ar Bobl Ifanc yn ôl Ardal**

| **Rheswm Pwysicaf** | **Blaenau Ffestiniog** Nifer | % | **Tregaron** Nifer | % |
|---|---|---|---|---|
| **Byw'n agos i Deulu** | 6 | 10% | 12 | 20% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 4 | 6.7% | 4 | 6.7% |
| **Ennill Cyflog Da** | 8 | 13.3% | 8 | 13.3% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 7 | 11.7% | 5 | 8.3% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 2 | 3.3% | 1 | 1.7% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 0 | 0% | 1 | 1.7% |
| **Eisiau Aros yng Nghymru** | 1 | 1.7% | 0 | 0% |
| **Eisiau Gadel Cymru** | 1 | 1.7% | 0 | 0% |

Yn gyffredinol, gwelwyd yr un cymhellion ar draws y ddwy ardal, gyda 13.3 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a Thregaron yn nodi mai ennill cyflog da yw'r ffactor pwysicaf wrth ddewis man i gyfanheddu. Gwelwyd fod gwneud gwaith gwobrwyol hefyd yn uchel gyda 11.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 8.3 y cant yn Nhregaron. Er hynny, mae byw'n agos at deulu yn amlwg yn ddylanwad arwyddocaol o safbwynt penderfyniadau pobl ifanc, gyda 10% yn nodi ei bwysigrwydd ym Mlaenau Ffestiniog a 20 y cant yn Nhregaron. O safbwynt allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg felly, gwelwyd y gall y canlyniadau uchod fod yn nodwedd arwyddocaol wrth ystyried cymhellion y bobl ifanc hynny oedd yn dewis gadael. Fel ymfudwyr eu hunain, neu yn blant i ymfudwyr, maent yn debygol o gael teulu a theulu estynedig tu allan i'r fro Gymraeg y maent yn byw ynddi ac oherwydd y cysylltiadau yma, mae mudo o'u hardaloedd yn haws o ganlyniad i'r cysylltiadau hyn. Mae canlyniadau

cyfweliadau Bond Charlsley a Grundy yn awgrymu'r un darganfyddiadau yn eu gwaith ymchwil nhw. Darganfuwyd y gellir deall yr ysgogiadau ar gyfer allfudiaeth graddedigion yn nhermau 3 grŵp o ffactorau, sef (i) cyfleoedd, gyda chyflogaeth yn benodol, (ii) cysylltiadau a pherthnasau gyda'r, teulu, partneriaid a ffrindiau, ond yn ogystal y cysylltiadau a wnaed ar y teimlad o fod yn perthyn, perthnasau a hunaniaeth (iii) eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Mae pwyslais yma ar hunaniaeth yn benodol, a gwelwyd ei fod yn canolbwyntio ar fudwyr wedi eu geni yn Lloegr. Gellir dadlau ei fod yn trafod y cysyniad o hunaniaeth genedlaethol yn agosach i adref fel petai. Mae'r graddedigion yma'n cadw eu dinasyddiaeth flaenorol, ond yn gorfod ail feddwl eu hunaniaeth a sylweddoli nad yw dinasyddiaeth ffurfiol yn arf yn erbyn gwaharddiad anffurfiol a symbolaidd (2008: 4).

Fel dadansoddiad ymhellach, edrychir ar iaith y cartref yn ôl y rhesymau pwysicaf a ddewiswyd dros gyfanheddu mewn ardal benodol:

**Tabl 34: Y Rheswm Pwysicaf yn ôl Prif Iaith y Cartref (Blaenau Ffestiniog)**

| **Rheswm Pwysicaf** | **Prif Iaith y Cartref Blaenau Ffestiniog** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** Nifer | **%** | **Saesneg** Nifer | **%** | **Y Ddwy** Nifer | **%** |
| **Byw'n agos i Deulu** | 2 | 11.1% | 2 | 11.1% | 2 | 11.1% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 0 | 0% | 3 | 37.5% | 1 | 12.5% |
| **Ennill Cyflog Da** | 2 | 12.5% | 5 | 31.3% | 1 | 6.3% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 1 | 8.3% | 6 | 50% | 0 | 0% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 1 | 33.3% | 0 | 0% | 1 | 33.3% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Eisiau Aros Yng Nghymru** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Eisiau Gadael Cymru** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |

Gwelir amrywiaeth o ganlyniadau yn y tabl uchod, gyda gwahaniaeth sylweddol rhwng yr ymatebwyr oedd yn nodi mai prif iaith eu cartref yw'r Gymraeg a'r rhai oedd yn nodi Saesneg. Gwelwyd fod y ffigwr mwyaf o'r ymatebwyr ym Mlaenau Ffestiniog oedd yn nodi mai Saesneg oedd prif iaith y cartref yn credu mai gwneud gwaith gwobrwyol oedd y prif ysgogiad dros eu man cyfanheddu gyda 50 y cant. Mae'r ymatebwyr oedd wedi nodi'r Gymraeg yn credu mai cyfleoedd fywyd cymdeithasol da oedd y prif ysgogiad, sef 33.3 y cant. Mae'r un dewis yn gyffredin i'r rhai oedd yn nodi mai'r ddwy iaith a ddefnyddiwyd yn y cartref

**Tabl 35: Y Rheswm Pwysicaf yn ôl Prif Iaith y Cartref (Tregaron)**

| **Rheswm Pwysicaf** | **Prif Iaith y Cartref Tregaron** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** Nifer | % | **Saesneg** Nifer | % | **Y Ddwy** Nifer | % |
| **Byw'n agos i Deulu** | 0 | 0% | 8 | 44.4% | 4 | 22.2% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 0 | 0% | 4 | 50% | 0 | 0% |
| **Ennill Cyflog Da** | 0 | 0% | 7 | 43.8% | 1 | 12.5% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 0 | 0% | 3 | 43.8% | 2 | 6.3% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 0 | 0% | 2 | 25% | 0 | 16.7% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 0 | 0% | 0 | 33.3% | 0 | 0% |
| **Eisiau Aros Yng Nghymru** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Eisiau Gadael Cymru** | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |

Dengys y canlyniadau yn Nhregaron batrwm gwahanol. Gwelwyd mai'r prif ysgogiad i'r ymatebwyr oedd yn nodi mai Saesneg oedd prif iaith y cartref, yw byw'n agos at deulu, gyda 8 yn nodi hyn (44.4 y cant o'r cyfanswm) a gydag ennill cyflog da â ffigwr tebyg iawn o 7 (43.8 y cant o'r cyfanswm). Gwelwyd er hynny fod byw'n agos i ffrindiau a phwysigrwydd uchel gyda 4 ymatebwr, (50 y cant o'r cyfanswm), yn ogystal â gwneud gwaith gwobrwyol gyda 3 yn nodi (43.8 y cant o'r cyfanswm). Dengys nad yw aros neu adael Cymru yn ffactor

pwysig o gwbl yn y ddwy ardal ymchwil ac nad oedd ystyriaeth flaengar yn cael ei roi i'r rhesymau hyn.

Er mwyn creu cymhariaeth gynhwysfawr, edrychir ar y rheswm pwysicaf yn ôl man geni'r ymatebwr:

**Tabl 36: Rheswm Pwysicaf Yn ôl Man geni'r Ymatebwyr (Blaenau Ffestiniog)**

| Rheswm Pwysicaf | Man geni'r Ymatebwyr Blaenau Ffestiniog | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer Tu allan i Gymru | % | Nifer Yng Nghymru Ond Nid yn Lleol | % | Nifer Lleol | % |
| Byw'n agos i Deulu | 3 | 16.7% | 0 | 0% | 3 | 16.7% |
| Byw'n agos i Ffrindiau | 1 | 12.5% | 0 | 0% | 3 | 37.5% |
| Ennill Cyflog Da | 4 | 25% | 0 | 0% | 4 | 25% |
| Gwneud Gwaith Gwobrwyol | 3 | 25% | 2 | 16.7% | 2 | 16.7% |
| Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da | 1 | 33.3% | 0 | 0% | 1 | 33.3% |
| Lle Dai Fagu Plant | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 100% |
| Eisiau Aros Yng Nghymru | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 100% |
| Eisiau Gadael Cymru | 1 | 100% | 0 | 0% | 0 | 0% |

Dengys ym Mlaenau Ffestiniog mai'r rheswm pwysicaf oedd yn effeithio ar eu man gyfanheddu yn ôl yr ymatebwyr oedd wedi eu geni tu allan i Gymru oedd ennill cyflog da ac i wneud gwaith gwobrwyol. Er hynny, gwelwyd fod yr un nifer, sef 3, yn nodi ei bod hi'n bwysig byw yn agos i deulu (16.7 y cant o'r cyfanswm). O safbwynt yr ymatebwyr a gafodd eu geni'n lleol, gwelwyd pwysigrwydd ennill cyflog da, (4 o'r ymatebwyr), byw'n agos at deulu (3 o'r ymatebwyr) a byw'n agos at ffrindiau (3 o'r ymatebwyr). Ystyriwyd pwysigrwydd a dylanwad yr economi yn y fan yma unwaith eto. Mae ystyriaethau ariannol yn amlwg yn chwarae rhan flaenllaw yn eu penderfyniadau ar gyfer y dyfodol. Byddai'r ysgogiad yma'n ategu'r hyn a welwyd ym mhatrymau cyffredinol y broydd Cymraeg, lle tanlinellwyd yr angen i adael ar gyfer rhesymau gyrfaol ac economaidd. Fel awgrymwyd gan

Jones (2010): Mae'r bröydd Cymraeg yng ngorllewin a gogledd orllewin Cymru yn rhai difreintiedig, gyda'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth oddeutu 75 y cant o'r cyfartaledd Ewropeaidd. Yn ogystal, mae prisiau tai o fewn yr ardal Gymraeg yn parhau'n isel, hyd yn oed yn 2004 o'i gymharu â gweddill y DU, er bod ychydig o amrywiaethau. Mae'n bosib felly bod a wnelo ffactorau Strwythurol economaidd fwy â phenderfyniad yr unigolyn i fudo allan o'i ardal, yn hytrach na ffactorau ieithyddol neu ddiwylliannol.

Ymddengys fod yr un patrwm hefyd yn wir yn Nhregaron. Gyda 6 o'r ymatebwyr (37. Y cant o'r cyfanswm) o'r unigolion a anwyd tu allan i Gymru yn ystyried ennill cyflog da fel y rheswm pwysicaf dros ddewis eu man gyfanheddu. Gwelwyd fod byw yn agos i deulu hefyd yn ystyriaeth bwysig, gyda 5 o'r ymatebwyr a gafodd eu geni tu allan i Gymru yn nodi hyn fel y rheswm pwysicaf. Mae hyn yn cymharu â 4 (22.2 y cant o'r cyfanswm) a gafodd eu geni'n lleol sydd yn credu mai byw yn agos at deulu yw'r rheswm pwysicaf. Gwelwyd nad yw ennill cyflog da, yr un mor allweddol i'r bobl ifanc hynny a gafodd eu geni'n lleol, gyda 1 o'r ymatebwyr, neu 6.3 y cant o'r cyfanswm yn ei nodi fel y ffactor bwysicaf.

Fel y soniwyd eisoes, er nad yw iaith yn ymddangos fel ffactor pwysig wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg, gwelwyd ei effeithiau anuniongyrchol ar raddfeydd integreiddio'r bobl ifanc, byddai'n bwysig felly ystyried gallu ieithyddol yr ymatebwyr yn ôl ardal a'r rhesymau pwysicaf yn eu tyb nhw sy'n dylanwadu ar eu man gyfanheddu:

**Tabl 37: Rheswm Pwysicaf yn ôl Gallu Ieithyddol yr Ymatebwyr (Blaenau Ffestiniog) Yn ôl Canran**

| Rheswm Pwysicaf | Hyder Ieithyddol Y Sampl (Blaenau Ffestiniog) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hyderus Iawn % | Hyderus % | Ddim yn Hyderus Nac yn Bryderus % | Ddim yn Hyderus Iawn % | Ddim yn Hyderus o Gwbl % |
| **Byw'n agos i Deulu** | 22.2% | 0% | 5.6% | 5.6% | 0% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 0% | 25% | 0% | 25% | 0% |
| **Ennill Cyflog Da** | 25% | 25% | 0% | 0% | 0% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 0% | 25% | 25% | 0% | 0% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 66.7% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Eisiau Aros Yng Nghymru** | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Eisiau Gadael Cymru** | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |

Wrth ystyried y canlyniadau uchod yn ôl gwaith Williams, Roberts ac Issacs (1978) gwelwyd tystiolaeth yma o fodolaeth 'Spiralists,' a 'Burghers,' o fewn y broydd. Gwelwyd fod yr ymatebwyr hynny a nodwyd eu bod yn 'Hyderus iawn,' ac 'Yn Hyderus,' yn gweld pwysigrwydd ennill cyflog da o safbwynt eu dewisiadau ar gyfer y dyfodol (4 ymatebwr, 25 y cant o'r cyfanswm). Unwaith eto, ystyrir ffactorau economaidd fel ysgogiad cryf ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n dewis gadael eu broydd.

**Tabl 38: Rheswm Pwysicaf yn ôl Gallu Ieithyddol yr Ymatebwyr (Tregaron) Yn ôl Canran**

| Rheswm Pwysicaf | Hyder Ieithyddol Y Sampl (Tregaron) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Hyderus Iawn** | **Hyderus** | **Ddim yn Hyderus Nac yn Bryderus** | **Ddim yn Hyderus Iawn** | **Ddim yn Hyderus o Gwbl** |
| **Byw'n agos i Deulu** | 0% | 27.8% | 38.9% | 0% | 0% |
| **Byw'n agos i Ffrindiau** | 0% | 12.5% | 12.5 | 12.5% | 12.5% |
| **Ennill Cyflog Da** | 0% | 12.5% | 12.5% | 18.8% | 6.3% |
| **Gwneud Gwaith Gwobrwyol** | 0% | 25% | 8.3% | 0% | 8.3% |
| **Cyfleoedd Fywyd Cymdeithasol Da** | 66.7% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Lle Dai Fagu Plant** | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| **Eisiau Aros Yng Nghymru** | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Eisiau Gadael Cymru** | 0% | 0% | 0% | 22% | 43% |

Ystyriwyd yr un patrymau yn Nhregaron, er y gellir dadlau fod yr ymatebion yn y fan hyn ychydig mwy gwasgaredig. Gwelwyd canrannau tebyg oedd â hyfedredd iaith gref hefyd yn nodi'r pwysigrwydd o wneud gwaith gwobrwyol ac ennill cyflog da. Er hynny, gwelwyd fod ennill cyflog da â phwysigrwydd cynhwysfawr i'r rhan fwyaf o'r sampl yn Nhregaron, yn hytrach nac ei fod yn cael ei gyfyngu i un grŵp iaith yn unig.

Yn olaf, mae cwestiynau ar ddiwedd yr holiadur yn gofyn am ddyheadau wrth ystyried gadael neu aros yng Nghymru. Gwelwyd y canlyniadau yn ôl ardal isod.

**Tabl 39: Dyheadau'r Ymatebwyr i Adael Cymru yn ôl Ardal**

| Ardal | Eisiau Aros Yng Nghymru? | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sicr | | Ystyried | | Ddim Eisiau Aros | | Cyfanswm | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Blaenau Ffestiniog | 9 | 15% | 10 | 16.7% | 10 | 16.7% | 29 | 48.3% |
| Tregaron | 6 | 10% | 16 | 26.7% | 9 | 15% | 31 | 51.7% |
| **Cyfanswm** | **15** | **25%** | **26** | **43.3%** | **19** | **31.7%** | **60** | **100%** |

Gwelwyd tebygrwydd yn ffigyrau'r ddwy ardal uchod a gwelwyd niferoedd tebyg yn amlygu eu bod yn sicr, yn ystyried neu wedi penderfynu nad ydynt eisiau aros yng Nghymru. Dadleuwyd fod y niferoedd yn rhanedig iawn, gyda 15 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 10 y cant yn Nhregaron yn mynegi eu sicrwydd i aros yng Nghymru. Mae 16.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 26.7 y cant yn Nhregaron wedi nodi eu bod yn ystyried aros yng Nghymru, a 16.7 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 15 y cant yn Nhregaron yn nodi nad ydynt eisiau aros yng Nghymru. Er hynny, dadleuwyd mai sampl isel eu nifer oedd yn perthyn i'r gwaith ymchwil hwn ac wrth ystyried y niferoedd oedd yn sicr eu bod eisiau gadael Cymru, nid yw'r canlyniadau'n galonogol o safbwynt cynlluniau iaith. Mae hyn yn dwyn i gof gwaith Drinkwater a Blackaby lle nodwyd fod dros 80 y cant o'r boblogaeth oedd wedi eu geni tu allan i Gymru yn hanu o Loegr, gyda 20 y cant o'r unigolion a anwyd yng Nghymru bellach yn byw yn Lloegr (Blackaby a Drinkwater 2000:20)

Er mwyn ystyried y canlyniadau uchod ymhellach, gwelwyd cymhariaeth rhwng dyheadau'r sampl ifanc ar gyfer y dyfodol a man geni:

**Tabl 40: Dyheadau yn ôl Man Geni'r Ymatebwyr ac Ardal**

| Man Geni | Eisiau Aros Yng Nghymru? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sicr | | Ystyried Aros | | Ddim Eisiau Aros | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Tu Allan i Gymru** | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 3 | 10.7% | 4 | 14.3% | 6 | 21.4% |
| **Tregaron** | 3 | 10.7% | 7 | 2.5% | 5 | 17.9% |
| **Yng Nghymru Ond Nid yn Lleol** | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 0 | 0% | 1 | 14.3% | 1 | 14.3% |
| **Ardal2** | 1 | 14.3% | 3 | 42.9% | 1 | 14.3% |
| **Lleol** | | | | | | |
| **Blaenau Ffestiniog** | 6 | 24% | 5 | 20% | 3 | 12% |
| **Tregaron** | 2 | 8% | 6 | 24% | 3 | 12% |

Dengys y canlyniadau uchod fod niferoedd sylweddol uwch o'r sampl yn y ddwy ardal, oedd wedi eu geni tu allan i Gymru yn nodi nad oeddynt eisiau aros yng Nghymru, gyda 21.4 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 17.9 y cant yn Nhregaron. Mae'r canlyniadau hyn yn pwysleisio'r hyn a ddarganfuwyd gan Jones, hynny yw bod pobl ifanc a gafodd eu geni tu allan i Gymru â thebygrwydd pedair gwaith yn fwy o fudo o'r broydd na'u cyfoedion a gafodd eu geni yma (Jones 2010:134). Dadleuwyd er hynny, fod y gwahaniaethau mwyaf rhwng y ddwy ardal yn amlwg ymysg y rhai oedd wedi eu geni yn lleol ac oedd yn sicr eu bod eisiau aros yng Nghymru, gyda 24 y cant ym Mlaenau Ffestiniog ac 8 y cant yn Nhregaron. Gall y canlyniadau yma ategu'r sylwadau a wnaed yn gynt yn y bennod o safbwynt cenedligrwydd y sampl. Mae ffigwr llawer uwch o bobl ifanc a anwyd i deuluoedd ymfudol ym Mlaenau Ffestiniog, yn fwy parod i alw eu hunain yn 'Gymraeg,' yn hytrach na 'Saesneg,' neu 'Prydeinig,' nag yr ymatebwyr yn Nhregaron. O ganlyniad, gellir dadlau fod y ffigyrau yma'n adlewyrchiad o hyn.

**Cloi**

Yn y bennod ddadansoddol hon, cafwyd ymdriniaeth o'r dull meintiol grŵp sampl 15-18 oed ar y rhesymau dros allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg. Mae'r canfyddiadau meintiol a drafodwyd yn y bennod yn darparu sylfaen gadarn i'r ail ran o'r gwaith ymchwil i'r grŵp oedran hon sef y grŵpiau ffocws a drafodwyd mewn manylder yn y bennod nesaf. Trafodir graddfeydd integreiddio pobl ifanc yn ôl iaith yr aelwyd yn ogystal ag iaith eu sefydliad addysgol a'r iaith a ddefnyddwyd yn y gymuned. Trafodir i ba raddau mae iaith yn effeithio ar benderfyniad y bobl ifanc yma i aros neu i adael eu broydd. Cyfeiriwyd at bolisïau iaith o safbwynt pobl ifanc a'r gwaith maes o dan olwg, a chynlluniau iaith ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, mae ymgais yma i geisio darganfod cymhellion a dyheadau ymatebwyr y sampl ar gyfer y dyfodol gan greu sylfaen y bydd yn bosib adeiladu arni. Trafodir data ansoddol y grŵp sampl hwn yn y bennod ddadansoddol nesaf.

# Pennod 6

## Dadansoddiad Ansoddol, Grŵpiau Ffocws - Grŵp Sampl 15-18

### Cyflwyniad

Mae ail ran y data ar gyfer y sampl oed 15-18, yn ystyried y gwaith ansoddol a gyfyd o'r grŵpiau ffocws a gynhaliwyd yn yr ysgolion uwchradd yn y ddwy ardal benodedig. Trafodir prif themâu a ddatblygodd o'r gwaith maes sydd yn gofnod unigryw a byw o'r trafodaethau a sesiynau mynegi barn a gafwyd. Mae'r dadansoddiad yn ystyried 2 grŵp gwahaniaethol o bobl ifanc mewn 2 ardal wahanol, sef 1 grŵp sydd wedi eu geni a'u magu yn y bröydd yn ogystal â'u rhieni, ac 1 grŵp sydd naill ai wedi eu geni tu allan i'r fro y maent yn byw ynddi, neu eu bod yn blant i rieni ymfudol ac yn siarad Saesneg yn y cartref. Cynhaliwyd 2 grŵp ffocws ym mhob ardal i bwrpas cymhariaeth. Amcanir i werthuso profiadau pobl ifanc drwy sylwadau hwy hunain.

Mewn nifer o achosion, roedd y grŵpiau ffocws yn ategu canfyddiadau'r holiaduron yn enwedig sylwadau'n ymwneud â chenedligrwydd a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar genedligrwydd a hunaniaeth yr ymatebwyr. Roedd y grŵpiau ffocws hefyd o bwysigrwydd amlwg gan eu bod yn adeiladu ar waith yr arolwg drwy archwilio ymhellach a deall y perthnasedd rhwng allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg a chefndir teuluol.

### Cefndir y Grŵpiau Ffocws

Fel y soniwyd eisoes, pwrpas cynnal 2 grŵp ffocws ym mhob ardal oedd er mwyn ystyried y gymhariaeth rhwng y bobl ifanc hynny sydd, fel eu rhieni, yn enedigol i'r Fro a'r rhai sydd naill ai wedi eu geni tu allan i'r fro neu fod eu rhieni yn fudol i'r ardal. Mae cymhariaeth yma rhwng teuluoedd sydd yn siarad Cymraeg yn bennaf yn y cartref neu Saesneg yn bennaf. Roedd pob grŵp ffocws yn cynnwys 15 o ymatebwyr, nifer sydd ychydig yn uwch na'r arferiad ond oedd yn adlewyrchiad o'r amgylchedd yr ysgol a man cynnal y grŵpiau ffocws.

Yn ogystal, ni chafodd yr ymatebwyr eu dewis ar hap, hynny yw roedd yn rhaid iddynt weddu i ofynion y sampl. Roedd yr ysgol yn gyfrifol am y dasg hon, gan fod cefndir teuluol y disgyblion yn gwbl gyfrinachol. Roedd ymatebwyr y grŵpiau ffocws hefyd wedi llenwi'r holiaduron, felly mae cysondeb yma'n ogystal drwy gydol yr ymchwil.

Bydd dadansoddiad yma ar ffurf themâu yn ogystal â chyfuniad o'r dulliau amgen a ddefnyddiwyd er mwyn gweddu i'r sampl o bobl ifanc. Defnyddir nifer o ddulliau creadigol er mwyn sicrhau nad oedd y sampl yn colli diddordeb a bod cyfle iddynt yn ogystal i fynegi eu barn drwy amryw ddulliau. Drwy gyfuno ffurf cwestiynau, roedd modd sicrhau canlyniadau cynhwysfawr ac unigryw. Bydd dadansoddiad ychwanegol o'r cwestiynau hyn ar ddiwedd y dadansoddiad themâu.

**Grŵp Ffocws 1 - Blaenau Ffestiniog, Grŵp 1**

Mae'r grŵp yma'n cynnwys pymtheg o bobl ifanc sydd yn enedigol i'r fro yn ogystal â'u rhieni. Gwelwyd tabl o gynnwys y bobl ifanc isod:

**Tabl 41: Proffil yr Ymatebwyr Grŵp Ffocws Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog**

| Ardal | Enw | Rhyw | Prif Iaith y Cartref |
|---|---|---|---|
| 1 | Euron | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Jack | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Ffion | Benyw | Cymraeg |
| 1 | Gareth | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Leusa | Benyw | Cymraeg |
| 1 | Elis | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Cadi | Benyw | Cymraeg |
| 1 | Llinos | Benyw | Cymraeg |
| 1 | Ceri | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Catrin | Benyw | Cymraeg |
| 1 | Ioan | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Dafydd | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Marged | Benyw | Cymraeg |
| 1 | Gadran | Gwryw | Cymraeg |
| 1 | Erin | Benyw | Cymraeg |

Gwelwyd o'r tabl uchod fod niferoedd cyfartal o wrywod a benywod sef 8 o wrywod a 7 o fenywod, wedi cymryd rhan yn y grŵp ffocws. Gwelwyd yn ogystal mai prif iaith eu cartref oedd Cymraeg ac fel oedd yn ddisgwylid, cynhaliwyd y grŵp ffocws drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd y data a sylwadau'r grŵp ei gasglu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau creadigol yn ogystal ag ysgrifennu nodiadau traddodiadol. Paratowyd 6 poster oedd yn gofyn am eu cyfraniad i'r pwyntiau canlynol:

- Yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt yn y cartref
- Yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt yn gymdeithasol
- Nodweddion negyddol am eu hardaloedd
- Nodweddion cadarnhaol am eu hardaloedd
- Eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol
- Ydynt yn gobeithio aros yn eu bröydd

Cafodd pob grŵp nodiadau 'post-it,' a sticeri a bu gofyn iddynt nodi eu barn neu eu teimladau ar y pwnc. Yna cafwyd trafodaeth mewn grŵp ar y pynciau oedd fwyaf trawiadol iddynt. Cofnodwyd y sgyrsiau hyn ar ffurf nodiadau a thap recordio. Ar ddiwedd pob grŵp ffocws, roedd gofyn iddynt fynd i grŵpiau o 3 a thynnu lluniau a defnyddio geiriau sydd yn disgrifio eu hardal orau yn eu barn. Dyma ymarferiad oedd yn ceisio ychwanegu elfen o greadigrwydd i'r sesiwn ac i ysbarduno iddynt feddwl yn benodol am eu hardaloedd.

Nid oedd y grŵpiau yn rhai cymysg o ystyried cefndir ieithyddol eu teuluoedd, fel y soniwyd eisoes, felly roedd eu nodiadau cychwynnol o safbwynt iaith y teulu yn ymdebygu i'w gilydd. Amlygwyd ei bod hi'n naturiol iawn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref a chafodd defnydd o'r Saesneg ei gyfyngu i sefyllfaoedd pan yr oedd hynny'n galw. Roedd eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg felly'n amlwg wrth iddynt drafod ei bod hi'n annaturiol i droi i'r Saesneg gyda'u rhieni neu eu brawd/chwaer. Trosglwyddwyd yr ymdeimlad o falchder dros iaith a thros ardal, gyda 3 o'r 'nodiadau a ysgrifennwyd ganddynt yn cynnwys sloganau megis "Cymru am byth." Gellir dadlau fod elfen gref o falchder cenedlaethol yma. Er

hynny, wrth ystyried yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt yn gymdeithasol, roedd nifer ohonynt yn trafod siarad Saesneg gyda rhai o'u ffrindiau oedd yn gallu siarad Cymraeg a chafwyd un ymateb amlwg, oedd yn crynhoi'r hyn a amlygwyd gan y grŵp:

Dio'm yn naturiol i siarad Cymraeg efo rhywun sy'n dysgu Cymraeg, ma'n gallu bod yn awkward.

Cafwyd peth trafodaeth a chymhlethdod ar y safbwynt hwn, gyda'r rhan fwyaf o'r grŵp yn gytûn, nad oedd hi'n sefyllfa gymdeithasol gyffyrddus. Er hynny, roeddynt yn hybu'r ddysgeidiaeth o'r iaith ymysg mewnfudwyr, ac yn cydnabod ei fod yn hanfodol i siarad yr iaith os am fyw yn yr ardal a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Bu cydnabyddiaeth yma fod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o hanes yr ardal ac yn rhan o'u balchder hwythau tuag ato. Wrth drafod iaith ac iaith yr aelwyd, codwyd cwestiynau ynglŷn â hunaniaeth a chenedligrwydd.

Fel y soniwyd eisoes, yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, yw'r cysyniad o genedligrwydd a hunaniaeth. Gellir dadlau fod y pwnc o genedligrwydd yn bwnc llosg o'r cychwyn cyntaf, gyda nifer o'r ymatebwyr yn dadlau nad oes modd mesur hunaniaeth a rhai yn dadlau bod, drwy fesuryddion megis yr iaith y maent yn siarad gyda'u teuluoedd a thu allan i gylch y teulu, gyda ffrindiau. Roedd Cadi er hynny yn teimlo fod mesuryddion ehangach yn adlewyrchiad o'i chenedligrwydd ac o'i naratif, gwelwyd ei bod wedi ystyried yr hyn oedd a phwysigrwydd personol iddi:

Wel 'dwi'n gweld fy hun fel Cymraeg achos yn syml Cymraeg ydw i. Mae mam a dad yn siarad Cymraeg, Cymraeg ydi iaith gyntaf fi a 'dwi'n dewis siarad Cymraeg efo ffrindiau fi. Mae o mor syml â hynny. Ond ella os ti ddim yn gallu siarad Cymraeg fel pobl yn Caerdydd ond ti yn teimlo'n Gymraeg yna mae pethau fatha'r tîm rygbi a cefnogi Cymru yr un mor bwysig. Weithiau 'dwi'n meddwl mai teimlad ydi o a rwbath 'da chi'n dewis.

Gwelwyd o'r naratif uchod nad oedd Cadi yn gweld cenedligrwydd fel rhywbeth gosodedig, pendant. Dadleuwyd fod hi'n bosib ystyried eich hunain fel 'Cymraeg,' os ydych yn gallu siarad yr iaith ond hefyd fod ystyriaethau ymhellach megis y 'teimlad,' hynny. Mae naratif Cadi yn adlewyrchu dadansoddiad yr holiaduron meintiol pan ofynnwyd am genedligrwydd y sampl. Roedd nifer o'r bobl ifanc Blaenau Ffestiniog, er eu bod yn hanu o deuluoedd di-

Gymraeg, nad oedd yn enedigol i'r Fro, yn nodi eu bod o genedligrwydd Gymraeg. O ystyried naratif Cadi felly, mae'r 'teimlad,' hwn yn gyffredin i nifer o bobl ifanc. Er hynny, bu i naratif Cadi ysgogi dadl ymysg y grŵp, gyda barn o blaid ac yn erbyn ei gosodiad. Roedd y mwyafrif yn cytuno gyda Cadi nad oes modd mesur cenedligrwydd, a'i fod yn nodwedd ddewisol, yn eu barn nhw, yn hytrach na nodwedd osodedig enedigol. Bu naratif yma rhwng Catrin ac Ioan oedd yn amlygu eu teimladau o brofiad personol:

Mae gen i ffrind sydd wedi symud yma a gafodd hi lot fawr o 'stick,' am fod yn Saesneg. I ddechrau oedd hi eisiau bod yn Saesneg, ond nath hi newid meddwl hi achos doedd hi ddim yn teimlo'n Saesneg ddim mwy. Doedd o ddim yn lawer o hwyl iddi symud i fan hyn, achos mae pawb yn siarad Cymraeg, ond ar ôl iddi ddysgu, roedd hi'n teimlo'n well **(Catrin)**

Ia, dwi'n nabod rhywun fel na oedd yn meddwl mai Saesneg oedden nhw ond ar ôl symud i fan hyn, nath petha just newid...fel na! **(Ioan)**

Er bod pwysigrwydd amlwg i'r naratif uchod, mae'r ffurf gyferbyniol a syml y maent yn trafod hunaniaeth yn adlewyrchiad o'r cyfnod cymhleth hwnnw o lencyndod lle ystyried fod pobl ifanc yn profi newidiadau personol yn eu teimladau a'u hunaniaethau personol yn ogystal. Wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg felly, mae'r naratif uchod yn pwysleisio'r rhesymau pam y dewiswyd astudio pobl ifanc o oed 15-18, sydd ar fin gwneud penderfyniadau pwysig ar gyfer y dyfodol, gan y gellir dadlau eu bod yn ceisio sefydlu'r hyn a welwyd fel eu hunaniaeth bersonol. Gellir dadlau fod eu penderfyniadau'n adlewyrchiad o hyn.

Roedd y grŵp yn gytûn nad oedd y cysyniad o genedligrwydd â un dimensiwn, yn hytrach, dadleuwyd fod nifer o wahanol ffactorau oedd yn cyfrannu tuag ato yn enwedig wrth ystyried cenedligrwydd a hunaniaeth. Roedd fy rôl i fel hwylusydd hefyd yn bwysig yn yr achos hwn, gan fy mod yn ymwybodol na ddylai fy marn i effeithio ar gyfeiriad nac ychwaith gynnwys y sgwrs. Er hynny, bu'n bwysig i mi godi'r ymwybyddiaeth o'r pwnc o hunaniaeth, gan ei fod yn gysylltiedig gyda llif y sgwrs. Bu i naratif Gadran a Jack danlinellu'r gwahaniaeth:

Ond os 'di rhywun yn teimlo'n 'Gymraeg,' neu 'Saesneg,' neu beth bynnag, dyna ydyn nhw ynde. Alli di ddim bod yn Gymraeg os di mam a dad chdi'n Saesneg na? Ta alli di? **(Gadran)**

Dwi'm yn gwbod, ond dwi'n gwbod alli di deimlo fel rwbath, fel os ti'n mynd i'r Millennium Stadium neu wbath a ti'n byw yn Gymru ond yn dod o Loegr. Ti'n teimlo'n Gymraeg yn dwyt? **(Jack)**

Gwelir o'r disgwrs hwn bod peth ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a ystyrir wrth genedligrwydd a hunaniaeth. Er hynny, mae hi'n amlwg wrth y trafodaethau uchod fod y pwnc yn un dryslyd a chymhleth hyd yn oed iddynt hwythau. Maent yn ymwybodol nad yw'r pwnc yn ddu nac yn wyn, ac o ganlyniad, mae eu teimladau yn adlewyrchiad o hyn.

Gofynnais iddynt i ba genedligrwydd yr oeddynt yn teimlo eu bod yn perthyn, a bu i bob un ohonynt nodi 'Cymraeg,' yn ddiffuant. Bu trafodaeth wedyn am y rhesymau pam yr oeddynt yn teimlo hyn ar wahân i unrhyw genedligrwydd arall. Bu i bob un ohonynt ddweud oherwydd eu bod wedi eu geni yng Nghymru a bod eu rhieni a'u teuluoedd yn Gymraeg. Credodd Elis nad oes unrhyw genedligrwydd arall posib iddo, gan fod pob un arall yn 'wrth Gymraeg,' yn ei farn ef, er iddo nodi ei fod yn deall pam fod bod yn 'Brydeinig,' hefyd yn gallu apelio, yn enwedig wrth ystyried gemau rhyngwladol ac yn y blaen. Er hynny, roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn gytûn nad yw hi'n bosib teimlo'n 'Brydeinig,' wrth fyw yng Nghymru, gan fod Cymru'n teimlo ar wahân i bob man arall. Amlygwyd yn benodol fod Blaenau Ffestiniog yn teimlo'n bell iawn o bob man arall oherwydd ei fan daearyddol yn ogystal â'r gymuned sydd yno. Roedd Cadi o'r farn bod cymuned Blaenau Ffestiniog yn wahanol iawn i'r cymunedau o'u hamgylch. Roedd hyn yn cynnwys ardaloedd megis Penrhyndeudraeth a Porthmadog sydd prin 10 milltir i ffwrdd. Yng ngeiriau Cadi:

Os ti'n dod o Blaena, hogyn neu hogan Blaena wyt ti. Fyddi di byth yn ddim byd arall. Y gymuned yma yw'r peth pwysicaf, ac mae o'n wahanol iawn i bob man arall yn y byd i gyd sŵn i'n ddeud!

Cafodd y pwynt uchod ei gadarnhau gan weddill y grŵp, a bu consensws cyffredinol ynglŷn â bod yn perthyn i'r gymuned hon, hynny yw, mae bod yn perthyn iddo'n golygu eu bod yn cael y gorau ohono a'i fod yn nodwedd tu hwnt i fyw mewn cymuned Gymraeg. Bu cytundeb mai'r 'llechi,' oedd y rheswm dros hyn. Gofynnais iddynt ymhelaethu a chefais farn wahanol gan yr ymatebwyr er bu dealltwriaeth lwyr rhwng yr hyn oedd yn cael ei ddweud gan bob un. Yn dilyn o hyn, sylweddolais eu bod yn ystyried eu cymuned fel un unigryw dros ben ac nad yw'n ardal hawdd i fyw ynddi o ganlyniad i ddiffyg yn y diwydiant llechi a diffyg yn yr

economi leol yn gyffredinol. Er hynny, roeddynt yn teimlo mai treftadaeth y llechi oedd yn eu cadw yma ac yn ogystal yn eu gyrru i ffwrdd gan nad yw'n rhoi dim darpariaeth economaidd iddynt nac ychwaith i'w teuluoedd. Yng ngeiriau Elis:

You love to hate it. Mae o rel love hate relationship efo Blaenau a byw yma.

O ganlyniad, darganfuwyd fod nifer o syniadau a ffactorau ynghlwm wrth genedligrwydd Grŵp 1 ym Mlaenau Ffestiniog. Roeddynt yn ymwybodol fod yr hyn a olygir wrth fod yn 'Gymraeg,' yn gymhleth yn ogystal â rhywbeth newidiol yn hytrach na gosodedig. Er hynny, teimlais fod eu cenedligrwydd yn cael ei effeithio mwy mwy gan yr ardal yr oeddynt yn byw ynddi, a'i fod yn effeithio ar y ffyrdd yr oeddynt yn dehongli eu hunaniaeth. Roedd y parch sylfaenol yr oeddynt yn teimlo at eu hardal yn amlwg yn ogystal â llethol a'i fod yn ychwanegu at yr hyn yr oeddynt yn credu yw 'bod yn Gymraeg.'

Gellir dadlau fod y trafodaethau uchod yn ategu elfennau o'r dadansoddiad holiaduron. Roedd y dewis o genedligrwydd i'r ymatebion yn cael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau, nid iaith a chefndir teuluol yn unig, ond gan yr ardal a threftadaeth yr ardal yn benodol. Mae barn y grŵp uchod yn dwyn i gof gwaith Emmett (1982) lle ystyrir yr un farn a'r un agweddau tuag at yr ardal a chenedligrwydd. Nid yw'r elfen gymunedol yn ffactor mae Emmett wedi gallu anwybyddu hyd yn oed pan ystyrir fod yr ardal yn "*perceived as not only a dying town but irremediably ugly, backward and in no sense a fashionable place to live*"(Emmett 1982: 185).

Gellir dadlau fod y sampl yn falch iawn o'u hardal ac o'r herwydd wedi sefydlu eu hunaniaeth a'u diwylliant eu hunain, sydd yn eu heffeithio'n gryf. Mae hyn yn ffactor allweddol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg.

Roedd y drafodaeth ar genedligrwydd wedi ein harwain i'r pwnc nesaf oedd â phwysigrwydd amlwg i'r astudiaeth, sef proffil o'r ardaloedd eu hunain. Erbyn gorffen y drafodaeth ar genedligrwydd, teimlais y byddai o ddiddordeb ystyried dull newydd o ofyn cwestiynau ac ennyn barn. Roedd ceisio am farn yr ymatebwyr am eu hardal yn bwysig, gan ei fod yn rhoi

mewnwelediad i ni o'r gymuned a'r bywyd yn y fro honno o farn y bobl ifanc hynny sydd yn rhan ohoni. O ganlyniad, penderfynwyd gofyn y cwestiwn ar ffurf diagramau a thynnu llun, lle gofynnwyd i'r ymatebwyr gyfuno fel grŵp i dynnu lluniau ac i ysgrifennu rhestr o'r nodweddion negyddol a phositif o'u hardal. Roedd gofyn wedyn i'r grŵp adrodd yn ôl gan esbonio'r lluniau a'r diagramau a'r hyn yr oeddynt yn ei olygu iddynt hwy. Bu i'r sesiwn ysgogi trafodaeth a mynegi barn drawiadol. Gwelwyd y darluniau isod:

**Ffigwr 9: Darlun o'r Ffactorau Negyddol a Phositif sydd yn Rhan o Blaenau Ffestiniog, yn ôl Grŵp 1.**




Yr hyn a ystyriwyd fel y nodwedd fwyaf trawiadol, yn fy marn i, yw nifer y nodweddion negyddol sydd yn y darlun ac sy'n effeithio ar fywyd pob dydd y bobl ifanc yma. I ddechrau, ystyriwyd y broblem cyffuriau sydd wedi dod yn rhan annatod o fywyd gwledig yn y

blynyddoedd diwethaf. Dadleuwyd fod ffactorau megis diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ac felly cyfleoedd hamdden, dirywiad mewn economi a chysylltiadau cymdeithasol yn cyfrannu tuag at y duedd hon. Er hynny, gwelwyd yn yr achos hwn ei fod yn goleubwyntio tlodi'r ardal, gan gynnwys y newidiadau yn yr economi ac yn anochel ei diwylliant, diffyg cyfleoedd yn gyffredinol ac anfodlondeb i gyd yn cyfrannu at y problemau cymdeithasol uchod. Gwelir eu bod yn cael eu hystyried fel agweddau negyddol iawn o'r ardal ac yn benodol yr effaith negyddol y mae'n cael ar bobl ifanc y sampl. Mae'r darluniau yn ategu statws Blaenau Ffestiniog, fel ardal Cymunedau yn Gyntaf, a gellir dadlau fod ei effeithiau yn rhai pellgyrhaeddol i boblogaeth ifanc yr ardal. Mae hyn yn amlwg yn naratif y sampl:

Ma na lwyth o 'druggies,' yma wan, i gyd yn byw yn y fflatia neu Pengwndwn.[41] Ma nhw'n rhoi enw drwg i Blaenau **(Llinos)**

Ddim just hynny, ond ma nhw'n horribl ac yn neud y lle'n drist. Mae o'n neud i chdi isio symud o ma. Dwi'n nabod llwyth o bobl sydd wedi gadael yr ysgol ac sydd heb ddim byd i neud a just di dechrau ar drugs. Mae o mor drist, ond mae o'n digwydd lot yma **(Dafydd)**

Mae tystiolaeth yma fod y problemau cymdeithasol sy'n amlwg ym Mlaenau Ffestiniog yn effeithio ar ddyheadau pobl ifanc yr ardal i fudo, fel yr amlygwyd gan Elis:

Mae o'n neud chdi eisiau mynd, eisiau symud o ma, does na ddim byd yma i ni, nac ychwaith i neb ein hoed ni, heblaw'r youth club. Does dim bysiau call a dim swyddi. Dwi'n nabod lot sydd eisiau aros yma ond sydd ddim yn gallu. Does na just ddim byd yma.

Mae'r anfodlondeb yma a'r diffyg amlwg mewn cyfleoedd yn bwnc a gafodd ei drafod yn gyfnod sylweddol yn y grŵp ffocws. Roedd y diffyg, nid yn unig yn y swyddi, ond yn y drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y swyddi, yn farn gyffredin, oedd yn anochel, yn effeithio ar ddyheadau'r grŵp i adael eu bro. Roedd y diffyg mewn cyfleoedd a gweithgareddau hamdden hefyd yn amlwg o'u darluniau. Roedd consensws cyffredin nad oedd hyn yn rhywbeth ffafriol nac ychwaith yn rhywbeth dewisol, ond yn ffaith annatod o fyw yn yr ardal.

Dydi neb eisiau gadael mewn gwirionedd, ond does dim dewis arall nagoes. **(Elis)**

---

[41] 'Y fflatia,' a 'Pengwndwn,' ardaloedd o dai cymdeithasol ym Mlaenau Ffestiniog

Gwelwyd yma felly, nad cefndir teuluol sydd yn anorfod yn effeithio ar ddewisiadau pobl ifanc i aros neu i adael eu bröydd. Dengys fod ffactorau economaidd tu hwnt i unrhyw ffactorau eraill mewn nifer o achosion. Mae hyn yn dwyn i gof gwaith Jones (2010) lle gwelwyd bod a wnelo ffactorau strwythurol economaidd fwy â phenderfyniad yr unigolyn i fudo allan o'i ardal, yn hytrach na ffactorau ieithyddol neu ddiwylliannol.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, mae Drinkwater a Blackaby (2004) yn dangos fod y bobl sy'n allfudo o Gymru yn ieuengach a chanddynt fwy o gymwysterau addysgol na'r rheiny sy'n mewnfudo i Gymru. Yn ogystal â'r darluniau oedd yn portreadu'r nodweddion negyddol, gwelwyd fod awgrym yma o'r dreftadaeth yn ogystal â thraddodiad, gyda'r grŵp wedi tynnu llun defaid, sydd fel yr esboniwyd yn rhan annatod wrth ystyried Blaenau Ffestiniog. Mae enghraifft yma hefyd o'r gymuned y maent yn rhan ohoni a'r perthnasau cymdeithasol sydd o bwysigrwydd iddynt, gan gynnwys teulu a ffrindiau. Fel awgrymwyd gan y grŵp:

Does neb eisiau gadael lle mae nhw wedi tyfu i fyny nagoes. Sa pob dim yma sa ni'n aros, ond dio ddim fel na yn fama **(Leusa)**

Ar ddiwedd y grŵp ffocws, penderfynwyd trafod gobeithion a dyheadau'r grŵp ar gyfer y dyfodol a'r ffactorau sy'n effeithio ar y dyfodol hwnnw. I ddechrau, gellir dadlau fod y rhan fwyaf o'r grŵp wedi mynegi'r dyhead i aros yn eu bro pe byddai hynny'n bosib. Nid oedd llawer ohonynt eisiau gadael eu teuluoedd, oedd i gyd yn enedigol i'r Fro, neu ychydig filltiroedd i ffwrdd. Fel y gwelwyd o'r darluniau uchod, roedd rhai yn cydnabod harddwch amgylcheddol yr ardal a'r gymuned yr oeddynt yn rhan ohoni, ac eraill yn pwysleisio pwysigrwydd y natur gymunedol a'r ffaith fod 'pawb yn adnabod pawb.' Er hynny, roedd y rhan fwyaf o'r grŵp hefyd yn cydnabod na fyddai'n bosib byw a gweithio o fewn yr un Fro am byth os am lwyddo a llewyrchu, fel sydd yn amlwg o'r naratif rhwng Marged ac Ioan:

Ti methu just aros yma nag wyt a gobeithio am y gorau. Be ti am wneud, just cael plant a ddim cael dim cymwysterau? Dydi'r byd ddim yn gweithio fel na ddim mwy. 'Dio ddim fel oedd o. Mae pawb yn deud fod gyno ni mwy o ddewis dyddia yma, ond dwi'm yn gweld o fel na, mae gyno ni lai o ddewis, ma'n rhaid i ni adael **(Marged)**

Mae Marged yn iawn. Swn i licio dim yn fwy nac i just aros yma a cal teulu rhywbryd. Ond dwi'n gwbod fod rhaid i fi fynd i ffwrdd i coleg ac wedyn i gal job call. Dio ddim yn deg a dwi'm yn meddwl fod neb yn dallt go iawn **(Ioan)**

Er hynny, roedd nifer o'r grŵp hefyd yn awyddus i adael eu bro, gan nodi ei fod yn rhy 'myglyd,' yma, fel sydd yn amlwg rhwng naratif Llinos ac Euron:

Mae na rhan mawr ohonai just isio mynd o ma eniwe a gweld y byd. Alli di ddim just bod yn styc yn fan hyn am byth. Mae mwy i fywyd. Dwisio gweld y byd a cael mwy o gyfleon a bywyd cymdeithasol gwell. Dwi eisiau dod yn ôl, ond dwi'n meddwl ei fod o'n bwysig i mi fynd **(Llinos)**

A fi fyd. Dwi ddim eisiau troi rownd un diwrnod a sylweddoli fod bywyd fi i gyd wedi bod ym Mlaenau. Da chi'n gwybod be dwi'n feddwl? **(Euron)**

Gwelwyd felly'r hyn sydd yn gyffredin ym mywyd nifer o bobl ifanc, sef y dyhead i fynd ac i weld. Yr hyn sydd yn amlwg yma er hynny, ydi fod pob un o'r grŵp wedi mynegi'r dyhead i ddod yn ôl i fyw yn eu bröydd ar ôl cael blas o'r hyn sydd tu allan. Bu'n fewnwelediad i mi o'r hyn sydd yn gyffredin ym mywydau pobl ifanc, ac er bod trafodaeth drawiadol amlwg yma ar genedligrwydd ac ardal, gwelwyd yn yr achos hwn, fod y dyhead i adael yn seiliedig ar economi a chyfleoedd personol yn gyffredinol.

**Blaenau Ffestiniog, Grŵp 2**

Dilynwyd yr un drefn a'r patrwm ar gyfer grŵp ffocws rhif 2 ym Mlaenau Ffestiniog. Gofynnwyd yr un cwestiynau trafodaeth a bu'r dull o'u hateb yn unfath drwy sgwrs anffurfiol a'r dull o dynnu lluniau fel grŵp. Mae cyfansoddiad y grŵp fel a ganlyn[42]

[42] Noder mai enwau ffug a ddefnyddir drwy'r bennod

**Tabl 42: Cynnwys Grŵp Ffocws 2, Blaenau Ffestiniog**

| Ardal | Enw | Rhyw | Prif Iaith y Cartref |
|---|---|---|---|
| 1 | Daniel | Gwryw | Saesneg |
| 1 | Emma | Benyw | Saesneg |
| 1 | David | Gwryw | Saesneg |
| 1 | John | Gwryw | Saesneg |
| 1 | Owain | Gwryw | Y Ddwy |
| 1 | Carol | Benyw | Saesneg |
| 1 | Kara | Benyw | Y Ddwy |
| 1 | Sam | Gwryw | Saesneg |
| 1 | Gethin | Gwryw | Y Ddwy |
| 1 | Leah | Benyw | Saesneg |
| 1 | Jenny | Benyw | Saesneg |
| 1 | Tomi | Gwryw | Saesneg |
| 1 | Tabitha | Benyw | Y Ddwy |
| 1 | Sarah | Benyw | Saesneg |
| 1 | Joe | Gwryw | Saesneg |

Gwelwyd o'r tabl uchod fod niferoedd y gwrywod a'r benywod yn gyfartal gyda 8 o fechgyn a 7 o ferched, a bod prif iaith y cartref yn gyfuniad o Saesneg a defnydd o'r ddwy iaith. Fel y soniwyd eisoes, mae'r ail grŵp ffocws yn cynnwys pobl ifanc sydd naill ai wedi eu geni tu allan i'r Fro, neu yn blant i deuluoedd ymfudol. Yn ôl dymuniad y grŵp, cafodd y grŵp ei gynnal drwy'r Gymraeg.

Roedd cefndir ieithyddol y grŵp uchod yn gwahaniaethu'n fawr o'r grŵp cyntaf, gyda nifer ohonynt wedi eu geni tu allan i'r fro a'r gweddill yn perthyn i deuluoedd ymfudol. Bu'r grŵp yn ffodus, gan eu bod wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd a amlygwyd na chafwyd anawsterau ganddynt i gyflawni eu gwaith ysgol drwy'r Gymraeg. Saesneg oedd prif iaith y cartref yn y grŵp, a gyda'r rhai a nodwyd eu bod yn siarad y ddwy iaith, amlygwyd ei fod fwy gyda brawd a chwaer yn hytrach na rhieni. Yn gymdeithasol, awgrymwyd fod eu

defnydd iaith yn gymysg iawn, gyda rhai yn siarad Saesneg gyda'u ffrindiau gorau, ac eraill yn defnyddio cymysgedd o'r ddwy. Pan ofynnwyd iddynt nodi pam y defnydd hwn, awgrymwyd unwaith eto ei fod yn gysylltiedig gyda theimlo'n gyfforddus gyda rhai pobl, mewn sefyllfaoedd cymdeithasol penodol. Unwaith yn rhagor, bu i'r grŵp arwain y cwestiwn tuag at y cysyniad o'u hunaniaeth a'u cenedligrwydd.

Ystyriwyd y cwestiwn o genedligrwydd ar gychwyn ar ôl trafodaeth ar iaith y teulu. Roedd ymateb y rhan fwyaf o'r grŵp yn annisgwyl, gan i'r mwyafrif ohonynt nodi eu bod o genedligrwydd Cymraeg. Nododd pedwar ohonynt eu bod o genedligrwydd Prydeinig neu Saesneg. Bu mynegi barn sylweddol ar y cwestiwn uchod:

Sut alli di ddeud dy fod di'n Saesneg pan wyt ti'n siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru? Dwi ddim yn dallt. Os ti di byw rhan fwyaf o dy fywyd yma ac efo ffrindiau Cymraeg ac yn byw mewn cymuned Cymraeg, dwyt ti ddim yn gallu bod yn Saesneg nag wyt. Mi wyt ti yn beth wyt ti'n teimlo. Cymraeg ydw i a Cymraeg fydda i, hyd yn oed os dwi'n symud o ma **(Sam)**

Ond dydi rhieni chdi ddim yn Gymraeg, ti'n dod o deulu Saesneg a ti'n siarad Saesneg adra, dwi'm yn dallt sut wyt ti'n meddwl ma Cymraeg wyt ti. 'Dio ddim yn gneud sens. Ti just ddim yn gwybod pwy wyt ti. Prydeinig ydw i. Da ni'n rhan o Brydain, so dyna ydw i. Dio ddim yn feddwl bo fi ddim yn prowd o siarad Cymraeg a byw yn Gymru, ond ddim just Cymraeg ydw i. Mae gen i lot o bethau ynddai! **(Carol)**

Bu rhaniad amlwg yn y grŵp o ganlyniad i'r pwynt uchod, gyda llawer o'r grŵp yn dadlau eu bod yn teimlo'n Gymraeg ac yn cefnogi Cymru ac yn teimlo hynny. Gwelwyd tebygrwydd yma rhwng Grŵp 1 a Grŵp 2 ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r ddau grŵp wedi nodi y gall cenedligrwydd fod yn rhywbeth teimladwy yn ogystal â nodwedd osodedig a'i fod yn ddibynnol ar nifer o wahanol ffactorau. Yr hyn sydd yn gwahaniaethu Grŵp 1 a Grŵp 2 yw'r sicrwydd mewn cenedligrwydd. Bu cryn ddadlau yma ynghylch eu cenedligrwydd, gyda nifer yn teimlo eu bod yn teimlo'n Gymraeg ac felly eu bod yn Gymraeg, ac eraill yn teimlo ei fod yn osodedig yn ddibynnol ar enedigaeth. Er hynny, roedd ansicrwydd mawr ymysg y grŵp ynghylch eu cenedligrwydd a'u hunaniaeth. Fel y soniwyd esioes wrth ddadansoddi Grŵp 1, gall yr ansicrwydd yma fod yn gysylltiedig gyda llencyndod a'r newidiadau anochel sy'n rhan annatod o lencyndod neu hunaniaeth amrywiol yr unigolion hynny dan sylw.

Dadleuwyd y gall fod yn gysylltiedig gyda graddfeydd integreiddio a'r ymdeimlad o fod yn perthyn. Fel yr amlygwyd gan un aelod o'r grŵp: -

Weithiau dwi'n teimlo bo fi'n Gymraeg ac weithiau dwi'n teimlo'n Saesneg. Mae'n beth od. Pan dwi adra [ym Mlaenau] dwi'n teimlo'n Saesneg achos bo fi'n wahanol i bawb sydd yn Gymraeg yma. Ond pan dwi'n mynd i aros efo nain yn Gloucester dwi'n teimlo'n Cymraeg achos dydw i ddim yn Saesneg. Mae o mor anodd. Dwi ddim yn un peth na'r llall **(John)**

Bu consensws cyffredin ymysg y rhan fwyaf o'r grŵp eu bod nhw hefyd wedi cael cyfnodau o deimlo'r un teimladau. Dadleuwyd ei fod yn gysylltiedig gyda'r ymdeimlad o berthyn a'i fod wedi bod yn anodd iawn teimlo'n perthyn weithiau, efallai oherwydd eu dwyieithrwydd a'u synnwyr nad ydynt yn rhan o un le neu'r llall. Er hynny, roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn teimlo eu bod wedi ymgartrefu yn yr ardal, gan nodi ei fod yn le gwych i gael eu magu ac yn wahanol iawn i'w ardal enedigol.

Wrth ymhelaethu ar y pwnc o genedligrwydd, roedd nifer o'r grŵp yn awyddus i drafod eu profiadau personol yn ogystal â phrofiadau eu teuluoedd. Roedd nifer o'r grŵp yn mynegi eu bod yn teimlo'r un peth â phawb arall,' ond eraill yn mynegi nad oedd hi mor hawdd iddynt. Roedd hi'n syndod i mi fod bod y grŵp wedi dewis cyfathrebu drwy'r Gymraeg, ac wrth fynegi hyn, gwelais yr un syndod ynddynt hwythau:

Pam ei fod o mor od? Da ni i gyd yn gallu siarad Cymraeg ac yn dewis siarad Cymraeg. Dydan ni ddim adra, ond yn yr ysgol mae pawb yn siarad Cymraeg. Mae lot ohona ni yn teimlo'n Gymraeg ac felly mae hyn yn naturiol i ni. Dydi o ddim bob amser yn hawdd, ac weithiau dwi'n sylweddoli faint mor anodd ydi o i mam sydd ddim yn siarad dim Cymraeg. Dydi pawb ddim o hyd yn neis am bobol sydd ddim yn siarad Cymraeg, ac mae hynny'n gwneud fi'n flin. Ella mai dyma sy'n gwneud ni fel grŵp yn wahanol, ond Cymraeg ydw i, just ychydig yn wahanol **(Tomi)**

Wrth ystyried y fro Gymraeg ym Mlaenau Ffestiniog, roedd nifer o'r grŵp wedi cyfaddef fod Blaenau yn teimlo fel cartref a'i bod yn teimlo'n perthyn rhan fwyaf o'r amser. Mae achosion er hynny, lle nad ydynt yn teimlo'n aelodau llawn, yn enwedig wrth ystyried hanes a threftadaeth yr ardal. Yn ogystal, awgrymwyd gan un aelod o'r grŵp fod pobl Blaenau yn 'meddwl yn wahanol,' yn ei farn ef, ac ar ôl i mi ofyn iddo am ymhelaethu, amlygwyd ei fod o ganlyniad i wahaniaethau mewn diwylliant.

Yn debyg iawn i Grŵp 1, roedd y rhan fwyaf o Grŵp 2, yn sylweddoli ar natur unigryw'r ardal. Roeddynt yn cydnabod ei fod yn le gwahanol iawn i'r ardaloedd sy'n ei amgylchynu, ond eu bod yn falch iawn o'r ffaith yma:

Da ni yn sylweddoli ei fod yn wahanol, ond dwi'n falch o hynny, ac yn falch bo fi'n byw yma **(Tomi)**

Bu i'r drafodaeth ar ddiwylliant yr ardal ein harwain i drafod yr ardal ei hun, ac unwaith eto, gofynnwyd i'r grŵp dynnu lluniau o'r agweddau positif a negyddol o'u hardaloedd. Wrth i'r grŵp adrodd yn ôl, yr hyn a bu fu nharo fwyaf oedd y tebygrwydd i Grŵp 1. Nid oedd gwahaniaethau amlwg rhwng yr hyn a amlygwyd yn Grŵp 1, ac o'r herwydd, gellir dadlau nad oedd 2 gwahanol grŵp yma. Gwelwyd y tebygrwydd yn y llun isod:

**Ffigwr 10: Darlun o'r Ffactorau Negyddol a Phositif sydd yn Rhan o Blaenau Ffestiniog, yn ôl Grŵp 2.**



O ganlyniad, gwelwyd mai'r un problemau cymdeithasol sylfaenol sydd yn gyffredin ymysg y ddau grŵp. Bu i Grŵp 2 yn benodol ddadlau'n danbaid am y diffyg cyfleoedd a'r hyn oedd yn gwahaniaethu Blaenau o'r ardaloedd yr oeddynt yn enedigol ohoni neu ardaloedd genedigol eu rhieni. Gwelwyd hyn yn amlwg yn naratif Leah:

Man teimlo fel bod Blaenau yn 'bottom of the pile,' mae lot o bethau'n digwydd yma, ond ni sy'n cael y dregs o bob dim. Dydi o ddim yn deg, ond dwi'n sylwi fod hyn yn digwydd lot. Mae mam a dad yn dod o Lerpwl ac mae na o hyd bres yn fanna. Pres i'r gymuned a pres i neud jobsys i bobol. Dydi o just ddim yn digwydd fan hyn, dydi o ddim yn deg **(Leah)**

Ond yn ystod y sesiwn adrodd yn ôl, amlygodd un o'r ymatebwyr nad oedd yn gyfforddus gydag agwedd gwrth Saesnig rhai o bobl yr ardal. Roedd ef wedi cael profiad anghyfforddus gyda rhai o drigolion y dref ac yn pwysleisio'r defnydd o'r ffordd bychannol o ddweud 'Sais.' Amlygwyd fod tua hanner y grŵp wedi cael profiadau anghyfforddus tebyg, ac er nad oeddynt wedi ei ddarlunio yn y llun, roedd nifer ohonynt ei fod yn agwedd negyddol iawn o fyw yn yr ardal.

Bu i hyn ein harwain tuag at drafodaeth ar ddyheadau a gobeithion y grŵp ar gyfer y dyfodol, gan fod hyn yn ffactor oedd yn ysgogi llawer ohonynt i adael. Amlygwyd fod yr anwybodaeth sydd yn perthyn i'r dref yn aml yn gysylltiedig gyda'r diffyg cyfleoedd sydd yn perthyn i'r trigolion:

Os dwyt ti byth yn gadael, ti byth yn dysgu! Dwi'n meddwl fod o'n bwysig i pawb gael profiadau newydd **(Carol)**

Wrth ystyried gobeithion a dyheadau'r grŵp ar gyfer y dyfodol, gwelwyd tebygrwydd yn eu heisiau i adael eu bröydd ond hefyd i ddychwelyd. Rodd y grŵp i gyd yn mynegi y byddent yn hoffi gadael y Fro, gyda thua hanner ohonynt yn mynegi na fyddai hyn am byth. Er hynny, er bod y rhesymau pam yn debyg mewn rhai achosion, megis y diffyg cyfleon, swyddi ac economi, roedd ffactorau ychwanegol yn eu heffeithio megis y gallu i symud at deulu estynedig tu allan i Gymru ac i ardal yr oeddynt yn ei adnabod yn barod. Er hynny, fel sydd yn amlwg o Grŵp 1, mae'r economi a chyfleoedd swyddi yn chwarae rhan bwysig a hanfodol, fel amlygwyd gan Emma:

Heb bres a job, alli di'm neud ddim byd. Alli di'm cael ffrindiau a mynd allan ac alli di ddim trafeilio a gweld pethau. Mae'n rhaid symud felly os tisio gneud rwbath.

### Grŵp Ffocws - Tregaron, Grŵp 1

Dilynwyd yr un drefn wrth gynnal y grŵpiau ffocws yn Tregaron, er mwyn sicrhau cysondeb ac i bwrpas cymhariaeth o fewn yr ymchwil. Mae cyfansoddiad y grŵp fel a ganlyn[43]:

**Tabl 43: Proffil Cyfranogwyr Grŵp Ffocws 1, Tregaron**

| **Ardal** | **Enw** | **Rhyw** | **Prif Iaith y Cartref** |
|---|---|---|---|
| 2 | Pedr | Gwryw | Cymraeg |
| 2 | Rhian | Benyw | Cymraeg |
| 2 | Ben | Gwryw | Cymraeg |
| 2 | Ilan | Gwryw | Y Ddwy |
| 2 | Rhys | Gwryw | Y Ddwy |
| 2 | Elfed | Gwryw | Cymraeg |
| 2 | Seren | Benyw | Y Ddwy |
| 2 | Gwen | Benyw | Cymraeg |
| 2 | Arwel | Gwryw | Cymraeg |
| 2 | Lowri | Benyw | Cymraeg |
| 2 | Mari | Benyw | Cymraeg |
| 2 | Tomos | Gwryw | Cymraeg |
| 2 | Elin | Benyw | Cymraeg |
| 2 | Mai | Benyw | Cymraeg |
| 2 | Eleri | Benyw | Cymraeg |

[43] Noder mai enwau ffug a ddefnyddir drwy'r bennod

Gwelwyd fod niferoedd cyfartal o wrywod a benywod wedi cymryd rhan yn y grŵp ffocws, gydag 8 benyw a 7 gwryw. Fel y soniwyd esioes wrth drafod yr holiaduron a'r grŵpiau ffocws ym Mlaenau Ffestiniog, bu syniadau'r bobl ifanc ynglŷn â hunaniaeth yn gwahaniaethu yn ôl ardal, cefndir ieithyddol a theuluol. Cynhaliwyd y grŵp drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl gofynion y grŵp. Gellir dadlau fod barn y bobl ifanc yn gwahaniaethu fwyaf yn ôl ardal, hynny yw, gwelwyd gwahaniaeth rhwng yr hyn a ystyriwyd fel cenedligrwydd 'Cymraeg,' a chenedligrwydd 'Saesneg.' Er hynny, nid oedd yr holiaduron yn ystyried y bobl ifanc hynny sydd yn wreiddiol o'r ardal yn ogystal â'u teuluoedd, felly bu cynnal grŵp ffocws oedd yn ystyried y grŵp hwn yn fewnwelediad ffres a newydd i'r pwnc o allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg.

Gellir dadlau fod un prif wahaniaeth rhwng y ddwy ysgol yn y ddwy ardal lle cynhaliwyd y grŵpiau ffocws, hynny yw, fel ymateb i ofynion y rhieni a'r disgyblion yn ogystal â'r newid gwedd yn Nhregaron, roedd y dosbarthiadau wedi eu rhannu i ddwy ffrwd; un oedd a disgyblion oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r llall drwy'r Saesneg. Roedd hyn yn ychwanegol i ffrydiau arferol, a dosbarthwyd yn ôl gallu, yr ysgol. O ganlyniad, gwelwyd y rhaniadau yma'n amlwg wrth drin a thrafod gyda'r bobl ifanc eu hunain yn ystod y ddau grŵp ffocws. Bu'n rhaniad oedd yn amlwg yn creu gwahaniaethau o safbwynt cenedligrwydd a hunaniaeth yr ymatebwyr yn ogystal, fel y gwelwyd o naratif Elfed a Rhian:

Mae 'na achos o 'nhw,' a 'ni,' 'ndoes? Ydi pawb yn cytuno da fi? Dwi di gweld bod un rheol da ni ac un da nhw. Alli di ddim cuddio ein bod ni'n wahanol chi'n gwbod.

Dwi'n gytûn da Elfed, a deud gwir. Dwi'n cysidro fod dau grŵp yn yr ysgol a thu allan, un grŵp Saesneg ac un Cymraeg. Da ni yn wahanol.

Bu'r cyfnewid sgwrs uchod yn fewnwelediad i mi o'r gwahaniaethau sy'n amlwg yn bodoli a bu'n ategu'r hyn a welwyd yn yr holiaduron fod cenedligrwydd yn ddibynnol ar nifer o wahanol ffactorau fel yn achos Blaenau Ffestiniog. Yn ystod y sgwrs hon yn ogystal, ystyriais fy rôl i fel hwylusydd. Teimlais fod hi'n bwysig iawn nad oedd ymyrraeth ar fy rhan i o gwbl yn ystod y cyfnewid hwn. Roedd y grŵp yn gytûn fod y rhaniadau yn dechrau'n gynnar o fewn y gymuned ac yna'n cael eu goleubwyntio o fewn yr ysgol. Dadleuwyd fod yr ysgol gynradd ychydig yn wahanol [Gan nad wyt ti'n gwybod yn well

(Mari)] gan nad yw'r hyn sydd yn ymddangos fel rhaniad amlwg ddim yn cael ei amlygu yn yr un ffordd. Er hynny, bu consenswS ymysg y grŵp fod llawer ohonynt wedi mabwysiadu'r rhaniadau gan aelodau o'u teuluoedd agos a'i fod yn cryfhau wrth iddynt sylweddoli ar y 'gwahaniaethau,' eu hunain. Nid oeddwn fel hwylusydd yn ymwybodol o wraidd y gwahaniaethau yma, felly penderfynais ofyn beth oedd yn eu gwahaniaethu nhw a'u cyfoedion eraill yn yr ysgol, bu'r naratif a ddilynwyd rhwng y grŵp, a Mari ac Elin yn benodol, o ddiddordeb amlwg:

Gelli di ddweud fod o'n rhywbeth i neud da iaith neu i neud da'r teulu chi'n dod o, ond mae ên fwy na hynny; mae o i neud da'r job ma dy rieni'n gneud a be ti'n neud tu allan i'r ysgol. Be rwyn trio ei ddweud ydi ma llawer ohonom yn ffermwyr neu yn nabod pobl sydd yn ffermwyr neu sydd yn gwybod beth ydi ffermio a bywyd tir ac yn y blaen, ond dyden nhw ddim, chi'n gweld. Mae'r merched a'r bechgyn yna'n wahanol iawn i ni **(Mari)**

Ma bywydau ni'n wahanol, ma'r pethe da ni'n neud tu fas i'r ysgol yn wahanol a diddordebau ni'n wahanol. Dio'm yn beth drwg ond mae ên ffaith. Ma'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol yn beth da, achos does gyno nhw ddim parch tuag at y Gymraeg nac ychwaith at pobl sy'n siarad Cymraeg. Mae ên fywyd wahanol iawn **(Elin)**

Gofynnais a oedd gweddill y grŵp yn cytuno gyda Mari ac Elin a bu cytundeb rhwng y mwyafrif o'r grŵp, er i rai ohonynt fynnu nad oedd hyn yn golygu nad oedd drwg deimlad nac ychwaith gwrthdaro, rhwng y ddau grŵp, i'r gwrthwyneb a dweud y gwir. Dadleuwyd fod nifer o'r bobl ifanc yn gyd gymdeithasu ac yn ffrindiau pennaf gyda'r rhai oedd yn hanu o deuluoedd Saesneg neu wedi eu geni tu allan i'r broydd ac nid oedd yn rhaniad amlwg bob amser. Yr hyn a bwysleisiwyd oedd bod gwahaniaethau sylfaenol yn bodoli ac o'r herwydd roedd gwahaniaeth mawr rhwng galw eich hunain yn 'Gymraeg,' neu yn 'Saesneg,' neu hyd yn oed yn 'Brydeinig.' Bu i bob aelod o'r grŵp fynegi eu bod yn credu eu bod o genedligrwydd Cymraeg, gan nodi, fel ym Mlaenau Ffestiniog, eu bod yn 'teimlo'n Gymraeg,' ac yn cefnogi timau 'Cymraeg.' Roedd y mwyafrif yn ogystal yn credu eu bod yn Gymraeg gan eu bod wedi eu geni yng Nghymru, yn siarad Cymraeg a bod eu rhieni hefyd yn byw yn yr ardal ac yn siarad Cymraeg. Nid oedd y pwyslais ar iaith yn unig, fel ym Mlaenau Ffestiniog, ond yn hytrach bu'n gonsensws anweledig ymysg y sampl eu bod i gyd yn Gymraeg o ganlyniad i'r ffactorau uchod. Amlygwyd nad oedd dysgu'r iaith yn ddigon er hynny i gael eich ystyried yn 'Gymraeg,' ond unwaith eto, gwelwyd fod y cysyniad o 'deimlo'n Gymraeg,' yn chwarae rhan flaenllaw ym marn y bobl ifanc yn y sampl. Mae'r naratif yn dwyn i gof gwaith Aitchison, Carter a Rogers (1989:5) ar 'Mewnfudo a'r Iaith

Gymraeg.' Yn hanesyddol, pan ystyriwyd y cyfrifiad yn 1901, roedd 98.2% o boblogaeth Tregaron yn siarad Cymraeg, ond yn fwy pwysig fyth, oedd bod 73.9% o'r ffigwr hyn yn uniaith Gymraeg. O ystyried ei leoliad, tua 15 milltir o Aberaeron a 17 o Aberystwyth, bu Tregaron yn ganolfan lleol pwysig yn ystod y canol oesoedd. Fel y gwelwyd yn barod, mae ei hanes yn ymestyn ymhellach na hanes ifanc Blaenau Ffestiniog ac o safbwynt amrywiaeth yn ei boblogaeth, gellir dadlau fod Blaenau Ffestiniog wedi ymdopi o ganlyniad i'w natur ddiwylliannol. Er bod traddodiad a threftadaeth yn hollbwysig yn y ddwy ardal, gellir dadlau fod ei hynafiaeth yn Nhregaron yn fwy tebygol o fod yn rhwystr i ymfudwyr.

Yn fy marn i, gwelwyd diffyg dealltwriaeth yn amlwg yma yn ogystal â nodweddion gwahaniaeth ac weithiau ychydig yn elyniaethus ymysg y grŵp. O safbwynt y pwnc o allfudiaeth o'r broydd Cymraeg, bu ymdeimlad yma o'r pwnc o ddiffyg integreiddio ar ran y bobl ifanc hynny sydd yn o du allan i'r fro, gan fod hunaniaeth a chenedligrwydd yn ddibynnol ar dras deuluol a thraddodiad yn hytrach na theimlad yn unig. Ceir awgrym yma o wahaniaethau ymysg dosbarth cymdeithasol a'r rhaniadau a ystyriwyd rhwng y ffermwyr a'r bobl mynd a dod. Ystyriwyd nad ydynt yn gwahaniaethu yn ôl cefndir yn unig ond yn ôl eu statws cymdeithasol yn ogystal. Gwelwyd cymhariaeth rhwng y ddwy ardal yn amlwg yma gan nad oedd y bobl ifanc ym Mlaenau Ffestiniog yn rhoi gymaint o bwyslais ar gefndir teuluol, ond yn hytrach ar yr ymdeimlad o berthyn. Er hynny, gellir dadlau fod dysgu'r iaith yn bwynt cychwynnol i nifer o'r bobl ifanc a bod siarad y Gymraeg yn hanfodol wrth ystyried cenedligrwydd. Dadleuwyd fod hyn hefyd yn wir o fewn y gymuned ehangach:

Ma Tregaron yn fan a thraddodiad chi'n gweld, gyda hanes ffermio pwysig. Bydde Tregaron ddim yn bodoli oni bai am ffermio, ac achos o hyn mae'r hyn sy'n digwydd nawr yn gymaint o golled ac yn newid Tregaron a'r bobl sy'n byw yma **(Arwel)**

Ma Arwel yn iawn, ma'r hyn sy'n digwydd yn y byd a'r holl bethe sy'n newid da ffermio yn newid pethe i'r ardal. Dydi e ddim bob amser yn le da i fyw efo 'druggies,' a 'chavs,' a petha wan. Nhw di'r bobl sydd wedi symud ma i fyw a sydd ddim yn deall. Dydi e ddim fel yr hen ddyddie, fel mae dad bob amser yn ei ddweud **(Rhian)**

Yn ychwanegol i'r hyn a welwyd fel rhaniadau rhwng y bobl ifanc, gwelwyd yn ogystal fod nifer o broblemau cymdeithasol yr ardal yn cael eu beio ar y mewnfudwyr, gan gynnwys problemau megis y cam ddefnydd o sylweddau a chynyddiad yn y ffigyrau trosedd.

Dadleuwyd nad oedd y problemau cymdeithasol hyn mor gyffredin yn yr 'hen ddyddiau,' oedd yn cael ei ystyried fel cyfnod euraidd yr ardal. Yn wir, gwelwyd gwrthwynebiad amlwg i newid ymysg y bobl ifanc oedd yn ganlyniad i agweddau eu rhieni. Gellir dadlau fod yr un peth yn wir am Blaenau Ffestiniog, ond yn wahanol iawn i Dregaron, gwelwyd nad oedd y problemau hynny yn ddeiliad i fewnfudwyr yn unig, ond yn ganlyniad i nifer o ffactorau eraill.

O safbwynt proffil yr ardal felly, nid yw'n annhebyg i Blaenau Ffestiniog, hynny yw gwelwyd ei statws fel ardal Cymunedau'n Gyntaf yn amlwg o ganlyniad i broffilio'r bobl ifanc. Fel ym Mlaenau Ffestiniog, gofynnwyd i'r bobl ifanc broffilio eu cymunedau mewn nifer o wahanol ffyrdd, drwy drafodaeth a thrwy'r defnydd creadigol o lun. Unwaith eto bu'n ffordd o gadw cysondeb rhwng y grŵpiau ffocws yn ogystal â ffordd o gadw diddordeb y bobl ifanc a'u hysgogi i feddwl yn wahanol am eu hardaloedd. Gwelwyd tebygrwydd rhwng Blaenau Ffestiniog a Tregaron yma yn y ffordd yr oeddent wedi tynnu llun oedd yn adlewyrchu'r hyn a ystyriwyd yn nodweddion positif a nodweddion negyddol. Yn ogystal , mae'r bobl ifanc yn y ddwy ardal wedi proffilio'r dreftadaeth a thraddodiad yn unol â'r problemau cymdeithasol, ac yn gyffredinol, awgrymwyd fod y problemau cymdeithasol hynny'n eu hysgogi i fudo.

Yr hyn sydd yn eu gwahaniaethu yw mai amaeth sydd yn cymeriadu'r darluniau yn Nhregaron yn wahanol i'r diwydiant llechi ym Mlaenau Ffestiniog. Er hynny, gwelwyd ei golled a'i ddirywiad yn y ddau o'r lluniau a'r naratif a ddilynwyd:

**Ffigwr 11: Darlun o'r Ffactorau Negyddol a Phositif sydd yn Rhan o Dregaron, yn ôl Grŵp 1.**




Yn ôl naratif Tomos a Gwen, sydd yn hanu o gefndiroedd amaeth cryf, roedd dirywiad yn y diwydiant amaeth wedi golygu dirywiad yn yr ardal gan ei fod wedi rhoi cyfle i broblemau cymdeithasol, pan ofynnais beth oedd hyn yn ei olygu, atebodd Gwen:

Pan chi'n colli rhywbeth ma'n rhaid i rhywbeth arall gymyd ei le ndoes, ac achos bod ffermio yn newid, mae e wedi rhoi cyfle i bethe eraill dod yn ei le. Dyden nhw ddim yn bethe da! Gin ti'r ffactori newydd sy'n gwneud losin, ond nid yw ên rhoi'r argraff iawn i pobl. Ma Tregaron wedi newid a dyna hi **(Gwen)**

Mae dad wastad yn deud mai amaeth sydd wedi cychwyn Tregaron a pan does dim ffermydd bydd dim Tregaron **(Tomos)**

Mae enghraifft yma o'r diffyg cyfleoedd fel ym Mlaenau Ffestiniog, sydd yn anochel yn golygu fod rhaid i bobl ifanc chwilio tu hwnt i'r ardal ar gyfer cyflogaeth ac felly, unwaith eto, gwelid awgrym fod allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg, yn cael ei effeithio gan ffactorau economaidd ac yn du hwnt i unrhyw ffactorau eraill. Bu cytundeb ymysg y grŵp nad oes dyfodol iddynt yn ffermydd eu rhieni neu yn Nhregaron o gwbl. Dadleuwyd yn ogystal, er bod Aberystwyth ychydig filltiroedd i ffwrdd, nid yw'n gyraeddadwy iddynt fel pobl ifanc gan fod y drafnidiaeth gyhoeddus yn sâl, ac nid yw'r gymuned yn ymdebygu i Dregaron mewn unrhyw ffordd yn eu barn nhw. Bu i nifer o'r grŵp fynegi nad oes modd dadlau bod y ddwy ardal yn Gymru hyd yn oed. Er hynny, gwelwyd fod Aberystwyth yn fodd iddynt aros a chyfanheddu yn eu cymunedau genedigol heb orfod crwydro'n rhy bell o'u bro. Arweiniwyd y drafodaeth tuag at eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol a bu i'r rhan fwyaf o'r grŵp, fel ym Mlaenau Ffestiniog, nodi nad oeddynt, o ddewis, eisiau gadael Tregaron, ond fod ffactorau tu hwnt i'w gallu, yn golygu nad oedd yn opsiwn hawdd. I ddechrau, fel ym Mlaenau Ffestiniog, bu cyfleoedd cymdeithasol yn gyffredinol, yn unol â ffactorau economaidd yn ddadl o blaid gadael eu bro. Yn ail, dadleuwyd gan 5 aelod o'r grŵp fod Tregaron yn newid yn rhy gyflym a bod ei gymuned 'Cymreig,' yn dirywio. O ganlyniad, amlygwyd fod cymdeithasau Cymreig cryfach yn bodoli mewn mannau megis Caerdydd ac Aberystwyth. Bu gweddill y grŵp yn daer i'w cymunedau, gan amlygu na fyddai'r gymuned yn parhau pe bai'r bobl ifanc yn dewis ei adael. Er hynny, fel y trafodi'r uchod, mae problemau cymdeithasol megis tlodi, diffyg cyfleoedd a chyfleoedd economaidd a diffyg cyffredinol mewn gwasanaethau megis trafnidiaeth gyhoeddus, yn annog y boblogaeth ifanc i adael. Roedd yr ymdeimlad yma yn perthyn i bawb yn eu barn nhw, nid yn unig i bobl ifanc o deuluoedd Saesneg neu ymfudol. Fel yng ngeiriau Mari: "*Gall iaith ddim newid hynny.*"

Wrth drafod gadael y fro felly, bu cytundeb ymysg y grŵp fod yn rhaid i'r rhan fwyaf ohonynt adael er nid yn bell, a bod modd aros a theithio i'r gwaith/sefydliad addysg uwch ac yn y blaen. Nodwyd fod y pymtheg ohonynt yn awyddus i fyw a gweithio o fewn eu broydd ond fod newidiadau cymdeithasol yn rhwystredigaeth, oedd yn goresgyn pob teimlad personol. Gellir dadlau fod yr un duedd hefyd yn gyffredin ym Mlaenau Ffestiniog.

**Grŵp Ffocws - Tregaron, Grŵp 2**

Mae cyfansoddiad Grŵp 2, Tregaron fel a ganlyn[44]:

**Tabl 44: Proffil Cyfranogwyr Grŵp Ffocws 2, Tregaron**

| Ardal | Enw | Rhyw | Prif Iaith y Cartref |
|---|---|---|---|
| 2 | Isabelle | Benyw | Saesneg |
| 2 | Cian | Gwryw | Saesneg |
| 2 | Josie | Benyw | Saesneg |
| 2 | Irene | Benyw | Saesneg |
| 2 | Fiona | Benyw | Y Ddwy |
| 2 | Cate | Benyw | Saesneg |
| 2 | Thomas | Gwryw | Saesneg |
| 2 | Paul | Gwryw | Y Ddwy |
| 2 | Jackie | Benyw | Saesneg |
| 2 | Morgan | Gwryw | Saesneg |
| 2 | Jake | Gwryw | Saesneg |
| 2 | Emily | Benyw | Saesneg |
| 2 | James | Gwryw | Saesneg |
| 2 | Mel | Gwryw | Saesneg |
| 2 | Jim | Gwryw | Saesneg |

Gwelwyd o'r tabl uchod fod niferoedd cyfartal o wrywod a benywod wedi cymryd rhan yn y grŵp ffocws. Cynhaliwyd y grŵp hwn drwy gyfrwng y Saesneg yn ôl gofynion y bobl ifanc. Gellir dadlau fod y mynegi barn a wnaed uchod gan Grŵp 1, Tregaron, yn ategu'r hyn a welwyd yn y grŵp hwn. I ddechrau, wrth drin a thrafod y pwnc o genedligrwydd, bu i bob un aelod o'r grŵp ffocws fynegi eu bod o genedligrwydd 'Saesneg,' neu 'Prydeinig.' Mae hyn hefyd yn ategu'r wybodaeth a gafwyd o'r holiaduron ac a welwyd fel y gwrthwyneb i Blaenau Ffestiniog. I ddechrau, er bod pob un o'r sampl yn siarad Cymraeg, gwelwyd nad oedd hyn yn ystyriaeth ddigon sylweddol o safbwynt cenedligrwydd. Yn ail, gwelwyd fod y farn hon hefyd yn debyg i farn grŵp ffocws 1 yn Nhregaron, hynny yw, nad yw dysgu'r

[44] Noder mai enwau ffug a ddefnyddir drwy'r bennod

Gymraeg yn ddigon o ystyriaeth o safbwynt cenedligrwydd ychwaith ac nad yw gwybodaeth a dysgeidiaeth o'r Gymraeg yn golygu eich bod yn Gymry. Er hynny, mae'r hyn a welwyd yn Nhregaron yn wahanol i'r farn ym Mlaenau Ffestiniog, hynny yw, roedd nifer fawr o Grŵp 2 ym Mlaenau Ffestiniog yn nodi eu bod o genedligrwydd Cymraeg er nad oedd eu cefndiroedd teuluol yn ategu hynny. Roeddynt yn 'teimlo'n' Gymraeg ac yn credu yn y 'teimlad,' hwnnw. Nid yw'r un arsylwad yn wir yn Nhregaron. Fel y gwelwyd rhwng naratif Paul a James:

How can I be Welsh? My mother isn't Welsh, my father isn't Welsh, so I certainly aren't. Nor do I want to be. You've got to be true to your roots or who is going to take you seriously? Don't get me wrong, I love Wales, it's my home, and I think it's great that I can speak two languages, but speaking a language doesn't make you Welsh. I think you've got to be from Wales **(Paul)**

I agree with Paul. Im proud to be an English person living in Wales, that's what makes me, me, and I wouldn't want to be anyone else. I was born here, but my language at home is English, my whole family is English and I don't want to be different to them. I think that I can say for all the group that we do feel different **(James)**

Wrth ofyn i'r grŵp am ychwanegu at y pwynt hwn, darganfuwyd fod pob un aelod yn cytuno gyda Paul a James ac nad oeddynt hwythau yn teimlo eu bod o genedligrwydd Cymraeg. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i farn y gymuned a'u cyfoedion yn eu barn nhw. I ddechrau roedd hi'n amlwg fod dau fath o ffrwd yn bodoli tu mewn a thu allan i'r ysgol, sef y mewnfudwyr a'r gymuned frodorol. Nid oedd hyn o reidrwydd yn nodwedd elyniaethus nac ychwaith yn fwriadol yn eu barn nhw, fel yng ngeiriau Paul:

.....It's just the way it is. We also feel like them but the other way around. It's not a bad thing. It doesn't always create problems either.

Fel yn achos Grŵp 1, nid oedd y gwahaniaeth yma'n fwriadol nac ychwaith yn ddifrifol, hynny yw, roedd ffrindiau Cymraeg agos ganddynt a gan eu bod yn gallu siarad Cymraeg, nid ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o unrhyw sefyllfaoedd cymdeithasol. Er hynny, roedd bron i hanner y grŵp yn credu fod y ffaith eu bod yn ymfudwyr, neu yn blant i ymfudwyr, wedi creu rhwystredigaethau mewn ffyrdd eraill, o safbwynt eu rhieni er enghraifft. Nid oedd rhieni'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn gallu siarad Cymraeg ac o safbwynt y nhw fel plant felly, nid oedd hyn wedi dylanwadu'n bositif ar eu delwedd nhw o fewn y

gymuned. Roedd hanner ohonynt yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn negyddol ac o sicrwydd yn wahanol, ac o ganlyniad yn teimlo'n wrthun tuag at yr ardal ei hun. Yn gyffredinol er hynny, roedd y grŵp yn hapus gyda'u hunaniaethau gwahanol ac yn falch eu bod yn Saesneg. Mae hyn y amlwg o naratif Emily:

You have to be proud, because if you aren't no one's going to be over you. I've learnt that the prouder you are, the more people accept you, you know, the more people understand and the more they just take you for who you are, you know what I mean?

Mae hyn yn dwyn i gof gwaith Bond, Charsley a Grundy (2008). Mae pwyslais yma ar hunaniaeth yn benodol, a gwelwyd ei fod yn canolbwyntio ar fudwyr wedi eu geni yn Lloegr. Gellir dadlau ei fod yn trafod y cysyniad o hunaniaeth genedlaethol yn agosach i adref fel petai. Mae'r graddedigion yma'n cadw eu dinasyddiaeth flaenorol, ond yn gorfod ail feddwl eu hunaniaeth a sylweddoli nad yw dinasyddiaeth ffurfiol yn arf yn erbyn gwaharddiad anffurfiol a symbolaidd (2008: 4). Eglurwyd y pwynt yma'n ehangach gan Caroline Nagel (2004) yn ei erthygl 'Citizenship, Identity and Transnational Migration: Arab Immigrants to The United States.' Mae gwaith Nagel, sydd yn seiliedig ar gyfweliadau gydag Americanwyr Arabaidd, yn pwysleisio fod dinasyddiaeth yn elfen bwysig, ond nid diffiniol, o hunaniaeth. Yn ogystal, mae'n dadlau ei bod hi'n bosib hawlio hunaniaeth fel dinesydd, heb hawlio hunaniaeth y wlad honno (2008: 2). Er bod mewnfudwyr yn gallu meddu dinasyddiaeth ffurfiol, maent yn aml yn parhau i gael eu heithrio o sectorau dominyddol o'r gymdeithas (2008: 5). Pan mae'r mewnfudwyr yma'n cael y teimlad na fyddent yn cael derbyniaeth i'r gymdeithas, maent yn profi'r gwrthgyferbyniad rhwng diffiniadau cyfreithiol o ddinasyddiaeth a'r synnwyr mynegiannol megis yr ymdeimlad o berthyn. Gwelwyd o Gyfrifiad 2001 fod 8 y cant o boblogaeth yr Alban wedi eu geni yn Lloegr, ac felly'n cael eu gweld fel grŵp mwyaf 'lleiafrifol,' yr Alban neu fel awgrymwyd gan Watson (2003) yr "Hidden Minority." Efallai nad ydynt yn wynebu'r un fath o broblemau a gwaharddiad, ond, maent yn sicr yn gorfod ail feddwl eu hunaniaeth. Gellid dadlau bod yr un peth yn wir am y bobl ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw, hynny yw nid ydynt yn teimlo fod modd iddynt integreiddio'n llwyr, gan nad ydynt bob amser y teimlo fel rhan o'r gymdeithas, ond yn hytrach yn parhau ar yr ymylon hyd yn oed ar ôl llwyddo i ddysgu iaith. Dadleuwyd yn ogystal fod ymfudwyr Saesneg yn aml yn cael eu cyflogi mewn swyddi proffesiynol a rheolaethol, sy'n golygu fod cryn ganolbwyntio wedi bod ar amgylcheddau cymdeithasol lle awgrymwyd fod 'y Saeson' â dylanwad anghyfartal o fewn yr Alban heddiw:

Certainly, national identities still require to be negotiated, no matter how 'settled,' these migrants are, but previous research does not give much insight into the experiences of relatively recent migrants to Scotland from England, nor the degree to which identity may prove to be a significant factor in determining whether or not they choose to make a long-term commitment (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 4).

Ffactor allweddol yn y ddadl hon yw bod y mwyafrif o bobl sy'n byw yn yr Alban, yn blaenoriaethu eu hunaniaethau Albanaidd dros eu hunaniaeth Brydeinig, (Bond, Charsley a Grundy, 2008: 5) ac mae lleiafrif sylweddol yn cysylltu arwyddocâd gwleidyddol a hanesyddol, negyddol i'r label 'Prydeinig.' Mae llawer o'r mudwyr Saesneg yma felly'n mabwysiadu hunaniaeth 'Saesneg,' ond nid o reidrwydd o ddewis, ond oherwydd ei fod yn cael ei briodoli gan y mwyafrif o'r boblogaeth Albanaidd.

Wrth drafod yr hyn a oedd yn effeithio eu cenedligrwydd, daeth i'r amlwg nad oedd y mwyafrif o'r grŵp yn uniaethu gyda diwydiant amaethyddol cryf yr ardal, hynny yw, roeddynt yn ei ystyried fel agwedd negyddol o fyw yn Nhregaron, fel yr amlygwyd rhwng naratif Morgan a Paul:

The thing is, I just wouldn't want to be like them you know, they're all farmers, and I guess Im just not like that. They have their own language and stuff, like 'Shwmai bachan,' and I just think, god I so do not want to be like that. Im sorry, but why would you? **(Morgan)**

I remember my dad saying the same thing. Tregaron's great but not if you've lived there all your life, you just get sucked in, and I really don't to. Don't get me wrong, I think they really are great people, I just don't want to be like I've lived in Treagron all my life, because I haven't **(Paul)**

Gellir dadlau o'r naratif uchod, fod y grŵp yn teimlo mai rhyw fath o isddiwylliant yw'r gymuned amaethyddol yn Nhregaron; is ddiwylliant nad ydynt yn teimlo'n rhan ohono nac ychwaith yn teimlo'r angen i fod yn rhan ohono. O ganlyniad, yn wahanol iawn i Blaenau Ffestiniog, nid yw'r boblogaeth ifanc yng Ngrŵp 2 yn gallu uniaethu gyda'r diwylliant hwn, ac yn cysylltu cenedligrwydd Cymraeg gyda'r un diwylliant. Nid yw'r un arsylwad yn amlwg ym Mlaenau Ffestiniog. O ganlyniad, gellir dadlau mai hyn sydd yn gyfrifol am y gwahaniaethau rhwng y ffigyrau cenedligrwydd gwrthgyferbyniol rhwng Blaenau Ffestiniog a Tregaron.

O safbwynt y proffil ardaloedd, gwelwyd fod darluniau Grŵp 1 a Grŵp 2 yn Nhregaron yn debyg. Nodwyd yr un problemau cymdeithasol, a gwelwyd fod y ffordd y mae'n dylanwadu ar fywydau'r bobl ifanc yn debyg. Gwelwyd yn ogystal â'r un cyfeirnod tuag at hanes a thraddodiad yr ardal. Yr hyn sydd yn wahanol yw'r ffordd a ddarluniwyd yr elfen draddodiadol yma, gyda Grŵp 1 yn ei nodi, y gellir dadlau, mewn golau ffafriol a Grŵp 2 yn llai ffafriol. Gwelwyd y darlun isod:

**Ffigwr 12: Darlun o'r Ffactorau Negyddol a Phositif sydd yn Rhan o Dregaron, yn ôl Grŵp 2.**




Gellir dadlau fod y darlun uchod yn cadarnhau'r arsylwad a wnaed rhwng y grŵpiau.

O safbwynt eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol, mae'r grŵp wedi ailadrodd yr hyn a fynegwyd gan Grŵp 1, hynny yw, fod diffyg cyfleoedd cymdeithasol, economaidd a diffyg mewn gwasanaethau yn rhwystredigaethau sylfaenol ac yn cyfrannu at eu dyhead i

adael y fro Gymraeg. Er hynny, gellir dadlau fod ystyriaethau ymhellach wrth i hanner o'r Grŵp 2 yn Nhregaron, fynegi nad ydynt yn teimlo dyheadau mawr i aros yn y fro. Fel amlygwyd gan Isabelle:

I don't really get what would keep me here. Ok so it's a nice pretty place and stuff, but it's not exactly booming. There's nothing for us here. You can't get a good job that pays well, and there is no social life to speak of. When I think about the things that would keep me somewhere, I guess I would have to say that there are loads of things that would make me decide where I want to live like, is it close to family, friends? Are there good jobs a good social life etc? There's not one thing. I don't think there is for anyone really.

Gwelwyd awgrym yma o'r hyn a welwyd yng nghynnwys y cyfweliadau hŷn a drafodir yn y bennod nesaf, sef bod cysylltiadau a chlymau'r boblogaeth ymfudol yn hylifol, hynny yw, nid oes un ffactor sydd yn pennu man byw a chyfanheddu'r unigolyn ond nifer ohonynt. Yn aml, nid oes un yn bwysicach na'r llall ychwaith, ac yn wahanol iawn i'r unigolion sydd yn wreiddiol o'r Fro, nid yw gwreiddiau o reidrwydd yn ffactor allweddol. Mae hyn yn amlwg o naratif Josie:

I don't really know whether I believe in roots and stuff, I mean how can you have roots in one place. It must depend os so many other things like, family and friends; can you have roots where your friends are but maybe not where you are from?

Byddaf yn ymhelaethu ar y pwnc yma yn ystod y bennod nesaf.

O ganlyniad, teg yw nodi nad yw'r pwnc o allfudiaeth yn nhermau dyheadau a gobeithion pobl ifanc y fro, yn bwnc syml ac amlwg i'w drafod. Yn wir, dadleuwyd ei fod yn ffenomenon aml haen sydd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r sefyllfaoedd cymdeithasol ynghyd â dealltwriaeth o'r bobl ifanc eu hunain. Yma ceir yr amrywiaethau rhwng grŵpiau tebyg mewn dwy ardal wahanol, ac awgrymwyd na ellir creu datrysiad a fydd yn addas iddynt oll. Dadleuwyd fod yr ymdeimlad o berthyn, ynghyd â chefndir teuluol, problemau cymdeithasol yr ardal ei hun ac ystyriaethau ieithyddol yn effeithio ar benderfyniad y bobl ifanc hynny i adael neu i aros o fewn eu broydd. Rhaid hefyd ystyried oed y sampl dan sylw, wrth nodi'r cyfnod newidiol hynny sydd yn rhan o lencyndod ac aeddfedu.

**Cloi**

Mae'r bennod hon yn egluro'r prif ffactorau dylanwadol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg ac yn adeiladu ar ganfyddiadau cynharach drwy ganolbwyntio ar y pedwar grŵp ffocws a gynhaliwyd ar draws y ddwy ardal. Ymdriniwyd â phrif ddyheadau a gobeithion pobl ifanc y ddwy ardal o safbwynt eu dyheadau mudo a chyfanheddu. Dengys yr astudiaeth fod nifer o ffactorau dylanwadol wrth ystyried eu patrymau a'u graddau allfudo. Mae'r rhain yn cynnwys prif ddiwylliant y cymunedau y maent yn rhan ohonynt a'r problemau cymdeithasol/rhwystrau sydd yn eu hwynebu, ystyriaethau cenedligrwydd a'r ymdeimlad o berthyn, ystyriaethau ieithyddol a theuluol ac efallai, yn bwysicach oll, cyfleoedd economaidd a chymdeithasol sydd yn rhan annatod o'r bröydd y maent yn perthyn iddo. Mae awgrym o'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal drwy ystyried trafodaethau ar genedligrwydd a'r ymdeimlad o berthyn. Dengys fod rhwystredigaethau o safbwynt hanes a diwylliant amaethyddol Tregaron, o'i gymharu â hanes eithaf diweddar Blaenau Ffestiniog, sydd a'i wreiddiau yn ddibynnol ar weithwyr yn mudo i'r chwareli ar gyfer gwaith. Dadleuwyd fod y gwahaniaeth yma yng nghefndir y ddwy ardal, yn effeithio ar ddiwylliant a phatrymau integreiddio ei boblogaeth ymfudol, gyda'r bobl ifanc ym Mlaenau Ffestiniog, yn ei chael hi'n haws ymdreiddio i'r gymuned na'r bobl ifanc yn Nhregaron efallai.

Ceir arwyddion clir yma fod yr hyn a welwyd yng ngwaith Jones (2010) yn broblem gynhwysfawr o fewn ein broydd ac nad yw iaith a'i ddysgeidiaeth ohono yn effeithio ar batrymau mudo ac allfudo. Yn wir, gwelwyd cariad at iaith a'r fro yma, ond yn unol â hyn, gwelwyd diffyg economïau a chyfleoedd yn anochel yn dylanwadu ar ddyheadau a gobeithion y bobl ifanc yma ar gyfer y dyfodol. Er hynny, gellir dadlau nad yw hyn yn arsylwad newydd a bod yr hyn sydd yn gyffredin o fewn y broydd, yn gyffredin ym mhob rhan o'r byd wrth drafod cymunedau lleiafrifol. Ceir ysgogiad yma i geisio gwella'r ddarpariaeth i gymunedau Cymraeg wrth ystyried cyfalaf cymdeithasol a chyfranogaeth o fewn y gymuned honno. Ceir awgrym yma fod hyn yn cael ei golli mewn nifer o achosion, yn enwedig wrth ystyried pobl ifanc o deuluoedd ymfudol.

Er hynny, dadleuir fod angen ystyriaeth ymhellach i'r pwnc, gan y bobl ifanc hynny sydd esioes wedi gadel eu broydd i bwrpas cymhariaeth. Yn y bennod nesaf, sydd yn ffurfio ail ran yr astudiaeth, ceir gwaith ymchwil ymhellach drwy ddull cyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd gyda phobl ifanc oed 18-25, sydd esioes wedi gadel eu broydd.

# PENNOD 7

## Dadansoddiad Ansoddol Sampl 19-25

### Cyflwyniad

Mae pennod ddadansoddol olaf y traethawd yn ystyried y sampl hŷn 19-25, sydd bellach wedi gadael eu bröydd. Awgrymir fod presenoldeb y grŵp hwn yn allweddol i'r astudiaeth drwy ystyried gwaith Jones (2010) a awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol ymchwilio ymhellach i groestoriad o bobl ifanc 15-24 oed, gan edrych ar y rhai 15-18 oedd yn parhau i fod yn yr ysgol, a rhai oedd eisoes wedi gadael addysg, sef y grŵp a astudir yn ystod y bennod hon (Jones, 2010:119). Gellir dadlau fod y grŵp hwn yn cynrychioli'r cadarnhad i waith Jones, a awgrymodd fod pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru, oddeutu pedair gwaith yn fwy tebygol o fudo o'r bröydd, ac ystyriwyd y byddai'n hanfodol astudio'r sampl yma er mwyn cwblhau'r cylchdro.

Yn ystod y bennod, cynigir ystyriaeth o'r ysgogiadau sylfaenol oedd yn gefndir i benderfyniadau'r bobl ifanc hynny i adael eu bröydd, gan ystyried eu hallfudiaeth yn ôl eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Fel sydd yn gyffredin yng ngweddill y traethawd, bydd ystyriaeth o'r sampl o bobl ifanc o'r ddwy ardal ymchwil a chymhariaeth ohonynt. Archwilir profiadau'r bobl ifanc drwy ganolbwyntio ar eu cefndir teuluol, cymdeithasol ac addysgol personol, gan eu hystyried yng nghyd-destun eu gorffennol a'u dyfodol.

Dadansoddir y cyfweliadau ar ffurf themâu a gyfyd o'r gwaith maes. Yn ddiddorol, roedd y cyfweliadau'n ymdebygu i nifer o'r pwyntiau a drafodwyd yn flaenorol wrth ddadansoddi'r grŵpiau ffocws ac yn aml amlygwyd themâu cyffelyb. Fel y soniwyd eisoes, roedd ceisio darganfod grŵp sampl digonol oedd yn gweddu gofynion yr astudiaeth yn dasg gymhleth, ac o'r herwydd ni chafwyd nifer boddhaol a fyddai'n fodlon cymryd rhan mewn ymchwil meintiol cychwynnol.

**Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog**

Gan ystyried fod y sampl yn wasgaredig yn ddaearyddol ac yn ddiffygiol heb unrhyw ganolfan pendant bu cyfraniad ysgolion uwchradd yr ardaloedd dewisol yn hanfodol ac o'r pwysigrwydd pennaf. Cynigiwyd llythyrau ffurfiol i'r ysgolion eu dosbarthu i'r disgyblion hynny oedd wedi gadael eu bröydd ac oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun Llwybro. Fel y soniwyd eisoes, cafodd cynllun Llwybro/Routes, ei ryddhau gan y Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn arddangos i bobl ifanc Cymru y gellir cyflawni eu huchelgeisiau heb adael, neu drwy ddychwelyd i'r cymunedau y cawsant eu magu ynddynt. Roedd y rhaglen yn casglu data oddi wrth y bobl ifanc hynny a gafodd eu haddysgu yng Nghymru, ac wedi hynny, yn parhau i gadw mewn cysylltiad drwy gylch lythyr. Yn ogystal â dadansoddi effeithiolrwydd ac effaith y cynllun, elfen allweddol o'r rhaglen oedd ceisio datblygu uwcholwg ar gyfer y tair blynedd nesaf, a fyddai'n mynd i'r afael â'r prif gasgliadau ac argymhellion.[45]

O safbwynt yr astudiaeth hon, bu'n gymorth cael hyd i ymatebwyr oedd eisoes wedi gadel eu bröydd ond a oedd yn wybyddus i'w hysgolion lleol. Roedd y wybodaeth bersonol yma ar gael gan brifathrawon yr ardaloedd ymchwil, ac o ganlyniad, roeddynt yn fodlon gyrru llythyrau ymlaen iddynt ar fy rhan i fel ymchwilydd. Ym Mlaenau Ffestiniog, cafwyd ymateb o ddeg oedd yn cynnwys 6 menyw a 4 gwryw. Bu'n ymateb cadarnhaol a bu'n galluogi data ansoddol boddhaol. Mae cyfansoddiad y grŵp fel a ganlyn:

[45] http://www.wavehill.com/whc/evaluation-case-study-2.php Cyrchwyd 03/02/12

**Tabl 45: Ymatebwyr Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog**

| Enw | Ardal | Iaith y Cyfweliad | Man Byw Presennol | Sefyllfa | Prif Iaith y Cartref |
|---|---|---|---|---|---|
| Kara | 1 | Saesneg | Manceinion | Addysg Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Tomos | 1 | Cymraeg | Caergrawnt | Addysg Llawn Amser | Y Ddwy |
| James | 1 | Saesneg | Lerpwl | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Helen | 1 | Saesneg | Lerpwl | Addysg Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Harriet | 1 | Saesneg | Llundain | Gwaith/Addysg RA | Saesneg yn Bennaf |
| Robert | 1 | Saesneg | Manceinion | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Tara | 1 | Saesneg | Barrow infurness | Di-waith (Rhiant) | Saesneg yn Bennaf |
| Beth | 1 | Saesneg | Belfast | Gwaith Llawn Amser | Y Ddwy |
| Justin | 1 | Saesneg | (Yn y Fyddin) | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Emily | 1 | Saesneg | Caerdydd | Gwaith llawn Amser | Y Ddwy |

Gwelwyd o'r tabl uchod fod amrywiaeth eang o unigolion wedi cymryd rhan yn y cyfweliadau yng ngrŵp 1, gan gynnwys niferoedd cymharol o wryw a benyw mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywydau. Cafodd pob un o'r cyfweliadau eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg, heblaw un a gafodd eu cynnal yn y Gymraeg, yn ôl dewis personol yr unigolion. Gellir dadlau ei fod yn wir adlewyrchiad o sefyllfaoedd eang a byd cymdeithasol y bobl ifanc, ac yn gyfle amhrisiadwy i ddeall ystyron cymhleth ym mhatrwm allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg.

Darganfuwyd pedair prif thema wrth ddadansoddi'r cyfweliadau yn y ddwy ardal. Gellir dadlau fod y themâu yn gysylltiedig gyda rhesymau economaidd, ymarferol yn ogystal â chymdeithasol, teimladwy ac yn debyg yn y ddwy ardal er bod rhai gwahaniaethau rhyngthynt. Ystyriwyd fod yr hyn a amlygwyd ganddynt yn bwysig iawn, gan iddo ddarparu mewnwelediad effeithiol o'r hyn a gyffyrddir arno drwy gydol data'r sampl iau. Yma cafwyd themâu tebyg ymysg sampl oedd wedi cyflawni pethau gwahanol iawn yn y eu bywydau ac, yn ddadleuol, wedi dewis dilyn trywydd gwahanol yn ogystal.

Un o'r themâu gyntaf a amlygwyd, gan ymatebwyr Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog oedd pwysigrwydd effaith y teulu ar eu penderfyniad i adael eu bröydd, gan iddynt ddarparu hyder a chefnogaeth i'w plant i fudo. Gwelir hyn yn glir ym mhwyslais James a Robert yn gyntaf. Yn achos y ddau, nid oedd amheuaeth o oed ifanc, nad oeddynt am fudo o'u bro petai'r cyfle'n codi. Cafodd James ei eni a'i fagu ym Mlaenau Ffestiniog, er nid oedd ei dad na'i fam yn wreiddiol o'r ardal, a Saesneg oedd prif iaith y cartref. Nid oedd Robert yn enedigol o'r Fro, yn unfath â'i rieni. Yn achos y ddau ymatebwr, roedd ganddynt deuluoedd estynedig ar wasgar ar draws Prydain ac roeddynt hwythau hefyd yn awyddus i brofi byw mewn dinas neu mewn ardaloedd tu hwnt i'w bröydd:

I mean me personally I've had my mum and my mum's sisters and my cousins are all from quite big English cities and I've heard my mum who's told me some stories of when she was my age you know of being in Manchester, being in Liverpool and so I was always quite interested to go and see what it was like for myself, whereas maybe if people have had two Welsh parents and have lived here all their lives you know they don't have that same thing for whatever reason. (James)

I think possibly it's easier to do it [symud i ffwrdd], you know if you've grown up with Welsh being your first language all your life and all your life you've spoken to Welsh people then it will be a much easier step for you go to a Welsh university. Whereas if you've always grown up with English being your fluent language then it will seem like much less of a step to go to England. (Robert)

O'r dyfyniadau uchod, mae'n bosib ystyried bod rhwydwaith deuluol estynedig a defnydd o'r Saesneg fel iaith yr aelwyd yn gwneud y penderfyniad i fudo gymaint haws, nid yn unig yn emosiynol ond yn ariannol yn ogystal. Byddai symud i fyw at deulu estynedig, er enghraifft, yn haws yn ariannol nag symud a cheisio gosod ar ben eu hunain. Ystyriwyd fod agwedd James a Robert yn atgyfnerthu'r dystiolaeth: os nad yw eich rhieni yn enedigol i'r ardal yna mae'n haws gadael heb feddwl mwy. Dengys hyn fod eu dyheadau yn arwydd clir o ddiffyg ymrwymiad i ardal benodol oherwydd patrwm symud rhieni ymfudol. Mae diddordeb James yn ymestyn tu hwnt i'w brofiadau personol ac yn ystyried cefndir a phrofiadau eu rhieni a'i deulu estynedig. Yn hynny o beth, byddai modd dadlau fod cefndir teuluol ag effaith anuniongyrchol ar benderfyniad y bobl ifanc yma i adael eu bröydd ac yn ychwanegu at eu dyheadau a'u gobeithion. Gwelwyd yr un duedd yn naratif Kara. Cafodd Kara ei geni a'i magu ym Mlaenau Ffestiniog, ond unwaith eto yn rhan o deulu ymfudol. Roedd ei

phenderfyniadau a'i gobeithion hithau'n drychweddu barn Robert a James wrth iddi ddisgrifio gobeithion ei theulu agos ac estynedig tuag at ei dyfodol:

I remember my auntie telling me that I could and should go far you know, and I automatically associated that with moving away, bettering myself and just not staying stagnant here. It seems unfair of me now to think like this, but you know that how we've always felt as a family. Maybe it's a class thing, I just don't know. I remember feeling like it at the time, but I'm not sure if I do now. I think that sometimes I do, but mostly I'm just glad that I could see that there were other things out there for me. I think that sometimes it made me feel different and at the time that hurt, I'm not sure anymore, I think now I'm just glad that I was pushed, and that I wasn't like everyone else. (Kara)

Gallwn gasglu felly bod y cysyniad o allfudiaeth yn rhan annatod o fywydau'r unigolion yma, hynny yw, roedd disgwyl iddynt ystyried allfudo o'r bröydd er mwyn profi cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd gwell. Ystyriwyd fod gwreiddiau a chychwyniad teuluol felly yn ffactor arwyddocaol. O safbwynt eu cyfoedion sydd yn frodorol i'r fro, dadleuwyd fod pwyslais arnynt hwythau i adael ond am resymau gwahanol iddynt hwy. Dadleuwyd fod hi'n ddewis i'w glodfori os ydynt yn penderfynu mudo, ond mae pwyslais mawr arnynt i ddychwelyd ac mewn gwirionedd mae'r pwyslais fwyaf ar addysg yn hytrach na'r ymfudo ei hun. Fel sydd yn amlwg o naratif Robert uchod a James isod:

I'm having a think about all my friends who have gone away and it does ring true and they are from half English backgrounds or English backgrounds, whereas a lot of my friends from purely Welsh backgrounds have gone to Welsh universities, and they are back here now you know the people who went to Bangor, trying just to get long term jobs I guess. (James)

Wrth ystyried cefndir teuluol yr unigolion uchod, gwelwyd fod sylwadau Jones (2010) yn amlwg yn yr achos hwn, hynny yw bod cefndir ac iaith deuluol yn effeithio ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, ac y gellir dadlau yn aml, yn ysgogiad allanol. Yn ail, mae dyheadau'r bobl ifanc yma'n perthyn i hanes a chefndir eu rhieni a'u teuluoedd estynedig. Gwelwyd fod yr un themâu'n gyffredin o gyfweliad Kara a Robert a chynigwyd fod yr un sefyllfa hefyd yn gyffredin i'w cyfoedion hwythau. O safbwynt allfudiaeth y bobl ifanc yma o'r bröydd ac i'w gysylltu â gwaith Jones (2010), gwelwyd o bosib fod gwahaniaethau yma rhwng y teuluoedd hynny sydd yn enedigol i'r Fro a'r rhai sy'n ymfudol. Mae enghraifft yma o groestoriad rhwng gobeithion eu cyfoedion a'u gobeithion hwythau. Yr hyn sydd yn drawiadol yw bod Robert, James a Kara'n pwysleisio nad oeddynt byth yn teimlo

arwahanrwydd pan yn yr ysgol nac ychwaith gyda'u ffrindiau yn gymdeithasol, ond mae eu hunan ymwybyddiaeth yn awgrymu'n wahanol. Roedd nifer o'r sylwadau ganddynt yn tanlinellu'r hyn yr oeddynt yn ei ystyried fel gwahaniaethau amlwg rhwng y teuluoedd oedd yn enedigol i'r Fro a'r rhai nad oedd.

Gellir dadlau fod lle yma i ddadlau pwysigrwydd cefndir teuluol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, gan fod yr achosion uchod yn adlewyrchiad o hyn. Byddai'n gymorth ystyried naratif Tara, sydd wedi mudo o'r bröydd a bellach wedi magu plentyn ei hun. Yn ystod ei chyfweliad, disgrifia Tara natur ddarluniadol ei phlentyndod ym Mlaenau Ffestiniog. Nid oedd Tara yn enedigol i'r Fro honno yn ogystal â'i rhieni, ond amlygwyd ei bod hi bob amser yn cofio'i magwraeth gyda hapusrwydd ac anwyldeb. Wrth drafod ei chefndir teuluol, amlygwyd bod ei theulu wedi mudo i Gymru er mwyn rhoi bywyd gwell iddynt fel teulu ac i geisio am fywoliaeth well yn y wlad. Mae hi'n cofio'r sioc oedd yn rhan o'r realiti a'r gwirionedd o fyw yn y Fro a'r caledi hwnnw oedd yn perthyn i'r realiti hwnnw. Yn ei geiriau hi "*They never really got over it you know.*"

Er hynny, nid yw Tara'n cofio teimlo'n wahanol i'r plant eraill ond yn ei barn hi nid oedd ganddi ddigon o gwlwm â'r ardal er mwyn magu ei theulu hithau. Dadleuwyd fod ei chefndir teuluol wedi ei hatgoffa o'r hyn oedd yn bwysig, hynny yw nid y lle ond yn hytrach y teulu, a bu i hwythau symud i Barrow infurness lle'r oedd ganddi deulu estynedig, cynhwysfawr. Bu iddi gyfarfod ei chymar yma a bellach mae ganddynt blentyn sydd yn 3 oed. O ganlyniad, gwelwyd pwysigrwydd cefndir a chefndir teuluol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Fel sydd yn amlwg o gyfweliad Tara:

> Family is what's important. I want my child to have her extended family and to know where she comes from. I think I lost sight of that you know. I'm thankful to my mum and dad for moving us to Wales, because it really was idyllic, but not for me, and my family. (Tara)

Yma felly, ceir cadarnhad clir fod teulu'n anochel efallai yn chwarae rhan flaenllaw ym mhenderfyniad y bobl ifanc yma i adael eu bröydd. Mewn rhai achosion, mae'r effaith wedi bod yn un uniongyrchol ac amlwg, gyda'r rhieni eu hunain yn weithredol ac yn lleisio eu barn am allfudiaeth a cheisio am sgiliau a bywyd newydd. Gydag achosion eraill, gellir dadlau ei fod yn ddewis anymwybodol, gyda'r bobl ifanc hynny'n derbyn y gefnogaeth

bersonol ac ariannol i'w galluogi i fudo heb yr un risg. Ceir consensws yma er hynny sydd yn cadarnhau fod natur ymfudol eu rhieni yn rhannol gyfrifol dros eu penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

Gwelir atgyfnerthiad o'r tueddiadau uchod yng ngwaith Strathen (1982) ar 'The place of Kinship:Kin, Class and Village Status in Elmdon, Essex.' Dadleuwyd fod syniadau sy'n gysylltiedig gyda pherthnasau teuluol a charennydd yn clymu gyda chysyniad yr Elmdonwyr o'r pentref. Mae Elmdon y pentref amaethyddol, gyda thua thraean o'r grym gwaith gwrywaidd yn cael eu cyflogi ar ei 6 fferm. Mae'r 'hen,' deuluoedd sy'n frodorol i'r pentref, yn draddodiadol, wedi cyflenwi'r llafur ar y ffermydd, er erbyn heddiw, mae nifer o'r mewnfudwyr wedi ceisio am yr un gwaith a nifer o'r Elmdonwyr, fel mudwyr eraill, yn ceisio am waith tu allan i'r pentref. Fel yng ngeiriau Strathen:

The idea of 'village' itself is the subject of the companion chapter 10, which argues that the salient categorisation residents make between 'real Elmdon' people and 'outsiders,' should not be taken in a simple referential sense. It involves a constellation of ideas which encode some very general features not only of Elmdon but of English culture (1982: 74)

Awgrymwyd nad all unigolyn gael ei ddiffinio fel pentrefwr heb ystyried cysylltiadau carennydd. Mae carennydd, mewn cysylltiad ag aelodaeth i'r pentref, yn darparu model ar gyfer adnabyddiaeth statws ac anffafriaeth (1982: 74)

Cafwyd rhesymau dros y tueddiadau uchod wrth barhau gyda'r cyfweliadau. Yma cafwyd cadarnhad o'r ail thema, sef fod gwreiddiau yn ogystal â phatrymau integreiddio yn effeithio ar eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Er bod nifer o'r ymatebwyr wedi nodi eu cariad at y bröydd a hyd yn oed wedi crybwyll eu bod yn teimlo agweddau o berthyn, mae nodweddion sydd yn eu gwahaniaethu a gellir dadlau fod diwylliant a hunaniaeth yn ogystal â'r ymdeimlad o berthyn yn enghraifft o hyn. Yr hyn efallai sydd yn fy nharo i fwyaf yw'r cysyniad o 'wreiddiau,' ac integreiddio oedd yn amlwg yn y rhan fwyaf o'r cyfweliadau. Yn ystod pob un o'r ohonynt, roedd y gair ei hun, neu haniaeth y gair 'gwreiddiau,' wedi codi, a bu chyfeirnod ato ym mhob achos. Nid oeddynt mor benodol â hynny, gyda rhai megis Harriet, yn cydnabod ei bwysigrwydd "*In order to know who you really are*," ac eraill megis Helen yn dadlau nad oedd yn gysylltiedig gydag un lle penodol, ond yn hytrach gyda'ch teulu

agos ac estynedig. Er nad oedd pawb yn gytûn gyda gwir ystyr y gair, roedd pob un yn ystyried ei bresenoldeb a'i effaith ar eu penderfyniadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. O safbwynt teimlo gwreiddiau o fewn y Fro, roedd 80% ohonynt yn teimlo bod gwreiddiau ganddynt yma, gyda Justin a Helen yn amlygu nad oeddynt byth wedi teimlo'r gwreiddiau hynny ond yn hytrach ei fod yn symudol gyda'u teuluoedd. Fel sydd yn amlwg o naratif Justin:

We've always moved, and I guess I've carried on the tradition, like moving and stuff to where the jobs are or where the most important people in your life are. That's my philosophy and one I'll always stick to. I don't even think I know what roots really mean and what their importance are really, but then were all different. I pride myself on having, you know, like roots everywhere! (Justin)

Yr hyn oedd wrth wraidd hanfod y cysyniad o wreiddiau er hynny oedd y man lle'r oedd yr ymatebwyr yn teimlo fwyaf cyfforddus. Fel sydd yn amlwg o naratif Tomos, nid oedd ef yn teimlo'n gyfforddus yn ei fro tan iddo ei adael, ac yn ystod ei gyfweliad, mae'n amlygu ei ddiffyg hyder wrth ystyried ei hunaniaeth a'i ddiwylliant personol. Gellir cysylltu hyn â'r cysyniad o ddiffyg integreiddio a'r hyn a soniwyd eisoes amdano ym mhennod 1, sef y cysylltiad rhwng cymunedau cefn gwlad Cymru a Chymreictod. Mae'r cysylltiad rhwng cymunedau cefn gwlad Cymru a Chymreictod i'w gweld yn nheitl gwaith arloesol Alwyn D Rees, '*Life in a Welsh Countryside*' (1938), lle sonia mai mewn cymunedau gwledig yn bennaf y ceir ffordd integredig o fyw . Yn ôl ei astudiaeth ar Lanfihangel yng Ngwynfa, nid oedd mannau trefol yn cynnig y ddarpariaeth hynny o gymuned, lle nad oedd modd gweld y posibilrwydd o fywyd traddodiadol lle'r oedd y trigolion yn teimlo eu bod yn perthyn. Darganfu yn ogystal, fod y teulu yn chwarae rhan fawr o fewn y strwythur cymunedol a honnodd fod y rhan fwyaf o gartrefi yn gysylltiedig gydag eraill drwy'r berthynas deuluol, neu fel yn ei eiriau ef, "*They are woven together like pig's entrails*" (1938: 131). Mae pwyslais yma ar oed y llinach deuluol ac felly pwyslais ar y gwerthoedd rhanedig sydd yn perthyn i'r teuluoedd yma. Byddai hyn yn awgrymu pwysigrwydd cysylltiadau teuluol o safbwynt sefydlu gwreiddiau a hunaniaeth, nodweddion a fyddai'n amrywio i'r unigolion hynny sydd â chysylltiadau cryfach mewn mannau eraill heblaw'r bröydd. Yr hyn sydd yn amlwg yng ngwaith Rees, yw'r ymdeimlad o'r bygythiad parhaol sydd yn gysylltiedig gyda diwydiannau newydd sydd yn golygu newid i'r ffordd 'draddodiadol,' o fyw. Mae'n delfrydu'r hyn a welir fel y ffordd Gymreig o fyw lle portreadir bygythiad gan y Seisnigo

moesol ac ieithyddol i'r drefn gymdeithasol unigryw a gwerthfawr a welwyd gan Rees yn y bröydd Cymraeg.

Mae'r mater yma o fynediad i ddieithriad i ffordd benodol o fyw yn bwnc dadleuol iawn. Fel gwelwyd o waith Isabel Emmett (1964) mae'r rhai hynny sydd wedi ceisio astudio bywyd gwledig Cymraeg wrth fyw yn rhan ohono, wedi datgan teimladau gwrthweithiol. Ar ôl treulio rhai blynyddoedd ym Manceinion, penderfynodd Emmett ddychwelyd i Gymru ar ôl ysgrifennu ei llyfr am bentref Llanfrothen, ac yn 1973, darparodd astudiaeth fanwl ar Flaenau Ffestiniog. Yn ystod ei hymchwil, darganfuwyd Emmett nad oedd un math o hunaniaeth Gymraeg yn bodoli, ond yn hytrach ei fod yn newid gydag amser, yn ôl ffasiwn ac yn ôl cyfnod. Efallai ei bod hi'n bwysig nodi yma, nad oedd Emmett yn gallu siarad Cymraeg ac mewn gwirionedd nid oedd ei gwaith wedi ennyn poblogrwydd ymhlith y boblogaeth leol yn y gorffennol. Yn ei gwaith '*Blaenau Boys in the mid 1960's*,' mae hi'n disgrifio'r her ddiwylliannol yr oedd pobl ifanc yn ei wynebu o'r isddiwylliant Americanaidd oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod. Roedd ymddangosiad diwylliant newydd i Emmett yn ei hatgoffa o'r hyn yr oedd hi'n credu oedd Cymreictod, a beth yn union oedd 'Cymreictod,' yn ei olygu i bobl ifanc Blaenau Ffestiniog. Yn ei geiriau hi:

....I found myself drawn back into discussions of Welshness and grass-roots responses to attacks upon it. I argued that the decision of a group of teenagers in Blaenau and of similar groups elsewhere in Welsh-speaking North Wales to opt for Welshness, and their success in finding ways to be Welsh and yet not square, to be at times aggressively Welsh, did more for Welshness than so far Plaid Cymru or the Welsh Service of the BBC have managed to do. Emmett (1982:167)

Mae cyfweliad Tomos yn ymhelaethu ar y pwynt uchod, gan iddo fynegi ei deimladau ef ar ei Gymreictod personol a'r profiad personol ef o integreiddio yn ystod ei gyfweliad:

Dwi'n meddwl pan dwi di dod 'nôl i Gymru llu, y prif bethau yw ti'n gwybod, yw bo fi'n byw mewn ardal hardd iawn a dwi'n mwynhau mynydda a dwi'n mwynhau bod mewn mynyddoedd a cael distawrwydd, ond dwi'n meddwl fod y Gymraeg yn bwysicach mewn ffordd de, o ni'n benderfynol ar ôl neud fy ngradd o byw mewn ardal lle o ni'n gallu byw a gweithio yn Gymraeg a fod hynny'n rhan pwysig o'n hunaniaeth i a dwi'n meddwl fod y ffaith fod mam wedi dysgu Cymraeg bod hynna yn benderfyniad gynno hi i ddysgu Cymraeg ac i ddyfalbarhau ac i fagu ni'n Cymraeg hyd yn oed pan oedd hynny'n anodd - dwi'n meddwl fod hynna wedi neud o'n gryfach a dweud y gwir achos i lot o pobl dydi iaith nhw ddim yn rhywbeth sgyno nhw ddewis drosto ac yn rhywbeth sydd just wedi dod lawr drwy'r

teulu. Am fod o'n rhywbeth bwriadol, gwleidyddol bron, dwi'n meddwl fod hynny di neud fi meddwl fwy am y peth, dwi'n teimlo'n gryfach am yr holl beth dwi'n meddwl. (Tomos)

Ystyriwyd felly patrymau integreiddio yn nhermau'r iaith Gymraeg a'r cysyniad o raniadau cymdeithasol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfweliadau. Roedd naratif Harriet yn benodol yn pwysleisio'r rhaniadau cymdeithasol a brofodd yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol uwchradd. Roedd ei phrofiad hi'n gysylltiedig ag iaith a'r grŵpiau iaith oedd yn bodoli o fewn ei chylch cymdeithasol:

In secondary school, I tended to speak English socially rather than speaking Welsh, just with groups of friends and stuff like that, even though I continued to do all my school work in Welsh at that age as well, and as if it was my first language. I think it became automatic. It tended to be more segregated like Welsh was for school because that was just usually when I used it I think. I think I became more conscious of it potentially as I got older because teachers would say in parents evenings..."oh there seems to be a little group of people that speak English and stuff in lessons," when we weren't supposed to for some reason. I don't think I deliberately spoke English, but I decided to speak it socially, so if I was talking to a friend, I'd use that. (Harriet)

O safbwynt pobl ifanc, gellir dadlau bod eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd a grŵpiau cymdeithasol gwahanol yn ffactor allweddol yn eu hintegreiddiad cymdeithasol. Gellir dadlau fod hyn yn effeithio ar gyfalaf cymdeithasol yr unigolyn, fel yr awgrymwyd yn y ddogfen, 'Rhwydweithiau Cymdeithasol a Defnydd Iaith Pobl Ifanc' (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006) a soniwyd eisoes amdano ym mhennod 1. Dadleuwyd fod hydered iaith y Gymraeg ymysg pobl ifanc yn gallu effeithio ar eu graddfeydd o integreiddio, ac yn achos Harriet uchod, dadleuwyd fod ei phrofiad hi'n atgyfnerthu'r iaith Saesneg fel yr iaith anffurfiol a ddefnyddiwyd ymysg ffrindiau ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol personol. Yn ychwanegol i hyn, awgrymwyd gan Harriet fod grŵp o bobl ifanc, oedd yn rhannu'r un sefyllfa, hefyd yn defnyddio Saesneg fel eu hiaith anffurfiol. Mae lle yma felly i gyd-gysylltu'r defnydd o'r Gymraeg a graddfeydd integreiddio, sydd mewn amser yn effeithio ar gyfalaf cymdeithasol unigolion.

Dengys felly, fod hunaniaeth, yr ymdeimlad o berthyn ac o ganlyniad y graddfeydd integreiddio, yn effeithio ar allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg a'u bod yn ffactorau allweddol wrth ystyried cynllunio ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Mae'r cysyniad o berthyn wedi bod yn destun trafod ymysg Cymdeithasegwyr, yn enwedig wrth ystyried colled y

'cyfnod euraidd,' honedig, mewn cymuned. Mae Cohen (1982) er enghraifft wedi trafod y perthynas rhwng cymuned a phatrymau integreiddio. Dadleuwyd fod diwylliannau Prydain yn wahanol iawn, ac ein bod yn wahanol iawn i'n gilydd, sydd yn groes i honiadau poblogaidd (1982: 9). Trafodir cymunedau yn nhermau eu statws ymylol a lleiafrifol, fel y gellir dadlau sydd yn cymeriadu'r broydd Cymraeg yn benodol. Fel yn ei eiriau ef:

The discreteness of *local* experience is all the more important in societies whose communities see themselves as peripheral or marginal, and in which the *reality* of difference is continually being glossed by the *appearance* of similarity. The anthropology of these areas therefore cannot proceed with an aspiration towards a 'representative,' profile of a rural culture.....Rather it must explore the intrinsic and idiosyncratic characters of particular communities (1982: 13).

Yma gwelwyd cysylltiad amlwg rhwng dwy thema, sef yr ymdeimlad o berthyn a nodweddion unigol ac unigryw'r ardaloedd eu hunain. Er enghraifft, gellir dadlau fod yr ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth yn gysylltiedig â strwythur yr ardal a'r gymuned ei hun yn ogystal â'r unigolyn. Fel yn y grŵpiau ffocws, gwelwyd gwahaniaeth amlwg rhwng agwedd a theimladau'r sampl yn y ddwy ardal gyda phwyslais amlwg ar natur unigryw Blaenau Ffestiniog mewn gwrthgyferbyniad rhwng natur draddodiadol ac amaethyddol Tregaron. Byddai'n gymorth i ni ystyried gwaith Adamson a Jones (1996) yn eu papur achlysurol ar 'the South Wales Valleys: Continuity and Change.' Yma gwelwyd astudiaeth ar y cymoedd y De ar ôl cau'r pyllau glo, sef prif ffynhonnell ariannol ei drigolion. Awgrymwyd yn hanesyddol, na fyddai'r cymunedau'r cymoedd wedi bodoli heb y pyllau a gyda diflaniad y diwydiant yma, awgrymwyd fod cwestiynau ynghylch a dyfodol y cymoedd (1996: 1). Er hynny, darganfuwyd fod mathau gwahanol iawn o gymunedau'n bodoli o fewn y cymoedd a bod angen herio'r canfyddiadau confensiynol o draddodiad, chydlyniad a strwythurau cymdeithasol mono-diwylliannol. Gellir dadlau fod y gymuned ym Mlaenau Ffestiniog yn adlewyrchiad o hyn yn enwedig wrth ystyried y gwaith uchod a'r cysyniadau a'r agweddau tuag at newid cymdeithasol:

The survey has described how residents of communities effected by change perceive that change. This is distinct from an attempt to verify empirically whether the changes described have in reality occurred. Romanticization of the past is a feature of cultural practice and the Valleys way of life has become mythologized in poetry, fiction, and media production as well as in popular opinion on the Valley streets (1996: 4)

Awgrymwyd uchod fod y canfyddiad o newid yn gallu cael effaith bellgyrhaeddol ar hunaniaeth ddiwylliannol, agwedd a welwyd yn amlwg o'r traethawd ymchwil hwn. Ehangodd Adamson a Jones y cysyniad hunaniaeth Gymreig wrth drafod agosrwydd cymunedau'r De er iddynt golli ei diwydiant economaidd traddodiadol. Gwelwyd yr un patrwm yn ymddangos yn ystod y traethawd hwn, lle ystyriwyd cwestiynau ar genedligrwydd a'r ymdeimlad o berthyn yn nhermau integreiddio ieithyddol a diwylliannol.

Er mwyn creu cymhariaeth gyda'r bennod ansoddol 15-18, roedd diwylliant yr ardal yn bwysig i'r ymdriniaeth. Roedd ymgais yma i geisio darganfod os oedd yr un nodweddion diwylliant yn wir ar gyfer y ddau grŵp oedran, hynny yw, oedd gwahaniaeth rhwng yr ymdeimlad o berthyn a oedd yn deimladwy gan Grŵp 1, Blaenau Ffestiniog, 15-18 oed, yn deimladwy gan y Grŵp oed hŷn o'r un ardal? Dengys, o'r cyfweliadau Grŵp 1, nad oedd hyn yn ymdebygu, ond yn hytrach fod yr ymatebwyr yn cydnabod harddwch a phwysigrwydd y Fro fel yr amlygwyd gan Tomos uchod, ond nad oedd diwylliant o reidrwydd yn ffactor bwysig. Mae'r un peth yn gyffredin yn naratif James, fel y gwelwyd isod:

For me, it's an affinity with the countryside and the landscape and to an extent the people here as well. You know the general attitude of living around here which is you know completely different to what you'd expect in the city. There is a lot to be said about here you know. Yeh I think I'll always have roots here because I spent 20 years of my life here and I don't think that's going to change whatever I do, even if I leave the country I have my roots here and I definitely like I said come back here at some point in my life to live here or spend a considerable amount of time here because I feel very lucky to have been bought up here, and I do really like the area and the people and everything about it. (James)

Roedd cyfweliadau Robert, Tara a Beth hefyd yn atgyfnerthu cyfweliadau Tomos a James sef fod gwerthfawrogiad o natur ddarluniadol Blaenau Ffestiniog, yn ogystal â chydnabyddiaeth o'r harddwch ar nodweddion o bwysigrwydd naturiol. Nid oes dadlau yma fod pobl ifanc yn dewis aros neu adael eu broydd o ganlyniad i'r ardaloedd eu hunain. Mae'r ddadl o safbwynt yr effaith mae'r ardaloedd hynny'n cael ar y boblogaeth yma wrth iddynt ystyried eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Byddai cysylltiadau cryf, yn ogystal â chofion annwyl o ardal neu fagwraeth, yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol, nid o reidrwydd i'w cadw o fewn eu broydd ond o leiaf i sicrhau cysylltiad ac efallai patrwm o ddychwelyd ar gyfer y dyfodol.

Wrth ystyried hyn yn nhermau'r economi a gwaith, byddai sicrhau newid ar gyfer y gwell yn rheswm amlwg dros bobl ifanc i gyfanheddu o fewn eu broydd, a byddai'r tebygolrwydd o gadw'r ifanc yn cynyddu. Sylw amlwg yw hyn wrth gwrs, ond un a all sbarduno'r datblygiad o brosiectau newydd a gwreiddiol ar gyfer y dyfodol. Mae naratif y gweithiwr ieuenctid yn goleubwyntio'r rhesymau economaidd a chymdeithasol o ystyried gobeithion a dyheadau'r bobl ifanc yn gyffredinol. Dylid felly rhoi ystyriaeth flaenllaw i resymau economaidd yng nghyd-destun economi'r Fro, a'r cyfleoedd a'r profiadau sydd yn dod yn law yn llaw â hyn. Yn ogystal, gellir dadlau fod y naratif uchod yn tynnu sylw at y cyfleodd sydd ar gael i bobl ifanc i adael eu bröydd ac yn awgrymu fod rhaniad rhwng y rhai sydd yn llwyddo i fudo a'r rhai sydd yn aros. Dylid hefyd ystyried hyn o fewn natur economaidd yr ardal mewn golwg.

Mae gwaith Drinkwater a Blackaby wedi darparu sylfaen i'r rhesymau pam bod pobl ifanc yn dewis gadael eu bröydd. Maent yn trafod gwahaniaethau yn y farchnad lafur a mudo. Dywedant y gall symudiad llafur effeithio ar economïau mewn sawl ffordd. I ddechrau, gan fod symudoledd llafur yn agwedd allweddol o economi hyblyg, mae'n fecanwaith y gellir ei ddefnyddio i leihau gwahaniaethau marchnad ranbarthol a lleol. Fodd bynnag, gwelir bod y mudo lleiaf yn digwydd i ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, a bod allfudiaeth yn dangos cydberthynas negyddol gyda diweithdra a graddfeydd o salwch. Yn ail, mae nodweddion mewnfudwyr ac allfudwyr â goblygiadau i berfformiad economïau lleol a rhanbarthol. Mae rhai astudiaethau eraill o'r tu allan i Gymru ar allfudo a mewnfudo poblogaethau yn cynnig damcaniaethau diddorol ynghylch pam bod un grŵp, mwy na grŵp arall, yn dewis gadael eu cymuned. Dywed Belot ac Ermisch (2008) bod cysylltiadau cymdeithasol yn chwarae rhan flaenllaw mewn symudoledd daearyddol, tra bod Levy a Waldacki (1973) mewn astudiaeth gynnar yn Venezuela wedi canfod fod y tebygolrwydd o symud o un ardal i ardal arall â chydberthynas cryf gydag economi a gwaith. Wrth ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol yn benodol, gellir dadlau fod pwyslais cynyddol yn cael ei roi ar waith a chyflogaeth a hynny yng nghyd-destun mudo ac allfudo gan nodi fod cyfraddau sylweddol o bobl ifanc bellach yn ddi-waith. Yn ogystal, mae dibyniaeth Sir Gwynedd ar y sector gyhoeddus a'r toriadau anochel sydd yn debygol o effeithio'r sector yma, yn ail pwysleisio'r duedd hon. Wrth ystyried yr ymatebwyr ym Mlaenau Ffestiniog, unwaith eto, gellir dadlau fod y pwnc o gyflogaeth ac economi'r Fro o bwysigrwydd cyffredin iddynt oll.

O safbwynt ystyriaethau economaidd, gwelwyd fod diffyg yn yr economi leol yn ysgogiad blaenllaw wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Wrth gyfuno'r diffygion economaidd gyda gwendid mewn cyfalaf cymdeithasol, roedd nifer o'r ymatebwyr yn awyddus i fudo a phrofi o'r newydd. Mewn nifer o'r cyfweliadau, roedd ymgais yma i bwysleisio'r diffyg cyfleoedd oedd yn gysylltiedig gyda'r ardal ac yng Nghymru yn gyffredinol, ac mewn nifer o achosion, nid oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r cyfloed oedd ar gael i bobl ifanc, broffesiynol oedd yn gallu siarad yr iaith. Mae lle yma efallai i gwestiynu'r diffyg gwybodaeth yma a'r pwyslais ar bolisïau ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Awgrymwyd gan Harriet nad oedd hi'n ymwybodol o'r gofyn enfawr ar gyfer hyfforddwyr Cymraeg yn ei maes hi o waith mewn gweithgareddau awyr agored, tan iddi gyrraedd ei hugeiniau cynnar. Dadleuwyd ganddi fod diffyg mawr yn o fewn cynlluniau Cymru ar gyfer y math o waith addas sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc a'r manteision sydd wrth allu siarad Cymraeg. Byddaf yn ymhelaethu ar hyn yn ystod fy mhennod casgliadau.

Roedd y dyfodol yn gyffredinol yn un o'r themâu olaf a welwyd yn ystod y cyfweliadau. Roedd trafodaethau ynglŷn â'u dyheadau personol, yn ogystal â'r hyn oedd yn ddisgwyliad ganddynt o'r dyfodol yn themâu amlwg. Yn wahanol iawn i'r grŵp sampl iau, cafwyd ystyriaeth i ddewisiadau prifysgol yn hytrach na dewisiadau gyrfaol yn unig. Yma gwelwyd patrwm amlwg rhwng y themâu uchod a'r rhai a ddewisodd adael Cymru ar gyfer eu dewisiadau cwrs ac ar gyfer y rhai a benderfynodd gyfanheddu yn yr ardaloedd hynny, ôl prifysgol.

Er y sylwadau uchod, tuedd amlwg a gododd wrth ddadansoddi'r cyfweliadau oedd bod pobl ifanc yn dewis symud o'r broydd er mwyn profi bywyd cymdeithasol a gweithiol gwell, hynny yw, nid oedd eu rhesymau dros allfudo o'u cartrefi, yn rhai tu hwnt i batrwm cymdeithasol arferol. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn mynegi eu bod yn awyddus i "*see more of the world*," (Harriet) ac i ennill profiadau newydd tu hwnt "*i'r milltir sgwâr,*" fel yr amlygwyd gan Tomos. Gwelwyd rheswm yma dros ddewis prifysgol tu draw i Gymru, lle ymddengys arwyddion bod addysg uwch yn rhan o'r broses allfudiaeth i'r sampl yma. Roedd yr un patrwm yn amlwg mewn cyfweliad â gweithiwr ieuenctid lleol, oedd eisoes wedi gweithio ar brosiectau yn ymwneud â phatrymau allfudiaeth a dyheadau a gobeithion pobl ifanc Gwynedd. Credai ef fod allfudiaeth ein poblogaeth ifanc yn ddibynnol ar nifer o

ffactorau ond yn bennaf yn ei farn ef, nid oes darpariaeth digon cynhwysfawr i'w cadw hwy'n lleol. Dadleuai nad oes cyfuniad digonol o gyfleoedd economaidd a chymdeithasol ar gael a bod y dyhead i adael yn gysylltiedig gyda dyhead i brofi sefyllfaoedd a bywyd newydd, fel y gwelwyd isod:

Dwi'n meddwl mai'r her ydi i ystyried y trwch hynny o bobl ifanc yng Ngwynedd sy'n cael addysg dda ac mae nhw'n penderfynu symud o'r ardal i ddilyn addysg bellach mewn brifysgol ac yn y blaen. Yr her wedyn ydi eu cael nhw yn ôl i'r sir, ond mae trwch bach o'r boblogaeth yn aros yma llu ac yn aml iawn dwi'n credu weithiau bod yna or bwysleisio ar y pobl ifanc hynny sydd yn gallu gadael ac sydd eisiau gadael, ar draul y pobl ifanc sy'n cael eu gadael ar ôl. Mae'r pobl ifanc yma weithiau wedi dewis aros neu sydd ddim efo'r modd i symud i ffwrdd i ddilyn cwrs neu i ddilyn bywyd gwahanol llu, ond erbyn hyn dwi'n meddwl bod y meddylfryd yn newid ac mae yna mwy o sylw'n cael ei roi ar y pobl ifanc i gyd. Y gwir ydi os ydi pobl ifanc isio mynd mae nhw'n mynd i fynd, yr her yw i trio eu cael nhw yn ôl. Yr anhawster yw pan mae'n nhw'n mynd i lefydd fatha Lerpwl, Llundain, Manceinion, Birmingham, Caerdydd hyd yn oed, mae hi'n anodd eu denu nhw'n ôl i Wynedd, oherwydd da ni ddim efo'r un cyfleoedd, cyfleusterau. Os nad ydym yn darparu'r pethau yma, fydde nhw ddim eisiau dod yn ôl i Wynedd. (Gweithiwr ieuenctid 2)

O safbwynt trefniadau polisi a gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, dadleuai fod creu ardal sydd yn gallu denu'r boblogaeth yma'n ôl, gan gynnwys eu sgiliau a'u profiadau newydd, yn flaenoriaeth bennaf. (Gweithiwr Ieuenctid 1, Cyngor Gwynedd). Mae'r hyn a amlygir hefyd yn gyffredin o fewn y cyfweliadau a gynhaliwyd, ond gellir dadlau fod naratif Harriet yn crynhoi'r hyn a welwyd fel patrwm anochel o fewn ein broydd. Cafodd Harriet ei geni tu allan i Gymru, fel ei rhieni, a symudodd i Gymru yn 5 oed:

If you're asking whether I wanted to go, well of course I did. I'd had enough of not being able to just have everything on my doorstep, like places to eat and generally places to go. I think we all felt like that, regardless of our family history and where we all came from like, I think you get to a certain age and know that there's more out there than going to the same pub night after night and going to the same places your parents go, like everyone wants a change. I think that I've always expected to feel like that too, knowing that when the time came Id go. A lot of my Welsh and English friends felt like that, it's not common for just one group of people only. You've got to make the most of it, and I think that if Id have stayed in Wales Id have felt like a disappointment to myself and to my family. It sounds harsh but it's true. I think the issue really comes when you think about who will come back and who won't. I could have told you when I was in school who would do what, and I think that Id still be right. (Harriet)

One of the dilemmas I see, personally, is that I really enjoyed growing up in North Wales, in this community, and I feel it's really kind of helped me, I've been quite lucky to have done so,

but probably when I'm the age to have kids, I won't be here, so I find that a bit of a shame just because, whenever it's going to be thirties or whatever, I just can't see myself coming back here that early. I definitely want to later in life, when we talk about retirement I know it's a long way away but I can definitely see me coming back here at some point but probably not that early when I'm at the age to have kids, which is a bit of a shame. (James)

Mae naratif James yn ategu'r hyn a welwyd yng ngwaith Drinkwater a Blackaby (2004) "Migration and Labour Market Differences: The Case of Wales." Gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, mae Drinkwater a Blackaby yn dangos fod y bobl sy'n allfudo o Gymru yn ieuengach a chanddynt fwy o gymwysterau addysgol na'r rheiny sy'n mewnfudo i Gymru. Ymhellach mae Drinkwater a Blackaby yn haeru fod pobl ifanc ddysgedig Cymru yn fwy tebygol o fudo na'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o Brydain.[46] Gwelir hefyd bod rhai ardaloedd yn gallu colli cyfran anghyfartal o'u gweithwyr dysgedig, ifanc, tra ar yr un pryd ddenu cyfran uchel o unigolion o oed ymddeol. Mae'r patrymau symudoledd yma'n debygol o effeithio ffyniant presennol ardal, yn ogystal â'r galw am ddarpariaeth gwasanaethau ac amwynderau lleol.

Mae hyder amlwg yn gysylltiedig gyda dewisiadau prifysgol yn ogystal, hynny yw, mae dewis prifysgol tu hwnt i ardal enedigol neu fagwrol yn debygol o fod yn gam allweddol ond ofnus i bobl ifanc, ac oherwydd yn golygu fod angen cefnogaeth a hyder i gyflawni'r penderfyniad. Cafwyd enghraifft o hyn wrth ystyried naratif James a Robert uchod, lle awgrymwyd fod yr hyder i fudo ac i geisio am gyfleoedd a phrofiadau tu hwnt i'r Fro, wedi ei wreiddio o gefnogaeth eu rhieni. Ceir cyfeiriad yma yn ogystal tuag at y gefnogaeth deuluol estynedig sydd yn darparu sylfaen a chanolfan i'r bobl ifanc yma. Awgrymwyd fod dewisiadau prifysgol yn gysylltiedig gyda'r rhwydwaith cefnogol hwn yn ogystal. Gellir ystyried fod y dewisiadau uchod yn rhan o gylchdro naturiol pobl ifanc, gyda'r dyhead i fudo yn ddibynnol ar yr angen am brofiadau tu hwnt i'w milltir sgwâr. Er hynny, gweler fod eu penderfyniad i gyfanheddu ac i aros, yn fwy cymhleth.

O ganlyniad, gwelwyd o'r cyfweliadau ym Mlaenau Ffestiniog fod profiadau'r unigolion yn amrywio yn ddibynnol ar eu sefyllfaoedd cymdeithasol. Er hynny, gwelwyd themâu cyffredin yn ymddangos ac yn gwau ymysg y bobl ifanc mewn golwg, ac o ganlyniad,

[46]Migration and Labour Market Differences: The Case of Wales http://ideas.repec.org/p/sur/surrec/0604.html, cyrchwyd 1 Gorffennaf 2010

dadleuwyd fod lle yma i gymryd mantais o'r hyn a fynegwyd, gan ystyried cynlluniau ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Byddai'n gymorth yn ogystal creu cymhariaeth gyda'r cyfweliadau yn Nhregaron, ac i ddadansoddi os yw'r un themâu hefyd yn wir yn yr achos hwn.

**Grŵp 2, Tregaron**

Roedd darganfod sampl digonol ar gyfer y cyfweliadau ansoddol, fel yn achos grŵp 1, yn dasg gymhleth. Fel yn achos Blaenau Ffestiniog, roedd y grŵp yn wasgaredig yn ddaearyddol ac nid yw Tregaron yn ardal sydd yn wybyddus i mi. Unwaith eto, roedd cyfraniad yr ysgol uwchradd tuag at y dasg o bwysigrwydd allweddol. Un waith eto cynigiwyd holiaduron ar lein i'r ysgolion eu dosbarthu i'r disgyblion hynny oedd wedi gadael eu bröydd ac oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun Llwybro.

Yn Nhregaron, cafwyd ymateb o naw oedd yn cynnwys 4 o fenywod a 5 o wrywod. Bu'n ymateb cadarnhaol a bu'n galluogi data ansoddol digonol.

Mae cyfansoddiad y grŵp fel a ganlyn[47]:

**Tabl 46: Ymatebwyr Grŵp 2, Tregaron**

| Enw | Ardal | Iaith y Cyfweliad | Man Byw Presennol | Sefyllfa | Prif Iaith y Cartref |
|---|---|---|---|---|---|
| Jasper | 1 | Saesneg | Huddersfield | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Amber | 1 | Saesneg | Sheffield | Addysg Llawn Amser | Saesneg |
| David | 1 | Saesneg | Lerpwl | Addysg Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Bridget | 1 | Saesneg | Llundain | Addysg Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |

[47] Noder mai enwau ffug a ddefnyddir drwy'r bennod

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhonwen | 1 | Saesneg | Llundain | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Roberta | 1 | Saesneg | Newcastle | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Evan | 1 | Saesneg | Llundain | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |
| Ceri | 1 | Saesneg | Caerdydd | Gwaith Llawn Amser | Y Ddwy |
| Oliver | 1 | Saesneg | Caerdydd | Gwaith Llawn Amser | Saesneg yn Bennaf |

Dewiswyd Saesneg fel prif iaith y cyfweliad gan bob un o'r ymatebwyr fel ymddengys y tabl uchod, fod amrywiaeth o bobl ifanc yma unwaith eto. Gwelwyd fod 8 ohonynt wedi nodi mai Saesneg oedd prif iaith eu cartrefi, ac un sydd wedi nodi eu bod yn siarad y ddwy. O ganlyniad, gwelwyd achos cymhariaeth yma rhwng Blaenau Ffestiniog a Tregaron, yn ogystal â chymhariaeth rhwng yr ymatebwyr. Fel sydd yn gyffredin yn y ddwy ardal, mae'r ymatebwyr uchod wedi eu magu yn y broydd ond bellach wedi dewis gadael eu cymunedau. Yn y rhan hwn o'r dadansoddiad, mae lle yma i gwestiynu os yw rhesymau'r bobl ifanc dros fudo yn debyg ac yn gyffredin ac i greu cymhariaeth o'u gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Fel ym Mlaenau Ffestiniog, roedd gan yr ymatebwyr resymau amrywiol dros adael eu broydd. Er hynny, roedd rhai o'r ymatebion yn ymdebygu ac yn adlewyrchu'r hyn a welwyd ym Mlaenau Ffestiniog, ac eraill yn mynegi rhesymau gwahanol dros eu penderfyniad. Fel ym Mlaenau Ffestiniog, roedd y teulu wedi chwarae rhan flaenllaw ym mhenderfyniad rhai o'r ymatebwyr, ac mae hyn yn benodol yn amlwg o naratif Jasper. Cafodd Jasper ei eni tu allan i'r Fro, ac roedd ei rieni yn uniaith Saesneg. Yn yr achos hwn, roedd dyheadau ei rieni wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ystyried ei allfudiaeth, ac yn benodol, roedd iaith ei rieni wedi darparu hyder iddo ddilyn ei ddyheadau yntau:

A lot of my friends had decided to leave already, and I think that I saw in myself a desire just to up and leave like them. But the thing was that a lot had left just to go to Lampeter or Cardiff and I just couldn't see myself making that effort just to be on the same doorstep. I realised that I you know wanted to branch out and not make the same old, predictable decisions. So I went to Huddersfield. Coming from an English, or I would say a strong English background helped and so I was stronger and more confident to leave than some of my other friends at school. I'm not being big headed it's just the way I felt, and it was a situational thing I guess. I decided to go to university in Huddersfield as no other Welsh universities offered my course, and in a way because my mum and dad had given me that ticket and had encouraged me to leave. (Jasper)

Gellir dadlau fod naratif Jasper yn debyg iawn i naratif James a Robert ym Mlaenau Ffestiniog, lle gwelwyd fod dyheadau eu rhieni a llwybr bywyd eu hunain, wedi rhoi hyder ac ysgogiad iddynt hwythau ddilyn cyfleoedd tu allan i'r Fro. Gellir dadlau yn ogystal fod yr hyder yma'n ogystal yn gysylltiedig gyda'r hyn a welwyd ym Mlaenau Ffestiniog, sef y dyhead i "wella nhw eu hunain," a'r ffaith fod hyn yn golygu gadael y Fro i wneud hynny. Wrth ystyried y bobl ifanc hynny sydd wedi eu geni a'u magu yn y Fro Gymraeg, fel eu rhieni, mae dadleuon sydd yn atgyfnerthu'r duedd a welwyd yn yr ymchwil hwn. Gwelwyd yng ngwaith Belot a Ermisch, er enghraifft duedd newydd, lle ystyriwyd rolau cysylltiadau cymdeithasol unigolion yn ôl eu cymunedau tarddiad yn hytrach na'r cymunedau maent yn mudo iddynt. (Belot & Ermish 2008:4). Dadleuir yn ogystal fod y dystiolaeth yn ymwneud â chysylltiadau cymdeithasol o fewn yr un cartref ac nad yw'r cysylltiadau rhwng cartrefi a theuluoedd wedi ei ymchwilio'n ddigonol, yn rhannol oherwydd diffyg data (Belot a Ermisch 2008). Gan ddyfynnu o waith Konrad *et al* (2002) mae Belot ac Ermisch wedi edrych ar rôl y strwythur teuluol ar batrymau symudoledd yn yr Almaen, gan ddamcaniaethu fod plant sydd wedi eu geni gyntaf yn gallu gorfodi'r plant sydd wedi eu geni wedyn i fyw yn nes at y rhieni er mwyn gofalu amdanynt yn y dyfodol. Mae Rainer a Siedler (2005) hefyd yn defnyddio data o'r Almaen, a chanfu'r rhain bod unig blant yn symud yn agosach at eu rhieni na phlant sydd ag un brawd neu chwaer (2005:4). Mae gwaith Spilimbergo ac Ubeda (2001) yn atgyfnerthu hyn yn eu hastudiaeth ar effaith y teulu estynedig ar symudoledd daearyddol. Bu iddynt gymharu teuluoedd gwyn a duon yn yr Unol Daleithiau, gan awgrymu fod crynodiad uchel o deulu mewn un ardal yn golygu lefelau is o symudoledd daearyddol. Roedd modd dangos o'r canlyniadau hyn fod gwahaniaeth rhwng patrymau symudoledd y ddwy hil; hynny yw, yn gyffredinol, gan fod pobl dduon â mwy o deulu yn byw yn agosach, felly roeddynt yn llai tebygol o adael na phobl wyn (Belot ac Ermisch, 2008). Yn yr achos

hwn, gwelwyd y duedd i'r gwrthwyneb, hynny yw bod y bobl ifanc hynny sydd yn perthyn i deuluoedd ymfudol, yn ddadleuol â mwy o hyder na'r rhai sydd yn enedigol i'r Fro. Gwelwyd o ganlyniad fod symudoledd y bobl ifanc yma, fel ym Mlaenau Ffestiniog, yn gysylltiedig gyda hyder yr unigolyn yn ogystal ag ysgogiad gan rieni.

Fel ym Mlaenau Ffestiniog, yn ogystal, ceir cyfeiriad yma tuag at gysylltiadau teuluol a charennydd, ond yn wahanol i Blaenau Ffestiniog, gwelwyd pwyslais uwch ar gysylltiadau brodorol yn hytrach nac ymfudol i'r ardal. Gwelwyd cyfeiriad uchod i waith Strathen (1982) sydd yn trafod pentref Elmdon yn Essex. Fel yn Nhregaron, pentref amaethyddol yw Elmdon, ac yma gellir dadlau fod nodweddion sy'n debyg wrth ystyried patrymau teuluol a charennydd. Yma ceir peth drafodaeth ar y cysyniad fod carennydd yn ganolog i fywyd cymunedol:

We know that from an individual's point of view his network of relatives can constitute a vital support system, and that there are whole neighbourhoods among whom relatives are crucial to the organisation of day-to-day living[48]

Dadleuwyd fod cysylltiadau cymdeithasol yn gref mewn ardaloedd sy'n ymdebygu i Elmdon, ac yn wir, mae'r cysylltiad teuluol yma, lle ystyriwyd fod pawb yn perthyn i'w gilydd, yn torri'r cysylltiad hwnnw rhwng y pentrefwyr a'r rhai sydd yn byw tu allan iddo. O safbwynt oed, gellir dadlau fod Blaenau Ffestiniog â llai o gysylltiadau carennydd, hynafol na Thregaron, ac o safbwynt ei hanes cymdeithasol, gellir dadlau fod Blaenau Ffestiniog â hanes o fudwyr ac ymfudwyr. O ganlyniad, ac o ystyried y sylw uchod, gellir ystyried y byddai newydd ddyfodwyr i Flaenau Ffestiniog, yn ei chael hi'n haws i integreiddio iddo nac yn Nhregaron. Bu cadarnhad o hyn wrth ystyried y grŵp sampl, a cheir enghreifftiau o hyn isod wrth drafod patrymau integreiddio ac iaith.

Wrth ystyried hanes a chefndir teuluol y sampl dan sylw, gellir dadlau fod eu diffyg cysylltiadau teuluol a charennydd yn eu gosod ar wahân i'r bobl ifanc hynny sydd yn enedigol i'r Fro. Mae eu cysylltiadau teuluol yn rhan o'u cymdeithasoli ac o ganlyniad yn rhan o'u cysylltiadau cymdeithasol. Dadleuwyd fod hyn hefyd yn rhan o'u patrymau integreiddio a'u hymdeimlad o berthyn i'r gymuned. Fel awgrymwyd gan Cohen (1982):

[48] Dyfynwyd gan Cohen (1982) Belonging Identity and social Organisation in British Rural Cultures tud:74

> Belonging implies very much more than merely having been born in the place. It suggests that one is an integral piece of the marvellously complicated fabric which constitutes the community; that one is a recipient of its proudly distinctive and consciously preserved culture – a repository of its traditions and values, a performer of it's hallowed skills, an expert in its idioms and idiosyncracies. The depth of such belonging is revealed in the forms of social organisation and association in the community so that when a person is identified as belonging to a particular kinship Group or neighbourhood He becomes, at the same time, a recognisable member of the community as a whole and of its cultural panopoly.[49]

Dadleuwyd gan Cohen, pan fod pobl yn ystyried eu bod yn perthyn i Whalsey, maent yn cyfundoddi i uchafiaeth eu carennydd a chysylltiadau cyfagos, gyda'r gymuned gyfan (1982:21). Unwaith eto, gwelwyd cysylltiad rhwng perthnasedd a hanes teuluol, gyda phatrymau integreiddio a'r ymdeimlad o berthyn. Wrth ystyried ardal Whalsey, awgrymwyd fod ei wreiddiau hynafol yn cael ei ddiogelu gan gysylltiadau teuluol a charennydd. Fel sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y grŵpiau ffocws yn Nhregaron, mae'r gwahaniaeth rhwng diwylliant y rhai a gafodd eu geni a'u magu yn yr ardal a rhai na chafodd yn wahanol iawn o ganlyniad i'r cysylltiadau yma. Awgrymwyd yn Whalsey fod carennydd yn parhau i fod yn un o'r esboniadau a chyfreithloniaeth bwysicaf ar gyfer cydgysylltiad cymdeithasol (1982:28). O safbwynt y cysyniad o berthyn yn y gymuned hon, dadleuwyd fod ethos o fod yn 'Whalsa,' a bod ei mynegiant a'i ddehongliad, yn gysylltiedig gyda hunaniaeth ei breswylwyr. Nid yw Cohen yn awgrymu nad yw strwythur y gymdeithas honno wedi newid, yn wir awgrymwyd fod y pwysigrwydd a gysylltir gyda'i elfennau gwahanol yn newid dros amser a gyda defnydd. Er awgrymwyd fod y newid yma'n cael ei guddio gan barhad areitheg ei bobol a'u disgrifiad nhw o'u trefniant cymdeithasol (1982:22). Gwelwyd fod strwythurau perthnasau cymdeithasol yn Whalsey, yn cael eu disgrifio gan ei bobol mewn ffordd sydd yn pwysleisio eu cymeriad hanesyddol, drwy gyfeirio at eu cynseiliau neu i'r newid sydd wedi digwydd (1982: 23). Gwelwyd enghreifftiau o hyn yn ystod y cyfweliadau yn Nhregaron, lle cyfeirir at y diwydiant amaethyddol a chysylltiadau teuluol yn gyffredinol.

Er hynny, nid yw gwaith Cohen (1982) nac ychwaith Strathen (1982) wedi cymryd i ystyriaeth wahaniaethau ieithyddol, yn enwedig wrth ystyried grŵpiau iaith leiafrifol. Yn ystod y cyfweliadau, gwelwyd fod gwahaniaethau ieithyddol yn gysylltiedig â lefelau

[49] A sense of time, a sense of place: The meaning of close social association in Whalsey, Shetland. Cohen (1982: 21)

integreiddio a'r diffyg perthynas oedd yn bodoli ymysg rhai o'r ymatebwyr. O safbwynt iaith a diwylliant, bu ymgais yma i holi'r ymatebwyr am yr ardal leol a'r iaith Gymraeg. Roedd pob un o'r ymatebwyr wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac roedd eu perthynas gyda'r iaith yn amrywio. Gwelwyd hyn yn amlwg wrth ystyried naratif David ac Amber. Mae Amber yn enedigol o Dregaron ond gyda rhieni ymfudol, a bu i David fudo yma pan oedd yn dair oed:

"I do sort of remember learning Welsh you know, even though most people would tell you that's crazy, but I do remember it. My mum was sort of against it and decided that she didn't want to learn it. I still don't really know why, I just don't think she understood, because like everybody could speak English. I wasn't like that though. I think I got it quite early that if you wanted to fit in then you had to try and do whatever you can, and learning Welsh was my way. Anyway, why shouldn't I. The thing is, is that I don't know when I'll ever use it again, don't get me wrong, I'm really proud that I can speak this rare language and stuff, but I'm going to be really honest and say I don't know when I'll ever use it agin in my new kinda life. It's been worth it though, because I've fitted in, and that's important." (David)

"When I think about Tregaron, it's all idyllic and stuff, this proper beautiful area where you'd like set a scene for a film or something. I know, it sounds funny, but its how Ive always felt! I think the language is a part of that though you know, like it's not real, it belongs to Wales but not outside it. I know some people are really going to look at me harshly for saying that, and it's a bit harsh like but hey. I do think sometimes that were all kind of pushed into learning it and speaking it in school and things and it kind of gets into a bit of a rebellion thing I think. Like the kids who don't speak it are the rebels. It sound weird I know, but that's how it was for me." (Amber)

Mae'r ddau ddyfyniad uchod yn cyfeirio at raniadau sydd yn bodoli o fewn yr ysgol a thu allan, a gwelir o naratif Amber, fod y rhaniadau wedi effeithio ar ei barn hi o'r Gymraeg ac efallai nid mewn ffordd ffafriol. Yn achos David, gwelwyd ei fod yn adlewyrchu barn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrth iddo awgrymu na welwyd defnydd i'r Gymraeg tu allan i Gymru. Fel y soniwyd eisoes, mae diffyg gwybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael wrth ddefnyddio'r iaith, yng Nghymru yn amlwg iawn. Mae lle yma yn ogystal i drafod cyfalaf cymdeithasol yr unigolion gan fod y cyfalaf cymdeithasol yn debygol o fod yn isel o ganlyniad i agweddau ieithyddol ac felly'n anochel cymdeithasol. Dengys hyn nodweddion tebyg i waith Morris (1989) lle gwelwyd rhai o effeithiau cymdeithasol mewnfudo ar un gymuned Gymraeg. Dengys i ddechrau mai gan y siaradwyr Cymraeg lleol oedd y rhwydweithiau cryfaf a mwyaf dwys, a'r mewnfudwyr uniaith Saesneg oedd â'r rhwydweithiau gwannaf a lleiaf. Roedd y grŵp o fewnfudwyr Cymraeg eu hiaith yn disgyn rywle rhwng y ddau. Roedd perthnasau teuluol yn ffactor pwysig wrth ffurfio rhwydweithiau, ac roedd hyd yr amser yr oedd yr

ymatebwyr wedi byw yn Ynys Môn hefyd yn ddylanwad. Awgrymwyd fod y siaradwyr Cymraeg wedi medru integreiddio'n well i'r gymuned leol oherwydd eu bod yn gallu cymryd rhan yn y clybiau a'r cymdeithasau, rhywbeth nad oedd y grŵp o fewnfudwyr uniaith Saesneg yn gallu gwneud oherwydd eu dealltwriaeth gyfyngedig o'r iaith Gymraeg. Roedd hyn wedi arwain at sefyllfa o ddau grŵp iaith yn byw ar wahân i'w gilydd yn gymdeithasol:

It was apparent that the two language groups, although living side by side within the locality, were interacting socially quite separately. (Morris, 1989:114)

Law yn llaw â hyn, gwelwyd awgrym cryf, fel yr ystyriwyd ym Mlaenau Ffestiniog, o gysylltiadau hylifol yr unigolion yma- hynny yw, roedd eu rhesymau dros adael y broydd yn ddibynnol ar nifer o wahanol ffactorau a rhesymau, ond nid oedd yr un ysgogiad yn ddigon i'w cadw o fewn eu broydd. Bu teimlad yma nad oedd cysylltiadau'r unigolion yn ddigonol ac yn ddibynnol ar nifer o wahanol ffactorau, mae hyn yn amlwg o naratif Robert ym Mlaenau Ffestiniog a Jasper yn Nhregaron:

Personally for me I do not view England and Wales as being hugely separate places, I'll personally go wherever my friends are, wherever the jobs are, wherever the money is, you know I don't view the two places, you know I don't view as there being a big gap between the two places, I'll just go wherever I feel. (Robert Blaenau Ffestiniog)

The thing is that I'd go because of the work and I'd come back because of the work, I'll go the way the wind blows, and that's how I've always felt. (Jasper, Tregaron)

Cafodd hyn ei atgyfnerthu yn ystod cyfweliad gyda gweithiwr ieuenctid o ardal Tregaron, wrth iddo gytuno gyda nifer o'r bobl ifanc uchod, fod y rhesymau dros allfudo yn bersonol i bob unigolyn:

Alle di ddim dweud fod pawb yn mynd ac yn gadael yr ardal am yr un rhesyme. A dweud y gwir, mae'r rhai yr ydw i'n eu hadnabod wedi gadael am resymau gwahanol iawn, rhai ar gyfer y swyddi, rhai ar gyfer ffrindie a rhai just er mwyn gwneud. Dwi'm yn meddwl alli di ddweud fod yr un patrwm yn debyg i pawb. Ond, ar y llaw arall, dwi yn gwybod fod llawer yn gadael oherwydd y gwaith, neu fod ddim gwaith yma. Ond mae e di bod yn broblem ers rhai blynyddoedd nawr. Mae'r busnes ffermio yn 'narrow,' iawn a mae lot o pobol ifanc yn troi yn ei herbyn. Ond mae'r amser yn newid ac mae pobl ifanc ni'n newid hefyd. Ond dwi'n dal i ddeud fod dewisiadau ein pobl ifanc ni yn bwysig ac mae'n rhaid i ni edrych arnyn nhw os ydym ni am gadw ein cymunedau.

Yn ogystal, dadleuwyd fod ysgogiadau pobl ifanc yn cael ei effeithio gan eu cysylltiadau o fewn a thu hwnt i'w broydd a bod teuluoedd yn benodol yn cael eu hystyried fel eu gwreiddiau yn hytrach na man neu le arbennig. Gellir dadlau fod y duedd yma'n gyffredin i nifer o bobl ifanc sydd ar fin gwneud dewisiadau ar gyfer eu dyfodol, lle gwelwyd rhesymau anghyson er niferus sy'n rhan o'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, gwelwyd er bod patrymau mudo ymysg pobl ifanc yn gallu cael eu hystyried fel ffenomen gyffredin a naturiol, gwelwyd fod ysgogiadau ymhellach i'r bobl ifanc hynny sydd naill ai wedi eu geni tu allan i'r broydd neu sydd yn blant i deuluoedd ymfudol.

Wrth gwrs, fel ym Mlaenau Ffestiniog, mae cysylltiadau teuluol, yn ogystal â phatrymau integreiddio a'r ymdeimlad o berthyn, yn gysylltiedig gyda'r ardal ei hun, a chafwyd gwahaniaethau lled awgrymog rhwng yr ymateb ym Mlaenau Ffestiniog a'r ymateb yn Nhregaron. Gwelir perthynas yma rhwng y disgwyliad y dylai pobl ifanc adael eu bröydd er mwyn profi elfennau o fywyd newydd ac yn achos barn nifer er mwyn "gwella" eu disgwyliadau a'u dyheadau. Fel yn achos Blaenau Ffestiniog, mae pwyslais yma ar fywyd cymdeithasol newydd tu hwnt i'r bröydd, ac yn anochel cyfleoedd economaidd a gyrfaol gwell.

Yr hyn sydd yn drawiadol o'r cyfweliadau yw cyfeiriad tuag at brydferthwch naturiol yr ardaloedd dan sylw. Yn y mwyafrif o gyfweliadau ym Mlaenau Ffestiniog ac yn Nhregaron, mae cyfeirio cyson tuag at y plentyndod darluniadol iddynt brofi yn eu hardaloedd personol ac mae awgrymiad yma o'i gyfaddasrwydd fel ardaloedd magwrol ond ddim fel ardaloedd ar gyfer eu cyfnod hwy mewn bywyd. Gellir dadlau fod y sylwad hwn hefyd yn wir ar gyfer y bobl ifanc a'r rhieni hynny sydd yn enedigol i'r Fro, ond fod yr hyder i ddilyn bywyd tu hwnt iddo yn sefyllfa wahanol iawn. Mae'r sylw yma'n gyffredin o naratif James a Tomos ym Mlaenau Ffestiniog, ac o naratif Rhonwen isod. Gwelwyd cymhariaeth sylweddol yn eu barn nhw o addasrwydd eu hardaloedd magwrol a'i anaddasrwydd ar gyfer y cyfnod newydd y maent yn ei brofi ar hyn o bryd. Yn ogystal, maent yn trafod eu plentyndod fel cyfnod sydd ar wahân iawn i'r hyn sydd yn gyffredin iddynt ar hyn o bryd. Mae Rhonwen, er enghraifft yn parhau ei naratif drwy fynegi nad yw hi'n gweld dyfodol iddi yn ei hardal enedigol o ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd yn gyffredinol. Nid yw'n addas yn ei barn hi, fel ym marn

James ym Mlaenau Ffestiniog, ar gyfer pobl ifanc sydd yn ceisio llwyddo. Unwaith eto, gwelwyd fod y farn yn adlewyrchu barn eu rhieni.

Wrth ymhelaethu ar y sylw uchod, bu i Evan fynegi fod y cyfloed oedd ar gael yn Nhregaron yn gyfyngedig a dweud y lleiaf, hynny yw, roedd y ddarpariaeth a'r gwasanaethau oedd ar gael i bobl ifanc yn ddiffygiol. Fel y daeth i'r amlwg yn ystod y grŵpiau ffocws yn Nhregaron, roedd y bobl ifanc yn cwyno am ddiffyg mewn trafnidiaeth gyhoeddus addas er enghraifft i Aberystwyth, a bu dibyniaeth fawr ar rieni ar gyfer y ddarpariaeth hon. Bu i Evan esbonio fod cyflogaeth ar y penwythnosau, tu allan i'r ardal yn du hwnt iddynt, gan nad oedd darpariaeth ddigonol ar eu cyfer. Wrth drafod ymhellach gydag Evan, awgrymwyd os nad oedd newidiadau clir yn digwydd yn yr ardal, yna byddai'n colli ei boblogaeth ifanc ar gyfer y dyfodol, neu yn ei eiriau ef, "you'd only have a select few left, the sons of farmers and their wives mostly. But Tregaron can't survive on that alone, so it will inevitably lose all its young blood."

Yn feirniadol, roedd rhagolwg pobl ifanc Tregaron at yr ardal, ychydig yn fwy negyddol nac ym Mlaenau Ffestiniog. Bu anobaith yma'n ogystal, lle awgrymwyd nad oedd yr ardal yn gwneud y mwyaf o'i adnoddau naturiol. Gwelwyd yr un duedd yn amlwg yn y grŵpiau ffocws, ac unwaith eto dylid cyfeirio efallai at y rhaniadau a wnaed yn gynnar yn yr ysgol o safbwynt rhaniadau iaith o fewn y dosbarth. Er y gellir dadlau fod yr ymatebwyr ym Mlaenau Ffestiniog yn teimlo'n rhwystredig gyda'r ardal, nid oedd yr un anobaith yn gyffredin yma. Yn ogystal, roeddynt yn rhagweld y byddai'r newidiadau sydd bellach yn cael eu cyflawni yn y dre, yn golygu cyfleoedd gwell i'r boblogaeth ifanc. Er hynny, gwelwyd rhybudd ac ysgogiad yma ar gyfer cynllunio iaith ar gyfer y dyfodol. Fel ym Mlaenau Ffestiniog, mae diffyg gwybodaeth yma am y buddion a'r manteision sydd ar gael wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yng Nghymru i siaradwyr Cymraeg. Mae lle yma i wellhad ac i gadwraeth o'n boblogaeth ifanc.

Bu cyfeiriad yma'n ogystal tuag at natur newidiol yr ardal, gyda hanner yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo fod y gymuned yn, neu wedi newid. Wrth ymchwilio ymhellach i'r pwynt yma, darganfuwyd eu bod yn trafod newidiadau cymdeithasol sydd o farn gyffredin i nifer o gymunedau ar draws Prydain. Roedd cyfeirio yma tuag at ymddygiad gwrth

gymdeithasol, newidiadau yn y boblogaeth, gyda mwy yn mudo i'r ardal ac eraill yn ymfudo. Bu'r teimlad yma o golled euraidd mewn cymuned yn eu barn nhw, heb ystyried eu bod eraill hefyd wedi cyfeirio at yr un newidiadau rhai blynyddoedd ynghynt. Fel y gwelid o naratif Ceri:

If I think about wether I would go back to Tregaron, then I feel like really torn. It's like something that I'm always going to want to do I think, and on some level; I think I will, but when I really think about it then things scare me, like am I just remembering my childhood here. Tregaron's really changing you know, kids seem to be out on the street p****ng about, they come in to Tregaron from a lot of different places, and are being quite you know hostile or whatever, and the communities really changing. If I feel that now and I'm only 24, how am I going to feel in 5 years time. It's really bad. (Ceri)

Roedd hyn yn farn oedd yn cael ei adlewyrchu drwy gydol y cyfweliadau yn Nhregaron, oedd yn gwrthgyferbynnu gydag ymatebwyr Blaenau Ffestiniog. Fel y soniwyd eisoes, roedd rhagolwg ymatebwyr Blaenau Ffestiniog yn fwy positif na barn Tregaron. Cafodd y farn yma ei atgyfnerthu gan Evan a Jasper a bu i'r gweddill gyfeirio tuag at natur newidiol yr ardal a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r drafodaeth ar yr ardal yn gyffredinol yn ein harwain at eu bwriad ar gyfer y dyfodol, ac mewn rhai achosion, fel ym Mlaenau Ffestiniog, gwelwyd diffyg economi cynhwysfawr a chyfleoedd ar gyfer bywyd cymdeithasol digonol, yn ysgogiad ar gyfer allfudiaeth.

Wrth drafod y dyfodol, eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol bu llawer mwy o bwyslais ar ddewisiadau addysg uwch nac ym Mlaenau Ffestiniog, a gwelwyd sylw i gyrsiau prifysgol a'r dewis ardaloedd er mwyn astudio ar gwrs arbennig. Awgrymwyd fod y rhesymau dros y duedd hon yn gysylltiedig gyda dosbarth cymdeithasol, lle gellir dadlau fod poblogaeth Tregaron yn fwy dosbarth canol a lle ystyriwyd ei leoliad yn ymylu ardal brifysgol. Mae naratif Jasper yn crybwyll hyn a cheir cadarnhad yn naratif Rhonwen:

To begin with, I left because of the course [*university*] but realised soon after that there was no going back. I wanted to be at the hub of business, and I guess you could say that London really is the capital for it all. Did I ever intend to go back? I just don't think so. Maybe if I was to pursue a degree in agriculture then, yes questionnable, but really, Tregaron is hardly booming. I've so enjoyed just being able to drink in wine bars and stuff you know, living a new and kinda fresh life. It sound really bad even as im saying it, but I wanted more, and I think that that will always be the case. I love visiting Tregaron, its beautiful, but its not enough is it. You cant live off it's beauty. (Rhonwen)

Gwelwyd mwy o gyfeiriad at gyrsiau prifysgol yn ystod cyfweliadau Tregaron, a gellir dadlau fod hyn o ganlyniadau i sefyllfa ddaearyddol Tregaron yn agos i dref Aberystwyth. Mae modd dadlau o'r farn fod bywyd prifysgol yn rhan o fywyd pob dydd pobl ifanc Tregaron, gan eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o'u cymdeithasu a'u harferion dyddiol yn nhref Aberystwyth ac felly efallai'n fwy ymwybodol o'i bresenoldeb a'i ddewis. Awgrymiad yn unig yw hwn. Mae ymchwil gan Wiserd (2011) a ymchwiliwyd gan Bristow, Pill, Davies a Drinkwater ar 'Stay, Leave or Return? Understanding Welsh graduate Mobility,' yn amlinellu'r prif ffigyrau dros symudoledd graddedigion. Fel awgrymwyd gan Cowling (2009: 5) mae symudiadau graddedigion *'possibly represents the greatest flow of human capital around a region or country at a given point in time.'* Fel y soniwyd eisoes, mae ceisio am ffigyrau sydd yn ymchwilio i batrymau graddedigion a symudoledd yn gymhleth ac yn newidiol a gwelwyd ei bod hi'n bwysig cwestiynu'r hyn sydd yn digwydd i'r rhai sy'n aros a'r rhai sy'n gadael. Awgrymwyd fod 69.1 y cant o'r rhai sydd wedi astudio yng Nghymru, bellach yn byw yma, o'i gymharu â 95.3 y cant o'r un sefyllfa yn Lloegr, 94.8 y cant yn yr Alban a 69.6 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Gwelwyd o'r tabl isod y gwahaniaeth rhwng y rhai oedd yn aros, a'r rhai oedd yn gadael:

**Tabl 47 Graddedigion o 2005/06 Oedd yn Gweithio 6 Mis ar ôl Graddio, Nifer a Chanran**[50]

| Ardal DU | Pobl Leol | | Rhai sydd Wedi Dychwelyd | | Rhai Sydd Wedi Aros | | Pobl o'r tu Allan | | Cyfanswm Wedi eu Cyflogi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 3,820 | 60 | 1,205 | 19 | 840 | 13 | 485 | 8 | 6,350 |
| Lloegr | 48,655 | 42 | 31,420 | 27 | 16,050 | 14 | 20,970 | 18 | 116,905 |
| Yr Alban | 10,835 | 84 | 655 | 5 | 935 | 7 | 490 | 4 | 12,920 |
| Gogledd Iwerddon | 3,830 | 83 | 685 | 15 | 15 | 0 | 70 | 2 | 4,600 |

50 http://www.wiserd.ac.uk/wp-content/uploads/2011/08/Graduate-Mobility_WISERD-Jun-2011.pdf 'Graduate Mobility: who goes to work in each region' (2008) a baratowyd gan HECSU i Prospects.ac.uk, gan ddefnyddio HESA 'Destinations of Leavers from Higher Education' (DLHE) 2005/06

O'r tabl uchod gwelwyd gwahaniaeth mawr ym mhatrymau'r graddedigion yn enwedig wrth ystyried Cymru a Gogledd Iwerddon. O safbwynt y graddedigion hynny sydd yn byw yng Nghymru gyda gradd o Loegr, mae'r canran yn 20.3 y cant o'i gymharu â'r rhai sydd â gradd o Gymru ac yn byw yma, 60.4 y cant. Gwelwyd, o ganlyniad, fod Cymru yn allforio ein graddedigion, neu o safbwynt yr ymchwil hwn, yn eu hallforio ein poblogaeth ifanc yn gyffredinol.

Ceir pwyslais yma ar ddewis prifysgol tu hwnt i Gymru o ganlyniad i'r gred fod hynny'n ddisgwyliedig ac efallai'n symudiad hyderus a dewr. Yn wir, i nifer o'r bobl ifanc hynny, nid oedd unrhyw amheuaeth mai dyma'r llwybr addas ar eu cyfer. Yma unwaith eto, gwelwyd diffyg hysbysebu o'r cyfleoedd sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru hen ystyried eu cefndiroedd teuluol. Awgrymwyd nad oes ddigon o farchnata a hybu yn cael ei roi i'r dewis nac ychwaith ddigon o bwysleisio'r achosion hynny lle mae pobl wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth astudio a gweithio yng Nghymru. Er efallai nad yw'r hinsawdd economaidd bresennol yn galw am fwy o brosiectau cymunedol, gwreiddiol, gwelwyd yr angen yma i annog grŵpiau a phrosiectau lleol sydd yn ceisio am ymdriniaeth gwaelod i fyny yn hytrach na thop i waelod, yn enwedig wrth ystyried llwyddiant bychan ond effeithiol Blaenau Ffestiniog. Yn ddelfrydol, byddai prosiectau o'r math yn rhoi cam tuag at leddfu'r rhaniadau cymdeithasol sy'n bodoli rhwng y grŵpiau uchod drwy wella'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.

Gwelwyd o'r dystiolaeth uchod felly fod nifer o'r bobl ifanc hynny sydd yn dewis gadael, yn gwneud hynny am resymau addysgol, er enghraifft ar gyfer cyrsiau addysg uwch, ond yna'n penderfynu cyfanheddu yn y mannau hynny ar ôl graddio neu ddarfod y cwrs. Y gwahaniaeth amlwg yw, fod y bobl ifanc hynny sydd yn penderfynu mudo o'r broydd ar gyfer y dyfodol agos yn gwneud hynny'n aml oherwydd bod ganddynt deuluoedd estynedig yn y mannau hynny, wedi cael ysgogiad a chefnogaeth eu rhieni ac yn syml, fod yr hyder yna ganddynt i fudo o'u broydd ac i aros yna. Gellir dadlau, o ganlyniad, fod cysylltiadau'r bobl ifanc hynny'n hylifol ac yn ddibynnol ar nifer o ffactorau o allanol.

**Cloi**

Yn y bennod hon trafodwyd prif ffactorau dylanwadol wrth ystyried allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg drwy ganolbwyntio ar ddau grŵp o bobl ifanc 19-25 oed, sydd bellach wedi gadael eu broydd. Drwy adeiladu ar y cefndir llenyddol sydd yn perthyn i'r ymchwil, bu modd creu cymhariaeth rhwng yr hyn a welwyd fel prif themâu'r traethawd, a phrofiadau personol y bobl ifanc hynny sy'n rhan o'r sampl. Yn ystod y bennod hon, ceir sylfaen i'r hyn a welwyd fel dyheadau a gobeithion y bobl ifanc ar gyfer y dyfodol ac awgrymiad o'r prif resymau pam y maent yn dewis gadael eu broydd. Yn ychwanegol i hyn, ceir awgrymiadau ar gyfer cynlluniau ieithyddol ar gyfer y dyfodol, lle gwelwyd pwysigrwydd ar gyfer gwybodaeth fwy cynhwysfawr o'r cyfloedd sydd ar gael drwy astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu o'r cyfleodd sydd yn gyffredinol yn bodoli o fewn eu cymunedau. Yma gwelwyd enghraifft o bwysigrwydd y teulu a theulu estynedig, yn ogystal ag ystyriaethau diwylliant a chyfalafol cymdeithasol. Yn ogystal, rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffaith nad rhywbeth i blant ymfudol yn unig yw'r ffenomen o allfudiaeth, ond yn hytrach ei fod yn gyffredin i nifer o bobl ifanc o ganlyniad i gyfleoedd bywyd cymdeithasol a chyflogaeth well. Er hynny, dadleuwyd fod dewisiadau prifysgol tu allan i Gymru, ynghyd a'r hyder a'r gefnogaeth deuluol, bersonol ac ariannol yn rheswm allweddol. Awgrymwyd fod hyder y bobl ifanc hynny sydd ddim yn enedigol i'r fro (o ganlyniad i ysgogiadau rhieni), yn gypledig â chysylltiadau hylifol yn gallu golygu cyfraddau uwch o allfudiaeth, sydd, mae'n debyg, yn adlewyrchiad o waith Jones (2010) lle gwelwyd pwysigrwydd cyfalaf cymdeithasol a diffygion o fewn yr economi.

Fel ym mhennod chwech, gwelwyd cariad at iaith a'r fro yma, ond yn unol â hyn, gwelwyd diffyg economïau a chyfleoedd yn anochel yn dylanwadu ar ddyheadau a gobeithion y bobl ifanc yma ar gyfer y dyfodol. Mae gwerthfawrogiad llawn yma o harddwch a natur naturiol yr ardaloedd dan sylw. Er hynny, gellir dadlau nad yw hyn yn arsylwad newydd a bod yr hyn sydd yn gyffredin o fewn y broydd, yn gyffredin ym mhob rhan o'r byd wrth drafod cymunedau lleiafrifol.

# Pennod 8

# Casgliadau

## Cyflwyniad

Yn yr astudiaeth hon, ceisiwyd sefydlu beth yw'r prif ffactorau sydd yn effeithio ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg drwy ystyried eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol yn nhermau eu cefndir ieithyddol a theuluol a'u sefyllfa bresennol. Canolbwynt yr astudiaeth ydoedd dau grŵp sampl o bobl ifanc nad oedd yn enedigol i'r Fro Gymraeg neu'n perthyn i deuluoedd ymfudol. Drwy dynnu ar waith Jones (2010), aethpwyd ati i ystyried os mai ffactorau economaidd yn unig oedd yn arwain y bobl ifanc hyn i ymfudo o'u cymunedau yng Nghymru. I'r perwyl hwn penderfynwyd lleoli'r gwaith ymchwil cynradd ar ddwy ardal gymharol, megis Blaenau Ffestiniog yn y Gogledd a Thregaron yn y canolbarth, ardaloedd lle gwelwyd nodweddion cryf o'r Fro Gymraeg draddodiadol a lle ystyriwyd fod bygythiad cynyddol i'r hyn a welwyd fel *" y Craidd parhaol, di-ildio o Gymreigrwydd,"* (1989: 4) fel awgrymwyd gan Aitchison, Carter a Rogers. Y bwriad yma oedd ceisio darganfod y gwahaniaethau rhwng dwy ardal debyg o safbwynt eu dargadwedd ieithyddol a sefyllfaoedd gwledig. Yma yn ogystal, ceir ardaloedd gydag economïau dirywiol, tebyg ac a oedd wedi eu labelu fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Gellir dadlau fod yr ardaloedd hyn â statws unfath â nifer o ardaloedd gwledig eraill ar draws Cymru, ac o'r herwydd yn fewnwelediad i ni o natur newidiol ein cymunedau.

Roedd y gallu i gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith hefyd o bwysigrwydd amlwg wrth ystyried amcanion yr astudiaeth. Aethpwyd ati i drafod ystyriaethau ieithyddol tuag at y pwnc o allfudiaeth drwy ddadlau fod gallu iaith pobl ifanc, neu i ba lefel y dysgwyd yr iaith yn effeithiol, yn rhannol ddibynnol ar y modd y mae'r unigolyn yn gallu integreiddio'n effeithiol i'r gymuned neu'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni ac felly magu dealltwriaeth eang o'r brif iaith a ddefnyddiwyd yn gymdeithasol gan y sampl. Penderfynwyd trafod amrywiaethau gallu ieithyddol a hyder wrth ddefnyddio iaith, gan y gellir dadlau ei fod yn rhan annatod o fywyd y Fro Gymraeg ac yn debygol o effeithio'r canlyniadau.

Ceisiwyd deall prif ffactorau'r bröydd a astudiwyd, gan gynnwys eu hanes, eu cymunedau a'u sefyllfaoedd economaidd a chymdeithasol presennol. Gan fod y cysyniad o'r bröydd Cymraeg yn elfen ganolog yn y traethawd presennol, a chan fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn elfen ganolog bwysig yn y broses o integreiddio mewnfudwyr, bu'n briodol i edrych yn fanylach ar y cysyniad o gymuned. Yma ceir trawstoriad o ddwy ardal debyg eu disgrifiad ond amrywiol iawn eu naws a'u darpariaeth gymdeithasol. Ceir gwahaniaeth yn ogystal ymysg ei mewnfudwyr a'u barn a'u hagweddau tuag at eu bröydd. Ceisiwyd ystyried y cwestiynau manwl hynny o newidiadau economaidd a chymdeithasol o fewn y bröydd sydd yn cynnwys yr ail ddosbarthiad a chryfder yr iaith Gymraeg, canlyniad patrymau mudo a natur hunaniaethau lleol ac 'ethnig.' Aethpwyd ati i drafod effeithiau'r newidiadau yma ar boblogaeth ifanc yr ardaloedd ac yn ogystal, ei effeithiau ar batrymau integreiddio a dyheadau a gobeithion y bobl ifanc hynny ar gyfer y dyfodol.

Ceir ystyriaeth i berthnasau a rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc y fro yn nhermau eu cyfalaf a'u lefelau integreiddio. Trafodir integreiddio a chyfalaf cymdeithasol personol yma ac awgrymwyd fod diffyg rhyngweithiad cymdeithasol positif, a derbyniaeth i'r gymdeithas hwnnw, yn debygol o gael canlyniadau negyddol ar yr unigolyn, y teulu, cymuned a chymdeithas. Felly aethpwyd ati i drafod effaith hyn ar bobl ifanc y sampl. Awgrymwyd y gallai diffyg integreiddio olygu nad yw unigolyn yn teimlo fel rhan gyflawn o'r gymuned neu'r gymdeithas, ac felly'n teimlo eu bod wedi eu heithrio'n gymdeithasol. Byddai canlyniadau tebyg yn golygu na fyddai unigolyn yn teimlo'n hapus nac yn fodlon ac efallai'n fwy tebygol o fudo o'r gymuned honno. Aethpwyd ati felly i drafod y sylwadau uchod yn nhermau'r is deitlau isod.

**Prif Gasgliadau**

Un o brif gasgliadau'r astudiaeth yw nad oes modd priodoli allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg i un rheswm neu gasgliad penodol, yn wir, gwelwyd ei fod yn gysylltiedig gyda nifer o ffactorau amrywiol a chymhleth yn ôl eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yma cafwyd cyfraniad eang ac aml haen o wybodaeth sydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r pwnc a'r prif ddylanwadau.

**Ffactorau Economaidd**

Er i ddechrau, ymddengys mai ffactorau economaidd oedd yn bennaf gyfrifol dros allfudiaeth y grŵp yma o bobl ifanc, yn enwedig wrth ystyried y sampl iau, darganfuwyd mai arwynebol oedd ceisio crynhoi'r pwnc i'r un ffactor yma yn unig. Roedd Grŵp Sampl 1, yn rhoi pwysigrwydd amlwg i resymau economaidd dros allfudo o'u bröydd. Roedd hyn yn ogystal yn gysylltiedig gyda'u dewisiadau ôl ysgol, gwaith a gyrfa. Mae tabl rhif 29, 30 a 31 yn ategu'r darganfyddiadau hyn. Er hynny, pan ymchwiliwyd ymhellach i'r honiadau yma, gwelwyd nad oeddynt yn atgyfnerthu'r hyn a nodwyd. Ond, ni ellir diystyried ffactorau economaidd wrth dalu sylw i'r pwnc uchod. Gwelwyd yn benodol fod yr ardaloedd ymchwil yn rhai difreintiedig ac felly'n ddiffygiol mewn economi cynhwysfawr a chyfleoedd yn gyffredinol. Er hynny, ac yn wahanol i waith Jones (2010) ni welwyd tystiolaeth mai ystyriaethau economaidd yw'r prif ysgogiadau dros allfudiaeth pobl ifanc, er iddo chwarae'r rhan gychwynnol ar ddechrau eu bywyd gyrfaol ac felly'n sylfaen dros rhai o'u dewisiadau. Yma yn ogystal, gwelwyd fod ystyriaethau economaidd yn rhannol gysylltiedig â'r hyn a welwyd fel penderfyniadau cymdeithasol, megis yr ymdeimlad o berthyn, bod yn rhan o gymuned ac ystyriaethau teuluol. Nid efallai nad oes pwysigrwydd i sicrwydd ariannol a swyddi ond yn hytrach, nad yw'r gwerth mor uchel ag a ddisgwylid. Gwelwyd felly fod ystyriaethau economaidd yn cael eu hamlygu a'u crybwyll, ond dengys fod y traethawd yn dangos cymhlethdod drwy'r gwaith ansoddol, wrth iddo gynnig dimensiwn gwahanol i ni dros y prif ffactorau. Gwelwyd gwahaniaethau rhwng data meintiol ac ansoddol y grŵp sampl 15-18 wrth i'r data meintiol awgrymu mai rhesymau economaidd a gyrfaol sydd yn bennaf gyfrifol dros eu hallfudiaeth o'r bröydd. Fel dengys tabl 29 a 30, sef y rhesymau sy'n dylanwadu ar fan cyfanheddu pobl ifanc y sampl yn ôl ardal, mae 24 (45 y cant) o'r sampl yn Nhregaron wedi nodi ennill cyflog da fel eu prif reswm a 20 ym Mlaenau Ffestiniog (33.3 y cant). Mae'n rhaid wrth gwrs, bod yn ofalus wrth gyffredinoli ar sail y sampl fach, er ymddengys ei fod yn ystyriaeth bwysig.

Mae'r pwysigrwydd o ddadansoddiad dosbarth cymdeithasol y sampl yn amlwg o waith Jones (2010), hynny yw, gwelwyd fod ystyriaethau cymdeithasol megis dosbarth yn cael effaith uniongyrchol ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg, yn enwedig wrth drafod y grŵp dan sylw. Er hynny ni chafwyd lawer o dystiolaeth oedd yn ategu hyn o'r gwaith

ymchwil, hynny yw, nid oedd gwahaniaethau oedd yn awgrymu un ffordd neu'r llall, ond yn hytrach fod dosbarth cymdeithasol y sampl yn adlewyrchiad cynrychiolaidd o'r ardaloedd o dan sylw. Gwelwyd fod cyfraddau uwch o gyflogwyr bychain a gweithwyr hunan gyfrif yn Nhregaron nac ym Mlaenau Ffestiniog, gyda 31.0 y cant a 45.2 y cant o'r holiaduron. Mae ffigyrau tebyg o dadau sydd yn ddi-waith yn y ddwy ardal, gyda 10.3 y cant o'r sampl ym Mlaenau Ffestiniog, a 9.7 y cant yn Nhregaron. Ystyrir fod y ffigyrau yma'n rhannol adlewyrchiad o statws y ddwy gymuned fel rhai Cymunedau yn Gyntaf. Ymddengys fod cyfraddau uwch o'r sampl yn Nhregaron sydd ddim yn sicr o swyddi eu tadau, sef 12.9 y cant. Gwelwyd diffyg yn yr ymchwil presennol i ymateb i'r broblem o ansicrwydd yn nhermau swyddi eu rhieni. Byddai argymhellion ar gyfer ymchwil ymhellach yn cynnwys defnydd mwy 'user friendly,' o holiaduron er mwyn galluogi i'r ymatebwyr ddefnyddio dulliau gwahanol o fynegi beth yw swyddi eu rhieni. Er hynny, yn dilyn o'r ffigyrau uchod, gwahanol iawn oedd y ffigyrau gwaith y fam yn ôl ardal, o'i gymharu â gwaith y tad. I ddechrau, gellir dadlau fod cyfraddau llawer uwch o'r sampl oedd yn nodi bod eu mamau yn ddi-waith yn dymor hir yn y ddwy ardal, gyda 27.6 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 29 y cant yn Nhregaron. Dengys yn ogystal fod cyfraddau uwch wedi eu crynodi yn y golofn 'swyddi hanner rheolaethol,' gyda 17.2 y cant ym Mlaenau Ffestiniog a 29 y cant yn Nhregaron. Wrth gyflwyno'r canlyniadau, gwelwyd patrwm tebyg yn y ddwy ardal sy'n awgrym o'r economïau lleol yn ogystal â phatrwm gwaith y rheini. I ddechrau, dengys fod cyfraddau uchel o wragedd tŷ ymysg y sampl yn ogystal â mamau sydd â swyddi ac elfen reolaethol isel. O safbwynt y tadau yn y ddwy ardal, gwelwyd dibyniaeth ar waith gan gyflogwyr bychain neu bwyslais ar waith hunan cyflog mewn ardaloedd lle nad oes economïau ffyniannus a llawn. Gwelwyd dirywiad y ddwy ardal yn glir yn yr achos hwn, o safbwynt yr amrywiaeth a'r patrymau gwaith. Gellir dadlau fod y canlyniadau yma i'w disgwyl, yn enwedig wrth ystyried statws yr ardaloedd ymchwil fel rhai Cymunedau yn Gyntaf. Bu rhai enghreifftiau o ddyheadau economaidd yr unigolion yn y sampl yn adlewyrchu dyheadau eu rhieni, ac yma efallai y gwelwyd gwahaniaethau dosbarth yn amlwg. Er enghraifft, gwelwyd o naratif Tomos Blaenau Ffestiniog, fod dyheadau ei rieni wedi effeithio ar ei benderfyniad yn fawr. Roedd rhieni Tomos o ddosbarth proffesiynol ac roeddynt yn awyddus i Tomos ddilyn yr un llwybr gyrfaol. Ceir enghraifft yn yr achos hwn o droell ddringo, fel y gwelodd Jones (2010) o gyfrifiad 2001. Er hynny, cyfyng oedd y darganfyddiad ac nid yw'n llawn cadarnhau gwaith Jones (2010) o nodi ei fod yn ffactor effeithiol iawn. Byddai astudiaeth fwy cynhwysfawr o ddosbarth yn awgrym ar gyfer y dyfodol.

Er mai astudiaeth o'r Fro Gymraeg yn ei chyfanrwydd a geir yma, gwelir fod gwahaniaethau sylweddol wedi codi rhwng y ddwy ardal astudiaeth. Mae'r prif wahaniaeth yn gysylltiedig gyda phatrymau integreiddio a chenedligrwydd ac o'r herwydd, darganfuwyd fod natur yr ardaloedd ymchwil yn ogystal â'r ddarpariaeth gymunedol sydd ar gael ynddynt yn effeithio ar ddyheadau a gobeithion y sampl ifanc ar gyfer y dyfodol.

Dewiswyd yr ardaloedd ymchwil wrth gwrs oherwydd eu statws Cymunedau yn Gyntaf, ac er mwyn darganfod os mai sefyllfa economaidd yr ardaloedd hynny yn unig oedd yn sbarduno'r bobl ifanc hynny i adael. Nid oeddwn wedi disgwyl darganfod gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy ardal, ond er mai gwaith ymchwil unfath a wnaethpwyd yn y ddwy, gwahanol iawn, yn nhermau ei boblogaeth y bu. Wrth gwrs, cafwyd nifer o debygrwydd. Roedd diffyg economïau'r ardaloedd yn bwynt llosg ymysg y bobl ifanc, yn enwedig eu cydnabyddiaeth fel ardaloedd di freintiedig gan y Cynulliad. Awgrymwyd yn ogystal fod nifer o broblemau cymdeithasol yr ardal yn cael eu beio ar y mewnfudwyr, gan gynnwys problemau megis y cam ddefnydd o sylweddau a chynyddiad yn y ffigyrau trosedd. Dadleuwyd nad oedd y problemau cymdeithasol hyn mor gyffredin yn yr 'hen ddyddiau,' oedd yn cael ei ystyried fel cyfnod euraidd yr ardal. Yn wir, gwelwyd gwrthwynebiad amlwg i newid ymysg y bobl ifanc oedd yn ganlyniad i agweddau eu rhieni. Er hynny, gwelwyd gwerthfawrogiad ar gyfer harddwch naturiol yr ardaloedd hyn (hyd yn oed ym Mlaenau Ffestiniog, lle gwelwyd ardal ôl ddiwydiannol oedd wedi ei heithrio o Barc Cenedlaethol Eryri) a bodlondeb yn y mwyafrif o achosion eu bod wedi cael magwraeth mewn ardal ddelfrydol ac unigryw. Bu'r rhwystredigaethau a'r anawsterau er hynny'n amlwg, lle welwyd diffygion mewn gwasanaethau cymdeithasol hanfodol megis trafnidiaeth gyhoeddus, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau cymdeithasol yn gyffredinol. Yn ychwanegol , roedd costau trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr i'r rhai a oedd yn ceisio cael hyd i waith yn y dref gyfagos. Gellir dadlau fod y costau yma'n debygol o gynyddu o dan arweiniad y Ceidwadwyr, wrth ystyried eu toriadau i gynghorau sir a'r pwysau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Awgrymwyd mai'r ysgol oedd canolfan y bobl ifanc yn y ddwy ardal, ac er bod darpariaeth ar gael gan y gwasanaeth ieuenctid, nid niferus iawn oedd ei haelodaeth. Yn ddaearyddol wrth gwrs, bu rhwystredigaethau eraill i'r bobl ifanc, nid o reidrwydd yn y cyfnod yma yn eu bywydau ond ymhellach efallai. Er enghraifft, golygai diffygion yn y system drafnidiaeth gyhoeddus nad

oedd ceisio am waith tu allan i'r Fro yn dasg rhwydd a gweithgareddau hamdden yn gyfyngedig.

Yma gwelwyd cysylltiad gyda gwaith Williams a Morris (2000) sydd yn trafod newidiadau cymdeithasol yn nhermau ei effaith ar yr economi ond yn ogystal ar allu grwpiau iaith leiafrifol i atgynhyrchu eu hunain. Yma ceir trafodaeth ar effeithiau pell gyrhaeddo ail strwythuro economaidd, fel y gwelwyd olion pendant ohono yn y bröydd. Ceir cadarnhad o'r cysylltiad amlwg rhwng yr ysgogiadau economaidd dros allfudo o'r bröydd a'r rhesymau anochel diwylliannol sydd yn cael eu heffeithio yn ei sgil. Atgyfnerthwyd fod y newidiadau economaidd a gafwyd yng Nghymru dros y ganrif ddiwethaf wedi arwain at symudiad poblogaeth a chyfalaf, sydd yn ei dro wedi effeithio ar sefydliadau cymdeithasol pwysig fel y teulu, y gymuned ac addysg. Ar yr un pryd, mae'r ailstrwythuro economaidd wedi effeithio ar farchnad lafur ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol, a hefyd ar statws a bri'r Gymraeg, yn gysylltiedig â'i hamlygrwydd, neu ddim, yn y farchnad lafur cyfnewidiol sydd o'i hamgylch.

Dengys fod y dyhead i adael yn ddibynnol ar y gobaith am fywyd cymdeithasol a gyrfaol gwell a disgwyliadau uwch ar gyfer y dyfodol. Er bod darpariaeth y ddwy ardal yn debyg, bu gwahaniaethau yn niwylliant ac felly'r defnydd o wasanaethau yn y ddwy. Er enghraifft, nid oes clwb ffermwyr ifanc ym Mlaenau Ffestiniog, fel yn Nhregaron, ond mae mwy o ddewisiadau cerddorol a diwylliannol ym Mlaenau Ffestiniog. Fodd bynnag, y canlyniad fwyaf trawiadol oedd y gwahaniaeth mewn agwedd tuag at iaith, diwylliant a chenedligrwydd rhwng y ddwy ac o ganlyniad, effaith hyn ar y sampl ifanc.

**Patrymau Integreiddio a'r Ymdeimlad o Berthyn**

Blaenoriaethwyd patrymau integreiddio'r ardal dan sylw a'r gymuned yn benodol, ac ystyriaethau teuluol yn ogystal yn ystod y data ansoddol. Er enghraifft, roedd yr ymdeimlad o berthyn a gafwyd gan y sampl yn gysylltiedig gyda'u cefndir ieithyddol, eu rhieni yn ogystal wrth iddynt fynegi fod rhaniadau cymdeithasol o safbwynt man geni yn effaith amlwg o oed ifanc. Roedd cynnwys y gwaith ansoddol yn fwy teimladwy ac agored, gyda gwerthfawrogiad o harddwch naturiol eu broydd yn ogystal â nodweddion negyddol yr

ardaloedd eu hunain, megis tlodi a phroblemau cymdeithasol yn gyffredinol yn ychwanegu at natur ingol y ffenomenon o allfudiaeth. Cafwyd ystyriaethau yma i'r cwestiwn o genedligrwydd a'u teimladau tuag at eu cenedligrwydd personol, a'r effaith anuniongyrchol a gafodd hyn ar eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Ceir cymhariaeth yma yn ogystal, rhwng sampl sydd yn enedigol i'r bröydd a rhai sydd yn perthyn i deuluoedd ymfudol. Dengys fod y gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddau grŵp yn gysylltiedig gyda chefndir teuluol yn ogystal â gwreiddiau a'r ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, awgrymwyd fod y ffenomenon o allfudiaeth yn rhan o aeddfedu a lledu gorwelion, wrth ystyried cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd, ond mae gwahaniaeth sylfaenol yma wrth ystyried dychwelyd ac ymgartrefu. Dengys fod y grŵp sampl ymfudol yn fwy tebygol o ymgartrefu tu allan i'r bröydd yn wahanol i'r grŵp genedigol, drwy gymharu patrymau integreiddio a theuluoedd estynedig tu allan i'r broydd. Yn gymharol â gwaith Jones (2010), dengys fod ffactorau economaidd yn ymddangos fel y prif ysgogiad dros allfudiaeth y boblogaeth yma, ond gwelwyd fod cymhlethdod uwch sydd yn ymddangos wrth ystyried y gwaith ansoddol, sydd gysylltiedig gyda rhesymau teimladwy ac efallai anweledig o'i gymharu â rhesymau ymarferol ac amlwg. Mae un yn gysylltiedig gyda'r ardal ei hun, a'r llall gyda'r unigolyn.

Dengys fod rhesymau dros allfudo o'r bröydd i'r sampl hŷn, ychydig yn wahanol gan eu bod eisoes wedi gwneud eu penderfyniadau a bellach yn gwireddu'r dewision hynny. Ar ddechrau'r astudiaeth disgwylid y byddai rhesymau economaidd hefyd yn gyfrifol dros obeithion y bobl ifanc yma, er ymddengys fod eu cymhellion hwythau hefyd yn gysylltiedig gyda chymhlethdodau eraill. Awgrymwyd yn ystod y cyfweliadau fod eu rhesymau dros allfudo yn gysylltiedig gyda chyrsiau prifysgol a gyrfaoedd, fel ei gilydd, gyda nifer uchel o'r ddwy ardal yn gwneud eu penderfyniadau dros eu man cyfanheddu gan ddilyn ystyriaethau gyrfaol ac ariannol. Er hynny, wrth ymchwilio ymhellach, roedd eu penderfyniadau hefyd yn gysylltiedig gyda chefnogaeth y teulu a'r teulu estynedig, wrth iddynt amlygu fod eu rhieni wedi darparu'r hyder a'r gefnogaeth iddynt fudo. Yn ogystal, roedd cefnogaeth uwch yma wrth iddynt gyfanheddu mewn ardaloedd lle'r oedd ganddynt rwydwaith cefnogol yn ffurf eu teuluoedd estynedig. Nid yn unig fod eu teuluoedd yn darparu cefnogaeth ond roeddynt hefyd yn rhwyd ariannol, lle cafwyd sicrwydd yma o gefnogaeth ymarferol.

Er y gwahaniaethau oed rhwng y ddau grŵp sampl, cafwyd llinyn amlwg oedd yn eu cysylltu, sef yr ymdeimlad o berthyn a chysylltiadau hylifol y sampl. Dengys eu bod yn

ystyriaethau cyffredin o'r data a gasglwyd yn y ddwy ardal yn ogystal â'r ddau sampl oed. Awgrymwyd nad oes un ffactor cyffredin sydd yn penderfynu eu man cyfanheddu ond yn hytrach ei fod yn ddibynnol ar nifer o ffactorau amrywiol a all fod yn debyg neu'n annhebyg iawn. Er bod y data meintiol yn awgrymu rhesymau gwahanol dros allfudiaeth, ymddengys fod data ansoddol y ddau grŵp oed yn ymdebygu mewn rhai ffyrdd, megis y drafodaeth ar eu broydd, gan gynnwys y newidiadau cymdeithasol a'r teimladau ynglŷn â chariad at ardal a theimladau cymysg ynglŷn â Chymreictod a chenedligrwydd. Gellir dadlau fod y dyhead i adael y fro yn gyffredin ymysg y rhan fwyaf o bobl ifanc am gyfnod o leiaf, ac yma yn ogystal, gwelwyd fod y patrwm yn gyffredin. Yr hyn a wahaniaethodd y grŵp sampl dan sylw oedd bod eu hysgogiadau dros ymfudo yn cynnwys elfennau o'r hyn a welwyd uchod, ond yn adlewyrchiad yn ogystal o'u profiad hwythau o fyw yn y broydd tra'n perthyn i deuluoedd ymfudol. Hynny yw, roedd allfudiaeth y grŵp dan sylw yn gysylltiedig gyda chymhlethdod uwch na rhesymau ariannol/gyrfaol yn unig, ond yn hytrach yn rhan o ystyriaethau ymhellach. Er hynny, ac yn anochel efallai, ceir gwahaniaethau amlwg rhwng y ddau grŵp oed, lle ystyriwyd fod penderfyniadau'r grŵp iau yn ddibynnol ar eu dyheadau gyrfaol a bod y grŵp hŷn, eisoes wedi cyflawni rhai o'u dewisiadau sylfaenol. Yma yn ogystal, ceir adlewyrchiad o'r bwlch aeddfedrwydd amlwg sydd rhwng y ddau oedran a lle gwelwyd newid mewn blaenoriaethau wrth iddynt ddilyn eu patrwm bywyd.

**Y Teulu a'r Teulu Estynedig**

Darganfuwyd fod cefnogaeth y teulu ar yr aelwyd, yn ogystal â'r teulu estynedig yn rhan o brif gasgliadau'r traethawd ymchwil. Roedd y gefnogaeth yma'n ffurfio nifer o rwydweithiau cefnogaeth oedd yn amlygu ei hun mewn nifer o wahanol ffurf. I ddechrau hoffwn drafod y teulu ar yr aelwyd fel effeithiolyn ar ddyheadau a gobeithion y sampl ar gyfer y dyfodol. Wrth gwrs, ni ellir diystyru effaith ein teuluoedd ar ein bywydau ac ar ein dewisiadau, yn enwedig wrth drafod y grŵp cymdeithasol dan sylw yn y traethawd hwn. Wrth ystyried ein sampl, byddai'n gymorth i ni ogystal gydnabod statws y rhieni fel ymfudwyr i'r ardal ac felly'r rhwystredigaethau a'r dadleoliad iddynt hwythau brofi. Bu dylanwad y teulu ar y sampl yn gysylltiedig gyda chefndir a hanes teuluol a charennydd ac ymddengys ei fod yn gysylltiedig gyda'r cysyniad o wreiddiau cymdeithasol ac yn anochel patrymau integreiddio. Awgrymwyd fod y teulu yn ysgogi nifer o'r bobl ifanc i feddwl tu hwnt i'w hardaloedd ac i gofleidio unrhyw gyfleoedd a ymddangoswyd. Yn ystod yr astudiaeth hon, talwyd sylw arbennig i'r iaith a ddefnyddiwyd o fewn y teulu a

phwysigrwydd byw'n agos at deulu yn y dyfodol. Darganfuwyd fod effaith y teulu yn bellgyrhaeddol ei ddylanwad, yn enwedig wrth ystyried y sampl hŷn 19-25.

Ymddengys ei fod wedi clymu gyda'r cysyniad o wreiddiau cymdeithasol a'r ymdeimlad o berthyn i'r gymuned o dan sylw. Awgrymwyd fod nifer ohonynt yn parhau i deimlo fel allanolwyr er bod rhai wedi eu geni yma, o ganlyniad i'r ffaith fod eu rhieni, ac felly'n anochel eu gwreiddiau, hefyd yn allanolwyr. Fel y soniwyd eisoes, mai cyfyng iawn yw ceisio crynhoi'r prif resymau dros allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg i un rheswm yn unig, gan ymddengys ei fod yn gysylltiedig gyda nifer o wahanol ffactorau sydd yn anochel yn ein harwain yn ôl i gysyniadau a theimladau o berthyn, carennydd, cymuned a gwreiddiau. Dengys eu bod yn dermau cymhleth i'w defnyddio a'u diffinio, ac fel awgrymwyd gan Cohen, edafedd ydynt, sydd yn rhedeg drwy bob casgliad. Er hynny, gwelwyd lle yma i gyfiawnhau'r hyn a welwyd fel cysylltiadau hylifol yr unigolion dan sylw gan y gall diffyg gwreiddiau cymdeithasol yn ogystal â hanes gosodedig yn y broydd gadarnhau nad oes dim i'w sefydlu yma yn eu barn nhw.

Wrth drafod dylanwad y teulu fel asiantaeth cymdeithasoli gynradd, yma hefyd ceir cadarnhad o waith theoretig cynharach gan Williams a Morris (2000) a honnwyd fod yr athroniaeth wleidyddol a oedd yn sail i sefydlu cymdeithas fodern yn ddiffygiol wrth ystyried atgynhyrchu ieithoedd lleiafrifol, er iddo gael effaith sylweddol ar ymarfer cymdeithasol yn y cyfnod dilynol, yn arbennig yn y modd mae'r disgwrs cymdeithasegol yn ymdrin ag ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol fel y Gymraeg fel gwyriad oddi wrth y norm, ac yn y broses honno yn ymyleiddio a stigmateiddio ei siaradwyr. Yn benodol o safbwynt yr astudiaeth hon, ac wrth ystyried y ddau sampl oed, ceir effaith ar ddelwedd y Gymraeg. Yma yn ogystal ceir trafodaeth ar ail strwythuro economaidd a strwythur a deinameg trefniant y farchnad lafur. Ystyrir prosesau fel atgynhyrchu iaith trwy ei throsglwyddo rhwng cenedlaethau, cynhyrchu iaith (trwy addysg, dyweder, ble mae unigolyn yn ennill hyfedredd yn y Gymraeg), neu ddiffyg atgynhyrchu iaith (ble nad yw'r teulu'n trosglwyddo'r iaith ymlaen i'r plant). Mae hyn yn caniatáu iddynt edrych ar ddeinameg prosesau cymdeithasol, ac effaith gwahanol sefydliadau cymdeithasol ar y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu'r Gymraeg.

Dengys fod fy ngwaith ymchwil yn cadarnhau pa mor allweddol yw hyn o safbwynt plant ymfudol, yn eu lleoli, neu yn eu gwneud yn fwy symudol. Er y pwyslais a roddwyd ar effaith y teulu ar yr aelwyd, ymddengys fod effaith y teulu estynedig hefyd yn enghraifft o gysylltiadau hylifol y sampl. Gwelwyd tystiolaeth fod y teulu oedd ganddynt tu hwnt i'w bro yn cynnig llety yn ogystal â chefnogaeth ac anogaeth iddynt o fewn eu bywyd gyrfaol a chymdeithasol. Darganfuwyd fod teulu estynedig niferus, sydd yn byw tu allan i'r Fro, yn gallu effeithio ar fan gyfanheddu'r bobl ifanc ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, darganfuwyd fod nifer o'r sampl yma wedi mudo am resymau addysgol, neu ar gyfer dilyn cwrs penodol, ond wedi penderfynu aros yno ar gyfer y dyfodol agos fel y gwelwyd o naratif Jasper yn y cyfweliadau. Awgrymwyd nad llety yn unig oedd rôl y teulu estynedig, ond yn hytrach man cychwyn ac yn aml wreiddiau cymdeithasol a theuluol cadarn ar gyfer lansio bywyd gyrfaol a chymdeithasol newydd. Bu'n ddewis ychwanegol i nifer o'r sampl nad oedd, yn aml, ar gael i frodorion y fro, ac o'r herwydd bu'n darparu hyder iddynt allfudo o'u broydd. Gellir dadlau yn ogystal, nad oedd yr un peryglon ariannol wrth ddilyn y trywydd hwn. Gwelwyd felly, fod effaith y teulu yn gysylltiedig unwaith eto gyda'r ymdeimlad o berthyn a chysylltiadau cymdeithasol. Yn ogystal, gwelwyd fod y teulu, gan gynnwys y teulu estynedig, yn darparu'r hyder a'r gefnogaeth i'r grŵp sampl adael eu broydd a dilyn trywydd gwahanol. Er hynny, awgrymwyd nad ydynt yn trosglwyddo iaith nac ychwaith diwylliant, yr ardaloedd hynny dan sylw, ffenomenon a welwyd yn amlwg o waith Williams a Morris (2000) ac o'r herwydd gwelwyd lefelau isel o ddargadwedd poblogaeth ifanc ac ieithyddol.

Gwelwyd fod ffactorau pwysig eraill oedd yn gysylltiedig gyda'r cyfnodau bywyd yr oeddynt yn perthyn iddynt. Er enghraifft, nid oedd yr hyn oedd yn bwysig i Grŵp Sampl 1 yn dal yr un pwysigrwydd i Grŵp Sampl 2, gan eu bod mewn cyfnodau gwahanol iawn yn eu bywydau ac roedd eu gofynion o'u hardaloedd yn wahanol. I Grŵp 1 er enghraifft, roedd pwysigrwydd bywyd cymdeithasol da yn ystyriaeth flaenllaw, tra roedd dewis ardal ddelfrydol i fagu plant o bwysigrwydd uwch i Grŵp 2. Yn ogystal, gwelwyd fod rhai o ymatebion y sampl yn Grŵp 1, yn adlewyrchiad o'u hoed ifanc, lle gwelwyd ystyriaethau gwahanol i'r hyn a ystyriwyd oedd cenedligrwydd a phwysigrwydd cenedligrwydd wrth drafod allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg. Gellir dadlau fod penderfyniadau allfudiaeth, mewn rhai achosion, yn newidiol drwy gydol bywyd unigolyn, a'u bod yn ddibynnol ar batrwm bywyd yr unigolyn dan sylw. Roedd natur y dystiolaeth hefyd yn gwahaniaethu rhwng y ddau grŵp, hynny yw, roedd ansicrwydd yn perthyn i ymatebion y

grŵp sampl iau, a gellir cyfiawnhau hyn drwy awgrymu eu bod yn edrych gydag ansicrwydd tuag at y dyfodol, gyda'r rhai hŷn yn ei weld gydag eglurder am eu bod yn edrych i'r gorffennol.

Mae'r ffactorau ymhellach yn llunio gweddill y bennod casgliadau lle gwelwyd fod allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg yn ddibynnol ar yr ymdeimlad o berthyn i'r gymuned, a'r dystiolaeth aml haen sy'n gysylltiedig gyda hyn. Ceir cyfeiriad at y patrwm uchod yng ngwaith Cohen (1982:6) lle gwelwyd trafodaeth ddwys ar y cysyniad o berthyn ac aelodaeth i gymuned benodol. Darganfuwyd o'r grŵpiau ffocws a'r cyfweliadau fod y bobl ifanc dan sylw yn teimlo gwahaniaeth rhyngthynt a'u cyfoedion sy'n enedigol i'r fro. Mae'r ymwybyddiaeth yma o'u gwahaniaeth, yn ôl Cohen, yn ogystal â'u hymdeimlad o berthyn i ddiwylliant penodol, yn ffactorau hollbresennol o gymunedau ymylol (fel y gellir ystyried y cymunedau a astudiwyd). Nid oes rhaid deall 'ymylol,' yn nhermau daearyddol yn unig, ond gall gynnwys ffiniau yn ogystal. Nid yw'n cael ei ddiffinio yn ôl meini prawf penodol, ond gall fod yn gyflwr meddyliol yn ôl Cohen fel yn ei eiriau ef:

Peripherality, marginality, can be collective self images, informing and informed by communities perception of its inability to affect the course of events - even to affect its own destiny. It is often expressed economically in dependence upon very limited, exploitable resources and competitive disadvantage. (1982: 6).

Ystyriwyd gwaith Cohen (1982) o safbwynt y gwaith ymchwil hwn, ac yma gwelwyd cyfiawnhad o'r patrwm a ymddangoswyd uchod. Yma yn ogystal, ceir cyfiawnhad o waith Bond, Charsley a Grundy (2008) lle gwelwyd lefelau uchel o raddedigion Prydeinig yn allfudo o'r Alban o ganlyniad i nifer o ffactorau, ond lle welwyd enghraifft o'r ddadl economaidd ar un llaw a'r cymdeithasol ar y llaw arall. Er hynny, o ganlyniad, ni ellir crynhoi'r ffenomenon i gyfyngiadau economaidd yn unig.

Er hynny, yr hyn oedd yn amlwg oedd natur hylifol cysylltiadau'r ddwy sampl oed oedd yn sicrhau nad oeddynt yn teimlo'n osodedig o fewn eu bröydd na thu hwnt iddynt ychwaith.

**Diwylliant a Chenedligrwydd**

Fel sydd yn amlwg o'r grŵpiau ffocws, bu cryn drafodaeth ar yr hyn a olygir wrth fod yn 'Gymraeg,' yr ymdeimlad hynny o berthyn a graddfeydd o integreiddio i'r gymuned y maent yn perthyn iddo. Yn gysylltiedig gyda'r economi yn ogystal, cafwyd trafodaeth ar yr hyn sydd yn gadarnhaol am eu cymunedau a'r hyn sydd yn cael ei ystyried yn anffafriol. Fel y soniwyd eisoes, roedd yr ymdeimlad o berthyn yn amlygu ei hun mewn nifer o wahanol ffyrdd. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn barod i gydnabod nad oeddynt yn teimlo'n rhan o'r gymuned dan sylw ac eraill, er yn anfodlon i leisio'r farn hon, yn barod i gyfaddef nad oeddynt yn teimlo'n gyfforddus mewn rhai achosion. Roedd hyn yn gyffredin wrth ystyried y ddwy haen oed.

Gwelwyd amlygrwydd y pwynt uchod wrth drafod y pwnc o genedligrwydd gyda'r ymatebwyr. Ystyriwyd eisoes, fod cenedligrwydd yn bwnc trafod mawr ymysg pobl ifanc y ddwy sampl. Roedd y term yn gysylltiedig gyda'r bröydd yr oeddynt yn perthyn iddynt yn ogystal â'u cefndir teuluol. Er hynny, roedd y pwnc yn aml yn adlewyrchu'r hyn yr oeddynt yn teimlo am eu statws o fewn y gymuned honno ac yn ddibynnol ar eu graddfeydd o integreiddio. Yn ogystal, gwelwyd ei fod yn gwahaniaethu yn ôl ardal, pwynt y byddaf yn ymhelaethu arno ymhellach yn y bennod. Gellir dadlau fod y sampl yn aml yn gwahaniaethu eu hunain o fewn eu grŵpiau cyfoedion, sef rhai a oedd yn enedigol i'r fro a rhai nad oedd neu yn perthyn i deuluoedd ymfudol. Nid oedd y ffiniau yma a ddisgrifiwyd bob amser yn amlwg nac ychwaith yn bwysig, ond bu achosion lle rhoddwyd amlygrwydd mawr i'r gwahaniaethau teuluol yma, fel yr awgrymwyd gan Barth (1969) mae grŵp yn dod yn ymwybodol o'u hunaniaethau ethnig wrth iddynt gysylltu ag eraill. Mae Cohen yn dadlau fod yr un peth yn wir wrth ystyried ardaloedd, ac efallai nad yw hyn yn peri syndod, gan fod ethnigedd a chymdogaeth yn fynegiant o ddiwylliant. Dadleuwyd fod pobl yn dod yn ymwybodol o'u diwylliant wrth sefyll ar ei ffiniau ac o hynny fod diwylliant ym mhen blaen ymwybyddiaeth unigolion. Er hynny, dadleuwyd nad yw pobl bob amser yn ymwybodol o hyn fel 'diwylliant,' ond yn hytrach yn ymwybodol ohono drwy eu hunaniaeth (Cohen 1982: 3). O safbwynt yr astudiaeth hon, ac yn nhermau pobl ifanc y sampl, gwelwyd eu bod yn ymwybodol o'u gwahaniaeth nhw o fewn y gymuned leol ac yn rhoi sylw arbennig iddo, fel y daeth i'r amlwg wrth drafod cenedligrwydd. Gellir dadlau fod sylwadau Cohen (1982) hefyd

yn fwy amlwg wrth ystyried Ardal ymchwil 2, lle welwyd y gwahaniaethau hynny'n fwy amlwg. Yma yn ogystal gwelodd Cohen yr un patrwm:

But, again, we become aware of a culture - more specifically, of a culture – when we are brought up against its boundaries: that is, when we become aware of *another* culture, of behaviour which deviates from the norms of our own. (Cohen 1982: 4)

Byddai'r un sylwadau hefyd yn wir i'r grŵp sydd yn enedigol i'r fro.

Bu hefyd yn ddylanwadol wrth ystyried iaith a'r defnydd iaith o fewn y teulu. Bu'r grŵpiau ffocws ym Mlaenau Ffestiniog yn ddangosyddion amlwg ar gyfer mesur defnydd iaith a'i effaith ar obeithion a dyheadau'r sampl ar gyfer y dyfodol. Darganfuwyd, yn anochel efallai, fod agwedd eu rhieni yn treiddio yn enwedig wrth ystyried profiadau negyddol a gafwyd gan y rhieni o fewn y cymunedau dan sylw. Gellir dadlau fod peth dryswch yn perthyn i'r sampl, yn gysylltiedig gyda'u cefndir teuluol ac felly eu cenedligrwydd a'u lleoliad hwythau o fewn y gymuned. Er enghraifft, ymddengys nad oedd nifer o'r bobl ifanc wedi dewis mabwysiadau cenedligrwydd eu rhieni ond yn hytrach wedi mabwysiadu cenedligrwydd ardaloedd eu bro, gyda rhai yn ymfalchïo yn ei wahaniaeth ac eraill yn glynu'n dynn wrth eu hunaniaeth a'u cenedligrwydd genedigol. Byddai'n bwysig i ni ystyried gwaith Cohen (1982) unwaith yn rhagor, wrth iddo nodi fod nodweddion personol unigolyn yn wybodaeth gyhoeddus o fewn cymunedau bychain, ac o'r herwydd mae gwybodaeth o'r fath yn darparu'r sylfaen ar gyfer rhyngweithiad cymdeithasol (1982:10). Mae gan gyhoeddusrwydd y wybodaeth yma ganlyniadau pellgyrhaeddol ar gyfer bywyd cymdeithasol. Dadleuwyd ei fod yn cymeriadu'r gallu ar gyfer rhannu diwylliant a threfniant strwythurau cymdeithasol. O ganlyniad, gellir dadlau fod y math yma o wybodaeth yn amhrisiadwy o fewn ein cymunedau bychain gan ei fod yn gysylltiedig gan ei fod yn sicrhau ymddygiad a chonfensiwn. Gyda'r wybodaeth o draddodiad ac arferiad mae'r trigolion yn ymwybodol o wreiddiau a hanes y trigolion eraill, ond beth felly sy'n digwydd pan welwyd newid cymdeithasol gan gynnwys patrymau mudo ac allfudo? Fel yng ngeiriau Cohen:

There are then, these nebulous threads running through the life of a culture which are felt, experienced, understood, but almost never explicitly expressed. They provide a subterranean level of meaning which is not readily accessible to the cultural outsider. They are the substance of belonging and they belie the apparent familiarity to outsiders of the culture's structural forms. They are 'what it means to members to belong,' and, therefore, for the anthropologist they are the only terms in which belonging can be properly understood. They

are what bind members to their culture so closely that they take from it the means by which to make the world known to themselves, and to make themselves known to the world (Cohen 1982: 11)

Yma ceir cyfeiriad tuag at y cysyniad o berthyn sydd yn gysylltiedig gyda hanes teuluol a chefndir. Gwelwyd enghreifftiau o ddidoliad nifer o'r sampl wrth iddynt gyfaddef nad oeddynt yn teimlo'n rhan o'r gymuned o ganlyniad i ffactorau ieithyddol yn ogystal â chenedligrwydd.

Fel y soniwyd esioes, roedd nifer y bobl ifanc oedd yn nodi eu bod o genedligrwydd Cymraeg ym Mlaenau Ffestiniog, gymaint uwch nag yn Nhregaron, er bod eu cefndir teuluol yn ymddangos yn debyg. Yma cafwyd trawstoriad rhwng dau ddiwylliant ac effaith y diwylliant hwnnw ar y bobl ifanc. Dengys fod y cysyniad o genedligrwydd yn gysylltiedig gyda'r ardaloedd eu hunain, lle gwelwyd trawstoriad neu gyferbyniad rhwng yr hyn a oedd yn ei olygu i fod yn Gymraeg a'r hunaniaeth oedd yn perthyn i fod yn Saesneg. Er enghraifft, ymddengys fod "bod yn Gymraeg," i sampl Tregaron, yn gysylltiedig gyda diwydiant amaethyddol cryf yr ardal, ac nad oedd yr ymfudwyr yn yr achos yma yn gallu uniaethu gyda'r diwydiant nac ychwaith yn teimlo'r angen i fod yn rhan ohono. O ganlyniad, roedd gan y term arwyddocâd negyddol i'r rhai nad oedd yn teimlo'n gynwysedig i'r ardal a'i diwylliant. Er hynny, nid dyma'r achos ym Mlaenau Ffestiniog, nid oedd y sampl yn yr achos hwn yn dynodi'r un label nac yr un arwyddocâd i "fod yn Gymraeg," yn hytrach ystyriwyd fod balchder yr unigolion yn amlwg. Cafodd hyn ei atgyfnerthu wrth ystyried y diagramau a grëwyd yn ystod y grŵpiau ffocws. Yma ceir y trawstoriad rhwng y ddau grŵp lle gwelwyd gwahaniaethau sylweddol mewn cenedligrwydd, defnydd iaith a barn. Er y gellir dadlau fod grŵpiau ffocws grŵp 1 ym Mlaenau Ffestiniog yn ymdebygu, bu gwahaniaethau sylweddol rhwng grŵp 2 Blaenau Ffestiniog, sef y grŵpiau o ddisgyblion oedd wedi mudo i'r ardal neu yn perthyn i deuluoedd oedd wedi mudo. Yma ceir cadarnhad o'r gwahaniaethau rhwng diwylliant yr ardaloedd, lle gwelwyd cyd berthynas positif rhwng ardal a chenedligrwydd ym Mlaenau Ffestiniog, ond cyd berthynas negyddol rhwng cenedligrwydd ac ardal, yn Nhregaron. Yr hyn oedd wedi fy nharo i fwyaf, yn annibynnol i'r farn oedd yn cael ei mynegi, oedd bod y bobl ifanc yma wedi meddwl am y cysyniad o genedligrwydd a'r ymdeimlad o fod yn perthyn. Nid oeddynt yn ei gymryd yn ganiataol, hynny yw roedd yn nodwedd bwrpasol ganddynt. Y consensws oedd nad oes modd mesur cenedligrwydd, a'i fod yn nodwedd ddewisol, yn eu barn nhw, yn hytrach na nodwedd osodedig, enedigol. Er hynny, mae hi'n amlwg o'r trafodaethau yn ystod y grŵpiau fod y

pwnc yn un dryslyd a chymhleth hyd yn oed iddynt hwythau. Roeddynt yn ymwybodol nad yw'r pwnc yn ddu nac yn wyn, ac o ganlyniad, roedd eu teimladau nhw yn adlewyrchiad o hyn.

Byddai ymgais i esbonio'r darganfyddiadau uchod, yn gallu ein harwain tuag at y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd yn wahanol yn naws yr ardaloedd ac yma a statws Blaenau Ffestiniog fel tref ôl ddiwydiannol. Mae gwaith Adamson a Jones (1996) ar 'The South wales Valleys: Continuity and Change,' yn codi'r cwestiwn: oes modd i'r cymunedau ôl diwydiannol yma oroesi'r dirywiad yn eu safleoedd gwaith traddodiadol? Mae'r gwaith yn seiliedig ar gyfuniad o waith meintiol ac ansoddol ac yma ceir trafodaeth ar gymdogaeth a hunaniaeth. Yr argraff gryfaf a gafwyd oedd y synnwyr o gymdogaeth a chymuned a gafwyd ac roedd hyn yn unol â theimlad cryf o hunaniaeth gymdeithasol ac yn ofodol o fewn y gymdogaeth ac o fewn hunaniaeth Gymreig yn gyffredinol (Adamson a Jones 1996: 20). Roedd 85 y cant o ymatebwyr wedi nodi eu bod o genedligrwydd Cymreig o'i gymharu â 9 y cant yn nodi eu bod yn Brydeinig. Bu gofyn i'r ymatebwyr nodi'r pwysigrwydd o 'bod yn Gymreig,' gyda 50 y cant yn nodi fod hyn yn rhan 'pwysig dros ben,' neu yn 'bwysig iawn,' ohonynt. Pan ofynnwyd yr un math o gwestiwn dros 'dod o'r cymoedd,' roedd yr ymateb yn debyg, gyda 45 y cant yn nodi ei fod yn 'bwysig dros ben,' neu'n 'bwysig iawn.' (1996: 21) fel awgrymwyd gan Adamson a Jones (1996):

> Both tables suggest a strong identification with both the wider National identity of Welshness and the more local identity associated with the Valleys. Such strong attachments can have considerable effect in such communities ranging from the pattern of neighbourhood support and hig levels of community density to the low propensity for labour mobility identified with Valleys culture (1996: 22)

Yma ystyriwyd y ddau sampl ym Mlaenau Ffestiniog wrth drin a thrafod cenedligrwydd a'r ymdeimlad o berthyn tuag at ardal. I ddechrau, er nad yw nodweddion cefndir teuluol y sampl yn debyg wrth gymharu'r ddwy ymchwil, gellir dadlau fod cyfansoddiad yr ardaloedd yn debygol o gynnwys nifer amrywiol o gefndiroedd o ganlyniad i'w hanes diwylliannol. Bu i nifer o bobl fudo i'r cymoedd o ganlyniad i waith yn y pyllau glo fel i'r chwareli llechi ym Mlaenau Ffestiniog, er ar raddfa ychydig yn fwy. Dengys fod hanes ôl diwydiannol yr ardaloedd dan sylw wedi peri i'r trigolion deimlo rhwymyn rhanedig o fewn ardaloedd sydd wedi colli eu prif economi yn ogystal. Gellir ystyried fod perthynas gymdeithasol a

chymuned unigryw wedi materoli o ganlyniad i'r dirywiad yma, ac yn wahanol iawn i Dregaron, ifanc yw hanes yr ardaloedd hynny o'i gymharu.

Ni ellir diystyru hynafiaeth diwylliant Tregaron o'i gymharu ag Blaenau Ffestiniog ychwaith. Er enghraifft, gellir dadlau fod poblogaeth wreiddiol Blaenau Ffestiniog, yn cynnwys amrywiaeth eang o unigolion o bob rhan o Brydain, wedi eu denu yno gan waith yn y diwydiant llechi. Ardal gymharol gyfoes yw Blaenau Ffestiniog, sydd bob amser wedi cynnwys poblogaeth gymysg, sydd y gellir dadlau yn wahanol i gymuned draddodiadol Tregaron. Yn wreiddiol, byddai Tregaron wedi cynnwys poblogaeth deuluol oedd wedi bodoli yno ers rhai canrifoedd, er mae'n siŵr iddo ddenu rhai ymfudwyr nid yw'n debygol o fod ar yr un raddfa ag Blaenau Ffestiniog. O ganlyniad, gwelir arferiad o batrymau mudo ac allfudo ym Mlaenau Ffestiniog, lle byddai hyn wedi golygu dirywiad a newid i'r bywyd traddodiadol yn Nhregaron. O safbwynt y traethawd ymchwil hwn, dadleuwyd fod hi'n haws ymgartrefu mewn ardal sydd wedi profi lefelau uchel o fudo ac allfudo, yn hytrach nag ardal sy'n cael ei chymeriadu gan ddibyniaeth ar y diwydiant amaeth hynafol. Mae Blaenau Ffestiniog wedi profi newid parhaol er mwyn ymateb i ofynion ei phoblogaeth newidiol, sydd efallai wedi bod yn dasg fwy cymhleth i Dregaron. Mae modd dadlau fod poblogaeth Blaenau Ffestiniog yn debyg i boblogaeth y cymoedd mewn nifer o ffyrdd ac felly yn addas i archwiliad Adamson a Jones (1996).

Trafodwyd nifer o resymau pam yr oedd poblogaeth sampl Blaenau Ffestiniog yn annhebyg i boblogaeth sampl Tregaron yn yr ystyr hwn. Er bod gwaith Adamson a Jones (1996) yn cynnig un esboniad, awgrymwyd fod gweithgareddau'r gymuned ei hun yn gymorth i ateb y cwestiwn. Er enghraifft, mae Blaenau Ffestiniog, wedi ceisio dangos fod cyfleodd ar gyfer cyflogaeth newydd, sydd yn defnyddio'r hen ddiwydiant llechi, yn bosibilrwydd enillfawr yn y dyfodol agos. Drwy ddarparu ar gyfer ei phoblogaeth ifanc, gellir dadlau fod yr ardal wedi llwyddo i roi ymdeimlad o berthyn i'r bobl ifanc hynny sydd heb wreiddiau teuluol yno, ac wedi arddangos nad yw diwylliant yr ardal o reidrwydd yn gysylltiedig gyda "bod yn Gymraeg." Nid oes yr un enghreifftiau yn amlwg yn Nhregaron, ac yma gwelwyd awgrymiadau ar gyfer cynllunio ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Gwelwyd yr angen ar gyfer mwy o wybodaeth gynhwysfawr ar y cyfloed sydd ar gael wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yn ogystal, mwy o gyfleoedd i'w ddefnyddio wrth ystyried treftadaeth a chadwraeth yr

ardaloedd dan sylw. Yn benodol, drwy ystyried hen draddodiadau'r ardaloedd, gellir dadlau fod ceisio eu trawsnewid er mwyn sicrhau eu bod o ddefnydd yn yr oes sydd ohoni, yn debygol o sicrhau cynaladwyedd yr ardaloedd hynny sydd heb ddefnydd economaidd yn y byd sydd ohoni. Byddai'n gymorth i ni ystyried hyn o safbwynt yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol a arddangoswyd, lle gwelwyd yr angen ar gyfer prosiectau a chyfloed cyflogaeth leol a gwreiddiol neu "Grass roots." O safbwynt datblygiad cymunedol yn benodol, gwelwyd enghraifft o ymarfer da ym Mlaenau Ffestiniog, hyd yn oed os nad yw polisïau cynllunio yn caniatáu i'r ardal honno wneud y mwyaf o'i hadnoddau naturiol.

**Ystyriaethau Ieithyddol**

Ni ellir diystyru iaith yn gyfan gwbl o'r dystiolaeth a gasglwyd o'r ymchwil. Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi sefydlu perthynas rhwng iaith a'r ymdeimlad o berthyn a nifer ohonynt wedi nodi achosion lle nad oedd unigolion yn gallu medru'r Gymraeg ac felly'n teimlo'n ymylol yn y gymdeithas ac wedi eu gwahardd, nid yn bwrpasol, o weithgareddau cymunedol. Yn Nhregaron yn arbennig, roedd polisïau iaith Sir Ceredigion yn pwysleisio fod yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr ysgol yn ddibynnol ar ddealltwriaeth y bobl ifanc. Er enghraifft, oherwydd y nifer o bobl ifanc nad oedd yn medru'r iaith yn rhugl, cafodd y dosbarthiadau eu rhannu i ddau brif ffrwd, gyda'r cyntaf yn gwneud eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a'r gweddill drwy'r Saesneg. Golyga'r rhaniadau hyn, fod rhaniadau cymdeithasol hefyd yn anochel, ac yma ceir goblygiadau i bolisïau iaith yr ardal, gan nad oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried fel iaith normal yr ysgol nac ychwaith yn y gymuned. Gall hyn effeithio ar raddfeydd integreiddio pobl ifanc o deuluoedd ymfudol mewn rhai achosion. Tra'i bod yn ymddangos fod pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio fwy yn ieithyddol mewn rhai cymunedau, eto gwelir bod rhai eraill lle mae'r grŵpiau iaith yn bodoli ar wahân i'w gilydd. Er hynny, roedd pob un o'r ymatebwyr yn medru'r iaith, ac wedi ei dysgu fel ail iaith yn yr ysgol neu yn y gymuned ehangach. Nid oedd yn ymddangos fel rhwystr iddynt felly. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg, oedd bod cysylltiadau gyda'r iaith a dyhead rhai o'u cyfoedion oedd yn enedigol i'r fro, i ddiogelu eu hiaith gyntaf a brodorol, yn destun dolurus i rai ohonynt. Nid oeddynt yn cysylltu'r un pwysigrwydd i'r iaith â'u cyfoedion eraill, ac yn aml roeddynt yn ystyried dulliau a dyhead eu cyfoedion i ddiogelu eu hiaith ac i'w defnyddio ym mhob achos, fel ymosodiad personol ar eu diwylliant nhw eu hunain. Wrth ymchwilio ymhellach, gwelwyd

fod y pwynt uchod yn ddibynnol ar agwedd a lefel integreiddio eu rhieni a byddaf yn trafod hyn ymhellach yn y bennod. Gwelwyd o'r holiaduron fod cyfran o'r rhieni wedi dysgu'r Gymraeg, ond ychydig iawn sydd yn ei defnyddio yn y cartref gyda'r ymatebwyr gyda 2 (15.4 y cant) o'r tadau o Flaenau Ffestiniog a 0 o Dregaron, a 0 o'r mamau yn y ddwy ardal yn ei defnyddio (gwelwyd Tabl 19 & 20). Gwelwyd o'r data ansoddol, fod y rhieni a oedd yn ffafriol tuag at yr iaith, yn ei dysgu ac yn gwneud ymdrech arbennig i'w defnyddio yn y cartref, yn debygol o drosglwyddo'r un agwedd ac ymdrech i'w plant, er ymddengys mai nifer bychan iawn o'r sampl oedd hyn. Yma gwelwyd lle blaenllaw ar gyfer cynllunio ieithyddol, lle gwelwyd nad yw dysgeidiaeth o'r iaith yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol o fewn y teulu. Ystyriwyd gwaith Williams a Morris (2000) wrth iddynt awgrymu y byddai'r newidiadau cymdeithasol sy'n amlwg o fewn y bröydd yn caniatáu i ni ystyried perthnasedd y gwahanol asiantaethau cymdeithasol i'r broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith. Mae'n bosib nad yw'r teulu, er enghraifft, yn atgynhyrchu'r iaith, hyd yn oed pan fo'r rhieni yn siarad yr iaith, ond fod asiantaethau eraill, fel addysg, yn dysgu'r Gymraeg i blant. Yn amlwg, byddai'r un sefyllfa'n wir yn achos teuluoedd ble nad yw'r un o'r rhieni'n siarad Cymraeg, sef mai'r ysgol yw'r asiantaeth atgynhyrchu iaith, gyda'r gymuned o bosib yn ategu hynny, yn enwedig yn y bröydd Cymraeg. Yr hyn a ddisgwylid yw bod dysgeidiaeth o'r iaith Gymraeg yn debygol o gynyddu cyfalaf cymdeithasol unigolyn neu grŵp, er yn yr achos yma, gwelwyd nad dyma yw'r achos. Gwelwyd fod cyfalaf cymdeithasol unigolion ym Mlaenau Ffestiniog a Tregaron yn cael eu heffeithio gan eu lefelau o integreiddio sydd ddim yn ddibynnol ar eu gallu o'r iaith yn unig, ond yn hytrach yn cynnwys nifer amrywiol o ffactorau megis hunaniaeth, diwylliant a pherthnasau cymdeithasol.

Yn dilyn o'r sylwadau uchod, gwelwyd nad ystyriaethau ieithyddol yn benodol oedd yn dylanwadu ar ddewisiadau pobl ifanc ac nad oedd yr iaith o bwysigrwydd sylweddol iddynt. Roedd nifer ohonynt yn falch eu bod wedi llwyddo i'w dysgu a'u bod wedi gallu cyflawni eu haddysg, ac yn aml i safon uchel, drwy gyfrwng eu hail iaith. Nid oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried fel iaith gymdeithasol y bobl ifanc yma, heblaw efallai am Tomos o Blaenau Ffestiniog, a oedd wedi mabwysiadu'r pwysigrwydd hwnnw oddi wrth ei fam. Cadarnhawyd felly nad diffyg atgynhyrchu iaith o reidrwydd oedd y rheswm pam fod y bobl ifanc dan sylw yn dewis gadael, ond yn hytrach ei fod yn gysylltiedig â defnydd iaith yn gymdeithasol a'r hyn a flaenoriaethwyd ganddynt parthed integreiddio. Gellir dadlau ei fod yn cael ei ystyried fel cam pwysig i'r bobl ifanc yma, ac er nad yw'n ymddangos yn effeithio ar eu

penderfyniadau ar gyfer y dyfodol, gellir dadlau ei fod ynghlwm â'r ymdeimlad o berthyn, cefndir teuluol a phatrymau integreiddio.

Wrth ystyried eu graddfeydd o integreiddio i'r gymuned honno, gwelwyd fod eu penderfyniadau ar gyfer y dyfodol yn gysylltiedig gyda'r gefnogaeth oedd ar gael gan y rhieni ar yr aelwyd a'u teuluoedd estynedig, natur a'r ddarpariaeth gymunedol oedd ar gael a'u profiad o fyw yn y gymuned honno. Yma ceir cyfuniad o ffactorau ymarferol yn ogystal â theimladwy wrth ystyried eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Er hynny, darganfuwyd fod cysylltiadau'r sampl yn hylifol, hynny yw, roedd eu rhesymau dros ymfudo o'r bröydd yn gysylltiedig gyda theimladau ac ystyriaethau cymhleth tu hwnt i un ffactor penderfynu. Dadleuwyd fod y teimladau yma'n adlewyrchiad o'u cysylltiadau hylifol oedd yn sicrhau eu symudoledd cymdeithasol amlwg a'r gallu i allfudo o'r broydd Cymraeg.

Byddai cefnogwyr o gynllunio ieithyddol efallai yn awgrymu y byddai gwella sgiliau ieithyddol yn sicrhau lefelau uwch a gwell o integreiddio, ond nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei ddarganfod, yn ystod y traethawd hwn sydd yn cefnogi hyn. I'r gwrthwyneb efallai, nad ffactorau ieithyddol sydd yn uniongyrchol gyfrifol dros y patrwm ond yn hytrach yn anuniongyrchol yn gwneud pobl ifanc yn wyliadwrus ac yn bwyllog. Felly, nid yw'r traethawd hwn yn cefnogi gwaith Jones (2010) yn gyfan gwbl, gan ymddengys fod y patrwm o allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg yn gymhleth ac yn aml haenog ei naws. Yr hyn efallai sydd yn dod i'r amlwg yw'r angen ar gyfer trawsyriant diwylliannol, lle gwelid y byddai dargadwedd ein pobl ifanc yn ddibynnol ar drawsyriant diwylliannol ac ieithyddol, ac efallai lle ystyriwyd y byddai mwy o'n poblogaeth ifanc yn integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned y maent yn rhan ohonynt. Fel awgrymwyd gan Baker (1985) byddai'n bwysig i ni ystyried y diwylliant Cymreig yn nhermau *'....a kaleidoscope of Welsh culture.'* (1985: 168) Er yr argaeledd nifer o ddiwylliannau Cymreig, nid yw bod yn ddwyieithog yn golygu bod yn aml ddiwylliannol. Nid yw'r gallu i ddefnyddio dwy iaith yn anochel yn golygu y bydd unigolyn yn aml ddiwylliannol. Er enghraifft, nid pawb sydd yn dysgu'r Gymraeg sydd yn cymryd rhan mewn Eisteddfodau, fel yng ngeiriau Baker:

> It appears axiomatic that, for the Welsh language to survive, it needs to penetrate an individual's whole way of life. For the language to be relegated to the eisteddfod field, the chapel, Welsh language lessons in school, to one channel on television and radio is to provide a badly balanced diet that will inevitably lead to malnutrition and attendant death. (Baker 1985: 169)

Ystyriwyd pwysigrwydd sefydlu'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol yr ysgol a thu allan. Bu enghraifft o'r cyfweliadau ym Mlaenau Ffestiniog, fod y Saesneg yn cael ei defnyddio fel yr iaith gymdeithasol, er bod rhuglder yr iaith yn uchel iawn ymysg y disgyblion ail iaith. Er hynny, bu awgrym yma fod gorbwysais wedi ei roi ar rai o'r disgyblion i siarad y Gymraeg pan nad oeddynt yn gyfforddus yn gwneud hynny, hynny yw gyda'u ffrindiau tu allan i'r ysgol. Dadleuwyd felly y dylid cael cydbwysedd rhwng yr hyn a welwyd fel pwysigrwydd cynnal yr iaith a gorbwyslais o'i defnydd fel arf gwleidyddol. Bu hyn yn farn gyffredin ymysg nifer o bobl ifanc y sampl, lle gwelwyd eu bod yn teimlo wedi ymylu o'i herwydd.

Yma felly gwelwyd cadarnhad o'r gwaith maes dan sylw ac o farn y bobl ifanc hynny nad sydd yn enedigol i'r fro neu yn perthyn i deuluoedd ymfudol. Ceir awgrym yn ogystal o fodolaeth math o ddeuoliaeth rhwng medru'r Gymraeg a'r hyn a olygir wrth fod yn Gymreig. Fel y soniwyd esioes, gellir dadlau fod allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg yn rhan o batrwm annatod yr ifanc erbyn hyn, ond drwy ystyried y ffenomenon yn ei chyfanrwydd, ceir tystiolaeth sydd yn cefnogi fel arall.

Yn sgil y wybodaeth helaeth a chynhyrchwyd gan y Cyfrifiad yn 2011, gellir distyllu rhai pwyntiau arwyddol sydd yn gysylltiedig gyda chynllunio ieithyddol a'r traethawd ymchwil hwn. Dangosir y cyfrifiad yn 2001 fod 20.5 y cant yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â'r ffigwr cyfatebol o 19 y cant yn 2011. Er bod poblogaeth Cymru wedi tyfu ers y Cyfrifiad yn 2001, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 582, 000 yn 2001 i 562,000 yn 2011. Mae'r ffigyrau'n awgrymu fod y Gymraeg dan bwysau yn ei hen gadarnleoedd, megis y bröydd Cymraeg. Yn berthnasol i'r gwaith hwn, gwelwyd gostyngiad o 52 y cant i 47 y cant yng Ngheredigion a gostyngiad o 69 y cant i 65.3 y cant yng Ngwynedd rhwng y ddau Gyfrifiad diweddara. Diddorol oedd y gwahaniaethau oedran rhwng 2001 a 2011, gyda chynnydd sylweddol o ran plant iau (3-4 oed), rhywfaint o gynnydd o ran oedolion 20-44 oed, a gostyngiadau yn y grwpiau oedran eraill. Buddiol byddai ymchwilio ymhellach y rhesymau dros y canlyniadau hyn gyda 'r ffocws ar y dirywiad yn yr iaith o fewn y bröydd, gyda'r grwpiau oedran a astudir yn y traethawd. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad hefyd yn ystyried patrymau mudo unigolion, gan y gellir awgrymu y gall y dirywiad yn y nifer sydd yn siarad yr iaith fod o ganlyniad i batrymau mudo unigolion.

**Rhwydweithiau Cymdeithasol**

Fel y soniwyd esioes, mae'r ymdeimlad o berthyn wedi bod yn llinyn sydd yn rhedeg yn amlwg drwy'r traethawd ymchwil ac yn bwnc sydd wedi codi ei ben ym mhob rhan o'r dystiolaeth yn ymwybodol neu'n anymwybodol, i nifer o'r ymatebwyr. Mae'r hyn a ddarganfuwyd wedi ymdebygu i waith Cohen (1982) ar ddiwylliant a'r ymdeimlad o berthyn mewn nifer o ffyrdd, yn enwedig wrth iddo nodi nad ydym yn dod yn ymwybodol o'n diwylliant yn unig, ond hefyd ein bod yn priodoli gwerth iddo, yn gadarnhaol neu'n negyddol. Yn unol â hynny, rydym yn priodoleddu gwerthoedd i'r diwylliant sydd yn gyfwyneb i'n rhai innau. Nid ydynt yn unig yn ymwybodol o'n gwahaniaethau felly, ond rydym hefyd yn dueddol o roi gwerth iddo. Drwy gydol yr astudiaeth gwelwyd yr ymdrech a'r frwydr yma i deimlo perthnasedd gydag ardal a diwylliant penodol, boed hynny'n frwydr bersonol neu deuluol, cyfunol, ond yn wir, mae'r gwahaniaethau'n bodoli boed hynny'n bwrpasol neu ddim. Yma ceir cadarnhad o waith Cohen lle awgrymwyd fod y gwaharddiad o'r hyn y mae'r bobl ifanc yn ei ystyried fel y diwylliant 'traddodiadol,' mewn ardaloedd gwledig, ymylol yn aml yn cael ei gynorthwyo a'i atgyfnerthu gan farn y trigolion o'r anfanteision economaidd o'i ddaearyddiaeth ymylol, a'r farn bendant y dylent allfudo; ond i'r gwrthwyneb yn ogystal, byddai agwedd bositif tuag at y broydd dan sylw, yn golygu mewn cymunedau cyfoethocach (Cohen, 1982: 5) Yma unwaith eto ceir cadarnhad o'r hyn a welwyd fel agweddau negyddol nifer o'r trigolion yn effeithio ar ymdeimlad y bobl ifanc eu hunain. Yn bellach mae'r traethawd yn atgyfnerthu barn Day (2006) gan fod rhai yn cwestiynu'r cywerth honedig rhwng cymuned, traddodiad, cydlyniad a ffiniau gosodedig gan eu bod yn agor y dadansoddiad o fywyd cymdeithasol ar lefel lleol i'r astudiaeth o batrymau cymhleth o newid, amrywiaeth a gwrthdaro. Gellir dadlau eu bod yn tynnu ein sylw tuag at y pwysigrwydd o wahaniaethu cymdeithasol, didoliad a gwaharddiad, fel agweddau allweddol o drefniant cymdeithasol, nid yn unig wrth ystyried y rhyngweithio a welwyd ymysg cymunedau, safleoedd dosbarth, grŵpiau ethnig, pobol leol, ymfudwyr ac eraill, ond hefyd drwy ystyried y ffiniau a adeiladwyd er mwyn cynnwys rhai a gwahardd eraill (Day, 2006: 116). Yma yn ogystal gwelwyd enghreifftiau o waith Robert Putnam (2006) ble ystyriwyd y gall mewnfudiaeth arwain at greu cymunedau rhanedig, ble nad yw unigolion o wahanol grŵpiau diwylliannol yn ymddiried yn ei gilydd, a ble maent yn cynnal rhwydweithiau cymdeithasol ar wahân. Nid ydw i'n awgrymu er hynny fod gwrthdaro'n cymeriadau'r sampl yn gyfan gwbl. Yn wir, gwelwyd nifer o achosion lle'r oedd yr ymatebwyr yn ymfalchïo yn eu cenedligrwydd 'newydd,' ac yn teimlo'n falch o fod yn 'Gymraeg,' er mai statws honedig

y gellir dadlau yw hwn. Er hynny, nid oedd y bobl ifanc yma'n barod i aros o fewn eu broydd yn y dyfodol agos. Mae'r un patrwm yn wir ar gyfer y ddwy haen sampl, lle ystyriwyd fod llawer mwy i'w brofi ac i'w weld tu allan i ardaloedd y fro.

Mewn rhai achosion yn ystod dadansoddi'r data, cafwyd yr ymdeimlad fod y bröydd yn cael eu gweld yn eilaidd i'r trefi a'r dinasoedd mwy. Bu consenswS cyffredin rhwng yr hyn a welwyd fel natur 'mygol,' y bröydd, ac er y gellir dadlau fod hyn yn nodwedd gyffredin i bobl ifanc yn hytrach nac i un grŵp penodol yn unig, roedd yn effeithio ar ddyhead y grŵp yma i ymfudo ac i adael (Gweler y grŵpiau ffocws ym Mlaenau Ffestiniog).

Yma felly ceir peth dryswch am y broydd sydd yn amlygu ei hun ymysg y bobl ifanc yma. Ar un llaw, gellir dadlau eu bod wedi ymgartrefu'n lawn i'r broydd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, yn medru'r iaith gymunedol, yn rhan o'i sefydliadau ac yn adnabyddus i weddill yr ardal. Er hynny, nid ydynt yn teimlo'n perthyn, ac nid ydynt yn ymfalchïo'n llwyr yn ei hanes a'i diwylliant ac felly, nid ydynt yn llwyr integreiddio i'r gymuned. Mae Williams a Morris (2000) hefyd yn cysylltu'r prosesau o gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith gyda phrosesau mwy cyffredinol o atgynhyrchiad cymdeithasol a diwylliannol. Gwneir hyn trwy gydnabod mai dim un grŵp cymdeithasol yn unig yw grŵp iaith, a bod aelodau'r grŵpiau iaith hefyd yn aelodau grŵpiau cymdeithasol eraill sydd wedi eu seilio ar gender neu ddosbarth cymdeithasol, a bod y grŵpiau cymdeithasol hyn yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Gall pobl weld eu hunaniaeth o safbwynt mwy nag un o'r grŵpiau hyn, ac mae Williams a Morris yn nodi y gall hynny effeithio ar eu defnydd o iaith. Gan fod aelodau grŵpiau iaith hefyd yn aelodau ar yr un pryd o grŵpiau cymdeithasol eraill, maent hefyd yn cael eu heffeithio gan brosesau cymdeithasol ehangach fel newidiadau economaidd neu newidiadau polisi cymdeithasol. Felly nid polisïau iaith yn unig sy'n berthnasol iddynt, ond yn hytrach yr ystod gyfan o bolisïau sy'n effeithio ar aelodau cymdeithas drwyddi draw.

Mae'r hyn a nodwyd uchod yn cael ei atgyfnerthu yng ngwaith Jones (2010) lle amlygwyd fod gan rwydweithiau teuluol a ffrindiau pobl a fewnfudodd lai o ffocws lleol, ac awgryma y bydd hynny'n effeithio ar y Gymraeg (2010: 137). Gwelwyd yr un duedd yn ogystal wrth ail ystyried gwaith Emmett (1964) a nodwyd fod gwahanol elfennau i'r term 'Cymreictod.' Fel yr amlygwyd ganddi yn 1982, nid oes un math o hunaniaeth Gymraeg yn bodoli, ond yn hytrach ei fod yn newidiol yn ddibynnol ar y cyfnod a'r amser ac yn ôl ffasiwn. Roedd y profiad yn atgyfnerthu i Emmett, nad oedd yr ymdrechion diwylliannol i fyw yn y Gogledd,

Cymraeg, yn tarddu o ymrwymiad personol i'r traddodiad Cymraeg, ond yn hytrach fel math o isddiwylliant oedd yn trwytho bywyd yn yr ardal yma. Yr hyn sydd yn amlwg yw bod yr hyn a olygir wrth 'bod yn Gymraeg,' yn wahanol iawn ym mhob achos ac mae ei effaith ar allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg hefyd yn amrywio yn ôl ardal ac yn ôl y cyfranogwyr unigol. Er hynny, gwelwyd nad yw yn unig yn amrywio yn ôl unigolion ond hefyd yn ôl yr ardaloedd y maent yn rhan ohonynt ac felly yn ôl gwahanol ardaloedd o fewn y Fro Gymraeg.

O ganlyniad, gwelwyd nad yw'r Fro Gymraeg yn ymddangos fel dewis naturiol nac ychwaith buddiol ar gyfer pobl ifanc sydd ar fin gwneud eu penderfyniadau ar gyfer y dyfodol. Fel y soniwyd eisoes, gwelwyd lle yma i ddiwygio y cyfleodd sydd ar gael i'n poblogaeth ifanc o safbwynt cyfleoedd gyrfaol. Mae enghraifft o Blaenau Ffestiniog, sydd yn ceisio ymddangos yn y farchnad twristiaeth awyr agored, o gynnig hyfforddiant mynydda drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc yr ardal. Yn draddodiadol, mae'r farchnad hon wedi ei dominyddu gan gynghorau sir o Loegr a hyfforddwyr o Loegr yn benodol. Nid ydynt yn medru'r iaith Gymraeg ond mae eu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru yn well nag yn y Deyrnas Unedig. Ceir awgrymiad yma felly o hysbysebu'r cyfloedd sydd ar gael i bobl ifanc o fewn eu bröydd. Yn ogystal ceir awgrymiad ar gyfer cynllunio ieithyddol yn ystyr prosiectau gwreiddiol a gynhaliwyd yn yr ardaloedd eu hunain.

**Argymhellion**

Byddai'n bwysig crybwyll argymhellion ymhellach yn seiliedig ar allfudiaeth pobl ifanc o'r broydd Cymraeg. Prif argymhelliad ymchwil addysg o fewn y broydd yw y dylid sicrhau parhad cyrsiau addysg bellach/uwch o fewn colegau/prifysgolion lleol er mwyn annog siaradwyr Cymraeg brodorol i aros a chyfrannu at Gymreictod cyffredinol y broydd. Gellir dadlau na thelir ddigon o sylw i'r cyfleoedd cyffredinol sydd ar gael drwy astudio drwy'r Gymraeg ac yn benodol y cyfloedd sydd ar gael i wella'r sgiliau a'r cyfleoedd hynny o fewn eu broydd. Er enghraifft, ym Mlaenau Ffestiniog, gwelwyd diffyg gwybodaeth am y cyrsiau addysg uwch oedd ar gael yn y Gymraeg a'r grantiau oedd ar gael i barhau gydag addysg ymhellach. Yn benodol, ni chafwyd enghreifftiau o ymarfer da yn yr achos hwn, lle awgrymwyd fod gwneud y gorau yn golygu gadael yr ardal leol. Awgrymwyd gwaith pellach er mwyn cefnogi'r rhieni di-gymraeg o fewn y system addysg cyfrwng Cymraeg o

fewn y broydd yn ôl pobl ifanc y sampl. Gwnaed gwaith arbennig yn barod drwy greu cysylltiadau gyda'r rhieni a'r cartref ond dadleuwyd y dylid parhau gyda'r cysylltiad â chreu rhwydwaith neu gofrestr o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ail iaith yr ardal. Er enghraifft, awgrymwyd y byddai nosweithiau cymdeithasol, anffurfiol yn ffordd o ennill dysgwyr Cymraeg newydd yn ogystal â lefelau uwch o integreiddio gan y rhieni di-gymraeg. Pe byddai'r ddarpariaeth ar gael, awgrymwyd y byddai mwy o ddefnydd o'r iaith a mwy o gyfleoedd i'w defnyddio'n gymdeithasol. Awgrymwyd y dylai'r ysgolion fod yn ganolfannau cymunedol ieithyddol i'r rhieni hynny, ac yn arf integreiddio i'r Gymuned ehangach. Byddai cyfranogaeth uwch gan y rhieni di-gymraeg, yn fodd effeithiol o sicrhau cynaladwyedd cymunedau Cymreig.

Argymhelliad cryf, oedd yn deillio o safbwyntiau teuluoedd ymfudol yr ardal oedd y dylid pwysleisio bod angen cydnabod anghenion siaradwyr ail iaith yr ysgol, gan sicrhau fod yr anghenion hynny'n cael eu gwireddu. Er enghraifft, gwelwyd diffyg adnoddau addysgiadol arbennig oedd yn cynorthwyo'r rhieni di-gymraeg er mwyn gallu helpu gyda gwaith cartref er enghraifft, neu ar gyfer nosweithiau rhieni. Awgrymwyd y byddai mwy o rannu gwybodaeth yn effeithiol, yn buddio pawb. Erbyn hyn, mae'r ysgol ym Mlaenau Ffestiniog, wedi llwyddo i ennill grant sydd yn galluogi iddynt hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu cymunedau ac mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn gyffredinol a phlant yr ysgol. Er enghraifft, cafwyd arian i hyrwyddo Termiadur newydd i'r ysgol sydd yn esbonio'r termau a ddefnyddiwyd fwyaf o fewn pynciau penodol er mwyn cynorthwyo gyda gwaith cartref a bywyd yr ysgol yn gyffredinol. Gwelwyd fod yr angen wedi bod yma a bod yr angen bellach yn cael ei wireddu.

Hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar yr aelwyd ymysg y disgyblion di-gymraeg yw'r argymhelliad ar gyfer cynnydd yn y defnydd iaith. Dylid ceisio annog cyn ddisgyblion drosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd i'w plant hwythau fel iaith gyntaf, er mwyn sicrhau cynaladwyedd a hyfedredd iaith. Dylid parhau â mentrau llwyddiannus megis pecynnau gwybodaeth gan ymwelwyr iechyd a TŴF i ddarpar rieni neu i rieni newydd, sydd yn annog magwraeth ddwyieithog iddynt o fewn yr ardal.

Yn olaf, wrth ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, gwelwyd y cyfle i wella ein cymunedau Cymraeg drwy'r defnydd o brosiectau cymunedol gwreiddiol, sydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith normadol y prosiectau hynny. Er enghraifft, drwy ystyried y system sydd ohoni, gellir dadlau nad yw'n cyflawni'r hyn a welwyd fel cynhyrchiad ac atgynhyrchiad iaith leiafrifol yn llwyddiannus. Hynny yw, drwy ystyried yr ymdriniaeth "top down," gwelwyd nad oes ddigon o ystyriaeth yn cael ei ddynodi i ardaloedd fel y broydd. Awgrymwyd felly fod yr angen ar gyfer cyflogaeth ar lefel gymunedol o bwysigrwydd sylweddol, er nad yw'r delfryd yn cydweddu'r realiti, mae'r gofyn ar gyfer newid yn amlwg. Yn wir, fel y soniwyd eisoes, gwelwyd enghreifftiau o'r ymarfer da yma ym Mlaenau Ffestiniog, drwy brosiectau megis Antur 'Stiniog a'r Dref Werdd.

**Cyfyngiadau'r Ymchwil**

Nid yw ymchwil cymdeithasegol heb ei wendidau. Yn wir, amhosib bron yw dylunio ymchwil perffaith heb unrhyw gamgymeriadau. Nid yw trafod agweddau, canfyddiadau a phenderfyniadau yn ffenomen hawdd eu hastudio bob tro a chan mai strategaeth a dulliau ymchwil ansoddol a weinyddwyd yn bennaf o fewn yr ymchwil, mae'n briodol trafod eu cyfyngiadau.

Mae maint sampl bychan ymchwil ansoddol a'r anallu i gyffredinoli yn destun pryder amlwg oherwydd ni ellir honni, fod y patrwm a ganfuwyd yn yr ardaloedd dan sylw yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyriwyd sampl 60 o holiaduron fel dull ymchwil cychwynnol a grŵpiau ffocws a chyfweliadau dwys yn ddulliau cwbl briodol a pherthnasol er mwyn gwireddu amcanion yr ymchwil penodol hwn ac er mwyn gweddu natur testun yr ymchwil. Pobl ifanc yw prif ffocws yr astudiaeth ac ymchwil ansoddol fel y cyfryw sy'n addas er mwyn creu brwdfrydedd, egni ac agwedd y bobl ifanc hynny tuag at eu bywydau personol eu hunain.

Serch hynny, cam cyntaf yn unig yw'r ymchwil hwn ac felly mae yna le i waith pellach dros gyfnod hirach mewn amryw o leoliadau er mwyn ychwanegu at gorpws ymchwil allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg. Oherwydd natur yr ymchwil, penderfynwyd fod angen amser cyfyngedig i gwblhau'r gwaith ac yn benodol roedd yn rhaid ystyried fod angen cwblhau gwaith maes gyda dwy ardal ymchwil a dwy sampl oed. At hynny, ystyriaeth ymhellach oedd teithio i Dregaron er mwyn cynnal grŵpiau ffocws a chynnal cysylltiad

cyson gyda'r ysgol. Mae'n rhaid hefyd ystyried ei bod hi'n gymhleth gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc yn benodol. Roedd yn rhaid sicrhau fod CRB llawn wedi ei gwblhau a bod yr ysgol yn hapus i ganiatáu mynediad. Yn ogystal, mae amserlen ysgolion yn brysur ac o bwysigrwydd mawr i'r bobl ifanc gan fod cyfnodau o arholiadau a gwersi anochel. Er i'r ysgolion hynny gyfrannu'n arbennig at yr ymchwil, yr oeddynt o dan bwysau mawr a bu rhaid aros am gyfnod hir i dderbyn mynediad.

Gwelwyd fod awgrymiadau ar gyfer creu ymchwil gwell yn hanfodol. I ddechrau, wrth ystyried y cwestiwn o genedligrwydd a phatrymau integreiddio, gwelwyd lle i ddefnyddio dadansoddiad ar rwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc sydd yn goleubwyntio'r iaith a ddefnyddiwyd mewn amryw o sefyllfaoedd cymdeithasol yn hytrach nac y rhai amlycaf yn unig. Yn ail, ystyriwyd creu ymchwil cymharol rhwng ardal a ystyriwyd fel y Fro Gymraeg ac ardal sydd yn amlwg y tu allan iddi. Byddai creu cymhariaeth o ddwy ardal gyferbyniol, yn debygol o roi ystyriaethau pellach i ni. Yn ogystal, o safbwynt cefndir teuluol, byddai creu astudiaeth sydd hefyd yn cynnwys ac yn ystyried y rhieni fel poblogaeth ymfudol hefyd yn ychwanegu at y pwnc o allfudiaeth o'r bröydd. Byddai casglu data ansoddol am eu barn a'u hagwedd nhw tuag at y Fro, yr iaith Gymraeg yn ogystal â'r gymuned maent wedi mudo iddi yn debygol o ddarparu mewnwelediad ymhellach i ni o'r pwnc a'r newidiadau posib wrth fynd i wraidd y ffenomenon.

Fel y soniwyd esioes, mae newidiadau strwythurol, arwyddocaol wedi digwydd ers cwblhau'r traethawd ymchwil hwn. I ddechrau nid yw Bwrdd yr Iaith bellach yn bodoli yn yr un ffurf sydd â goblygiadau o safbwynt cyfrifoldeb gyda chanlyniadau'r ymchwil. Teg efallai yw nodi, mai gyda Llywodraeth Cymru, yng ngolwg canlyniadau'r Cyfrifiad 2011, sydd yn gyfrifol dros ganfyddiadau'r hyn a ymchwiliwyd. Mae newidiadau i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn rhoi cyfyngiadau ar yr ymchwil. Yn barod nid yw'r hyn a ymchwiliwyd yr un mor berthnasol oherwydd y newidiadau ond gellir dadlau fod y bröydd yn parhau â lefelau uchel o amddifadedd yn ogystal â newidiadau demograffaidd sydd yn golygu fod allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd yn ddibynnol ar y newidiadau rhanbarthol hyn yn ogystal.

Gellir ystyried yr astudiaeth yn ddechreuad astudiaeth ehangach, ddyfnach i'r maes yn y dyfodol, un lle byddai modd dilyn ein pobl ifanc am y tymor hir yn hytrach nag un astudiaeth fer dymor. Petawn yn trosi'r astudiaeth yn arolwg mwy, byddai elfen gymharol fwy rhwng y

bobl ifanc hynny sydd wedi eu geni o fewn y bröydd a rhai sy'n perthyn i deuluoedd ymfudol. Fel y soniwyd eisoes, byddwn yn dilyn y bobl ifanc hynny sydd wedi dewis gadael eu bröydd dros gyfnod mwy o amser, gan ystyried eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol yn nhermau patrwm bywyd. Yn ogystal, byddai creu astudiaeth o rwydweithiau cymdeithasol y bobl ifanc hynny dan sylw yn ystyriaeth ymhellach. Byddai creu cymhariaeth rhwng dwy ardal ymchwil wahanol hefyd yn ystyriaeth newydd i ymchwil ehangach. Er enghraifft, byddai astudio ardal ddifreintiedig mewn cymhariaeth ag ardal fwy ffyniannus yn gymhariaeth effeithiol, byddai'n rhoi mwy o fewnweledaid i ni o'r pwnc o allfudiaeth o'r bröydd. Ers cychwyn y traethawd hwn, mae etholiad cyffredinol wedi golygu newid yn ein llywodraeth, ac yn anochel newidiadau o safbwynt yr economi ac addysg yn benodol. Mae'r newidiadau hyn wedi golygu newid byd i'r bobl ifanc hynny oedd yn rhan o'r sampl yn ogystal, a chynigwyd y byddai cynnal astudiaeth sydd yn astudio'r newidiadau yma'n arloesol a newydd. Serch hynny, awgrymiadau ar gyfer ymchwil y dyfodol yn unig yw hynny.

**Cloi**

Byddwn yn cloi'r traethawd hwn drwy gynnig fod allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg yn ddibynnol ar nifer o resymau cymhleth. Mae'r rhesymau'n amrywio o resymau diwylliannol, addysgol, economaidd a phersonol, fel ei gilydd. Gellir dadlau mai rhesymau economaidd sydd yn ymddangos fel y rhesymau pwysicaf dros allfudiaeth yn y cychwyn cyntaf, ond wrth adeiladu ar y dystiolaeth, gwelwyd mai man cychwyn yn unig yw hyn. Ymddengys fod pwysigrwydd y teulu, a'r teulu estynedig, patrymau integreiddio, yr ymdeimlad o berthyn ac ystyriaethau ieithyddol i gyd yn cyfrannu at y pwnc o allfudiaeth, gan sicrhau cymhlethdod y grŵp a'r pwnc dan sylw.

Ymddengys fod gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy sampl oed, sydd y gellir dadlau, yn bennaf adlewyrchiad o'r ansicrwydd sydd yn perthyn i fod yn ifanc a'r aeddfedrwydd sydd yn magu yn sgil hyn. Yma yn ogystal, mae gwahaniaethau rhwng y sicrwydd hynny sydd yn perthyn i fod yn hŷn, o'i gymharu â'r ansicrwydd sy'n bodoli wrth ystyried y dyfodol. Er enghraifft, awgrymwyd fod yr economi, swyddi ac ennill cyflog da yn ymddangos fel prif resymau'r data meintiol oed 15-18, dros allfudo o'i broydd. Mae angen cydnabod mai sampl bychan sydd yn creu'r astudiaeth hon ac o ganlyniad mae'r gwaith yn rhannol cytuno â Jones

(2010). Er hynny, roedd y data ansoddol yn awgrymu fod rhesymau diwylliannol â dylanwad uwch, gan gynnwys cwestiynau yn ymwneud â chenedligrwydd, yr ardaloedd eu hunain ac ystyriaethau teuluol gan gynnwys iaith o fewn y teulu. Gwelwyd gwahaniaethau rhwng y sampl oed 15-18 yn y ddwy ardal, gydag agwedd tuag at iaith a chenedligrwydd Cymreig yn gryfach ym Mlaenau Ffestiniog nac yn Nhregaron. Roedd hyn yn bennaf gysylltiedig gyda chefndir ac agwedd deuluol, ac o ganlyniad i ddiwylliant yr ardaloedd dan sylw. Er enghraifft, ystyriwyd fod natur hynafol, hanesyddol Tregaron yn cymhlethu patrymau integreiddio gan fod ei gefndir hanesyddol yn rhwystro treiddiad cymdeithasol i'r bobl ifanc hynny nad oedd â chysylltiadau a gwreiddiau teuluol yno.

Roedd canlyniadau'r sampl hŷn yn ymdebygu i'r sampl iau mewn rhai ffyrdd, ond ymddengys fod eu dewis i ymfudo'n ddibynnol ar ddewisiadau prifysgol a gyrfaol mewn theori. Bu enghraifft o'r dyhead naturiol yma i adael y fro er mwyn ceisio am fywyd cymdeithasol gwahanol a chyfleoedd uwch yn gyffredinol. Er hynny, roedd y dewisiadau yma'n ddibynnol ar gefnogaeth deuluol y grŵpiau ymfudol, oedd yn darparu ysgogiad a hyder i'r bobl ifanc hynny i wneud dewisiadau ar gyfer y dyfodol, oedd tu hwnt i'w broydd. Dadleuwyd fod pwysigrwydd y teulu estynedig hefyd yn darparu'r gefnogaeth ar gyfer allfudiaeth. Dengys fod y tarddle hwn, yn fan cychwyn i nifer o'r bobl ifanc hynny sydd wedi ymfudo, gan iddynt sicrhau man cyfanheddu amlwg yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol, risg isel, i'r bobl ifanc hynny sydd yn hanu o deuluoedd ymfudol. Bu themâu amlwg wrth drafod y ddwy haen oed, gan gynnwys effaith newidiadau cymdeithasol ar eu hardaloedd, diffyg economi ac felly dyfodol iddynt yn yr ardaloedd hynny. Nid oedd y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd mor amlwg wrth astudio'r grŵp hŷn, ond bu cadarnhad yma o natur newidiol y fro Gymraeg heddiw.

Gwelwyd mai prif resymau'r bobl ifanc hynny dros allfudo oedd rhesymau diwylliannol, yn bennaf yn gysylltiedig â'r ymdeimlad o berthyn, lefelau integreiddio a chyfleoedd cymdeithasol yn benodol. Rheswm economaidd amlwg oedd dosbarth cymdeithasol a'r cysylltiad gydag ardaloedd di freintiedig a diffyg cyfleoedd economaidd a chymdeithasol yn benodol. Er y gellir ystyried fod ffactorau economaidd o bwysigrwydd amlwg, yn enwedig wrth ystyried y sampl iau, nid oeddynt yn ddigon i orchfygu'r rhesymau diwylliannol a chadw'r bobl ifanc hynny o fewn eu bröydd.

Wrth ystyried newidiadau ar gyfer y dyfodol, dengys y byddai prosiectau a hyfforddiant sydd yn canolbwyntio ar natur newidiol yr economi a'r broydd yn fodd effeithlon o geisio cadw ein poblogaeth ifanc. Er y gellir dadlau fod y dyhead i fudo a phrofi sefyllfaoedd a chyfloed gwahanol yn rhan annatod o fywyd pobl ifanc, byddai creu swyddi sydd yn canolbwyntio ar ffynonellau naturiol yr ardaloedd, drwy ddarparu hyfforddiant mewn gweithgareddau a swyddi sydd yn gwneud y mwyaf o nodweddion y broydd yn debygol o farcio cychwyn newydd. Gwelwyd fod gofyn cynyddol amdano, ac felly mae lle yma ar gyfer cynllunio ieithyddol ar gyfer y dyfodol.

Gellir dadlau nad yw'r datblygiad hwn o resymau diwylliannol yn ymddangos yn optimistaidd iawn i'r iaith Gymraeg os ydym yn parhau i golli ein poblogaeth ifanc, addysgedig i rannau eraill o'r DU. Yn benodol, ystyriwyd fod y sefyllfa'n dwysáu ac ni roddir sylw i'r dirywiad economaidd a chymdeithasol a welwyd o fewn ein bröydd Cymraeg. Gwelwyd yr angen cynyddol ar gyfer newid sydd yn wir ddeall, ac o ganlyniad yn llwyddo i ymgodymu â'r ffactorau aml haenog sydd yn effeithio ein bröydd heddiw.

# Llyfryddiaeth

ADRODDIAD MILLER: Physical Redevelopment of Blaenau Ffestiniog 19/11/08. www.miller-research.co.uk <http://www.miller-research.co.uk> Cyrchwyd 19eg o Fedi 2009

ADAMSON, D a JONES, S (1996): *The South Wales Valleys: Continuity and Change.* Papurau Achlysurol, Prifysgol Morgannwg 1996.

AITCHISON, J, a CARTER, H (1988): *The Welsh Language in The Cardiff Region; A Survey of Schoolchildren and Their Parents.* Rural Surveys Research Unit. University of Aberystwyth.

AITCHISON, J, CARTER, H a ROGERS, D (1989): *Immigration and The Welsh Language. A Case Study Of Tregaron and its Region.* Rural Surveys Research Unit. University of Aberystwyth.

AITCHISON, J a CARTER, H (1994): *A Geography of The Welsh Language 1961-1991.* Cardiff. University of Wales Press,1994

AITCHISON, J a CARTER, H (2000): *Language, Economy and Society: The changing Fortunes of The Welsh Language in the Twentieth Century.* Cardiff. University of Wales Press 2000.

AITCHISON, J a CARTER, H (2004): *Spreading the Word. The Welsh Language 2001.* Talybont Ceredigion Y Lolfa.

ALCOCK, A, TAYLOR, B a WELTON, J (1979): *The Future Of Cultural Minorities.* London; New York Macmillan, 1979.

ALDERSON, P (2004): *Ethics, Social Research and Consulting With Children and Young People.* Ilford, Barnados 2004.

APPELROUTH, S a EDLES, L (2011): *Sociological Theory in The Contemporary Era: Text and Readings.* Thousand Oaks California. Pine Forge Press/Sage 2011.

ARKSEY, H a KNIGHT, P (2011): *Interviewing For Social Scientists: An Introductory Resource With Examples*. London, Thousand Oaks California. Sage Publications 1999.

BANKS, M (2001): *Visual Methods in Social Research*. London, Sage Publications Ltd 2001.

BAKER, C (1985): *Aspects of Bilingualism in Wales*. Clevedon, Avon, England (1985)

BAKER, C (1992): *Attitudes and Language*. Clevedon, Avon: Multilingual Matters.

BARKER, C (2006): *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. Clevedon; Buffalo: Multilingual Matters 2006.

BARBOUR, R (2007): *Doing Focus Groups*. London, Sage 2007.

BBC: *Llai yn Siarad Cymraeg ar ôl Ystadegau'r Cyfrifiad 2011*. http://www.bbc.co.uk/newyddion/20639235 Cyrchwyd: 04/08/13

BILTON, T, STAYNER, J a STEPHENS, P (2002): *Introductory Sociology*. New York, Palgrave 2002.

BELOT, M a ERMISCH, J (2008): *Friendship Ties and geographica Mobility: Evidence From Great Britain*. Journal of The Royal Statistical Society. Volume 172, Issue 2. Cyrchwyd 1af o Fedi 2008 http://www3.interscience.wiley.com

BERKOWITZ, S.D a WELLMAN, B (1988): *Social Structures. A Network Approach.* Cambridge.Cambridge University Press, 1988.

BERG, B (2007): *Qualitative Research Methods For The Social Sciences*. Pearson/Allyn & Bacon 2007.

BETH YW CYMUNEDAU YN GYNTAF? www.cymunedau-yn-gyntaf.org Cyrchwyd 20fed o Fedi 2009

BLACKABY, D a DRINKWATER, S (2004): *Migration and labour Market Differences: The Case Of Wales.* University of Surrey. Cyrchwyd 6ed o Fehefin 2009. www.econ.surrey.ac.uk/discussion_papers/2004 <http://www.econ.surrey.ac.uk/discussion_papers/2004>

BOND, R, CHARSLEY, K a GRUNDY, S (2008): *Migration, Settlement and Identity Among 'English' Graduates in Scotland.* University of Edinburgh. 2008.

BOTT, E (1957): *Family and Social Network.* London: Tavistock.

BRISTOW, G, PILL, M, DAVIES, RH a DRINKWATER, S (2011): Stay, leave or Return? Understanding Welsh Graduate Mobility. Medi 2011 Wiserd Working Paper Series. http://www.cardiff.ac.uk/socsi/research/researchcentres/skope/publications/WISERD_WPS_005.pdf Cyrchwyd 9fed o Fehefin 2012

BRYMAN, A: (1988): *Quantity and Quality in Social Research.* London, Routledge 1988.

BRYMAN, A (2001): *Social Research Methods.* Oxford; New York: Oxford University Press 2001.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG (1999) *Continuity in Welsh language Education*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG (2000): *Rhwydweithiau Cymdeithasol a Defnydd Iaith Pobl Ifanc.* Ganolfan Ymchwil Ewrop a Chwmni Iaith 2000.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG (2005): *Strategaeth ieuenctid Bwrdd Yr Iaith Gymraeg.* 02/06/05 www.byig-wlb.org.uk Cyrchwyd 2il o Fehefin 2009

CALHOUN, C (1995): *Critical Social Theory: Culture, History and the Challenge of Difference*, Oxford: Blackwell.

CARTER, H (1988): *Mewnfudo a'r Iaith Gymraeg.* Caerdydd. Llys yr Eisteddfod Genedlaethol 1998.

CENSUS ONLINE: www.neighbourhoodstatistics.gov.uk <http://www.neighbourhoodstatistics.gov.uk> Cyrchwyd 13eg o Fedi 2009

CEREDIGION RESEARCH AND INFO SECTION 2001. Cyngor Sir Ceredigion. www.ceredigion.gov.uk <http://www.ceredigion.gov.uk>. Cyrchwyd 15fed o Fedi 2009

COHEN, A (1982): *Belonging. Identity and Social Organisation In British Rural Cultures.* Manchester University Press 1982.

COLEMAN, J.C (1994): *Foundations of Social Theory.* Cambridge: Harvard University Press.

COMMUNITIES FIRST GUIDANCE: www.wales.gov.uk Cyrchwyd 20fed o Fedi 2009

COTTERELL, J (1996): *Social Networks and Social Influences in Adolescence.* London. Routledge 1996.

CYMUNED (2003): *Mewnfudo Ie, Gwladychu, Na! Gwladychiaeth a Gwrth-Wladychiaeth yn y Bröydd Cymraeg.* Aberystwyth, Cymuned 2003.

CYNGOR CEREDIGION: http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_rkyvdownload.cfm Cyrchwyd 1af o Awst 2013

CYNGOR GWYNEDD: http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1110/cynllun_addysg_gymraeg_gwynedd__2011.pdf Cyrchwyd 1af o Awst 2013

CYNLLUN GWELLA CYNGOR GWYNEDD:
http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/906/Cynllun_Gwella_opt3.pdf.
1/07/10 (Cyrchwyd y 9fed o Fehefin 2009)

DAY, G (2002): *Making Sense Of Wales. A Sociological Perspective.* Cardiff. University of Wales Press 2002.

DAY, G a THOMPSON, A (2004): *Theorizing Nationalism.* Palgrave Macmillan 2004.

DAY, G (2006): *Community and Everyday Life.* New York Routledge 2006

DAVIS, H, DAY, G & DRAKAKIS-SMITH,A, *Attitudes to Language and Bilingualism among English In-migrants to North Wales*, yn Morris, D (2010) Welsh in the 21st Century

DAVIES, CH a JONES, S (2003): *Welsh Communities. New Ethnographic Perspectives.* Cardiff, University of Wales Press 2003.

DRIVERS OF YOUTH OUT-MIGRATION FROM RURAL SCOTLAND, KEY ISSUES AND ANNOTATED BIBLIOGRAPHY (2008)
<http://www.scotland.gov.uk/Publications/2008/01/22131922/0> (Cyrchwyd 17eg o Ionawr 2010)

EMMETT, I (1964): *A North Wales Village; A Social Anthropological Study.* London Routledge and Paul 1964.

FAUST, K a WASSERMAN, S (1994): *Social Network Analysis. Methods and Applications.* Cambridge University Press, 1994.

FOCUS GROUP KIT (1998): Thousand Oaks California 1998.

FIELDS, J (2008): *Social Capital.* London Phsychology Press, 2008.

FISHMAN, J A (1973): *The Sociology of Language.* Rowley, Newbury House.

FISHMAN, J A (1991): *Reversing language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages.* Clevedon; Philadelphia. Multilingual Matters 1991.

FISHMAN, JA (2002): *Endangered Minority Languages: Prospects For Sociolinguistic Research.* International Journal On Multicultural Societies Vol 4, 2. UNESCO 2002. http://www.unesco.org/most/vl4n2fishman.pdf (Cyrchwyd 5ed o Fehefin 2012)

FREEMAN, L.C (2008): *Social Network Analysis.* Volume I, II, III. Sage Publications 2008.

GALASKIEWICZ, J a WASSERMAN, S (1994): *Advances in Social Network Analysis. Research in the Social and Behavioural Sciences.* Thousand Oaks, London, New Delhi. Sage Publications, 1994

GRUFFUDD, H (1999): *Y Gymraeg a Phobl Ifanc.* Swansea: University of Wales, Swansea.

GYFARWYDDIAETH YSTADEGOL (2006): *Patterns of Migration in Wales.* Bwletin Ystadegol, Ystadegau Gwladol. Cyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad Cenedlaethol, Cymru. 2006. www.wales.gov.uk/topics/statistics (Cyrchwyd 20/06/09)

HAMMERSLEY, M (1999): *Taking Sides in Social Research: Essays On Partnership and Bias.* London, New York: Routledge 1999.

HAMMERSLEY, M, a ATKINSON, P (2007): *Ethnography: Principles in Practice.* New York: Routledge 2007.

HANES FFESTINIOG: www.ffestiniog.gov.uk <http://www.ffestiniog.gov.uk> Cyrchwyd 17fed o Fedi 2009

HARDY, CL (2009) Theory of Social Integration. Ehow.com http://www.ehow.com/about_5399164_theory-social-integration.html Cyrchwyd 8fed o Hydref 2009

HELMUT , R & SIEDLER, TH, 2008. *Social Networks in Determining Migration and Labor Market Outcomes: Evidence from the German Reunification,* CRIEFF Discussion Papers 0811, Centre for Research into Industry, Enterprise, Finance and the Firm.

HESA (2008): *Welsh in Higher Education Institutions 2006/2007*, Bwletin Ystadegol, Ystadegau ar gyfer Cymru. Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

HETHERINGTON, K (1998): *Expressions of Identity: Space, Performance, Politics*. London, Thousand Oaks, California.

JENKINS, G (1998): *Language and Community in the Nineteenth Century*. Cardiff University of Wales Press, 1998.

JENKINS, R (2004): *Social Identity*. London. New York, Routledge 2004.

JONES, H (2005): *Analysis of Census Results Pertaining To language Transmissi*on. Bwrdd Yr Iaith Gymraeg. www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau (Cyrchwyd 20fed o Fehefin 2009)

JONES, H (2010): *Welsh Speakers and Out-Migration.* The Welsh Language Board 2009.

JONES, H (2011) Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg Jones: http://www.welshlanguagecommissioner.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf Cyrchwyd 20fed o Fehefin 2012

JRF (2000): Poverty, And Social Exclusion In Britain http://www.rwbsocialplanners.com.au/spt2006/Social%20Inclusion/185935128X.pdf Cyrchwyd 2il o Fehefin 2012

KAHN, L a CANNEL, CH (1957): *The Dynamics of Interviewing Theory, Technique and Cases.* New York, Wiley 1957.

KILDUFF, M a TSAI, W (2003): *Social Networks and Organisations*. Thousand Oaks, London, New Delhi. Sage Publications, 2003

KREBS, V (2008): *Social Network Analysis. A Brief Introduction.* Orgnet.com, 2008. http://www.orgnet.com/sna.html (Cyrchwyd20fed o Fehefin 2009)

LABOVITS, S a HAGEDORN, R (1971): *Introduction to Social Research.* New York McGraw- Hill 1971.

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU. Cymunedau yn Gyntaf. www.wales.org.uk <http://www.wales.org.uk> Cyrchwyd 20fed o Fedi 2009

LLYWODRAETH Cymru: Cyfrifiad 2011: canlyniadau Cyntaf ar yr Iaith Gymraeg http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/population2012/121211/?lang=cy Cyrchwyd 4ydd o Awst 2013

MILROY, L (1987): *Language and Social Networks.* Oxford; New York: B.Blackwell 1987.

MORGAN, D (1997): *Focus Groups As Qualitative Research.* Thousand Oaks, California. Sage Publications 1997.

MORLEY, D a ROBINS, K (2001): *British Cultural Studies. Geography, Nationality and Identity.* Oxford University Press, 2001.

MORRIS, D: *Language and Class Fractioning In a Peripheral Economy*, JMMD, Vol 16, No 5, 373-388

MORRIS, D (1989): *A Study of Language Contact and Social Networks in Ynys Môn.* Contemporary Wales 1989.

MORRIS, D a WILLIAMS, G (2000): *Language Planning and Language Use. Welsh in a Global Age.* University of Wales Press, Cardiff 2000.

MORRIS, D a WILLIAMS, HG (2001): *Bywyd Cymdeithasol Cymru: Trafodion Economaidd a Chymdeithasol. Urdd y Graddedigion, Prifysgol Cymru 1997-2000.* Bangor, Urdd y Graddedigion, Prifysgol Cymru 2001.

MORRIS, D (2009): *Young People's Social Networks and Language Use: The Case of Wales.* Bangor University 2009.

MORRIS JONES, B a SINGH GHUMAN, P (1995): *Bilingualism, Education and Identity; Essays in Honour of Jac L Williams.* Cardiff, University of Wales Press1995.

NAGEL, C (2008): *Citizenship, Identity and Transnational Migration: Arab Immigrants to The United States.* Loughborough University 2008.

OPPENHEIM, A. N (1992): *Questionnaire Design, Interviewing and Attitude Measurement*, London: Pinter 1992.

OWAIN, O (1964): *Oni Enillir Y Fro Gymraeg.* <http://www.owainowain.net/yllenor/yrysgrif/ysgrifaucynnar/ysgrifaucynnar.htm> ENILLIR Y FRO GYMRAEG. Cyrchwyd 16eg o Hydref 2009

PUTNAM, R (2000): *Bowling Alone. The Collapse and Revival of American Community.* New York Simon and Schuster.

PUTNAM, ROBERT D. (2006). *E Pluribus Unum: Diversity and Community in the Twenty-First Century,* Nordic Political Science Association.

SARANTAKOS, S (1998): *Social Research.* Basingstoke. Palgrave Macmillan 1998.

SCOTT, J (1991): *Social Network Analysis, a Handbook.* Thousand Oaks, London, new Delhi, 1991. Sage Publications,

SHIPMAN, M D (1997): *The Limitations of Social Research.* London, New York, Longman 1997.

SMITH, M (2000): *Social Capital.* Infed.org 2000. <http://www.infed.org/biblio/social_capital.htm> Cyrchwyd 16eg o Hydref 2009

SKEGGS, B (1997): *Formations of Class and Gender*, London: Sage 1997.

SOMEKH, B a LEWIN, C (2005): *Research Methods in The Social Sciences.* London, Thousand Oaks California. Sage Publications 2005.

TESCH, R (1990): *Qualitative Research; Analysis Types and Software Tools.* Bristol PA, Falmer Press 1990.

UBEDA, L a SPILIMBERGO, A. 2001: *Family Attachment and the Decision to Move by Race*, Journal of Urban Economics
Vol. 55: pp 478-497. 2004.

WALLIMAN, N (2006): *Social Research Methods.* London, Sage Publications Ltd, 2006.

WEBB, H (1997): *No Half-Way House.* Tal y Bont Y Lolfa, 1997.

WEBBER, M (1949): The Methodology of The Social Sciences. New York Free Press 1949.

WILLIAMS, C (2000): *Language Reviltalization. Policy and Planning in Wales.* Cardiff University of Wales Press, 2000.

WILLIAMS, G (1978): *Social and Cultural Change in Contemporary Wales.* Routledge Direct Editions.

WILLIAMS, G (1983): *Crisis of Economy and Ideology: Essays on Welsh Society, 1840-1980.* Sociology of Wales Study Group. Prifysgol Bangor.

WILLIAMS, G (1991): *The Welsh in Patagonia: The State and The Ethnic Community.* Cardiff University of Wales Press, 1991.

WILLIAMS, G (2004): *Hunaniaeth Gymraeg.* Grŵp Ysgrifennu Rhiwfawr, 2004.

Atodiadau

## Atodiad A: E-bost Prifathrawon

Annwyl Prifathro/Prifathrawes,

Fy enw i yw Lowri Cunnington Wynn, ac rydw i'n fyfyrwraig PhD ym Mhrifysgol Bangor ac ar hyn o bryd ar fy ail flwyddyn addysg. Rydw i'n gweithio ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan arweiniad Dr. Delyth Morris ac ar hyn o bryd yn ceisio cyflwyno ymchwil ar Allfudiaeth Pobl Ifanc o'r Broydd Cymraeg. Mae'r gwaith yn seiliedig ar ymchwil Hywel Jones, fod pobl ifanc a anwyd tu allan i Gymru a thebygolrwydd 4 gwaith yn fwy o fudo o'u broydd. Hoffwn gyflwyno astudiaeth o'u dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Rydw i wedi bod mewn ysgol gymharol esioes yn cynnal yr un gwaith, ond hoffwn ddefnyddio eich ysgol chi fel cymhariaeth. Rydw i'n ymwybodol fod y flwyddyn academaidd bron ar ben, ond hoffwn ofyn am eich caniatâd i ddod i ymweld â'r ysgol yn gynnar yn y flwyddyn academaidd newydd (cyn y Nadolig os yw hyn yn bosib) i wneud ychydig o gyfweliadau gyda rhai o'ch disgyblion blwyddyn 11. Rydw i'n ymwybodol yn ogystal, fod hyn yn flwyddyn TGAU pwysig i'ch disgyblion, ond byddwn yn cymryd tua 10 munud gyda pob disgybl a dim mwy. Mae gen i dystysgrif CRB llawn ac yn gweithio yn ôl rheolau moesegol cymdeithaseg. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, allwch chi gysylltu gyda mi ar yr e-bost yma neu drwy'r ffon:

01766 830673

neu

07733165030 symudol

Gobeithiaf glywed gennych yn fuan, gan fod hwn yn astudiaeth bwysig a diddorol a buasai eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Hwyl am y tro

Lowri Cunnington Wynn

## Atodiad B: Llythyr Saesneg Cyfweliadau 19-25

Dear Respondent,

My name is Lowri Cunnington Wynn, and I'm conducting a research project on young people who live or have lived in Wales. This letter has been given to you as part of a PhD funded by the Welsh Language Board under the guidance of Bangor University, Wales. The purpose of this research is to try and discover the reasons why young people leave Wales, and to discover what your hopes and aspirations are for the future. I am looking for a group of young people who have moved from Blaenau Ffestiniog in Gwynedd and Tregaron in Ceredigion to take part in a short interview on your childhood in Wales, your reasons for leaving and your hopes for the future. The interview and results will be completely confidential. No names or addresses will be used in the results and all data will be protected. If you would like to take part, I would be very grateful if you could write your name and contact details, so that I can contact you in the future. It is a very exciting project, but one that needs your help!

I would like to thank you in advance for your cooperation and I hope to hear from you soon.

Lowri Cunnington Wynn
School of Social Sciences,
Neuadd Ogwen,
Bangor University,
College Road,
Bangor.
Gwynedd
LL57 2DG

Email: sop828@bangor.ac.uk

Name ......................................................................

Address ..................................................................

..................................................................

..................................................................

..................................................................

Phone/email..............................................................

## Atodiad C: Llythyr Cymraeg 19-25

Annwyl Atebydd,

Fy enw i yw Lowri Cunnington Wynn, ac rydw i'n cynnal ymchwil ar bobl ifanc sydd yn byw, neu sydd wedi byw yng Nghymru. Mae'r llythyr yma wedi ei ddanfon i chi fel rhan o ddoethuriaeth wedi ei ariannu gan Fwrdd yr Iaith Cymraeg o dan arweiniad Prifysgol Bangor. Pwrpas yr ymchwil yw ceisio darganfod y rhesymau pam fod pobl ifanc yn gadael Cymru, ac i ddarganfod beth yw eich gobeithion a'ch dyheadau ar gyfer y dyfodol. Rydw i'n chwilio am grŵp o bobl ifanc sydd wedi symud o Flaenau Ffestiniog yng Ngwynedd a Thregaron yng Ngheredigion, er mwyn cymryd rhan mewn cyfweliad byr ar eich plentyndod yng Nghymru, eich rhesymau dros adael, ac eich gobeithion ar gyfer y dyfodol. Bydd y cyfweliad yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd unrhyw enwau na chyfeiriadau yn cael eu defnyddio yn y canlyniadau a bydd pob data yn cael ei ddiogelu. Os hoffwch gymryd rhan, byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn gallu ysgrifennu eich enw a'ch manylion cyswllt er mwyn i mi allu cysylltu â chi yn y dyfodol. Mae hwn yn brosiect cyffrous dros ben, ond un sydd angen eich help chi! Hoffwn ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad a gobeithio clywed gennych yn fuan.

Lowri Cunnington Wynn
Ysgol Gwyddorau Cymdeithas,
Neuadd Ogwen,
Prifysgol Bangor,
Ffordd y Coleg,
Bangor.
Gwynedd
LL57 2DG

E-bost: sop828@bangor.ac.uk

Enw ..........................................................................

Cyfeiriad ...................................................................

...................................................................

...................................................................

...................................................................

Ffon/E-bost...............................................................

## 1. CYFWELIAD YMHELLACH

Ar ol gorffen yr holiadur, hoffwn ddewis 20 myfyriwr i gymryd rhan mewn cyfweliad ymhellach. A fyddwch yn fodlon gwneud hyn:

**1. Nodwch eich ateb isod:**

◯ Byddwn

◯ Na Fyddwn

**2. Os byddwch, allwch chi nodi eich rhif ffon a chyfeiriad e-bost isod os gwelwch hi'n dda:**

**BYDD Y MANYLION YMA'N CAEL EU CADW'N GWBL GYFRINACHOL**

## 2. Gwybodaeth Gyffredinol

Dyma ddechrau'r holiadur sydd yn gofyn am eich manylion cyffredinol. Mae'r manylion hyn yn GWBWL GYFRINACHOL.

### 1. Dyddiad

### 2. Enw

### *3. Rhif Yr Ymatebydd

### 4. Sefydliad Addysgol

- ◯ Ysgol/Coleg Gymraeg/Dwyieithog
- ◯ Ysgol/Coleg Saesneg
- ◯ Ysgol/Coleg Draddodiadol Dwyieithog
- ◯ Arall

### 5. Oed

- ◯ 15
- ◯ 16
- ◯ 17
- ◯ 18

### 6. Rhyw

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw

### 7. Cenedligrwydd

- ◯ Cymraeg
- ◯ Saesneg
- ◯ Prydeinig
- ◯ Arall

## 8. Man Geni

- ◯ Tu allan i Gymru
- ◯ Yng Nghymru ond nid yn lleol
- ◯ Lleol

## 9. Man Byw Presennol

- ◯ Tu allan i Gymru
- ◯ Yng Nghymru ond nid yn lleol
- ◯ Lleol

## 3. Eich Teulu

I ddechrau, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynnau am y pobl sy'n byw yn eich cartref. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'ch teulu, gan gynnwys eich teulu estynedig.

### 1. Pwy sydd yn byw yn eich cartref a nodwch pa iaith yr ydych yn siarad gyda nhw:

| | Cymraeg | Saesneg | Y Ddwy | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Tad | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mam | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Brawd 1 | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Brawd 2 | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Chwaer 1 | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Chwaer 2 | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Taid | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Nain | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ewythr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Modryb | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Llysdad | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Llysfam | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

### 2. Pa osodiad sy'n disgrifio eich sefyllfa chi orau:

- ○ Yn gweithio llawn amser (Mwy na 30 awr yr wythnos)
- ○ Yn gweithio rhan amser (Llai na 30 awr yr wythnos)
- ○ Mewn cynllun Hyfforddiant
- ○ Wedi cofrestru'n ddi-waith
- ○ Yn ddi-waith ond heb gofrestru
- ○ Mewn addysg llawn amser

## 4. Iaith Eich Cartref

Yn ail, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynnau am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad neu eu defnyddio o fewn eich cartref ac eich teulu.

**1. Beth yw prif iaith eich cartref yn eich barn chi:**

◯ Cymraeg

◯ Saesneg

◯ y Ddwy

◯ Arall

***2. Eich Mam**

**Ble yw man geni eich mam**

**3. A yw eich mam yn gallu siarad Cymraeg:**

◯ Ydy, yn siarad yn rhugl (Iaith Gyntaf)

◯ Ydy, yn siarad yn dda (Ail iaith)

◯ Nac ydy, ond yn deall Cymraeg

◯ Ddim yn siarad nac yn deall Cymraeg

**4. Os yw'n gallu, sut ddysgodd eich mam, Cymraeg:**

◯ Yn y cartref

◯ Yn y gymuned (fel plentyn)

◯ Yn y gymuned (fel oedolyn)

◯ Drwy wersi (fel oedolyn)

**5. Beth yw canran yr iaith Gymraeg a ddefnyddir gan eich mam yn y cartref:**

◯ Dim

◯ Llai Na Hanner

◯ Mwy Na Hanner

◯ Siarad Bob Amser

***6. Beth yw gwaith eich mam?**

***7. Eich Tad**

**Ble yw man geni eich tad?**

**8. A yw eich tad yn gallu siarad Cymraeg:**

- ◯ Ydy, yn siarad yn rhugl (Iaith Gyntaf)
- ◯ Ydy, yn siarad yn dda (Ail iaith)
- ◯ Nac ydy, ond yn deall Cymraeg
- ◯ Ddim yn siarad nac yn deall Cymraeg

**9. Os yw'n gallu, sut ddysgodd eich tad, Cymraeg:**

- ◯ Yn y cartref
- ◯ Yn y gymuned (fel plentyn)
- ◯ Yn y gymuned (fel oedolyn)
- ◯ Drwy wersi (fel oedolyn)

**10. Beth yw canran y Gymraeg a ddefnyddir gan eich tad yn y cartref:**

- ◯ Dim
- ◯ Llai Na Hanner
- ◯ Mwy Na Hanner
- ◯ Siarad Bob Amser

***11. Beth yw gwaith eich tad?**

**12. Yn fras, faint, yn eich tyb chi, yw'r canran y defnyddir y Gymraeg yn gyffredinol yn eich cartref:**

- ◯ Dim
- ◯ Llai na hanner
- ◯ Mwy na hanner
- ◯ Siarad bob amser

## 5. Iaith eich Ysgol/Man Gwaith/Sefydliad addysg Uwch

Nesaf, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynnau am eich ysgol, man gwaith,neu'r sefydliad addysg uwch yr ydych yn mynychu.

### 1. Beth yw prif iaith eich ysgol/man gwaith/sefydliad addysg uwch yn eich barn chi:

| | Cymraeg | Saesneg | y Ddwy | Amrywio |
|---|---|---|---|---|
| Yn y dosbarth/man gwaith | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Tu allan i'r dosbarth/gweithle | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Athrawon/rheolwyr | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Cyfoedion | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

### 2. Pa iath yr ydych yn defnyddio'n bennaf gyda'ch ffrindiau yn yr ysgol/sefydliad addysg uwch/man gwaith:

| | Cymraeg | Saesneg | Y Ddwy | Amrywio |
|---|---|---|---|---|
| Yn y dosbarth/Man gwaith | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Tu allan ir ystafell ddosbarth/gweithle | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Yn y Gymuned | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

### 3. Pa iaith yr ydych yn defnyddio'n bennaf gyda'ch athrawon/darlithwyr/rheolwyr:

◯ Cymraeg yn Bennaf

◯ Saesneg yn Bennaf

◯ Dwyieithog

### 4. Tu allan i'r ystafell ddosbarth/man gwaith, beth yw canran y Gymraeg a ddefnyddiwyd gennych:

◯ Dim

◯ Llai Na Hanner

◯ Mwy Na Hanner

◯ Siarad Bob Amser

### 5. A ydych yn aelod o unrhyw glwb:

◯ Ydw

◯ Nacydw

### 6. Nodwch enwau'r Clwb/iau isod:

## 7. Nodwch pa iaith yr ydych yn siarad yma:

| | Cymraeg | Saesneg | Y Ddwy | Amrywio |
|---|---|---|---|---|
| CLWB 1 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| CLWB 2 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| CLWB 3 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| CLWB 4 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| CLWB 5 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

## 6. Y Cam Nesaf

Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynnau am beth yw eich trefniadau neu obeithion ar gyfer y dyfodol.

**1. Os yn mynychu ysgol/sefydliad addysg uwch/gwaith llawn amser, beth yw eich gobeithion ar gyfer y dyfodol? Manylwch:**

**2. Os ydych yn bwriadu mynychu'r brifysgol, pa brifysgol yw hwn, ac am ba resymau yr ydych wedi dewis y sefydliad? Manylwch:**

**3. Pan yn meddwl am le yr hoffech fyw a gweithio yn y dyfodol, pa ffactorau sydd yn bwysig i chi: (yn y golofn gyntaf, marciwch y rhai sy'n bwysig. Yn yr ail golofn, marciwch y rheswm bwysicaf)**

| | Marcio pob un sy'n bwysig | Rheswm Bwysicaf |
|---|---|---|
| Byw yn agos i deulu | ☐ | ☐ |
| Byw yn agos i ffrindiau | ☐ | ☐ |
| Byw yn agos at bartner/priod | ☐ | ☐ |
| Ennill cyflog da | ☐ | ☐ |
| I wneud gwaith gwobreuol | ☐ | ☐ |
| Cyfleon bywyd cymdeithasol da | ☐ | ☐ |
| Amgylchedd neu ardal deniadol | ☐ | ☐ |
| Lle da i fagu plant | ☐ | ☐ |
| Eisiau aros yng Nghymru | ☐ | ☐ |
| Eisiau gadael Cymru | ☐ | ☐ |

**4. Oes rheswm arall?**

**Manylwch**

**5. O safbwynt byw yng Nghymru, byddwch yn aros i fyw/gweithio yma yn y dyfodol:**

- ◯ Rydw i'n sicr fy mod i eisiau aros yng Nghymru
- ◯ Rydw i'n ystyried aros yng Nghymru
- ◯ Nid ydw i eisiau aros yng Nghymru

**6. Nodwch eich rhesymau dros eich ateb uchod:**

## 7. Gallu Ieithyddol

Er mwyn cael rhyw fath o syniad o pa mor hyderus ydych chi wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn wahanol sefyllfaoedd, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynnau ychwanegol i chi.

**1. Pa mor hyderus ydych wrth gynnal a chadw trafodaeth yn y Gymraeg:**

- ◯ Hyderus Iawn
- ◯ Hyderus
- ◯ Ddim yn Hyderus Nac yn Bryderus
- ◯ Ddim yn Hyderus Iawn
- ◯ Ddim yn Hyderus o Gwbl

**2. Pa mor hyderus ydych wrth gynnal a chadw sgwrs gyda ffrindiau yn y Gymraeg:**

- ◯ Hyderus Iawn
- ◯ Hyderus
- ◯ Ddim yn Hyderus Nac yn Bryderus
- ◯ Ddim yn Hyderus Iawn
- ◯ Ddim yn Hyderus o Gwbl

**3. Pa mor hyderus ydych wrth gynnal a chadw sgwrs yn y Gymraeg gyda pobl nad ydych yn eu hadnabod yn dda:**

- ◯ Hyderus Iawn
- ◯ Hyderus
- ◯ Ddim yn Hyderus Nac yn Bryderus
- ◯ Ddim yn Hyderus Iawn
- ◯ Ddim yn Hyderus o Gwbl

## 8. DIOLCH!!!

DIOLCH AM GYMRYD RHAN YN YR HOLIADUR HWN

## 1. Further Interview

After completing this questionnaire, I would like to choose 20 respondents to take part in a further interview. Would you be willing to take part:

### 1. Please note your answer bellow:

◯ I Would

◯ I Wouldn't

### 2. If you would, please could you write your phone number and e-mail address bellow:

**THESE DETAILS WILL BE KEPT STRICTLY PRIVATE**

## 2. General Information

This is the start of the questionnaire which asks for your general information. These details are kept STRICTLY PRIVATE.

### 1. Date

### 2. Name

### *3. Participant Number

### 4. Educational Institution

- ◯ Welsh/Bilingual School/College
- ◯ English School/College
- ◯ Traditional Bilingual School/College
- ◯ Other

### 5. Age

- ◯ 15
- ◯ 16
- ◯ 17
- ◯ 18

### 6. Sex

- ◯ Male
- ◯ Female

### 7. Nationality

- ◯ Welsh
- ◯ English
- ◯ British
- ◯ Other

## 8. Place of Birth

- ◯ Outside Wales
- ◯ In Wales, but not locally
- ◯ Locally

## 9. Present Place of Residence

- ◯ Outside Wales
- ◯ In Wales but not locally
- ◯ Locally

## 3. Your Family

To begin with, I'd like to ask a few questions about the people who live in your home. This includes members of your family which include extended family.

### 1. Who lives in your household and please note in which language you speak to them:

| | Welsh | English | Both | Other | Not Applicable |
|---|---|---|---|---|---|
| Father | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Mother | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Brother 1 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Brother 2 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Sister 1 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Sister 2 | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Grandfather | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Grandmother | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Uncle | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Aunt | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Stepfather | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Stepmother | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

### 2. Which statement best describes your situation:

◯ Working full time (More than 30 hours a week)

◯ Working part time (Less than 30 hours a week)

◯ In a Training Programme

◯ Registered unemployed

◯ Unemployed but not registered

◯ In full time education

## 4. The Language in Your Home

Secondly, Id like a few questions about the languages spoken in your home and within your family.

**1. What in your opinion, is the language most used in your home:**

- ◯ Welsh
- ◯ English
- ◯ Both
- ◯ Other

***2. Your Mother**

**Where is your mother's birth place:**

**3. Can your mother speak Welsh:**

- ◯ Yes, fluently (First Language)
- ◯ Yes, speaks well (Second Language)
- ◯ No, but understands Welsh
- ◯ Doesn't speak or understand Welsh

**4. If she can, how did your mother learn Welsh:**

- ◯ In the home
- ◯ In the community (as a child)
- ◯ In the community (as an adult)
- ◯ Through lessons (as an adult)

**5. What is the percentage of Welsh used in your home by your mother:**

- ◯ None
- ◯ Less than half
- ◯ More than half
- ◯ Speaks all the time

**✱6. What is your mothers work?**

**✱7. Your Father**

**Where is your father's birth place?**

**8. Can your father speak Welsh:**

- ◯ Yes, speaks fluently (First language)
- ◯ Yes, speaks well (Second Language)
- ◯ No, but understands Welsh
- ◯ Doesn't speak or understand Welsh

**9. If he can, how did your father learn Welsh:**

- ◯ In the home
- ◯ In the community (as a child)
- ◯ In the community (as an adult)
- ◯ Through lessons (as an adult)

**10. What is the percentage of Welsh spoken by your father in the home:**

- ◯ None
- ◯ Less than half
- ◯ More than half
- ◯ Speaks all the time

**✱11. What is your father's work?**

**12. Roughly, what is the percentage of Welsh spoken in your home:**

- ◯ None
- ◯ Less than half
- ◯ More than half
- ◯ Used all the time

## 5. Language Used in School/Work Place/Higher Education Facility

Next, I would like to ask a few questions about you'r school, place of work, or higher education facility that you attend.

**1. What is the main language used in your school/workplace/higher education facility, in your opinion:**

| | Welsh | English | Both | Varies |
|---|---|---|---|---|
| In The Classroom/Workplace | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Outside the classroom/Workplace | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| With teachers/managers | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Peers | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

**2. What language do you use most with your friends in school/higher education facility/workplace:**

| | Welsh | English | Both | Varies |
|---|---|---|---|---|
| In The Classroom/Workplace | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Outside the classroom/Workplace | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| In the community | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

**3. What language do you use most when speaking to your teachers/lectures/managers:**

◯ Mostly Welsh

◯ Mostly English

◯ Both languages

**4. Outside the classroom/workplace/ what is the percentage of Welsh used by you:**

◯ None

◯ Less than half

◯ More than half

◯ Speak all the time

**5. Are you a member of any club?**

◯ Yes

◯ No

## 6. Note the name of the club/s bellow:

## 7. Note which language you use here:

| | Welsh | English | Both | Varies |
|---|---|---|---|---|
| CLUB 1 | ○ | ○ | ○ | ○ |
| CLUB 2 | ○ | ○ | ○ | ○ |
| CLUB 3 | ○ | ○ | ○ | ○ |
| CLUB 4 | ○ | ○ | ○ | ○ |
| CLUB 5 | ○ | ○ | ○ | ○ |

## 6. The Next Step

I would like to ask a few questions about your arrangements and hopes for the future.

**1. If you attend school/higher education facility/work full time, what are your hopes for the future? Please give details:**

**2. If you are intending to attend university, which university is this, and for what reasons have you chosen this institution? Please give details:**

**3. When you think about where you want to live and work in the future, which factors are important to you: (In the first column, mark the ones which are important to you, in the second, mark the most important to you)**

| | Mark each important factor | The most important factor |
|---|---|---|
| Live close to family | ☐ | ☐ |
| Live close to friends | ☐ | ☐ |
| Live close to partner/spouse | ☐ | ☐ |
| To earn a good wage | ☐ | ☐ |
| To do rewarding work | ☐ | ☐ |
| Good social life opportunities | ☐ | ☐ |
| Attractive environment/area | ☐ | ☐ |
| Good place to raise children | ☐ | ☐ |
| Want to stay in Wales | ☐ | ☐ |
| Want to leave Wales | ☐ | ☐ |

**4. Is there another reason?**

**Please give details**

**5. Regarding living in Wales, would you stay to live/work here in the future:**

- ◯ I'm sure I want to stay in Wales
- ◯ I'm considering living in Wales
- ◯ I don't want to stay in Wales

**6. Please note your reasons for your answer above:**

## 7. Language Ability

In order to get some idea of your language ability in different situations, I would like to ask a few further questions.

### 1. How confident are you when having a conversation in Welsh:

- ◯ Very confident
- ◯ Confident
- ◯ Not unconfident or confident
- ◯ Not very confident
- ◯ Not very confident at all

### 2. How confident are you when maintaining a conversation in Welsh with your friends:

- ◯ Very confident
- ◯ Confident
- ◯ Not unconfident or confident
- ◯ Not very confident
- ◯ Not very confident at all

### 3. How confident are you when trying to maintain a conversation in Welsh with people that you do not know that well:

- ◯ Very confident
- ◯ Confident
- ◯ Not unconfident or confident
- ◯ Not very confident
- ◯ Not confident at all

## 8. THANK YOU!!!

THANK YOU FOR TAKING PART IN THIS SURVEY